# Cofnod y Trafodion
# The Record of Proceedings
# 09/03/2016

Cynnwys Contents


1. Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol
1. Questions to the Minister for Natural Resources

2. Cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi
2. Questions to the Minister for Communities and Tackling Poverty

3. Dadl ar Setliad Llywodraeth Leol 2016-17
3. Debate on the Local Government Settlement 2016-17

4. Dadl ar Setliad yr Heddlu 2016-17
4. Debate on the Police Settlement 2016-17

5. Cyfnod 3 Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru)
5. Stage 3 of the Public Health (Wales) Bill

6. Cynnig i Gymeradwyo Diwygiadau i'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau'r Cynulliad
6. Motion to Approve Revisions to the Members' Code of Conduct

7. Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv): Hunanladdiad
7. Debate by Individual Members under Standing Order 11.21(iv): Suicide

8. Dadl ar Ddiwrnod Rhyngwladol y Menywod
8. Debate on International Women's Day

9. Cyfnod Pleidleisio
9. Voting Time

10. Dadl Fer: Cadw Llywodraeth Leol yn Lleol—yr Achos dros Ddiogelu Sir Benfro rhag Cynlluniau Uno Llywodraeth Cymru
10. Short Debate: Keeping the Local in Local Government—the Case for Protecting Pembrokeshire from Welsh Government Mergers


*Cyfarfu'r Cynulliad am 13:00 gyda'r Llywydd (y Fonesig Rosemary Butler) yn y Gadair.*

*The Assembly met at 13:00 with the Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) in the Chair.*

13:00 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

Prynhawn Da. Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

## 1. Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol

## 1. Questions to the Minister for Natural Resources

*Mae [R] yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant. Mae [W] yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

*[R] signifies the Member has declared an interest. [W] signifies that the question was tabled in Welsh.*

13:00 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The first item this afternoon is questions to the Minister for Natural Resources, and question 1 is Altaf Hussain.

Yr eitem gyntaf y prynhawn yma yw cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol, a daw cwestiwn 1 gan Altaf Hussain.

### Polisi Coedwigaeth

### Forestry Policy

13:00 **Altaf Hussain** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*1. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am bolisi coedwigaeth Llywodraeth Cymru? OAQ(4)0427(NR)*

*1. Will the Minister provide an update on the Welsh Government's forestry policy? OAQ(4)0427(NR)*

13:00 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol / The Minister for Natural Resources*

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for his question. The Welsh Government's woodland strategy provides details of our forestry policy and long-term vision for the sustainable management of forests in Wales. Over 250,000 native broad-leaf trees have been planted across 12 sites across Wales for every child born or adopted since Plant was launched in 2008.

Diolch i'r Aelod am ei gwestiwn. Mae strategaeth goetiroedd Llywodraeth Cymru yn rhoi manylion am ein polisi coedwigaeth a'n gweledigaeth hirdymor ar gyfer rheoli coedwigoedd yn gynaliadwy yng Nghymru. Mae dros 250,000 o goed llydanddail brodorol wedi'u plannu mewn 12 o safleoedd ledled Cymru ar gyfer pob plentyn a anwyd neu a fabwysiadwyd ers lansio Plant yn 2008.

13:00 **Altaf Hussain** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, can you assure us that all future flood reports prepared by Natural Resources Wales will include the pattern of tree planting and any investigations of the drainage system in our upland forestry?

Weinidog, a allwch ein sicrhau y bydd pob adroddiad llifogydd a baratoir yn y dyfodol gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnwys patrwm plannu coed ac unrhyw archwiliadau i'r system ddraenio yn ein coedwigoedd ucheldirol?

13:01 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Our flood management programmes are very comprehensive and Natural Resources Wales have a very clear strategy on developing them. I would certainly hope that the issues that the Member raises with me today are part of that focus to strengthen the plans in the future.

Mae ein rhaglenni rheoli llifogydd yn gynhwysfawr iawn ac mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru strategaeth glir iawn ar gyfer eu datblygu. Byddwn yn sicr yn gobeithio bod y materion y mae'r Aelod yn eu dwyn i fy sylw heddiw yn rhan o'r ffocws hwnnw ar gryfhau'r cynlluniau yn y dyfodol.

13:01 **David Rees** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, representatives of Glyncorrwg ponds and mountain bike centre have actually been in contact with my office expressing deep concern over the damage being done to the mountain bike trails by motocross bikes across the whole forestry sector in the Afan Valley. In fact, even this morning I've had a communication indicating that, as cyclists were riding on the trails, they were being, basically, faced head-on by cyclists coming up and turning around and coming back. In that sense, will you ask NRW to actually meet with the police to look at the ways in which this abuse can be policed properly to ensure that damage is not done that would close trails? Those trails are vital to the tourism economy of the upper Afan Valley, and their closure would have a major impact upon that area.

Weinidog, mae cynrychiolwyr ar ran pyllau dŵr a chanolfan beicio mynydd Glyncorrwg wedi bod mewn cysylltiad â fy swyddfa yn mynegi pryder dwfn ynghylch y difrod a wneir i lwybrau beicio mynydd gan feiciau motocross ar draws y sector coedwigaeth cyfan yng Nghwm Afan. Yn wir, cefais wybod y bore yma hyd yn oed fod beicwyr, tra roeddent yn teithio ar hyd y llwybrau, yn mynd benben â beicwyr eraill yn dod i fyny ac yn troi a dod yn eu holau. Yn yr ystyr hwnnw, a wnewch chi ofyn i Cyfoeth Naturiol Cymru gyfarfod â'r heddlu i edrych ar ffyrdd y gellid plismona'r cam-drin hwn yn briodol er mwyn sicrhau na wneir difrod a fuasai'n cau llwybrau? Mae'r llwybrau hyn yn hanfodol i economi twristiaeth Cwm Afan uchaf, a byddai eu cau yn cael effaith sylweddol ar yr ardal honno.

13:02 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for his question, again raising very important issues for his constituents and his constituency. It is, of course, very difficult to manage these issues, and it is about making sure that there is an integrated approach to tackling the issue with NRW and the police. I would encourage further action to take place, and I will make sure NRW are aware of your concerns.

Diolch i'r Aelod am ei gwestiwn, a oedd unwaith eto yn crybwyll materion pwysig iawn i'w etholwyr a'i etholaeth. Wrth gwrs, mae'n anodd iawn rheoli'r materion hyn, ac mae'n ymwneud â sicrhau bod yna ddull integredig o fynd i'r afael â'r mater gyda Cyfoeth Naturiol Cymru a'r heddlu. Buaswn yn annog mwy o gamau gweithredu, a byddaf yn sicrhau bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymwybodol o'ch pryderon.

13:02 **Jeff Cuthbert** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, Wales is renowned for its ancient and historic woodlands and they are a critical part of our natural environment. Can you tell us today, Minister, what role our woodlands can play in achieving the wellbeing goals included in the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015?

Weinidog, mae Cymru yn enwog am ei choetiroedd hynafol a hanesyddol ac maent yn rhan hanfodol o'n hamgylchedd naturiol. A wnewch chi ddweud wrthym heddiw, Weinidog, pa rôl y gall ein coetiroedd ei chwarae yn cyflawni'r amcanion lles sydd wedi'u cynnwys yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015?

13:02 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for his question. He continues to be a champion of the Well-being of Future Generations (Wales) Act, as he was when he started the legislation on its pathway through this Assembly. I thank the Member for that.

Diolch i'r Aelod am ei gwestiwn. Mae'n parhau i hyrwyddo Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), fel y gwnâi pan roddodd gychwyn ar y ddeddfwriaeth ar ei thaith drwy'r Cynulliad hwn. Diolch i'r Aelod am hynny.

Our woodland strategy for Wales action plan sets out our short-term actions and activities to deliver the long-term ambitions of our strategy, which in turn contributes to the wider wellbeing goals in the Act. Our vision is that trees and woodlands will provide a real social and community benefit, both locally and nationally, supporting thriving woodland-based industries and contribute to a better quality environment throughout Wales.

Mae ein cynllun gweithredu ar gyfer strategaeth goetiroedd Cymru yn nodi ein camau gweithredu a'n gweithgareddau tymor byr ar gyfer cyflawni uchelgeisiau hirdymor ein strategaeth, sydd yn ei thro'n cyfrannu at amcanion llesiant ehangach y Ddeddf. Ein gweledigaeth yw y bydd coed a choetiroedd yn darparu budd cymdeithasol a chymunedol gwirioneddol, yn lleol ac yn genedlaethol, gan gefnogi diwydiannau sy'n seiliedig ar goetiroedd ffyniannus a chyfrannu at amgylchedd o ansawdd gwell ledled Cymru.

### Amaethyddiaeth a Materion Gwledig

### Agriculture and Rural Affairs

13:03 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*2. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod gwybodaeth am amaethyddiaeth a materion gwledig ar gael i ffermwyr? OAQ(4)0416(NR)*

*2. Will the Minister make a statement on the ways in which the Welsh Government makes information available to farmers on agriculture and rural affairs? OAQ(4)0416(NR)*

13:03 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd / The Deputy Minister for Farming and Food*

We make information available to farmers in a range of ways, including via websites, written correspondence, e-mail, e-newsletters, text messaging, direct messaging, social media, and telephone. We also meet regularly with stakeholders to update them on developments.

Rydym yn sicrhau bod gwybodaeth ar gael i ffermwyr mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys drwy wefannau, gohebiaeth ysgrifenedig, negeseuon e-bost, e-gylchlythyrau, negeseuon testun, negeseuon uniongyrchol, cyfryngau cymdeithasol, a thros y ffôn. Rydym hefyd yn cyfarfod yn rheolaidd gyda rhanddeiliaid i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt ynglŷn â datblygiadau.

13:03 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, the 'Gwlad' publication has been in existence for some years now and is well-received by farmers in Montgomeryshire. It will only be available online from next month, and not available as a hard publication. Now, the availability of broadband in areas of Montgomeryshire is still an issue, as I'm sure you understand, so can you please inform me what alternatives will be made available for farmers who are unable to read the online version of 'Gwlad'?

Weinidog, mae'r cyhoeddiad 'Gwlad' wedi bodoli ers rhai blynyddoedd bellach ac mae wedi cael croeso da gan ffermwyr yn Sir Drefaldwyn. Ni fydd ond ar gael ar-lein o'r mis nesaf ymlaen, ac ni fydd ar gael ar ffurf copi caled. Nawr, mae argaeledd band eang mewn rhannau o Sir Drefaldwyn yn parhau i fod yn broblem, fel rwy'n siŵr eich bod yn deall, felly a allwch roi gwybod i mi pa ddewisiadau eraill a fydd ar gael i ffermwyr nad ydynt yn gallu darllen y fersiwn ar-lein o 'Gwlad'?

13:04 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

You'll be aware that Superfast Cymru is rolling out at pace across the whole of Wales and, since the beginning of the project, a total of 37,582 residential and business properties in Powys alone have received superfast broadband speeds under that project, and over £10.5 million has been invested in rolling out that project across the region. It will continue to roll out over the next year.

Fe fyddwch yn ymwybodol fod Cyflymu Cymru yn cael ei gyflwyno'n gyflym ledled Cymru gyfan ac ers dechrau'r prosiect, mae cyfanswm o 37,582 o eiddo preswyl a busnes ym Mhowys yn unig wedi cael band eang cyflym iawn drwy'r prosiect hwnnw ac mae dros £10.5 miliwn wedi'i fuddsoddi yn y broses o gyflwyno'r prosiect ar draws y rhanbarth. Bydd yn parhau i gael ei gyflwyno dros y flwyddyn nesaf.

You're right that 'Gwlad' is moving to online, and that will help us offer a more topical, more frequent and less expensive means of getting information to farmers. I think we have to remember that being IT literate is very much part and parcel of being business minded and business focused in the twenty-first century.

Rydych yn gywir yn dweud bod 'Gwlad' wedi symud ar-lein, a bydd hynny'n ein helpu i gynnig ffordd fwy amserol a chyson a llai costus o ddarparu gwybodaeth i ffermwyr. Rwy'n credu bod yn rhaid i ni gofio bod llythrennedd TG yn rhan annatod o feddwl busnes a ffocws busnes yn yr unfed ganrif ar hugain.

13:05

## Joyce Watson Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Deputy Minister, you've already said that ICT is playing a greater role in the Welsh Government's engagement work with farmers, but the other side of that is the ability, of course, to use that technology that is coming out, in terms of, particularly, farmers wanting and needing to develop their computer skills. Is that something, Deputy Minister, that you are working with to help the industry to meet those challenges?

Ddirprwy Weinidog, rydych eisoes wedi dweud bod Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu yn chwarae rhan fwy yng ngwaith Llywodraeth Cymru o ymgysylltu â ffermwyr, ond yr ochr arall i hynny yw'r gallu, wrth gwrs, i ddefnyddio'r dechnoleg sy'n datblygu, yn arbennig mewn perthynas â ffermwyr sydd eisiau ac sydd angen datblygu eu sgiliau cyfrifiadurol. Ddirprwy Weinidog, a yw hynny'n rhywbeth rydych yn gweithio arno i helpu'r diwydiant i ymateb i'r heriau hynny?

13:05

## Rebecca Evans Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, I thank you for the question. Farming Connect is providing practical sessions for farmers to develop and strengthen their computer literacy, particularly on a range of topics of interest to them, such as understanding EIDCymru, using spreadsheets and so on. We're also offering one-to-one sessions, as well, in order to access Farming Connect services. We have some digital assistance programmes available at the moment for those farmers who need to complete their single application form 2016 forms online, and I'm really pleased that, already, 251 customers have booked a digital assistance appointment. Of those farmers who have already submitted their SAF forms for 2016, either in full or in part, a large number of those are farmers who hadn't previously gone online. So, I think that we are offering farmers a very good offer in terms of the support that we can offer to become more IT literate and embrace all the benefits to business of being online.

Ie, diolch i chi am y cwestiwn. Mae Cyswllt Ffermio yn darparu sesiynau ymarferol i ffermwyr ddatblygu a chryfhau eu llythrennedd cyfrifiadurol, yn enwedig ar ystod o bynciau sydd o ddiddordeb iddynt, megis deall EIDCymru, defnyddio taenlenni ac yn y blaen. Rydym hefyd yn cynnig sesiynau un i un ar gyfer cael mynediad at wasanaethau Cyswllt Ffermio. Mae gennym rai rhaglenni cymorth digidol ar gael ar hyn o bryd ar gyfer ffermwyr sydd angen llenwi eu ffurflenni cais sengl 2016 ar-lein, ac rwy'n falch iawn fod 251 o gwsmeriaid, yn barod, wedi trefnu apwyntiad cymorth digidol. O'r ffermwyr sydd eisoes wedi cyflwyno'u ffurflenni cais sengl ar gyfer 2016, naill ai'n llawn neu'n rhannol, mae nifer fawr ohonynt yn ffermwyr nad oedd wedi bod ar-lein o'r blaen. Felly, rwy'n credu ein bod yn cynnig cyfle da iawn i ffermwyr o ran y cymorth y gallwn ei gynnig i'w helpu i ddod yn fwy llythrennog ym maes TG ac i elwa ar yr holl fanteision sydd ar gael i fusnesau drwy fod ar-lein.

13:06

## Simon Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Deputy Minister, the information I'd really like to see us get out to farmers and our rural communities is the benefits of remaining in the European Union and the costs of leaving. The rural development plan alone has delivered to date £78 million in Carmarthenshire and £48 million to our rural communities in Pembrokeshire. Our single farm payment, of course, supports farmers in the traditional way that they look after our landscape, our environment and produce food for us. If we were to leave the EU, as the leader of the Welsh Conservatives wants us to do, there will be a 15 per cent tariff on the 35 per cent of Welsh sheep meat that's exported to the EU. These are the facts we have to get out. What is the Welsh Government doing to produce those facts, particularly at a constituency level, so we can all take them to our rural communities and expose the hot air over there and fight hot air with fire.

Ddirprwy Weinidog, y wybodaeth y buaswn yn wirioneddol awyddus i'w gweld yn cael ei darparu i ffermwyr a'n cymunedau gwledig yw'r manteision o aros yn yr Undeb Ewropeaidd a chostau gadael. Hyd yma, mae'r cynllun datblygu gwledig ar ei ben ei hun wedi darparu £78 miliwn yn Sir Gaerfyrddin a £48 miliwn i'n cymunedau gwledig yn Sir Benfro. Mae ein taliad sengl, wrth gwrs, yn cefnogi ffermwyr yn y ffordd draddodiadol y maent yn gofalu am ein tirwedd, ein hamgylchedd ac yn cynhyrchu bwyd ar ein cyfer. Pe baem yn gadael yr UE, fel y mae arweinydd y Ceidwadwyr Cymreig eisiau i ni ei wneud, bydd tariff o 15 y cant ar y 35 y cant o gig defaid Cymru sy'n cael ei allforio i'r UE. Dyma'r ffeithiau sy'n rhaid i ni eu cyfleu. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gynhyrchu'r ffeithiau hynny, yn enwedig ar lefel etholaeth, er mwyn i bawb ohonom fynd â hwy at ein cymunedau gwledig a datgelu'r holl siarad gwag yno a tharo'n ôl yn ei erbyn?

13:07 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. I couldn't agree more with every word that you've just said, particularly your disappointment with the leader of the Conservatives' position on remaining in Europe and the impact that would have on our farming communities. The Minister for Natural Resources and I have provided a paper that demonstrates the benefits that our department has had, and that people have had via that, from being members of the European Union, and I'm sure we'd be happy to share it with all Members.

Diolch. Ni allwn gytuno mwy â phob gair rydych newydd ei ddweud, yn enwedig eich siom ynghylch safbwynt arweinydd y Ceidwadwyr ar aros yn Ewrop a'r effaith a gâi hynny ar ein cymunedau ffermio. Mae'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a minnau wedi darparu papur sy'n dangos y manteision y mae ein hadran wedi elwa arnynt ac y mae pobl wedi elwa arnynt drwy hynny, o ganlyniad i fod yn aelodau o'r Undeb Ewropeaidd, ac rwy'n siŵr y byddem yn hapus i'w rannu gyda'r holl Aelodau.

13:07 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Ddirprwy Weinidog, mae nifer o ffermwyr wedi cysylltu â fi ynghylch taliadau 2016 SAF. Mae nifer ohonyn nhw ddim wedi derbyn taliadau 2015, ac mae yna rai eraill yn apelio ar gyfer 2015. Mae'n rhaid iddyn nhw roi'r SAF 2016 i mewn erbyn mis Mai. Sut yn union ydych chi'n delio efo'r sefyllfaoedd yma lle mae eu hundebau nhw'n dweud y dylen nhw ddim bod yn ceisio am SAF 2016 tan fod canlyniad SAF 2015 wedi'i gwblhau? Pryd ydych chi'n gobeithio y byddwch chi wedi delio â'r holl ddryswch ac oedi ynglŷn â thaliadau y llynedd?

Deputy Minister, a number of farmers have been in touch with me about the issue of the 2016 SAF payments. Many of them haven't received their 2015 payments, and others are appealing for 2015. Now, they have to present the 2016 SAF by May, so how exactly are you dealing with these situations, where their unions are saying that they shouldn't be applying for the 2016 SAF until the result of 2015 has been concluded? And when do you hope to have dealt with all of the confusion and delays surrounding last year's payments?

13:08 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Just to remind you, of course, there are no delays in payments. The payment window closes on 31 June of this year. But, to date, we have had around 12,000 appeals and, as you'll be aware, I introduced a simplified appeals process in order to move those very quickly through the system. We aim to complete the majority of those appeals and will write to customers by the end of March, and all customers before the SAF 2016 closing date, and that will allow them time to incorporate any changes that they need to make to their 2016 form. So, if any customers should actually fail to update their 2016 form, I've asked officials to use a new power that has been given to us by the European Commission from this year to give claimants the opportunity to update their claim form without penalties within 35 days of being informed of the mismatch of information.

Hoffwn eich atgoffa, wrth gwrs, nad oes unrhyw oedi yn y taliadau. Mae'r cyfnod talu'n dod i ben ar 31 Mehefin eleni. Ond hyd yn hyn, rydym wedi cael tua 12,000 o apeliadau ac fel y byddwch yn gwybod, rwyf wedi cyflwyno proses apeliadau symlach er mwyn eu symud drwy'r system yn gyflym iawn. Rydym yn anelu i gwblhau'r rhan fwyaf o'r apeliadau hynny a byddwn yn ysgrifennu at gwsmeriaid erbyn diwedd mis Mawrth, a'r holl gwsmeriaid cyn y dyddiad cau ar gyfer ffurflenni cais sengl 2016, a bydd hynny'n caniatáu amser iddynt gynnwys unrhyw newidiadau y maent angen eu gwneud i'w ffurflen 2016. Felly, os oes unrhyw gwsmeriaid yn methu â diweddaru eu ffurflen 2016, rwyf wedi gofyn i swyddogion ddefnyddio pŵer newydd a roddwyd i ni gan y Comisiwn Ewropeaidd o eleni ymlaen i roi cyfle i hawlwyr ddiweddaru eu ffurflen hawlio heb gosbau o fewn 35 diwrnod i gael eu hysbysu bod y wybodaeth yn anghyson.

13:09 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*

Deputy Minister, I wonder whether you will use the various mechanisms you have to communicate with farmers the future of the Government's Glastir policy. My understanding is that there will be no new applications for entry strand next year. Many people are concerned about that. Also, when their contracts come to an end, if they're unable to get into a whole-farm scheme, that'll be devastating to their income levels and also devastating to the environment, as many will have to intensify their farming practice once again. Could you clarify what the Government's policy is with regard to Glastir?

Ddirprwy Weinidog, tybed a fyddwch yn defnyddio'r mecanweithiau amrywiol sydd gennych i roi gwybod i ffermwyr ynglŷn â dyfodol polisi Glastir y Llywodraeth. Yn ôl yr hyn a ddeallaf, ni fydd unrhyw geisiadau newydd ar gyfer elfen mynediad y flwyddyn nesaf. Mae llawer o bobl yn poeni am hynny. Hefyd, pan ddaw eu contractau i ben, os nad ydynt yn gallu ymuno â chynllun fferm gyfan, bydd hynny'n ddinistriol i'w lefelau incwm a hefyd yn ddinistriol i'r amgylchedd, gan y bydd yn rhaid i lawer ddwysáu eu harferion ffermio unwaith eto. A wnewch chi egluro beth yw polisi'r Llywodraeth mewn perthynas â Glastir?

13:10 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, you're right to say that there is no Glastir entry application round this year, and that is because an independent evaluation of the scheme, as well as feedback from stakeholders, suggested that there are greater environmental benefits and there would be better value for money, and that could be delivered by adopting a more targeted and capital-based approach to agri-environment support. So, we're offering support now through our pioneering Glastir Advanced scheme as well as Glastir Woodland Creation and the new Glastir small grants scheme, all of which are available to farmers to apply for. Information about all those schemes and the opening times for windows, and so on, are available on the Welsh Government's website.

Ie, rydych yn iawn i ddweud na cheir cyfle i wneud cais mynediad Glastir eleni, a'r rheswm am hynny yw bod gwerthusiad annibynnol o'r cynllun, yn ogystal ag adborth gan randdeiliaid, wedi awgrymu bod mwy o fanteision amgylcheddol ac y byddai gwell gwerth am arian, ac y gellid cyflawni hynny drwy fabwysiadu dull wedi'i dargedu'n well yn seiliedig ar gyfalaf o ddarparu cymorth amaeth-amgylcheddol. Felly, rydym bellach yn cynnig cymorth drwy ein cynllun Glastir Uwch arloesol yn ogystal â chynllun Creu Coetiroedd Glastir a chynllun newydd grantiau bach Glastir, ac mae pob un ohonynt ar gael i ffermwyr wneud cais amdanynt. Mae gwybodaeth am yr holl gynlluniau hyn a'r cyfnodau ymgeisio ac yn y blaen ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

## Cwestiynau Heb Rybudd gan Lefarwyr y Pleidiau

## Questions Without Notice from Party Spokespeople

13:10 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to questions from the party spokespeople. First this afternoon is the Conservative spokesperson, Russell George.

Symudwn yn awr at gwestiynau gan lefarwyr y pleidiau. Yn gyntaf y prynhawn yma, mae llefarydd y Ceidwadwyr, Russell George.

13:10 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. Deputy Minister, at the end of the fourth Assembly, what score out of 10 would you give your Government for the support that it has provided to the farming industry?

Diolch i chi, Lywydd. Ddirprwy Weinidog, ar ddiwedd y pedwerydd Cynulliad, pa sgôr allan o 10 y byddech yn ei rhoi i'ch Llywodraeth am y gefnogaeth y mae wedi'i ddarparu i'r diwydiant ffermio?

13:10 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Ten.

Deg.

13:11 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, Deputy Minister, I have a different view on that. In reality, Deputy Minister, your Government's record has left Welsh farms at a severe disadvantage compared to their international competitors. The move to take 15 per cent from direct farm payments was a move that hit farmers hard—and was not seen anywhere else across the UK or Europe—and you also presided over a record-breaking cut to the agriculture and food budget, the biggest cut of any Government department, at a time when the dairy industry in particular is at a dangerous crisis point. Your recently published forecast on farm incomes has found that the average year-on-year business income across all farm types is forecast to decrease by nearly 16 per cent to £24,500, and for dairy farms there will be an average decrease of 40 per cent. Given this, what measures are the Welsh Government taking to stem the financial decline across the farming industry?

Wel, Ddirprwy Weinidog, mae gennyf farn wahanol ar hynny. Mewn gwirionedd, Ddirprwy Weinidog, mae record eich Llywodraeth wedi gadael ffermydd Cymru o dan anfantais ddifrifol o gymharu â'u cystadleuwyr rhyngwladol. Mae'r cam i dynnu 15 y cant oddi ar daliadau fferm uniongyrchol wedi taro ffermwyr yn galed—ac ni ddigwyddodd yn unman arall yn y DU na Ewrop—ac rydych hefyd wedi llywyddu dros y toriad mwyaf erioed i gyllideb amaethyddiaeth a bwyd, y toriad mwyaf i unrhyw un o adrannau'r Llywodraeth, ar adeg pan oedd y diwydiant llaeth yn arbennig wedi cyrraedd pwynt o argyfwng peryglus. Mae eich rhagolwg o incwm ffermydd a gyhoeddwyd yn ddiweddar wedi canfod y rhagwelir y bydd incwm cyfartalog busnesau o un flwyddyn i'r llall yn gostwng bron 16 y cant i £24,500 ar draws pob math o fferm, ac ar gyfer ffermydd llaeth, bydd gostyngiad cyfartalog o 40 y cant. O ystyried hyn, pa fesurau y mae Llywodraeth Cymru yn eu rhoi ar waith i atal y dirywiad ariannol ar draws y diwydiant ffermio?

13:11 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, you referred to the 15 per cent pillar transfer from pillar 1 to pillar 2, and the purpose of that, as we've explained many times over the years, was to enable us to make strategic investments in farm businesses to achieve transformational change in the agricultural industry in Wales, and we're doing that. During just the first seven months of operational time, we've already made £213 million of investment available for the benefit—[Interruption.]

Wel, fe gyfeirioch at y 15 y cant a drosglwyddwyd o golofn 1 i golofn 2, a phwrpas hynny, fel rydym wedi egluro sawl gwaith dros y blynyddoedd, oedd i'n galluogi i wneud buddsoddiadau strategol mewn busnesau fferm i gyflawni newid trawsnewidiol yn y diwydiant amaeth yng Nghymru, ac rydym yn gwneud hynny. Yn ystod y saith mis cyntaf yn unig y bu'n weithredol, rydym eisoes wedi sicrhau bod £213 miliwn o fuddsoddiad ar gael er budd—[Torri ar draws.]

13:12 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Minister doesn't need any assistance from the Plaid Cymru benches. Minister. [Interruption.] Or any other benches, come to that. Minister.

Nid oes angen unrhyw gymorth ar y Gweinidog gan feinciau Plaid Cymru. Weinidog. [Torri ar draws.] Nac unrhyw feinciau eraill, o ran hynny. Weinidog.

13:12 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. So, during just the first seven months of operational time, we've already made £213 million of investment available for the benefit of communities, farmers, foresters and food businesses in Wales, and the majority of that was for farmers and foresters, with £110 million of grants being made available to them. Of course, you'll know that, for farmers, foresters and landowners, 70 per cent is only available to those people, and they're able to access almost the entire remainder of the rural development programme as well. We've already introduced, or opened, a number of schemes, as you know. Farming Connect is a great offer for farmers, and I'd certainly encourage them to engage with it. Glastir Advanced, commons, organic, woodland restoration and woodland creation have all been opened. Sustainable production grants have been opened, and a second window for expressions of interest for that is being opened, with the budget tripled. The food business investment grant and the rural community development fund are open, the co-operation and supply chain development schemes are open, with the chance to make transformational change right across the supply chain; and the timber business investment scheme and Glastir small grants scheme have all been opened, and I would encourage farmers to avail themselves of the opportunities provided by those.

Diolch. Felly, yn ystod y saith mis cyntaf y bu'n weithredol yn unig, rydym eisoes wedi sicrhau bod £213 miliwn o fuddsoddiad ar gael er budd cymunedau, ffermwyr, coedwigwyr a busnesau bwyd yng Nghymru, ac roedd y rhan fwyaf ohono ar gyfer ffermwyr a choedwigwyr, gyda £110 miliwn o grantiau ar gael iddynt. Wrth gwrs, fe wyddoch fod 70 y cant ond ar gael i ffermwyr, coedwigwyr a pherchnogion tir yn unig a gallant fanteisio ar weddill y rhaglen datblygu gwledig bron yn gyfan gwbl hefyd. Rydym eisoes wedi cyflwyno, neu agor, nifer o gynlluniau, fel y gwyddoch. Mae Cyswllt Ffermio yn gynnig gwych i ffermwyr, a byddwn yn sicr yn eu hannog i ymgysylltu â'r gwasanaeth. Mae Glastir Uwch, tiroedd comin, organig, adfer coetiroedd a chreu coetiroedd i gyd wedi agor. Mae grantiau cynhyrchu cynaliadwy wedi agor, ac ail gyfnod ar gyfer mynegi diddordeb wedi agor ar eu cyfer, a'r gyllideb wedi'i threblu. Mae'r grant buddsoddi mewn busnesau bwyd a'r gronfa datblygu cymunedau gwledig wedi agor, mae'r cynllun cydweithredu a datblygu'r gadwyn gyflenwi wedi agor, gyda'r cyfle i wneud newid trawsnewidiol ar draws y gadwyn gyflenwi; ac mae'r cynllun buddsoddi mewn busnesau coed a chynllun grantiau bach Glastir ill dau wedi agor, a hoffwn annog ffermwyr i fanteisio ar y cyfleoedd y mae'r rhain yn eu darparu.

13:13 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

International sales of Welsh lamb and beef are worth more than £225 million to the economy of Wales. It is vital that we protect this crucial industry for the prosperity of the whole of Wales. [Interruption.]

Mae gwerthiant rhyngwladol cig oen a chig eidion Cymru yn werth mwy na £225 miliwn i economi Cymru. Mae'n hanfodol ein bod yn diogelu'r diwydiant allweddol hwn i ffyniant Cymru gyfan. [Torri ar draws.]

13:14 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order. Order. I'm sorry, will you let him ask the question in fairly quiet conditions—and can you make it as concise as you can? I know you can be concise, so just show us concise you can be.

Trefn. Trefn. Mae'n ddrwg gennyf, a wnewch chi adael iddo ofyn y cwestiwn o dan amodau gweddol dawel—ac a wnewch chi fod mor gryno ag y gallwch? Rwy'n gwybod eich bod yn gallu bod yn gryno, felly dangoswch pa mor gryno y gallwch fod.

13:14 **Russell George** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. Therefore, will you lend your support to the Welsh Conservative plans to introduce a red meat charter to secure the sustainability of the red meat industry in Wales? Will you also provide details of any discussions you have had with regard to the importation of New Zealand lamb and offer any assessment on how this has impacted on the procurement and sale of Welsh lamb? [Interruption.]

Diolch i chi, Lywydd. Felly, a wnewch chi gefnogi bwriad y Ceidwadwyr Cymreig i gyflwyno siarter cig coch i sicrhau cynaliadwyedd y diwydiant cig coch yng Nghymru? A wnewch chi hefyd roi manylion unrhyw drafodaethau a gawsoch mewn perthynas â mewnforio cig oen o Seland Newydd a chynnig unrhyw asesiad ar sut y mae hyn wedi effeithio ar gaffael a gwerthiant cig oen Cymru? [Torri ar draws.]

13:14 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Sorry, before—. Deputy Minister.

Mae'n ddrwg gennyf, cyn—. Ddirprwy Weinidog.

13:14 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Well, I do share the Member's concern about the amount of New Zealand lamb being imported into the EU, especially when we have such great quality produce available right here in Wales. So, I certainly do share that concern. I'll be making representation on Monday at the European council of agriculture Ministers meeting regarding quotas particularly, and explore whether we can have reduced quotas during our peak time for lamb, because I know that's done for other produce, such as garlic, elsewhere in the EU. So, we'll be looking at that particularly.

Wel, rwy'n rhannu pryder yr Aelod ynglŷn â faint o gig oen Seland Newydd sy'n cael ei fewnforio i'r Undeb Ewropeaidd, yn enwedig pan fo gennym gynnyrch o ansawdd mor dda ar gael yma yng Nghymru. Felly, rwy'n sicr yn rhannu'r pryder hwnnw. Byddaf yn cyflwyno sylwadau ddydd Llun yng nghyfarfod Gweinidogion amaethyddiaeth y cyngor Ewropeaidd ynglŷn â chwotâu yn arbennig, ac yn archwilio a allwn gael cwotâu llai yn ystod ein cyfnod brig ar gyfer cig oen, oherwydd gwn fod hynny'n cael ei wneud ar gyfer cynhyrchion eraill, fel garlleg, mewn mannau eraill o'r UE. Felly, byddwn yn edrych ar hynny'n benodol.

You'll be aware that the Welsh Government, through Hybu Cig Cymru, are members of the EU sheep meat reflection group, which met for the first time in November. I was pleased to be able to secure Wales a place on that group after discussing it with Commissioner Hogan at the Royal Welsh Show, and I think that that will provide another opportunity and another forum to really try and take this issue forward within Europe.

Fe fyddwch yn gwybod bod Llywodraeth Cymru, drwy Hybu Cig Cymru, yn aelodau o grŵp yr UE ar gyfer ystyried cig dafad, a gyfarfu am y tro cyntaf ym mis Tachwedd. Roeddwn yn falch o allu sicrhau bod lle i Gymru yn y grŵp hwnnw ar ôl ei drafod gyda'r Comisiynydd Hogan yn Sioe Frenhinol Cymru, ac rwy'n credu y bydd hynny'n rhoi cyfle arall a fforwm arall i fynd ati o ddifrif i geisio symud y mater hwn yn ei flaen yn Ewrop.

13:15 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Thank you. We now move to the Plaid Cymru spokesperson, Llyr Gruffydd.

Diolch. Symudwn yn awr at lefarydd Plaid Cymru, Llyr Gruffydd.

13:15 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Lywydd. Minister, I understand the Welsh Government are about to carry out a consultation around the introduction of a nitrate vulnerable zone in Pembrokeshire. I've received representations from farmers who are particularly concerned that this will happen, of course, during dissolution. Could you confirm whether that is the case, and if it is, do you think that's appropriate?

Diolch, Lywydd. Weinidog, rwy'n deall bod Llywodraeth Cymru ar fin cynnal ymgynghoriad ar gyflwyno parth perygl nitradau yn Sir Benfro. Rwyf wedi derbyn sylwadau gan ffermwyr sy'n arbennig o bryderus y bydd hyn yn digwydd, wrth gwrs, yn ystod y diddymiad. A allwch gadarnhau a yw hynny'n wir, ac os yw, a ydych yn credu bod hynny'n briodol?

13:15 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Yes, it is the case, and it will continue. We will obviously not be making any decisions with this Government; it will be for the next Government to be well-informed about the consultation that will take place.

Ydi, mae'n wir, a bydd yn parhau. Yn amlwg, ni fyddwn yn gwneud unrhyw benderfyniadau gyda'r Llywodraeth hon; mater i'r Llywodraeth nesaf yw bod yn wybodus ynghylch yr ymgynghoriad a gynhelir.

13:16 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

But I'm sure you would understand the concerns that people have that they will not have Assembly Members to turn to for advice and support during that consultation, or for a large part of that consultation process. So, I would ask you maybe to reflect on that intention and the possibility maybe of delaying it somewhat. Moving on to the substantive issue of the consultation itself, it will, if proposals are introduced, have far-reaching implications for many farms—I think up to potentially 2,000 farms that border on the Cleddau tributaries and the Cleddau estuary area. Clearly, many farmers at the moment have maybe up to about three weeks of slurry stores available to them. One of the requirements possibly will be to have up to five months of slurry stores, and that will require huge investment and huge capital cost at a time, of course, when many of these businesses are producing at a loss. So, could you tell us whether the Government would consider providing support for these farmers who would be affected by these requirements, to meet those without jeopardising their businesses?

Ond rwy'n siŵr y buasech yn deall y pryderon sydd gan bobl na fydd ganddynt Aelodau Cynulliad i droi atynt am gyngor a chefnogaeth yn ystod yr ymgynghoriad hwnnw, neu am ran fawr o'r broses ymgynghori. Felly, buaswn yn gofyn i chi ystyried y bwriad hwnnw a'r posibilrwydd o'i ohirio rywfaint efallai. Gan symud ymlaen at brif fater yr ymgynghoriad ei hun, os cyflwynir cynigion, bydd goblygiadau pellgyrhaeddol i lawer o ffermydd—hyd at 2,000, rwy'n credu, o ffermydd sy'n ffinio â llednentydd y Cleddau ac ardal aber y Cleddau. Ar hyn o bryd, yn amlwg, mae gan lawer o ffermwyr hyd at oddeutu tair wythnos efallai o storfeydd slyri ar gael iddynt. Un o'r gofynion o bosibl fydd sicrhau hyd at bum mis o storfeydd slyri, a buasai hynny'n galw am fuddsoddiad enfawr a chost gyfalaf enfawr, wrth gwrs, ar adeg pan fo llawer o'r busnesau hyn yn cynhyrchu ar golled. Felly, a wnewch chi ddweud wrthym a fyddai'r Llywodraeth yn ystyried rhoi cymorth i'r ffermwyr y byddai'r gofynion hyn yn effeithio arnynt, er mwyn iddynt allu cydymffurfio â hwy heb beryglu eu busnesau?

13:17 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Two points. First of all, I will consider the issue you raised around the consultation, if that is of concern. However, what we must do is address this issue and it has to be sorted one way or another. We have far too many cases of diffuse pollution across our water courses and it's something that we must tackle together. The issue around the consultation will be around whether that's a localised NVZ or whether it's a national scheme, and that will be something the consultation will have to consider.

Dau bwynt. Yn gyntaf oll, byddaf yn ystyried y mater a grybwyllwyd gennych ynglŷn â'r ymgynghoriad, os yw hynny'n peri pryder. Fodd bynnag, yr hyn sy'n rhaid i ni ei wneud yw mynd i'r afael â'r mater hwn ac mae'n rhaid iddo gael ei ddatrys mewn un ffordd neu'r llall. Mae gennym lawer gormod o achosion o lygredd gwasgaredig ar draws ein cyrsiau dŵr ac mae'n rhywbeth y mae'n rhaid i ni fynd i'r afael ag ef gyda'n gilydd. Mae'r broblem ynglŷn â'r ymgynghoriad yn ymwneud ag a fydd yn barth perygl nitradau lleol neu'n gynllun cenedlaethol, a bydd hynny'n rhywbeth y bydd yn rhaid i'r ymgynghoriad ei ystyried.

With regard to support for farm and farm bases that need to make adjustments, I'd be happy to have further discussions. I think the next Government, of course, will have to have further discussions with the industry to see how they can manage this better, but ultimately this is a matter for the sector to deal with and I think Government does need to look carefully at how we can move them and transfer them into a better space.

O ran cymorth i ganolfannau fferm a ffermydd sydd angen gwneud addasiadau, buaswn yn hapus i gael trafodaethau pellach. Rwy'n credu y bydd yn rhaid i'r Llywodraeth nesaf, wrth gwrs, gael trafodaethau pellach gyda'r diwydiant i weld sut y gallant reoli hyn yn well, ond yn y pen draw mater i'r sector fynd i'r afael ag ef yw hwn ac rwy'n credu bod angen i'r Llywodraeth edrych yn ofalus ar sut y gallwn eu symud a'u trosglwyddo i ofod gwell.

13:18 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister. You will know, of course, that Natural Resources Wales are responsible for ensuring that we meet our duties in terms of the water framework directive here in Wales, and you'll also know that NRW face quite a considerable cut to their budget for the coming financial year. As an environment committee, we've now been informed that they will have to deliver cuts to certain aspects of their services, including monitoring of evidence, although people tell us there's a lack of data already; flood and coastal risk management, which clearly is something that is of increasing concern to many communities across Wales; education services and partnership funding, which is something I thought the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 was supposed to encourage; as well as further reductions in the workforce. The Wales Audit Office recently published a report on NRW's governance arrangements, and it stated that

Diolch yn fawr, Weinidog. Byddwch yn gwybod, wrth gwrs, mai Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n gyfrifol am sicrhau ein bod yn cyflawni ein dyletswyddau o ran y gyfarwyddeb fframwaith dŵr yma yng Nghymru, a byddwch hefyd yn gwybod bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn wynebu toriad sylweddol i'w cyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod. Fel pwyllgor yr amgylchedd, rydym wedi cael gwybod erbyn hyn y bydd yn rhaid iddynt gyflwyno toriadau i rai agweddau o'u gwasanaethau, gan gynnwys monitro tystiolaeth, er bod pobl yn dweud wrthym fod yna brinder data eisoes; rheoli perygl llifogydd ac arfordiroedd, sy'n amlwg yn fater sy'n peri pryder cynyddol i lawer o gymunedau ledled Cymru; cyllido gwasanaethau a phartneriaethau addysg, sy'n rhywbeth y credwn fod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i fod i'w annog; yn ogystal â lleihau'r gweithlu ymhellach. Yn ddiweddar, cyhoeddodd Swyddfa Archwilio Cymru adroddiad ar drefniadau llywodraethu Cyfoeth Naturiol Cymru, ac roedd yn datgan bod

'NRW considers that the expected level of budget cuts will require fundamental changes to the purpose and structure of NRW.'

CNC o'r farn y bydd angen gwneud newidiadau sylfaenol i bwrpas a strwythur CNC yn sgil lefel ddisgwyliedig y toriadau yn y gyllideb.

Do you agree, and if you do, what aspects of its services would you drop?

A ydych yn cytuno, ac os ydych, pa agweddau ar ei wasanaethau y byddech yn eu diddymu?

13:19

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think this is a matter for the board and for NRW to deliberate as they move forward. The fact of the matter is if there is less money to deliver services, there will be fewer services. I cannot defend that issue. The fact that we've had £1.4 billion less from the UK Government has an effect on public services here across Wales. You never hear Russell George bleating about the fact that they give us less money to deliver services; he just wants more for his party, and his leader wants to come out of Europe, which is also baffling. The fact of the matter is NRW will deliver on their services; I expect them to do that, and I work with them on a monthly basis, meeting them to discuss how they will implement the reduced budget.

Rwy'n credu bod hwn yn fater i'r bwrdd ac i Cyfoeth Naturiol Cymru ei drafod wrth iddynt symud ymlaen. Y ffaith amdani yw, os oes llai o arian i ddarparu gwasanaethau, bydd llai o wasanaethau. Ni allaf amddiffyn hynny. Mae'r ffaith ein bod wedi cael £1.4 biliwn yn llai gan Lywodraeth y DU yn effeithio ar wasanaethau cyhoeddus yma ledled Cymru. Ni fyddwch byth yn clywed Russell George yn brefu am y ffaith eu bod yn rhoi llai o arian i ni ddarparu gwasanaethau; yr unig beth y mae ef ei eisiau yw mwy i'w blaid ei hun, ac mae ei arweinydd yn awyddus i adael Ewrop, sydd hefyd yn peri dryswch. Y ffaith amdani yw y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyflawni eu gwasanaethau; rwy'n disgwyl iddynt wneud hynny, ac rwy'n gweithio gyda hwy bob mis, yn cyfarfod â hwy i drafod sut y byddant yn gweithredu'r gyllideb ostyngol.

13:19

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to the Welsh Liberal Democrats' spokesperson, William Powell.

Symudwn yn awr at lefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, William Powell.

13:19

## William Powell Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Lywydd. Minister, many communities across Wales have been affected over recent years, as we all know, by flooding, causing injury and death, colossal damage to people's homes and also a severely detrimental effect on the wider Welsh economy. Will you outline the support currently available, via the Welsh Government, for flood-affected communities in Wales?

Diolch, Lywydd. Weinidog, mae llawer o gymunedau ledled Cymru wedi cael eu heffeithio dros y blynyddoedd diwethaf, fel rydym i gyd yn gwybod, gan lifogydd yn achosi anafiadau a marwolaeth, difrod enfawr i gartrefi pobl ac yn cael effaith andwyol ddifrifol hefyd ar economi ehangach Cymru. A wnewch chi amlinellu'r gefnogaeth sydd ar gael ar hyn o bryd, drwy Lywodraeth Cymru, i gymunedau yr effeithir arnynt gan lifogydd yng Nghymru?

13:20

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, thank you for your question. We've got a very good investment programme for flood defences indeed. The colleague sitting next to you, Lord Dafydd Elis-Thomas—. I was in Dolgellau only last week opening a scheme, which we know from the Christmas flooding, the occurrence on Boxing Day, saved around 300 homes and 54 businesses from flooding, because of the investment made by Welsh Government and European structural funds. Therefore, it is very important that we continue to be part of Europe to make clever investments that protect our communities right across the length and breadth of Wales.

Wel, diolch i chi am eich cwestiwn. Mae gennym raglen fuddsoddi dda iawn ar gyfer amddiffynfeydd rhag llifogydd. Mae'r cyd-Aelod sy'n eistedd wrth eich ymyl, yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas—. Roeddwn yn Nolgellau yr wythnos diwethaf yn agor cynllun, ac rydym yn gwybod yn dilyn llifogydd y Nadolig a ddigwyddodd ar Ŵyl San Steffan, fod y cynllun hwnnw wedi achub tua 300 o gartrefi a 54 o fusnesau rhag llifogydd, oherwydd y buddsoddiad a wnaed gan Lywodraeth Cymru a chronfeydd strwythurol Ewropeaidd. Felly, mae'n bwysig iawn ein bod yn parhau i fod yn rhan o Ewrop er mwyn gwneud buddsoddiadau doeth sy'n diogelu ein cymunedau ar hyd a lled Cymru.

13:20

## William Powell Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister, for that response. I certainly agree 100 per cent in terms of your most recent comments on the importance of that infrastructure spending. However, research that has recently been undertaken on behalf of the National Assembly Petitions Committee shows that there is actually a significantly more generous package of funding that's available in England, not so much on the infrastructure side, but in terms of responding to those who are recovering from flood risk.

Diolch i chi am yr ymateb hwnnw, Weinidog. Rwy'n sicr yn cytuno 100 y cant â'ch sylwadau mwyaf diweddar ar bwysigrwydd y gwariant hwnnw ar seilwaith. Fodd bynnag, mae ymchwil a wnaed yn ddiweddar ar ran Pwyllgor Deisebau'r Cynulliad Cenedlaethol yn dangos bod yna becyn cyllido gryn dipyn yn fwy hael ar gael mewn gwirionedd nag a geir yn Lloegr, nid yn gymaint ar yr ochr seilwaith, ond o ran ymateb i'r rhai sy'n ymadfer ar ôl llifogydd.

Households and businesses just across the border are provided with—. Local authorities are provided with £500 for each household affected, grants of up to £5,000 to assist households to protect their individual properties from flooding, and also £2,500 for affected businesses. In addition, the UK Government currently match funds the funds that are raised by registered charities that are involved in actively supporting flood relief.

Mae cartrefi a busnesau dros y ffin yn cael—. Mae awdurdodau lleol yn cael £500 ar gyfer pob aelwyd yr effeithiwyd arnynt, grantiau o hyd at £5,000 i helpu aelwydydd i ddiogelu eu heiddo unigol rhag llifogydd, a hefyd £2,500 i fusnesau yr effeithiwyd arnynt. Yn ogystal â hyn, mae Llywodraeth y DU yn rhoi arian cyfatebol tuag at yr arian a godir gan elusennau cofrestredig sy'n cefnogi cymorth llifogydd yn weithredol.

With flood risk certain to increase in the time to come, what consideration needs to be given by the next Welsh Government as to the creation of specific flood-resilience grants, available direct to those affected for communities across Wales?

Gyda pherygl llifogydd yn sicr o gynyddu yn yr amser sydd i ddod, beth sydd angen i'r Llywodraeth nesaf ei ystyried o ran creu grantiau penodol ar gyfer gwrthsefyll llifogydd, sydd ar gael yn uniongyrchol i'r cymunedau yr effeithir arnynt ledled Cymru?

13:22

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Okay. I thank the Member again for his very concise question. The issue for us here in Wales; let's put this into context. We had around 150 properties flooded during the Christmas period out of a total—on a Welsh basis. If we looked at the news footage over the Christmas period and looked at what happened in England, that was because of their lack of investment in flood defences.

Iawn. Diolch i'r Aelod unwaith eto am ei gwestiwn hynod o gryno. Y broblem i ni yma yng Nghymru; gadewch i ni roi hyn mewn cyd-destun. Cafodd tua 150 o eiddo eu heffeithio gan lifogydd yn ystod cyfnod y Nadolig o gyfanswm o—ar sail Cymru. Pe baem yn edrych ar yr eitemau newyddion dros gyfnod y Nadolig ac yn edrych ar yr hyn a ddigwyddodd yn Lloegr, y rheswm am hynny oedd eu diffyg buddsoddiad mewn amddiffynfeydd rhag llifogydd.

We're about investing in prevention rather than reaction after the event, because people who are flooded, it's a terrible event that they go through, and they find the small amount of money from the UK Government to these individuals will have little effect on managing their properties in the long term.

Rydym yn buddsoddi mewn atal yn hytrach nag ymateb ar ôl iddo ddigwydd, oherwydd i bobl sy'n dioddef llifogydd, mae'n rhywbeth ofnadwy sy'n digwydd iddynt, ac maent yn gweld nad yw'r swm bach o arian gan Lywodraeth y DU i'r unigolion hyn yn cael fawr o effaith ar reoli eu heiddo yn y tymor hir.

We invested in a £3 million programme straight after the Christmas flooding in order to have some repair work in communities across Wales, and there was a bidding process from local authorities. But, again, I suggest that we have to look at the clever investments that we've made—places like in Delyn, in the Vale of Glamorgan and in St. Asaph with Ann Jones—looking at these, making sure that we have the resilience for their communities for the long term, not by just making small investments after the event has happened.

Yn syth ar ôl llifogydd y Nadolig, fe fuddsoddom mewn rhaglen £3 miliwn er mwyn gwneud gwaith atgyweirio mewn cymunedau ledled Cymru, a chafwyd proses gyflwyno ceisiadau gan awdurdodau lleol. Ond unwaith eto, rwy'n awgrymu bod yn rhaid i ni edrych ar y buddsoddiadau doeth a wnaethom—fel yn Nelyn, ym Mro Morgannwg ac yn Llanelwy gydag Ann Jones—edrych ar y rhain a gwneud yn siŵr fod eu cymunedau'n gallu gwrthsefyll llifogydd yn hirdymor, nid gwneud buddsoddiadau bach ar ôl y digwyddiad yn unig.

13:23

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

[Inaudible.]

[Anghlywadwy.]

13:23 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Llywydd, for that timely reminder. I appreciate, Minister, what you said with regard to the value of preventative spend, although there are a couple of specific focused initiatives that I would ask the Minister's view on. Firstly, with regard to the council tax and business rate relief that is available in England, has the Welsh Government looked at bringing that forward? And finally, the farming recovery fund that has made specific grants available to those farming businesses most directly affected in Cumbria, Northumberland and the rest of the north of England. What consideration will you be prepared to give in a future time to adopting some of these practical and well-received schemes to add to the suite of funding that is available from Welsh Government for those affected by these devastating events?

Diolch i chi am ein hatgoffa'n amserol, Lywydd. Rwy'n derbyn yr hyn a ddywedoch, Weinidog, ynglŷn â gwerth gwariant ataliol, er bod un neu ddau o gynlluniau â ffocws penodol y byddwn yn gofyn barn y Gweinidog yn eu cylch. Yn gyntaf, mewn perthynas â rhyddhad treth gyngor ac ardrethi busnes sydd ar gael yn Lloegr, a yw Llywodraeth Cymru wedi edrych ar gyflwyno hynny? Ac yn olaf, y gronfa adfer ffermio sydd wedi sicrhau bod grantiau penodol ar gael i fusnesau ffermio yr effeithiwyd arnynt yn fwyaf uniongyrchol yn Cumbria, Northumberland a gweddill gogledd Lloegr. Pa ystyriaeth y byddwch yn barod i'w rhoi yn y dyfodol i fabwysiadu rhai o'r cynlluniau ymarferol hyn, sydd wedi cael croeso mawr, i ychwanegu at y gyfres o gronfeydd sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru i'r rhai yr effeithiwyd arnynt gan y digwyddiadau trychinebus hyn?

13:24 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I listened to the Member very carefully, his comments, but as I said earlier on, we have to put this into context. The issue is that, here, we're dealing with it very differently to what's happening in England. We maintain and continue to have a very high investment in our flood-defence schemes. Therefore, I'm open to ideas on issues that are related across the board, potentially, and how we can implement them, but actually we're doing a very good job with the limited resources we're receiving from the UK Government.

Wel, gwrandewais yn ofalus iawn ar yr Aelod, ar ei sylwadau, ond fel y dywedais yn gynharach, mae'n rhaid i ni roi hyn yn ei gyd-destun. Y broblem yma yw ein bod yn ymdrin â'r mater yn wahanol iawn i'r hyn sy'n digwydd yn Lloegr. Rydym yn cynnal buddsoddiad ac yn parhau i fuddsoddi'n helaeth iawn yn ein cynlluniau amddiffyn rhag llifogydd. Felly, rwy'n agored i syniadau ar faterion perthnasol yn gyffredinol, o bosibl, a sut y gallwn eu rhoi ar waith, ond mewn gwirionedd rydym yn gwneud gwaith da iawn gyda'r adnoddau cyfyngedig rydym yn eu cael gan Lywodraeth y DU.

13:24 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move back to questions on the paper and question 3 is Lynne Neagle.

Symudwn yn ôl yn awr at y cwestiynau ar y papur a daw cwestiwn 3 gan Lynne Neagle.

### Cloddio Glo Brig

### Opencast Mining

13:24 **Lynne Neagle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*3. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y mae canllawiau ar geisiadau cynllunio cloddio glo brig yn rhoi ystyriaeth i anghenion cymunedau lleol? OAQ(4)0421(NR)*

*3. Will the Minister make a statement on how guidance on opencast mining planning applications considers the needs of local communities? OAQ(4)0421(NR)*

13:25 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for Torfaen for her question. 'Minerals Technical Advice Note 2: Coal' sets out comprehensive guidance on how the needs of local communities should be considered. This includes setting out how the community can participate throughout the duration of the project, from planning application through to site restoration and closure.

Diolch i'r Aelod dros Dorfaen am ei chwestiwn. Mae 'Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 2: Glo' yn nodi cyfarwyddyd cynhwysfawr ynglŷn â sut y dylid ystyried anghenion cymunedau lleol. Mae hyn yn cynnwys nodi sut y gall y gymuned gymryd rhan drwy gydol y prosiect, o'r cais cynllunio i adfer a chau'r safle.

13:25 **Lynne Neagle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I have recently written to you to express my concern that some residents of Varteg tell me that they've received payment offers of £1,000 per household for the duration of the proposed opencast scheme. Worryingly, when Torfaen council approach the developer, they were unable to obtain confirmation of any offers to residents. I believe that if such payments are within the law, then they should be made in an open and transparent manner and in discussion with all residents affected. Would you agree with me that making such offers to some residents and not others risks dividing a community and obscuring the transparent planning process? Will you look at issuing further guidance to protect residents in this situation?

Weinidog, rwyf wedi ysgrifennu atoch yn ddiweddar i fynegi fy mhryder fod rhai o drigolion y Farteg yn dweud wrthyf eu bod wedi cael cynigion o £1,000 i'w dalu i bob cartref dros gyfnod y cynllun glo brig arfaethedig. Pan gysylltodd cyngor Torfaen â'r datblygwr, nid allodd gael cadarnhad ynglŷn ag unrhyw gynigion i breswylwyr, ac mae hynny'n destun pryder. Os yw taliadau o'r fath yn gyfreithlon, credaf y dylent gael eu gwneud mewn modd agored a thryloyw a thrwy drafod â'r holl drigolion yr effeithir arnynt. A fyddech yn cytuno bod gwneud cynigion o'r fath i rai preswylwyr ac nid i eraill yn creu risg o rannu cymuned ac atal proses gynllunio dryloyw? A wnewch chi ystyried cyhoeddi canllawiau pellach i ddiogelu trigolion yn y sefyllfa hon?

13:26 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for her question. Obviously, Presiding Officer, I'm unable to comment on a specific planning application when it's a live application, but I do pay tribute to the Member who never ceases to seize the opportunity to raise this issue with me. With regard to the more general point of the application about payments to communities, I would hope that it would be considered to be done in an open and transparent way, and if the Member wishes to write to me with more details, irrespective of the application, I will ask my team to look at it in detail.

Diolch i'r Aelod am ei chwestiwn. Yn amlwg, Lywydd, ni allaf roi sylwadau ar gais cynllunio penodol pan fo'n gais byw, ond rwy'n talu teyrnged i'r Aelod nad yw byth yn rhoi'r gorau i fanteisio ar y cyfle i ddwyn y mater hwn i fy sylw. O ran y pwynt mwy cyffredinol ynghylch y cais sy'n ymwneud â thaliadau i gymunedau, buaswn yn gobeithio yr ystyrir ei fod yn cael ei wneud mewn ffordd agored a thryloyw, ac os yw'r Aelod yn dymuno ysgrifennu ataf gyda mwy o fanylion, heb ystyried y cais, byddaf yn gofyn i fy nhîm edrych arno'n fanwl.

13:26 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The First Minister stated publicly that the guidance in MTAN is there to be obeyed, yet there are still planning applications that are being submitted and considered and not immediately dismissed even though they do not reflect that guidance. Would the Minister be minded to issue stronger guidance, emphasising a requirement to reflect the determinations of this Assembly and to reinforce the specified 500m buffer zone?

Dywedodd y Prif Weinidog yn gyhoeddus fod y canllawiau yn 'Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 2: Glo' yno i gydymffurfio â hwy, ac eto mae yna geisiadau cynllunio o hyd sy'n cael eu cyflwyno a'u hystyried ac ni chânt eu gwrthod ar unwaith er nad ydynt yn adlewyrchu'r canllawiau hynny. A fyddai'r Gweinidog yn ystyried cyhoeddi canllawiau cryfach, gan bwysleisio gofyniad i adlewyrchu penderfyniadau'r Cynulliad hwn ac atgyfnerthu'r glustogfa 500m ddynodedig?

13:27 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, as the Member will be aware, we have a review of MTAN 2. That's under way, and obviously my team are working on the finer detail of that. It would be wrong of any Minister to prejudge any application. It has to come through the appropriate channels. We believe that MTAN 2 in its current state is an appropriate document, but we are updating it and we continue to do that with all technical advice notes too.

Wel, fel y bydd yr Aelod yn gwybod, rydym yn adolygu 'Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 2: Glo'. Mae hwnnw ar y gweill, ac yn amlwg mae fy nhîm yn gweithio ar fanylion hwnnw. Byddai'n anghywir i unrhyw Weinidog ragfarnu unrhyw gais. Mae'n rhaid iddo ddod drwy'r sianeli priodol. Rydym yn credu bod 'Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 2: Glo' fel y mae ar hyn o bryd yn ddogfen briodol, ond rydym yn ei ddiweddaru ac rydym yn parhau i wneud hynny gyda phob un o'r nodiadau cyngor technegol hefyd.

13:27 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Minister, I have recently read the catchily titled, 'Best Practice Guide on Restoration Liability Assessments for Surface Coal Mines', by the Coal Authority, which was requested by your Government. While I welcome that report, there are two paragraphs only at the end of a 13-page document about how the restoration processes actually affect those living in the area. I have attended summits alongside other Assembly Members in this room, and considering the strength of feeling of residents about how opencast mining affects their health and affects their way of life, why is it that only two paragraphs have been afforded to them and most of it then leans towards the developer?

Weinidog, yn ddiweddar darllenais ddogfen gyda'r teitl bachog, 'Canllaw Arfer Gorau ar Asesiadau Rhwymedigaeth Adfer Pyllau Glo Brig', gan yr Awdurdod Glo, y gofynnodd eich Llywodraeth amdani. Er fy mod yn croesawu'r adroddiad hwnnw, dau baragraff yn unig ar ddiwedd y ddogfen 13 tudalen sy'n sôn sut y mae'r prosesau adfer yn effeithio ar y rhai sy'n byw yn yr ardal mewn gwirionedd. Rwyf wedi mynychu uwchgynadleddau gydag Aelodau Cynulliad eraill yn yr ystafell hon, ac o ystyried cryfder teimladau'r trigolion ynglŷn â sut y mae cloddio glo brig yn effeithio ar eu hiechyd ac ar eu ffordd o fyw, pam mai dau baragraff yn unig a neilltuwyd ar eu cyfer a pham fod y rhan fwyaf ohono wedyn yn gwyro o blaid y datblygwr?

Senedd.tv
Fideo Video

13:28 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Well, I think it's the content of the paragraphs that is important and making sure that we're able to demonstrate that the restoration programme is a very integral part of the application, and I think we have to be able to demonstrate that. I met recently with the UK Government on the basis that I do believe that many of the coal opencast provisions that there are in Wales are, ultimately, the responsibility of the UK Government in terms of the restoration programme.

Wel, rwy'n credu mai cynnwys y paragraffau sy'n bwysig a gwneud yn siŵr ein bod yn gallu dangos bod y rhaglen adfer yn rhan annatod iawn o'r cais, ac rwy'n credu bod yn rhaid i ni allu dangos hynny. Cefais gyfarfod yn ddiweddar gyda Llywodraeth y DU ar y sail fy mod yn credu mai cyfrifoldeb Llywodraeth y DU yn y pen draw yw llawer o'r darpariaethau glo brig a geir yng Nghymru mewn perthynas â'r rhaglen adfer.

Senedd.tv
Fideo Video

13:28 **David Rees** Bywgraffiad Biography

To follow on from that, Minister, clearly, financial resources for a full restoration programme are essential to an application being approved. Therefore, will you include in your guidelines stronger emphasis on ensuring that the financial resources are there so that communities like those around Parc Slip don't have to face a hole and a void for a very long time because the companies are saying that they haven't got the money?

I ddilyn hynny, Weinidog, yn amlwg, mae adnoddau ariannol ar gyfer rhaglen adfer lawn yn hanfodol cyn y gellir cymeradwyo cais. Felly, a wnewch chi gynnwys pwyslais cryfach yn eich canllawiau ar sicrhau bod yr adnoddau ariannol ar gael fel nad oes yn rhaid i gymunedau fel y rhai o amgylch Parc Slip wynebu twll gwag am amser hir iawn am fod y cwmnïau'n dweud nad oes ganddynt yr arian?

Senedd.tv
Fideo Video

13:29 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

The Member is right to raise this issue. MTAN 2 already states that operators should demonstrate to the satisfaction of the Mineral Products Association that they are covered by a bond or an established and properly funded industry guarantee scheme that would fund adequately the finance programme of the restoration and aftercare in case of default by the operator. As I said to Bethan Jenkins earlier, and as I've said to the Member when he's raised it with me, the situation at Margam is directly as a result of privatisation by the UK Government and the current policy is robust in requesting restoration provisions from the UK Government.

Mae'r Aelod yn gywir i nodi'r mater hwn. Mae 'Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 2: Glo' eisoes yn datgan y dylai gweithredwyr ddangos er boddhad y Gymdeithas Cynhyrchion Mwynol fod ganddynt fond neu gynllun gwarant diwydiant sefydledig, wedi'i gyllido'n briodol, a fyddai'n cyllido rhaglen ariannol y gwaith adfer a gofal dilynol yn ddigonol os ceir diffyg ar ran y gweithredwr. Fel y dywedais wrth Bethan Jenkins yn gynharach, ac fel rwyf wedi'i ddweud wrth yr Aelod pan fo'n dwyn y mater i fy sylw, mae'r sefyllfa ym Margam yn deillio'n uniongyrchol o breifateiddio gan Lywodraeth y DU ac mae'r polisi presennol yn galw'n gadarn am ddarpariaethau adfer gan Lywodraeth y DU.

Senedd.tv
Fideo Video

## Bil yr Amgylchedd (Cymru)

## Environment (Wales) Bill

13:29 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

*4. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyletswydd cyrff nad ydynt wedi'u datganoli i gydymffurfio â Bil yr Amgylchedd (Cymru)? OAQ(4)0426(NR)[W]*

*4. Will the Minister make a statement on the duty of non-devolved bodies to comply with the Environment (Wales) Bill? OAQ(4)0426(NR)[W]*

Senedd.tv
Fideo Video

13:29 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for his question. Section 6 of the Environment (Wales) Bill will place a new, enhanced biodiversity and resilience of ecosystems duty on public authorities that will also apply to the majority of UK public authorities carrying out functions in non-devolved areas in relation to Wales.

Diolch i'r Aelod am ei gwestiwn. Bydd Adran 6 Bil yr Amgylchedd (Cymru) yn gosod dyletswydd bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau newydd estynedig ar awdurdodau cyhoeddus a fydd hefyd yn berthnasol i'r rhan fwyaf o awdurdodau cyhoeddus y DU sy'n cyflawni swyddogaethau mewn meysydd nad ydynt wedi'u datganoli mewn perthynas â Chymru.

13:30 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch yn fawr iawn. Mae fy niddordeb i yn benodol yn ymwneud â chynlluniau'r Grid Cenedlaethol i adeiladu peilonau newydd ar draws Ynys Môn, cynllun sy'n amhoblogaidd iawn efo pobl yr ynys, sy'n poeni am yr effaith amgylcheddol, yr effaith ar yr economi, ar werth eiddo, ac yn y blaen. Mae pobl Ynys Môn yn ffafrio rhoi'r gwifrau o dan y tir neu o dan y môr. Wel, mi wnes i ysgrifennu at y Gweinidog, ac, yn y llythyr hwnnw, mi oedd o'n cadarnhau yr hyn rydym ni newydd ei glywed rŵan, sef bod yna ddyletswydd, wrth gwrs, ar gyrff megis Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol, a'r Grid Cenedlaethol sy'n ymwneud â phrosiectau yng Nghymru i gydymffurfio â'r dyletswydd bioamrywiaeth a hydwythedd—neu 'resilience'—yn adran 6 o Fil yr Amgylchedd (Cymru). Ar sail hynny, felly, pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi eu cael efo'r Grid Cenedlaethol, i wneud yn siŵr eu bod nhw yn ymwybodol o'u dyletswyddau cyn i'r Bil dderbyn Cydsyniad Brenhinol yn y dyfodol agos? Ac a ydy'r Gweinidog yn cytuno efo fi y dylai ystyriaeth fanwl iawn gael ei rhoi ar yr effaith ar ein hadnoddau naturiol mewn unrhyw gynlluniau trosglwyddo trydan?

Thank you very much. My interest is specifically in the plans of National Grid to erect new pylons across Ynys Môn, which is very unpopular with the people of the island, who are concerned about the environmental impact, the impact on the value of property, and the impact on the economy and so on. The people of Ynys Môn favour undergrounding or putting the cables under the sea. Now, I wrote to the Minister and, in that letter, he confirmed what we've just heard, namely that there is a duty on bodies such as the UK Government and the National Grid that are involved in projects in Wales to comply with the biodiversity and resilience duty in section 6 of the Environment (Wales) Bill. Now, on that basis, what discussions have the Welsh Government had with the National Grid to ensure that they are aware of their duties before the Bill is given Royal Assent? And does the Minister agree with me that very detailed consideration should be given to the impact on our natural resources in any plans in terms of the transmission of electricity?

13:31 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for his question. There's been lots of debate with the UK Government on this very issue, as the Member will be aware. At one point, the UK Government wouldn't allow Crown consent around this part of the Bill in the passage through this Assembly, but that was recovered at a very late stage. In regard to infrastructure in particular, I will discuss that further with Edwina Hart, and I will write a letter to the Member in regard to the particular issue the Member raises regarding pylons and the island of Anglesey.

Diolch i'r Aelod am ei gwestiwn. Cafwyd llawer o ddadlau gyda Llywodraeth y DU ar yr union fater hwn, fel y bydd yr Aelod yn gwybod. Ar un adeg, nid oedd Llywodraeth y DU yn caniatáu cydsyniad y Goron i'r rhan hon o'r Bil ar ei daith drwy'r Cynulliad hwn, ond adferwyd hynny ar gam diweddar iawn. O ran seilwaith yn benodol, byddaf yn trafod hynny ymhellach gydag Edwina Hart, a byddaf yn ysgrifennu llythyr at yr Aelod mewn perthynas â'r mater penodol y mae'r Aelod yn ei grybwyll ynghylch peilonau ac Ynys Môn.

13:31 **Janet Haworth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I recently visited a waste water plant in north Wales, and public water supply plant. During the visit, the need to ensure that there is more proactive, preventative maintenance and upgrading of our sewerage system was raised. They also stressed the importance of being fully consulted when it comes to new building projects. Can I urge you one final time during this Assembly to retrospectively include Welsh Water as a statutory consultee on new planning decisions? I was assured that there are service teams willing and able to discharge this duty in the interests of maintaining the integrity of these vital public services.

Weinidog, yn ddiweddar ymwelais â safle dŵr gwastraff yng ngogledd Cymru, a safle cyflenwad dŵr cyhoeddus. Yn ystod yr ymweliad, soniwyd am yr angen i sicrhau bod yna ffyrdd mwy rhagweithiol ac ataliol o gynnal a chadw ac uwchraddio ein system garthffosiaeth. Roeddent hefyd yn pwysleisio pa mor bwysig yw cael eu cynnwys yn llawn mewn ymgyngoriadau ynghylch prosiectau adeiladu newydd. A gaf fi eich annog un tro olaf yn ystod y Cynulliad hwn, i gynnwys Dŵr Cymru yn ôl-weithredol fel ymgynghorai statudol ar benderfyniadau cynllunio newydd? Cefais fy sicrhau bod yna dimau gwasanaeth sy'n barod ac yn abl i gyflawni'r ddyletswydd hon er mwyn cynnal uniondeb y gwasanaethau cyhoeddus hanfodol hyn.

13:32 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

I am grateful the Member raised that very issue with us, because I'm sure the Member voted for that as a statutory consultee, which is actually in the Bill.

Rwy'n ddiolchgar i'r Aelod am dynnu'r mater hwn i'n sylw, gan fy mod yn siŵr fod yr Aelod wedi pleidleisio dros hynny fel ymgynghorai statudol, sydd yn y Bil mewn gwirionedd.

Senedd.tv Fideo Video

### Datblygiadau Tai

### Housing Developments

13:32 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

*5. Sut y rhoddir ystyriaeth i faterion amgylcheddol wrth ystyried ceisiadau cynllunio ar raddfa fawr ar gyfer datblygiadau tai? OAQ(4)0418(NR)*

*5. How are environmental issues taken into account when considering large-scale planning applications for housing developments? OAQ(4)0418(NR)*

Senedd.tv Fideo Video

13:32 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

I thank John Griffiths for his question. Local planning authorities must balance the environmental issues related to a development alongside the social and economic issues when considering planning applications, including those for large-scale housing developments.

Diolch i John Griffiths am ei gwestiwn. Mae'n rhaid i awdurdodau cynllunio lleol gydbwyso'r materion amgylcheddol sy'n gysylltiedig â datblygiad ochr yn ochr â'r materion cymdeithasol ac economaidd wrth ystyried ceisiadau cynllunio, gan gynnwys y rhai ar gyfer datblygiadau tai ar raddfa fawr.

Senedd.tv Fideo Video

13:33 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Minister, greening our urban environment creates more pleasant local areas. It also improves commitment and awareness of the environment, and, indeed, encourages more physical activity, and so better health and wellbeing. Given those benefits—and, indeed, there are further benefits also—how will Welsh Government ensure that large-scale housing developments create top-quality environments?

Weinidog, mae gwyrddu ein hamgylchedd trefol yn creu ardaloedd lleol mwy dymunol. Mae hefyd yn gwella ymrwymiad ac ymwybyddiaeth o'r amgylchedd, ac yn wir, yn annog mwy o weithgarwch corfforol, gan arwain at wella iechyd a lles. O ystyried y manteision hynny—ac yn wir, mae manteision pellach hefyd—sut y bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod datblygiadau tai ar raddfa fawr yn creu amgylcheddau o'r ansawdd gorau?

Senedd.tv Fideo Video

13:33 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

There are many ways in which we encourage this action, and the planning process is just one. But I also welcome areas such as Newport City Homes, which I know operates in the Member's constituency. I'm grateful for them establishing an environmental improvement fund, which provides seed-corn funding of up to £5,000 for local people to improve their neighbourhoods and communities. I do believe that Governments can legislate on many things, but, actually, community involvement in changing the way that their community acts is certainly a sensible way to move forward.

Rydym yn annog hyn mewn nifer o ffyrdd, ac un ohonynt yn unig yw'r broses gynllunio. Ond rwyf hefyd yn croesawu pethau fel Newport City Homes, a gwn eu bod yn gweithredu yn etholaeth yr Aelod. Rwy'n ddiolchgar iddynt am sefydlu cronfa gwella'r amgylchedd, sy'n darparu cyllid sbarduno o hyd at £5,000 i bobl leol allu gwella eu cymdogaethau a'u cymunedau. Credaf fod Llywodraethau'n gallu deddfu ar lawer o bethau, ond mewn gwirionedd, mae cynnwys y gymuned yn y gwaith o newid y ffordd y mae eu cymuned yn gweithredu yn sicr yn ffordd synhwyrol o symud ymlaen.

Senedd.tv Fideo Video

13:34 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Minister, Wales has just experienced one of the warmest winters on record, with considerable flooding as a result. Too often, local authorities allow developers permission to build on areas known to be at risk of flooding, in a bid to meet targets set in the Wales spatial plan. What consideration has the Minister given to designating areas at risk of flooding as blue-belt land, and of banning housing development in such areas in Wales?

Weinidog, mae Cymru newydd gael un o'r gaeafau cynhesaf a gofnodwyd erioed, gyda llifogydd sylweddol o ganlyniad i hynny. Yn rhy aml, mae awdurdodau lleol yn caniatáu i ddatblygwyr adeiladu mewn ardaloedd y gwyddys eu bod mewn perygl o wynebu llifogydd, mewn ymgais i gyrraedd targedau a osodwyd yng nghynllun gofodol Cymru. Pa ystyriaeth y mae'r Gweinidog wedi'i rhoi i ddynodi ardaloedd sydd mewn perygl o wynebu llifogydd yn dir llain las, a gwahardd datblygu tai mewn ardaloedd o'r fath yng Nghymru?

Senedd.tv Fideo Video

13:34

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Well, again, I welcome the questions today from the opposition benches; they are quite amusing, most of the questions I've received today. This is the party that voted against the environment Bill, not so long back. These are the people who doubted the issues around climate change. This is the party that wants to enhance, produce, fracking across the rest of Wales—a pro-fracking party opposite, and you ask me about warmer winters. You have to really consider the issues of your party and what you're considering when you ask these questions, on a serious basis.

Wel, unwaith eto, croesawaf y cwestiynau heddiw o feinciau'r gwrthbleidiau; mae'r rhan fwyaf o'r cwestiynau a ddaeth i law heddiw yn eithaf doniol. Dyma'r blaid a bleidleisiodd yn erbyn Bil yr amgylchedd, heb fod mor bell yn ôl â hynny. Dyma'r bobl a oedd yn llawn amheuon ynglŷn â'r materion yn ymwneud â newid yn yr hinsawdd. Dyma'r blaid sydd am wella, cynhyrchu, ffracio ar draws gweddill Cymru—plaid o blaid ffracio gyferbyn, ac rydych yn fy holi ynglŷn â gaeafau cynhesach. Mae'n rhaid i chi ystyried materion eich plaid a beth rydych yn ei feddwl mewn gwirionedd wrth ofyn y cwestiynau hyn o ddifrif.

13:35

## Eluned Parrott Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Minister, in Cardiff, you've recently authorised the construction of 1,200 new homes in Lisvane—the Churchlands development. I'm sure that the Minister was inundated by constituents objecting to this on the grounds of the lack of transport infrastructure, as indeed I was. But, with a total lack of transport infrastructure, the impact on the local environment will be hugely negative, if this isn't planned in from the very start. Will the Minister work with local authorities to ensure that, when new sites are developed, there is more rigorous consideration of the impact of supporting infrastructure on the local environment?

Weinidog, yng Nghaerdydd, rydych newydd awdurdodi adeiladu 1,200 o gartrefi newydd yn Llys-faen—datblygiad Churchlands. Rwy'n siŵr fod y Gweinidog wedi'i lethu gan etholwyr yn gwrthwynebu hyn ar sail y diffyg seilwaith trafnidiaeth, fel finnau yn wir. Ond heb unrhyw seilwaith trafnidiaeth, bydd yr effaith ar yr amgylchedd lleol yn hynod o negyddol, os na chynllunnir ar gyfer hyn o'r cychwyn cyntaf. A wnaiff y Gweinidog weithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau y caiff effaith seilwaith cynhaliol ar yr amgylchedd lleol ei ystyried yn fwy trylwyr pan fydd safleoedd newydd yn cael eu datblygu?

13:35

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Again, Presiding Officer, I can't comment on the application, as it has been decided and that is an action of my department. In regard to the more general question of transport infrastructure, it is an important policy objective when applications are coming through any programme and local development plans are fundamental to making sure that that is a rigorous part of the process for future developments.

Unwaith eto, Lywydd, ni allaf roi sylwadau ar y cais, gan ei fod wedi'i benderfynu, ac mae hynny'n un o weithredoedd fy adran. O ran y cwestiwn mwy cyffredinol ynglŷn â seilwaith trafnidiaeth, mae'n amcan polisi pwysig pan fo ceisiadau'n dod drwy unrhyw raglen, ac mae cynlluniau datblygu lleol yn hanfodol i sicrhau bod hynny'n rhan drylwyr o'r broses ar gyfer datblygiadau yn y dyfodol.

13:36

## Jeff Cuthbert Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Caerphilly County Borough Council has recently published its draft LDP and, of course, we all understand that there is an acute need for more affordable housing across Wales. However, a number of my constituents are concerned that attractive green spaces, such as Gwern-y-Domen near Rudry, could be lost because too many house builders are looking to concentrate new residential estates in the more lucrative areas of my constituency in close proximity to Cardiff and the M4. Minister, would you agree with me that this shows the need for a more balanced approach to residential development across local authorities, ensuring good transport links in order to make it more attractive for developers to build in areas such as further north in the Rhymney valley?

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi cyhoeddi ei gynllun datblygu lleol drafft yn ddiweddar, ac wrth gwrs, rydym i gyd yn deall bod angen mwy o dai fforddiadwy ledled Cymru. Fodd bynnag, mae nifer o fy etholwyr yn pryderu y gallai mannau gwyrdd deniadol, megis Gwern-y-Domen ger Rhydri, gael eu colli oherwydd bod gormod o adeiladwyr tai yn dymuno codi ystadau preswyl newydd mewn ardaloedd mwy proffidiol yn fy etholaeth, yn agos i Gaerdydd a'r M4. Weinidog, a fyddech yn cytuno bod hyn yn dangos bod angen mabwysiadu ymagwedd fwy cytbwys tuag at ddatblygiadau preswyl ar draws awdurdodau lleol, gan sicrhau cysylltiadau trafnidiaeth da er mwyn ei gwneud yn fwy deniadol i ddatblygwyr adeiladu mewn ardaloedd eraill, megis ymhellach i'r gogledd yng nghwm Rhymni?

13:37

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank the Member for his question. Having an up-to-date adopted LDP is essential in order to secure the jobs, homes and infrastructure that communities need. The location and scale of growth in an LDP is a matter for the local authority to determine. However, I do believe that, where there are issues between neighbouring local authorities, these should be considered in the development of the LDP too.

Diolch i'r Aelod am ei gwestiwn. Mae mabwysiadu cynllun datblygu lleol cyfredol yn hanfodol er mwyn sicrhau'r swyddi, y cartrefi a'r seilwaith sydd eu hangen ar gymunedau. Mater i'r awdurdod lleol ei benderfynu yw lleoliad a graddfa twf mewn cynllun datblygu lleol. Fodd bynnag, pan fydd cwestiynau'n codi rhwng awdurdodau lleol cyfagos, dylid eu hystyried wrth ddatblygu'r cynllun datblygu lleol hefyd.

## Pobl sy'n Dlawd o ran Tanwydd

## People in Fuel Poverty

13:37

### Mark Isherwood [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

*6. Sut y mae Llywodraeth Cymru yn helpu pobl sy'n dlawd o ran tanwydd? OAQ(4)0415(NR)*

*6. How is the Welsh Government helping people in fuel poverty? OAQ(4)0415(NR)*

13:37

### Carl Sargeant [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

I thank the Member for his question. Welsh Government Warm Homes is funding the installation of energy efficiency measures to domestic properties occupied by low-income households and those living in deprived communities. The Nest scheme also provides householders living in Wales with access to free advice and support to help them reduce their energy bills.

Diolch i'r Aelod am ei gwestiwn. Mae Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru yn ariannu'r broses o osod mesuryddion arbed ynni mewn eiddo domestig a feddiannir gan aelwydydd incwm isel a'r rhai sy'n byw mewn cymunedau difreintiedig. Mae cynllun Nyth hefyd yn darparu mynediad at gyngor a chymorth am ddim i ddeiliaid tai sy'n byw yng Nghymru i'w helpu i leihau eu biliau ynni.

13:37

### Mark Isherwood [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Of course, we need the whole-person approach as well as the whole-house approach, which is why it's a social justice issue. However, the Competition and Markets Authority investigation into the energy market noted that households in Wales are particularly unlikely to shop around. How, therefore, do you respond to the call in the Fuel Poverty Coalition Cymru manifesto for the next Welsh Government to support independent advice services to help and support people in fuel poverty—emphasis on 'independent'?

Wrth gwrs, mae angen ymagwedd arnom sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn cyfan yn ogystal ag ar y tŷ cyfan, a dyna pam mai mater o gyfiawnder cymdeithasol yw hwn. Fodd bynnag, nododd ymchwiliad yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd i'r farchnad ynni fod cartrefi yng Nghymru yn arbennig o annhebygol o siopa o gwmpas. Sut, felly, rydych yn ymateb i'r alwad ym maniffesto Cynghrair Tlodi Tanwydd Cymru ar Lywodraeth nesaf Cymru i gefnogi gwasanaethau cynghori annibynnol i helpu a chynorthwyo pobl mewn tlodi tanwydd—gyda'r pwyslais ar 'annibynnol'?

13:38

### Carl Sargeant [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

I'm very proud of the energy efficiency scheme that we have here in Wales. It's making a tremendous impact on communities across the length and breadth of Wales. Let's take, for instance, what is happening with his party over the border. There is no national energy efficiency programme in England. The energy company obligation is a UK Government scheme to obligate larger suppliers to deliver energy efficiency measures to domestic premises in Britain. The ECO budget from 2017 is valued at £640 million per annum and I meet on a regular basis with the big six energy companies to make sure that we can develop and enhance our programmes alongside of theirs to make sure we have our more than fair share here in Wales to develop energy efficiency.

Rwy'n falch iawn o'r cynllun effeithlonrwydd ynni sydd gennym yma yng Nghymru. Mae'n cael effaith aruthrol ar gymunedau ledled Cymru. Gadewch i ni ystyried, er enghraifft, yr hyn sy'n digwydd gyda'i blaid ef dros y ffin. Nid oes rhaglen effeithlonrwydd ynni genedlaethol yn Lloegr. Cynllun gan Lywodraeth y DU yw rhwymedigaeth cwmni ynni i'w gwneud yn ofynnol i gyflenwyr mawr gyflwyno mesurau effeithlonrwydd ynni mewn adeiladau domestig ym Mhrydain. Bydd y gyllideb ar gyfer y rhwymedigaeth cwmni ynni yn £640 miliwn y flwyddyn o 2017, ac rwy'n cyfarfod yn rheolaidd â'r chwe chwmni ynni mawr i wneud yn siŵr ein bod yn gallu datblygu a gwella ein rhaglenni ochr yn ochr â'u rhaglenni hwy er mwyn sicrhau ein bod yn cael mwy na'n cyfran deg yma yng Nghymru ar gyfer datblygu effeithlonrwydd ynni.

13:39

### Lindsay Whittle [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Minister, the purpose of the Arbed and Nest energy efficiency schemes were to seriously reduce fuel poverty in Wales. You're probably correct in suggesting that it is successful in those homes that have benefited. But since the latest figures suggest that 330,000 households live in fuel poverty, do you believe that these schemes have been adequate?

Weinidog, diben y cynlluniau effeithlonrwydd ynni Arbed a Nyth oedd lleihau tlodi tanwydd yng Nghymru yn sylweddol. Mae'n debyg eich bod yn gywir yn awgrymu ei fod yn llwyddiannus yn y cartrefi hynny sydd wedi elwa. Ond gan fod y ffigurau diweddaraf yn awgrymu bod 330,000 o aelwydydd yn byw mewn tlodi tanwydd, a ydych yn credu bod y cynlluniau hyn wedi bod yn ddigonol?

13:39 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We can always do more. All Governments can do more, I think, but what we shouldn't do is not recognise the immense amount of work that has been done on both the schemes. The Nest programme: from April 2011 to March 2015, over 68,000 householders received advice and support to help them heat their homes more effectively, with over 70,000 who met the eligibility criteria receiving free home energy improvements.

Gallwn bob amser wneud mwy. Credaf y gall pob Llywodraeth wneud mwy, ond yr hyn na ddylem ei wneud yw peidio â chydnabod y gwaith aruthrol a wnaed gan y ddau gynllun. Y rhaglen Nyth: o fis Ebrill 2011 i fis Mawrth 2015, cafodd dros 68,000 o ddeiliaid tai gyngor a chymorth i'w helpu i wresogi eu cartrefi yn fwy effeithiol, gyda thros 70,000 a fodlonai'r meini prawf cymhwysedd yn cael gwelliannau ynni yn y cartref am ddim.

The schemes are very effective in making sure that homes across Wales are much more resilient moving into the future.

Mae'r cynlluniau'n effeithiol iawn yn sicrhau bod cartrefi ledled Cymru yn llawer mwy cydnerth ar gyfer y dyfodol.

But, of course, this Government and any other Government in future could do more, and I would encourage the next Government to invest heavily, as we currently do, in these energy efficiency programmes.

Ond wrth gwrs, gallai'r Llywodraeth hon ac unrhyw Lywodraeth arall yn y dyfodol wneud mwy, a byddwn yn annog y Llywodraeth nesaf i fuddsoddi'n sylweddol, fel rydym yn ei wneud ar hyn o bryd yn y rhaglenni effeithlonrwydd ynni hyn.

## Llifogydd yng Ngogledd Cymru

## Flooding in North Wales

13:40 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*7. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am faterion sy'n gysylltiedig â llifogydd yng ngogledd Cymru? OAQ(4)0428(NR)*

*7. Will the Minister make a statement on flooding issues in north Wales? OAQ(4)0428(NR)*

13:40 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Flood risk issues and potential schemes across all of Wales are raised with Welsh Government through the risk management authorities. Over this Government term, we will invest over £285 million in flood and coastal risk management, including over £77 million in north Wales.

Mae perygl llifogydd a chynlluniau posibl ledled Cymru yn cael eu dwyn i sylw Llywodraeth Cymru drwy'r awdurdodau rheoli risg. Dros dymor y Llywodraeth hon, byddwn yn buddsoddi dros £285 miliwn mewn rheoli perygl llifogydd ac arfordiroedd, gan gynnwys dros £77 miliwn yng ngogledd Cymru.

13:40 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister. I obviously welcome the £5 million extra that you announced yesterday. But, in Aberconwy, we see many repairs that are still required, and, of course, I'm including the grade I listed Gwydir castle, including its very rare and magnificent graded gardens, severely flooded over this winter on 12 separate occasions.

Diolch yn fawr, Weinidog. Rwy'n amlwg yn croesawu'r £5 miliwn ychwanegol a gyhoeddwyd gennych ddoe. Ond yn Aberconwy, mae angen gwneud llawer o waith atgyweirio o hyd, ac wrth gwrs, rwy'n cynnwys castell Gwydir, sy'n adeilad rhestredig gradd I, gan gynnwys ei erddi graddedig prin a godidog, a'r llifogydd difrifol yno ar 12 achlysur gwahanol dros y gaeaf hwn.

Now, Minister, this is a fundamental part of our historical heritage in north Wales, and the owners have actually lovingly restored this castle back with all of its original features. Minister, you know I've raised this with you outside this Chamber and I've not been too impressed with the lack of interest, shall we say, that you've afforded to this building. Minister, will you work with the owners, will you work with Natural Resources Wales, and will you work to ensure that we actually avoid flooding issues and the problem for this particular building, but, more importantly, help them to actually make some vital repairs that are now needed?

Nawr, Weinidog, mae hwn yn rhan annatod o'n treftadaeth hanesyddol yng ngogledd Cymru, ac mewn gwirionedd mae'r perchnogion wedi adfer y castell hwn yn ofalus iawn gan gadw pob un o'i nodweddion gwreiddiol. Weinidog, gwyddoch fy mod wedi crybwyll hyn wrthych y tu allan i'r Siambr hon, ac nid wyf yn rhy hapus ynglŷn â'ch diffyg diddordeb, gawn ni ddweud, yn yr adeilad hwn. Weinidog, a wnewch chi weithio gyda'r perchnogion, a wnewch chi weithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru, ac a wnewch chi weithio i sicrhau ein bod yn osgoi problemau llifogydd a phroblem yr adeilad hwn yn benodol, ond yn bwysicach, a wnewch chi eu helpu i wneud yr atgyweiriadau hanfodol sydd eu hangen yn awr?

13:41 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for her question. Again, another gift from the opposition parties. My priority is protecting people, not castles, in this. The fact of the matter is, in Dafydd Elis-Thomas's constituency, 300 people—300 properties—we protected in the Christmas period, and the Member opposite wants to protect gardens in a castle. Let's get our priorities right. This is about making sure we look after people across Wales, not castles, like that Member wishes to do.

Diolch i'r Aelod am ei chwestiwn. Unwaith eto, anrheg arall gan y gwrthbleidiau. Fy mlaenoriaeth yn hyn o beth yw diogelu pobl, nid cestyll. Y ffaith amdani yw bod 300 o bobl—300 eiddo—yn etholaeth Dafydd Elis-Thomas wedi cael eu diogelu dros gyfnod y Nadolig, ac mae'r Aelod gyferbyn â mi yn awyddus i warchod gerddi mewn castell. Gadewch i ni gael ein blaenoriaethau'n gywir. Mae hyn yn ymwneud â sicrhau ein bod yn gofalu am bobl ledled Cymru, nid cestyll, fel y mae'r Aelod yn dymuno ei wneud.

13:42 **Ann Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, carrying on the theme of protection of people, could I ask you to place on the record how much the Welsh Government has invested in protecting my constituents in the Vale of Clwyd from potential flood risks, both coastal and river?

Weinidog, gan barhau â thema diogelu pobl, a gaf fi ofyn i chi gofnodi faint y mae Llywodraeth Cymru wedi'i fuddsoddi yn diogelu fy etholwyr yn Nyffryn Clwyd rhag peryglon llifogydd posibl, ar yr arfordir ac o afonydd?

13:42 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for her question, and I'm sure I should thank the Member for actually inviting me to St Asaph during the Christmas period. Celebrating Christmas with Ann Jones on the banks of St Asaph was something I didn't think about this year, but it was certainly very welcoming.

Diolch i'r Aelod am ei chwestiwn, ac rwy'n siŵr y dylem ddiolch i'r Aelod am fy ngwahodd i Lanelwy dros gyfnod y Nadolig. Roedd dathlu'r Nadolig gydag Ann Jones ar y glannau yn Llanelwy yn rhywbeth nad oeddwn wedi meddwl amdano eleni, ond roedd yn sicr yn bleserus iawn.

Since the start of this Government, we've invested over £19 million into flood and coastal erosion risk management across Denbighshire County Council. This includes £6.6 million from European funding. The Member continues to write to me to ensure that this scheme is delivered effectively and efficiently by Natural Resources Wales, and I'm confident that they can do that. NRW have allocated £3 million, through the Wales infrastructure investment plan, to progress work at St Asaph in the next financial year.

Ers i'r Llywodraeth hon ddod i rym, rydym wedi buddsoddi dros £19 miliwn mewn rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yn ardal Cyngor Sir Ddinbych. Mae hyn yn cynnwys £6.6 miliwn o gyllid Ewropeaidd. Mae'r Aelod yn parhau i ysgrifennu ataf i sicrhau bod y cynllun yn cael ei gyflawni'n effeithiol ac yn effeithlon gan Cyfoeth Naturiol Cymru, ac rwy'n hyderus y gallant wneud hynny. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi dyrannu £3 miliwn, drwy'r cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru, i ddatblygu gwaith yn Llanelwy yn y flwyddyn ariannol nesaf.

13:43 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Weinidog, rwyf i wedi tynnu sylw, lawer gwaith, at ddifrod llifogydd pentref Tal-y-bont, pentref nad ydych chi wedi ymweld â fo eto, rwy'n gwybod. Ond, gan fod cynllun gwarchod Tal-y-bont a'r A55 wedi'i gytuno bellach gyda Chyngor Gwynedd, a allech chi gadarnhau y bydd y Llywodraeth yn cyllido cost y cynllun hwnnw yn llawn? Diolch.

Minister, I've highlighted a number of times the damage that flooding caused in the village of Talybont, a village that you haven't yet visited, I know. But, as the Talybont and the A55 flood protection scheme has now been agreed with Gwynedd Council, can you confirm that the Government will fund the cost of that scheme in full? Thank you.

13:43 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I just have to correct the Member: I have visited Talybont. I was there only the other day with the fantastic candidate, Sion Jones, for that particular area. Can I just also say the Member received additional funding for Gwynedd of £0.5 million—£551,100 to the Gwynedd authority? [Interruption.] The Member doesn't like my response, Presiding Officer. I'm not quite sure what I've said.

Mae'n rhaid i mi gywiro'r Aelod: rwyf wedi ymweld â Thal-y-bont. Roeddwn yno y diwrnod o'r blaen gyda'r ymgeisydd gwych, Sion Jones, dros yr ardal benodol honno. A gaf fi ddweud hefyd fod yr Aelod wedi derbyn cyllid ychwanegol i Wynedd o £0.5 miliwn—£551,100 i awdurdod Gwynedd? [Torri ar draws.] Nid yw'r Aelod yn hoffi fy ymateb, Lywydd. Nid wyf yn hollol siŵr beth rwyf wedi'i ddweud.

13:44 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, we're listening to you. Just carry on.

Wel, rydym yn gwrando arnoch. Parhewch.

13:44

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Oh, thank you. I'm not sure if the Member would like me to repeat the fact that I was in Talybont only last week—

O, diolch. Nid wyf yn siŵr os yw'r Aelod yn dymuno i mi ailadrodd y ffaith fy mod yn Nhal-y-bont yr wythnos diwethaf—

13:44

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

No, I don't think we need you to repeat anything.

Na, nid wyf yn credu ein bod angen i chi ailadrodd unrhyw beth.

13:44

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

[Continues.]—with the member, Sion Jones, the Labour candidate for the area.

[Yn parhau.]—gyda'r aelod, Sion Jones, ymgeisydd Llafur dros yr ardal.

The issue for Gwynedd: they did receive additional funding last month of £551,100 for the development and to reassess the issues that were concerning the Member, which occurred on the flooding of Boxing Day and the days after that period.

Y cwestiwn ynglŷn â Gwynedd: cawsant gyllid ychwanegol fis diwethaf o £551,100 ar gyfer y datblygiad ac i ailasesu'r problemau a oedd yn peri pryder i'r Aelod, problemau a ddigwyddodd gyda'r llifogydd ar Ddydd San Steffan a'r diwrnodau ar ôl y cyfnod hwnnw.

13:44

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, it's very interesting, but there was a bit too much information about who was with you at that point. Question 8, Alun Ffred Jones. [Interruption.] Order. Question 8, Alun Ffred Jones. Did you want to ask it?

Wel, mae'n ddiddorol iawn, ond roedd yna ychydig gormod o wybodaeth ynglŷn â phwy oedd gyda chi ar y pryd. Cwestiwn 8, Alun Ffred Jones. [Torri ar draws.] Trefn. Cwestiwn 8, Alun Ffred Jones. A ydych am ei ofyn?

13:44

## Alun Ffred Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Ie. Cwestiwn 8, ie?

Yes. Question 8, yes?

### Prosiectau Ynni Cymunedol

### Community Energy Projects

13:44

## Alun Ffred Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*8. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am rôl prosiectau ynni cymunedol fel rhan o strategaeth newid hinsawdd Llywodraeth Cymru? OAQ(4)0419(NR)[W]*

*8. Will the Minister make a statement on the role of community energy projects as part of the Welsh Government's climate change strategy? OAQ(4)0419(NR)[W]*

13:45

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for Arfon for his question. I recognise that community energy has a key role in tackling climate change by reducing our reliance on fossil fuels, as well as providing the opportunity for communities to reduce their carbon footprint. That is why I launched the Welsh Government's local energy service, which provides support to our communities and SMEs to develop their own renewable energy projects.

Diolch i'r Aelod dros Arfon am ei gwestiwn. Rwy'n cydnabod bod gan ynni cymunedol rôl allweddol yn y broses o fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd drwy leihau ein dibyniaeth ar danwydd ffosil, yn ogystal â darparu cyfle i gymunedau leihau eu hôl troed carbon. Dyna pam y lansiais wasanaeth ynni lleol Llywodraeth Cymru, sy'n rhoi cymorth i'n cymunedau a'n busnesau bach a chanolig ddatblygu eu prosiectau ynni adnewyddadwy eu hunain.

13:45

## Alun Ffred Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Wythnos yn ôl, roeddwn i'n dathlu dechrau dau gynllun hydro cymunedol yn Arfon, Ynni Padarn Peris ac Ynni Ogwen, wrth iddyn nhw gynnig cyfle i'r cyhoedd brynu cyfranddaliadau yn y projectau yna. A wnewch chi ymuno â mi yn llongyfarch y ddau grŵp yma, ynghyd ag Ynni Anafon, wrth gwrs, yn Aber, ar eu blaengaredd yn dechrau cynlluniau ddaw a manteision mawr i'r ardaloedd hynny yn y blynyddoedd sydd i ddod?

A week ago, I was celebrating the launch of two community hydro scheme in Arfon, Ynni Padarn and Ynni Ogwen, as they offered an opportunity for the public to buy shares in those projects. Would you join with me in congratulating these two groups, as well as Ynni Anafon in Aber, on their innovation in establishing projects that will bring great benefits to those areas in years to come?

13:45 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Indeed, the Member is right to raise this very important issue about renewable energy in the Chamber today. I welcome and support many groups across Wales and it's something that I would encourage, again, the future Government to make investment in to support resilient communities, moving forward.

Yn wir, mae'r Aelod yn iawn i grybwyll y mater pwysig iawn hwn ynghylch ynni adnewyddadwy yn y Siambr heddiw. Rwy'n croesawu ac yn cefnogi nifer o grwpiau ledled Cymru ac mae'n rhywbeth y byddwn, unwaith eto, yn annog y Llywodraeth yn y dyfodol i fuddsoddi ynddo i gefnogi cymunedau cydnerth ar gyfer y dyfodol.

13:46 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister.

Diolch, Weinidog.

## 2. Cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi

*Mae [R] yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant. Mae [W] yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

## 2. Questions to the Minister for Communities and Tackling Poverty

*[R] signifies the Member has declared an interest. [W] signifies that the question was tabled in Welsh.*

13:46 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to item 2, which is questions to the Minister for Communities and Tackling Poverty. Question 1 is from William Graham.

Symudwn yn awr at eitem 2, sef cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi. Daw cwestiwn 1 gan William Graham.

### Gwasanaethau Chwarae o dan Oruchwyliaeth

### Supervised Play Services

13:46 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*1. A wnaiff y Gweinidog amlinellu sut y bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau na fydd rheoliadau gofal plant yn cael effaith andwyol ar wasanaethau chwarae o dan oruchwyliaeth a ddarperir gan awdurdodau lleol? OAQ(4)0433(CTP)*

*1. Will the Minister outline how the Welsh Government will ensure that supervised play services provided by local authorities are not adversely affected by childcare regulations? OAQ(4)0433(CTP)*

13:46 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty*

Thank you. Local authority play services are subject to childcare registration under the Children and Families (Wales) Measure 2010. The revised national minimum standards for regulated childcare set out how the regulations must be met and take account of the differing types of settings, including play provision.

Diolch. Mae gwasanaethau chwarae awdurdodau lleol yn ddarostyngedig i drefniadau cofrestru gofal plant o dan Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010. Mae'r safonau gofynnol cenedlaethol diwygiedig ar gyfer gofal plant a reoleiddir yn nodi sut y mae'n rhaid i'r rheoliadau gael eu bodloni ac yn ystyried y gwahanol fathau o leoliadau, gan gynnwys darpariaeth gwasanaethau chwarae.

13:46 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm grateful to the Minister for her answer, but, obviously, disappointed by her confirmation of that. Isn't there a possibility of some deregulation of parts of that? Because summer play schemes organised by councils, particularly the Cwmbran Community Council and by other councils right across Wales, are provided to allow children to integrate and develop through supervised play activities. Though they seem to be caught by this regulation, could you liaise with colleagues to separate supervised play activities from the regulations that safeguard our children in care services?

Rwy'n ddiolchgar i'r Gweinidog am ei hateb, ond yn amlwg yn siomedig ei bod wedi cadarnhau hynny. Onid yw'n bosibl dadreoleiddio rhannau o hynny? Oherwydd caiff cynlluniau chwarae haf a drefnir gan gynghorau, a chan Gyngor Cymuned Cwmbrân yn benodol a chynghorau eraill ledled Cymru, eu darparu er mwyn caniatáu i blant integreiddio a datblygu drwy weithgareddau chwarae dan oruchwyliaeth. Er ei bod yn ymddangos eu bod yn cael eu dal gan y rheoliad hwn, a allech gysylltu â chydweithwyr i wahanu gweithgareddau chwarae dan oruchwyliaeth oddi wrth y rheoliadau sy'n diogelu ein plant mewn gwasanaethau gofal?

13:47 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

The short answer is 'no'—that we won't be looking at any deregulation. I am aware of the issue that you have just mentioned. It's obviously up to local authorities and community councils how they provide those schemes. For instance, in relation to Torfaen, I was made aware of the proposed changes that they're bringing forward for their provision prior to the summer of last year, so, before any decision was taken to extend the registration of childcare.

Yr ateb syml yw 'na'—na fyddwn yn edrych ar unrhyw ddadreoleiddio. Rwy'n ymwybodol o'r mater rydych newydd ei grybwyll. Yn amlwg, penderfyniad yr awdurdodau lleol a'r cynghorau cymuned yw sut y maent yn darparu'r cynlluniau hyn. Er enghraifft, mewn perthynas â Thorfaen, cefais wybod am y newidiadau arfaethedig y maent yn eu cyflwyno i'w darpariaeth cyn yr haf y llynedd, ac felly cyn i unrhyw benderfyniad gael ei wneud i ymestyn trefniadau cofrestru gofal plant.

Senedd.tv Fideo Video

**Dechrau'n Deg**

**Flying Start**

13:47 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

*2. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y gellir prif-ffrydio yr hyn a gyflawnir gan Dechrau'n Deg? OAQ(4)0437(CTP)*

*2. Will the Minister make a statement on how the achievements of Flying Start can be mainstreamed? OAQ(4)0437(CTP)*

Senedd.tv Fideo Video

13:47 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Thank you. A programme for government commitment was to double the number of children benefitting from Flying Start. We exceeded the target of 36,000 a year early, and recent statistics show we are well on track to reach more children again this year. We remain committed to improving outcomes for children and their families.

Diolch. Un o ymrwymiadau'r rhaglen lywodraethu oedd dyblu nifer y plant sy'n elwa o Dechrau'n Deg. Rydym wedi rhagori ar y targed o 36,000 flwyddyn yn gynnar, ac mae ystadegau diweddar yn dangos ein bod yn bendant ar y trywydd iawn i gyrraedd mwy o blant unwaith eto eleni. Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i wella canlyniadau i blant a'u teuluoedd.

Senedd.tv Fideo Video

13:48 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Minister, during your visit to the Pentwyn Flying Start with me recently, we saw how well health visitors were working with family support workers and that this was really joining up the support that families got. Parenting doesn't come with instructions, and so it can be very difficult. I just wondered how well we are learning from the successes of Flying Start in enabling that to be the way in which all early years services work across the piece.

Weinidog, yn ystod eich ymweliad â Dechrau'n Deg Pentwyn gyda mi yn ddiweddar, gwelsom pa mor dda y gweithiai ymwelwyr iechyd gyda gweithwyr cymorth i deuluoedd a bod hyn yn sicr yn cydgysylltu'r cymorth roedd teuluoedd yn ei gael. Nid oes cyfarwyddiadau'n dod gyda rhianta, ac felly gall fod yn anodd iawn. Roeddwn yn meddwl tybed faint rydym yn ei ddysgu o lwyddiannau Dechrau'n Deg o ran galluogi hynny i fod yn ffordd o weithio i'r holl wasanaethau blynyddoedd cynnar yn gyffredinol.

Senedd.tv Fideo Video

13:48 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Yes, that was a very good visit we had, and I certainly found it very beneficial, you know, speaking with the health visitors. The Flying Start programme and generic health visiting services, I think, work very well together. I've also been very pleased to see the number of midwives—that has increased in Flying Start settings right across Wales. We've now got Healthy Child Wales in the portfolio of my colleague the Minister for Health and Social Services, and I think, together, Flying Start and Healthy Child Wales will offer a much more consistent, a very prudent and a very evidence-based approach. I think that will identify and respond to families' strengths and needs. You're quite right, parenting is probably one of the most difficult jobs we'll ever do and it doesn't come with a textbook, so I think it is really important that we do support families, going forward.

Do, cawsom ymweliad da iawn, a chefais gryn fudd, wyddoch chi, o siarad â'r ymwelwyr iechyd. Credaf fod rhaglen Dechrau'n Deg a gwasanaethau ymwelwyr iechyd generig yn gweithio'n dda iawn gyda'i gilydd. Rwyf hefyd wedi bod yn falch iawn o weld nifer y bydwragedd—mae'r nifer wedi cynyddu mewn lleoliadau Dechrau'n Deg ledled Cymru. Mae Plentyn Iach Cymru bellach ym mhortffolio fy nghyd-Aelod, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a chredaf y bydd Dechrau'n Deg a Plentyn Iach Cymru gyda'i gilydd yn cynnig dull llawer mwy cyson a darbodus o weithredu ar sail tystiolaeth. Credaf y bydd hynny'n nodi ac yn ymateb i gryfderau ac anghenion teuluoedd. Rydych yn hollol iawn, mae'n debyg mai rhianta yw un o'r gorchwylion mwyaf anodd y byddwn yn eu gwneud ac nid oes gwerslyfr ar ei gyfer, felly credaf ei bod yn bwysig iawn ein bod yn cefnogi teuluoedd yn y dyfodol.

Senedd.tv Fideo Video

13:49 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, previous analyses of Flying Start performance have indicated or have referred to a lack of parental awareness of the schemes and also the difficulty of retaining and training health workers within the schemes—a fact I know that you've recognised yourself. I just wondered if you could update us on how that's proceeding. Are we able to engage more parents? Are we able to keep more of the medical professionals that we need in that scheme to help promote it?

Weinidog, mae dadansoddiadau blaenorol o berfformiad Dechrau'n Deg wedi dynodi neu wedi cyfeirio at ddiffyg ymwybyddiaeth ymhlith rhieni o'r cynlluniau yn ogystal â'r anhawster o gadw a hyfforddi gweithwyr iechyd o fewn y cynlluniau—ffaith y gwn eich bod wedi'i chydnabod eich hun. Tybed a allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni ynglŷn â sut y mae hynny'n mynd rhagddo. A ydym yn gallu ymgysylltu â mwy o rieni? A ydym yn gallu cadw mwy o'r gweithwyr meddygol proffesiynol sydd eu hangen arnom yn y cynllun hwnnw i helpu i'w hyrwyddo?

13:50 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

During the visit I did that Jenny Rathbone just referred to, it was very interesting to talk to the health visitors there about what we could do to make it attractive. Actually, I think every health visitor—and we met about six on this visit—wanted to stay in the Flying Start setting. They felt that they had more of an input with families than perhaps some of the generic health visitors did for the longer term, obviously. It is an issue. I'm having discussions with the Minister for Health and Social Services. It's very important that we have the correct number of health visitors. I also mentioned midwives because that's a similar issue. Some are seconded from health boards, but we do want to keep that sort of experience in the Flying Start settings.

Yn ystod yr ymweliad y cyfeiriodd Jenny Rathbone ato, roedd yn ddiddorol iawn siarad â'r ymwelwyr iechyd yno ynglŷn â'r hyn y gallem ei wneud i'w wneud yn ddeniadol. A dweud y gwir, credaf fod pob ymwelydd iechyd—a chyfarfuom â thua chwech yn ystod yr ymweliad—yn dymuno aros yn y lleoliad Dechrau'n Deg. Roeddent yn teimlo efallai fod mwy o fewnbwn ganddynt gyda theuluoedd na rhai o'r ymwelwyr iechyd generig yn y tymor hwy, yn amlwg. Mae'n broblem. Rwy'n cael trafodaethau gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'n bwysig iawn fod y nifer cywir o ymwelwyr iechyd gennym. Crybwyllais fydwragedd hefyd am fod hwnnw'n fater tebyg. Mae rhai'n cael eu secondio o fyrddau iechyd, ond rydym yn awyddus i gadw'r math hwnnw o brofiad yn y lleoliadau Dechrau'n Deg.

13:50 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Weinidog, rwy'n siŵr y byddwch wedi darllen adroddiad a gyhoeddwyd fis diwethaf, a oedd yn cydnabod bod yna nifer fach o rieni nad oedden nhw'n gallu cael gwasanaethau Cymraeg o fewn Dechrau'n Deg achos nad oedd digon o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael. Beth yw eich ymateb i'r sefyllfa yna, wrth gofio'r holl ddadleuon yr ydym wedi'u cael yma, a pha gamau ydych chi'n galw ar gynghorau lleol i'w cymryd i wella'r sefyllfa?

Minister, I'm sure you will have read a report published last month, which stated that a small number of parents weren't able to access Welsh-medium services within Flying Start because there weren't enough Welsh-speaking staff available. What's your response to that situation, given all the debates that we've had here on the issue, and what steps would you urge local authorities to take to improve the situation?

13:51 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, it's very important that, if a family want to have their service delivered through the medium of the Welsh language, they are able to access that. I haven't had any issues with people complaining that they haven't. It's an issue that I will discuss with local authorities, if it's raised with them, but I haven't had any specific enquiries about it at all.

Wel, mae'n bwysig iawn, os yw teulu'n dymuno i'w gwasanaeth gael ei ddarparu drwy gyfrwng y Gymraeg, eu bod yn gallu cael hynny. Nid wyf wedi cael unrhyw broblemau gyda phobl yn cwyno nad ydynt wedi gallu gwneud hynny. Mae'n fater y byddaf yn ei drafod gydag awdurdodau lleol, os caiff ei ddwyn i'w sylw, ond nid wyf wedi cael unrhyw ymholiadau penodol ynglŷn â hynny o gwbl.

## Cwestiynau Heb Rybudd gan Lefarwyr y Pleidiau

## Questions Without Notice from Party Spokespeople

13:51 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to questions from party spokespeople. First this afternoon is Plaid Cymru spokesperson, Rhodri Glyn Thomas.

Symudwn yn awr at gwestiynau gan lefarwyr y pleidiau. Llefarydd Plaid Cymru, Rhodri Glyn Thomas, sy'n gyntaf y prynhawn yma.

13:51 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Weinidog, rydych wedi gwneud ymrwymiad i ddileu tlodi ymysg plant erbyn 2020—yr un ymrwymiad ag y mae pob un o'ch rhagflaenwyr wedi'i wneud ers 1999. Beth sy'n eich gwneud chi'n hyderus bod modd ichi gyflawni'r ymrwymiad hwnnw?

Minister, you have made a commitment to eradicate child poverty by 2020—the same commitment that each one of your predecessors have made since 1999. What makes you confident that it's possible to achieve that commitment?

Senedd.tv
Fideo Video

13:52 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Well, we certainly have re-affirmed our ambition to eradicate child poverty by 2020, unlike the UK Government which, as you'll be aware, has stepped away from that target. We revised our child poverty strategy last year and, in our consultation, it was very clear to me that stakeholders wanted to keep that target there. It is being made even more difficult by the welfare reform changes that we are seeing from the UK Government, but we do remain committed to that ambition.

Wel, rydym yn sicr wedi cadarnhau ein huchelgais i ddileu tlodi plant erbyn 2020, yn wahanol i Lywodraeth y DU, sydd wedi troi cefn ar y targed hwnnw, fel y gwyddoch. Adolygasom ein strategaeth tlodi plant y llynedd, ac yn ein hymgynghoriad, roedd yn amlwg iawn i mi fod y rhanddeiliaid yn awyddus i gadw'r targed hwnnw yn ei le. Mae newidiadau diwygio lles a welwn gan Lywodraeth y DU yn gwneud hyn hyd yn oed yn anoddach, ond rydym yn dal wedi ymrwymo i'r uchelgais hwnnw.

Senedd.tv
Fideo Video

13:52 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Rwy'n deall bod gennych chi uchelgais i wneud hynny, Weinidog, ac eich bod chi wedi'i osod fel targed. Yr hyn nad wyf yn gallu ei ddeall o'ch ateb chi ydy sut yn union rŷch chi'n mynd i weithredu'r ymrwymiad hwnnw. Fe gyhoeddodd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol adroddiad beirniadol iawn o ymdrechion Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â thlodi ymysg plant yr haf diwethaf. Pa newidiadau ŷch chi wedi'u cyflwyno yn sgil argymhellion yr adroddiad hwnnw?

I understand that you have an ambition to do that, Minister, and that you've set it as a target. What I cannot understand from your reply is how exactly you are going to make good on your pledge. The Communities, Equality and Local Government Committee did publish a very critical report of Welsh Government's attempts to eradicate child poverty last summer. What changes have you introduced in the wake of the recommendations of that report?

Senedd.tv
Fideo Video

13:53 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

You'll be aware—because obviously you sit on that committee, and I've given evidence to that committee—that we have taken a refreshed approach to the way we tackle poverty, not just child poverty but the way we tackle poverty. Because, obviously, if a child lives in poverty, it's because their parents are in poverty. So, we have refreshed our approach right across Government. We've got much more of a focus on employability, on upskilling and early years to try and ensure that we do reach that target of our ambition to eradicate child poverty by 2020.

Fe wyddoch—oherwydd, yn amlwg, rydych yn aelod o'r pwyllgor hwnnw, ac rwyf wedi rhoi tystiolaeth i'r pwyllgor hwnnw—ein bod wedi mabwysiadu ymagwedd newydd o ran y ffordd rydym yn mynd i'r afael â thlodi, nid tlodi plant yn unig ond y ffordd rydym yn mynd i'r afael â thlodi. Oherwydd, yn amlwg, os yw plentyn yn byw mewn tlodi, mae hynny oherwydd bod eu rhieni yn byw mewn tlodi. Felly, rydym wedi adnewyddu ein hymagwedd ar draws y Llywodraeth. Mae gennym lawer mwy o ffocws ar gyflogadwyedd, ar uwchsgilio a'r blynyddoedd cynnar i geisio sicrhau ein bod yn cyrraedd y targed hwnnw yn ein huchelgais i ddileu tlodi plant erbyn 2020.

Senedd.tv
Fideo Video

13:53 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Wel, y cwestiwn a ofynnais i, Weinidog, oedd: pa newidiadau ŷch chi wedi'u cyflwyno yn y ffordd y mae eich adran chi yn mynd i'r afael â'r broblem yma? Un peth yw dweud eich bod chi wedi cymryd agwedd newydd —'refreshed' yn eich geiriau chi—ato fe, ond beth yn union ydych chi wedi'i wneud i newid sefyllfa sydd wedi bod yn fethiant i Lywodraeth Cymru ers 1999? Ac os nad ydych wedi cyflwyno newidiadau, sut ŷch chi'n gallu dweud wrthym ni fod gennych chi ymrwymiad i ddileu tlodi ymhlith plant erbyn 2020?

Well, the question I asked, Minister, was: what changes have you introduced in the way in which your department addresses this problem? It's one thing to say that you have taken a new, refreshed approach to it, but what exactly have you done to change a situation that has been a failure for the Welsh Government since 1999? If you haven't introduced any changes, how can you tell us that you are committed to the eradication of child poverty by 2020?

Senedd.tv
Fideo Video

13:54 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Well, the changes are part of the refreshed approach we have to tackling poverty. So, for instance, in Communities First we've got much more of a focus on employability, and you'll be aware of schemes such as Lift and PaCE, which are all working alongside the Communities First infrastructure to ensure that parents do have the opportunities to gain employment and skills.

Wel, mae'r newidiadau yn rhan o'r ymagwedd newydd sydd gennym tuag at drechu tlodi. Felly, er enghraifft, gyda Cymunedau yn Gyntaf mae gennym lawer mwy o ffocws ar gyflogadwyedd, ac fe fyddwch yn ymwybodol o gynlluniau fel Esgyn a Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth, sy'n gweithio ochr yn ochr â seilwaith Cymunedau yn Gyntaf i sicrhau bod rhieni yn cael y cyfleoedd i gael gwaith a meithrin sgiliau.

Senedd.tv Fideo Video

13:54 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

We now move to the Welsh Conservative spokesperson, Mark Isherwood.

Symudwn yn awr at lefarydd y Ceidwadwyr Cymreig, Mark Isherwood.

Senedd.tv Fideo Video

13:54 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Thank you. Under your measures, we have a paradox where child poverty can appear to reduce when an economy is getting poorer. Of course, one of the contributing factors is family breakdown. In Scotland, it's Year of the Dad, organised in partnership with the Scottish Government and Fathers Network Scotland to highlight the positive contribution fathers make to children, families and society. How would you work, if in Welsh Government or opposition after the next election, if you were here, to support the greater inclusion of fathers in a positive role in the lives of their children with emulation of and learning from the Scottish experience by having a year of the dad in Wales?

Diolch. O dan eich mesurau, mae gennym baradocs lle y gall ymddangos bod tlodi plant yn lleihau pan fo economi yn mynd yn dlotach. Wrth gwrs, un o'r ffactorau sy'n cyfrannu yw teuluoedd yn chwalu. Yn yr Alban, mae'n Flwyddyn y Tad, a drefnwyd gan Lywodraeth yr Alban mewn partneriaeth â Fathers Network Scotland i dynnu sylw at y cyfraniad cadarnhaol y mae tadau yn ei wneud i blant, teuluoedd a chymdeithas. Sut y byddech yn gweithio, fel Llywodraeth Cymru neu fel gwrthblaid ar ôl yr etholiad nesaf, os byddwch yma, i gefnogi cynnwys mwy ar dadau mewn rôl gadarnhaol ym mywydau eu plant, gan efelychu a dysgu o brofiad yr Alban drwy gael blwyddyn y tad yng Nghymru?

Senedd.tv Fideo Video

13:55 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

One of our main difficulties is what I said before and is in relation to the welfare reform changes that are coming from the UK Government. We work with promoting engagement with fathers. Local authorities are absolutely expected to actively promote services to fathers and support their engagement. And, again, with Flying Start, that's another area where we work very closely to ensure that fathers are engaged.

Un o'n prif anawsterau yw'r hyn a ddywedais o'r blaen, ac mae'n ymwneud â newidiadau diwygio lles Llywodraeth y DU. Rydym yn gweithio i hyrwyddo ymgysylltiad gyda thadau. Disgwylir i awdurdodau lleol fynd ati i hyrwyddo gwasanaethau i dadau a chefnogi eu hymgysylltiad. Ac unwaith eto, gyda Dechrau'n Deg, dyna faes arall lle rydym yn gweithio'n agos iawn er mwyn sicrhau bod tadau yn cael eu cynnwys.

Senedd.tv Fideo Video

13:55 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Well, I hope that means you would draw on the Scottish experience, but perhaps you'll clarify in your next response. Charities in Wales, such as FNF Both Parents Matter, have worked with 4Children, the UK charity all about children and families, to facilitate dads' focus groups to inform their inquiry into families, and their resulting 4Children report, 'Britain's Families: Thriving or Surviving?', says that fathers can struggle to be as hands-on in their parenting. How, therefore, do you respond to their recommendations that all family services should be welcoming to fathers, when the evidence from Wales suggested otherwise, and that we need a wider public campaign to emphasise the important role of fathers in modern family life?

Wel, gobeithiaf fod hynny'n golygu y byddech yn pwyso ar brofiad yr Alban, ond efallai y byddwch yn egluro hynny yn eich ymateb nesaf. Mae elusennau yng Nghymru, megis FNF Both Parents Matter, wedi gweithio gyda 4Children, elusen y DU sy'n ymwneud â phlant a theuluoedd, er mwyn hwyluso grwpiau ffocws i dadau i lywio eu hymchwiliad i deuluoedd, ac mae eu hadroddiad 4Children sy'n deillio o hynny, 'Britain's Families: Thriving or Surviving?', yn dweud y gall tadau ei chael hi'n anodd rhianta mewn modd mor ymarferol â mamau. Sut, felly, rydych yn ymateb i'w hargymhellion y dylai pob gwasanaeth i deuluoedd fod yn groesawgar i dadau, pan oedd y dystiolaeth o Gymru'n awgrymu fel arall, a'n bod angen ymgyrch gyhoeddus ehangach i bwysleisio rôl bwysig tadau yn y bywyd teuluol modern?

Senedd.tv Fideo Video

13:56 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I do think, as a Government, we recognise it is vital that fathers are part of that hands-on parenting that you referred to. I mentioned Flying Start, and we had a worker from Swansea Flying Start who is actually called a 'dads worker' who received an award recently, and it's because our dads workers do go out and engage with fathers, making sure that they build relationships with the fathers, and they, in turn, can build relationships with their children.

Wel, credaf ein bod ni, fel Llywodraeth, yn cydnabod ei bod yn hanfodol fod tadau'n rhan o'r rhianta ymarferol y cyfeirioch ato. Soniais am Dechrau'n Deg, ac enillodd gweithiwr o Dechrau'n Deg Abertawe a elwir yn 'weithiwr tadau' wobr yn ddiweddar, ac mae hynny oherwydd bod ein gweithwyr tadau yn mynd allan ac yn ymgysylltu â thadau, gan sicrhau eu bod yn meithrin perthynas â'r tadau, fel eu bod hwythau, yn eu tro, yn gallu meithrin perthynas gyda'u plant.

13:57 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, as one Welsh parents said in the report:

'Everything is focused on the mothers, dads are left in the background. From the midwives, health visitors, dads get left in the dark. Everything concentrates on the mother.'

Mother, of course, is crucial, but so is dad. Given that the proportion of children being taken into care in Wales has been rising and is significantly higher than the numbers going into care in England, how do you respond to the statement by the Children's Commissioner for Wales that contributing factors could be less-effective family support services, more risk-averse professionals and legal teams, and higher child poverty levels, and that the Welsh Government's emphasis on reducing looked-after children numbers must be accompanied by effective support for children and their families, which, of course, means both parents?

Wel, fel y dywedodd un rhiant o Gymru yn yr adroddiad:

Mae popeth yn canolbwyntio ar y mamau, mae tadau'n cael eu gadael yn y cefndir. O'r bydwragedd, ymwelwyr iechyd, mae tadau'n cael eu gadael yn y tywyllwch. Mae popeth yn canolbwyntio ar y fam.

Mae mam, wrth gwrs, yn hanfodol, ond mae dad yn hanfodol hefyd. O ystyried bod cyfran y plant sy'n cael eu rhoi mewn gofal yng Nghymru wedi bod yn codi ac yn sylweddol uwch na'r niferoedd sy'n cael eu rhoi mewn gofal yn Lloegr, sut rydych yn ymateb i'r datganiad gan Gomisiynydd Plant Cymru y gallai ffactorau perthnasol gynnwys gwasanaethau cymorth llai effeithiol i deuluoedd, mwy o weithwyr proffesiynol a thimau cyfreithiol sy'n wrth-risg, a lefelau tlodi plant uwch, ac i gyd-fynd â phwyslais Llywodraeth Cymru ar leihau niferoedd y plant sy'n derbyn gofal, rhaid cael cymorth effeithiol i blant a'u teuluoedd, sydd, wrth gwrs, yn golygu'r ddau riant?

13:57 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We have a wide range of schemes that support families, and they do support both parents. You mentioned that one person said everything is about the mother. Well, I'm not going to make comment on one person, but I absolutely agree that all our schemes are there to support both parents, both mothers and fathers.

Mae gennym ystod eang o gynlluniau sy'n cefnogi teuluoedd, ac maent yn cefnogi'r ddau riant. Fe sonioch fod un person wedi dweud bod popeth yn ymwneud â'r fam. Wel, nid wyf am wneud sylwadau ar un person, ond cytunaf yn llwyr fod ein holl gynlluniau yno i gefnogi'r ddau riant, y mamau a'r tadau.

13:58 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

And finally, the Welsh Liberal Democrats spokesperson, Peter Black.

Ac yn olaf, llefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Peter Black.

13:58 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. Minister, thank you for your letter, which I received today, with regard to the disclosure and barring service that is run by the Wales Council for Voluntary Action on behalf the Welsh Government. You say in your letter that you've been engaged in talks on the changes to this service since 2013, and yet, when I've met with the sports council for Wales and other sports bodies, I'm told that they have never been engaged in this process, despite the fact that 50 per cent of the DBS checks actually relate to sports activities. Can you explain why it is that your consultation process has omitted dealing with the sports council for Wales, the WRU and other sports bodies that have a vested interest in the continuation of this service?

Diolch, Lywydd. Weinidog, diolch am eich llythyr, a dderbyniais heddiw, ynghylch y gwasanaeth datgelu a gwahardd sy'n cael ei redeg gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ar ran Llywodraeth Cymru. Rydych yn dweud yn eich llythyr eich bod wedi bod yn trafod y newidiadau i'r gwasanaeth hwn ers 2013, ac eto, pan wyf yn cyfarfod â chyngor chwaraeon Cymru a chyrff chwaraeon eraill, dywedant wrthyf nad ydynt wedi bod yn rhan o'r broses hon, er gwaethaf y ffaith fod 50 y cant o wiriadau'r gwasanaeth datgelu a gwahardd yn ymwneud â gweithgareddau chwaraeon. A allwch egluro pam nad yw eich proses ymgynghori wedi ymwneud â chyngor chwaraeon Cymru, Undeb Rygbi Cymru a chyrff chwaraeon eraill sydd â buddiant ym mharhad y gwasanaeth hwn?

13:59 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, as I said in my letter to you, my officials have been engaged in this work with the WCVA, back since 2013, and it's the WCVA that has been running this scheme. My understanding is that they had engaged with Sport Wales. You're quite right; you point out that about 50 per centre of the checks that are done are for the variety of sporting bodies across Wales. I think circumstances have changed greatly since the scheme was introduced 12 years ago and that is why that work started back in 2013, before I came into portfolio.

Wel, fel y dywedais yn fy llythyr atoch, mae fy swyddogion wedi bod yn gwneud y gwaith hwn gyda Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ers 2013, a'r Cyngor hwnnw sydd wedi bod yn rhedeg y cynllun. Yn ôl yr hyn rwy'n ei ddeall, roeddent wedi ymgysylltu â Chwaraeon Cymru. Rydych yn hollol iawn; rydych yn nodi bod oddeutu 50 y cant o'r gwiriadau a wneir ar gyfer yr amryw o gyrff chwaraeon ledled Cymru. Credaf fod amgylchiadau wedi newid yn sylweddol ers i'r cynllun gael ei gyflwyno 12 mlynedd yn ôl, a dyna pam y dechreuodd y gwaith hwnnw yn ôl yn 2013, cyn i mi gael y portffolio hwn.

13:59 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I understand, Minister, you have been engaged with WCVA, and that is not in doubt, and I accept that you understand also that 50 per cent of these checks are with sports bodies. So, it is puzzling as to why you assumed automatically that sports bodies would be consulted with when you hadn't actually actively engaged with them. It does seem to me that that assumption has left many bodies in a very difficult situation indeed, and there is a danger of some activities ceasing altogether because these checks could not be pursued. Minister, when you took this decision, you will of course have had to complete a children's challenge rights impact assessment, and also a risk assessment. Could you give an indication of when these will be published, please?

Weinidog, deallaf eich bod wedi bod yn ymgysylltu â Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, ac nid oes amheuaeth am hynny, ac rwy'n derbyn eich bod hefyd yn deall bod 50 y cant o'r gwiriadau hyn ar gyfer cyrff chwaraeon. Felly, mae pam eich bod wedi cymryd yn ganiataol y byddid yn ymgysylltu â chyrff chwaraeon pan nad oeddech wedi mynd ati'n weithredol i ymgysylltu â hwy mewn gwirionedd yn peri penbleth. Ymddengys i mi fod y rhagdybiaeth honno wedi rhoi llawer o gyrff mewn sefyllfa wirioneddol anodd, ac mae perygl y bydd rhai gweithgareddau'n dod i ben yn gyfan gwbl gan nad oedd modd bwrw ymlaen â'r gwiriadau hyn. Weinidog, pan wnaethoch y penderfyniad hwn, bu'n rhaid i chi gwblhau asesiad o'r effaith ar hawl plant i herio, wrth gwrs, yn ogystal ag asesiad risg. A allech roi syniad pa bryd y caiff y rhain eu cyhoeddi, os gwelwch yn dda?

14:00 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

They'll be published before the end of term.

Byddant yn cael eu cyhoeddi cyn diwedd y tymor.

14:00 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that again, Minister. I think that's very helpful. In your letter, you say that you are hoping to put very quickly an alternative arrangement in place, in which, presumably, you'll be looking to put other umbrella organisations that are able to carry out these checks. Are you aware that the Disclosure and Barring Service are no longer accepting any new umbrella bodies to deal with these checks online, and that they can only now take on, at the moment, new umbrella bodies dealing with paper checks, which could take up to 18 weeks as opposed to the few days that online checks are taking? If you are aware of that, could you explain what arrangements are being put in place that will ensure that an umbrella body is able to take on this role in the future, and that the deadline that you've set through your extension of funding, of September, will be met, and there will be alternative arrangements in place?

Diolch eto am hynny, Weinidog. Credaf fod hynny'n ddefnyddiol iawn. Yn eich llythyr, dywedwch eich bod yn gobeithio rhoi trefniant arall ar waith yn sydyn, lle y byddwch yn ôl pob tebyg yn ystyried sefydliadau ambarél eraill sy'n gallu cyflawni'r gwiriadau hyn. A ydych yn ymwybodol nad yw'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd bellach yn derbyn unrhyw gyrff ambarél newydd i ymdrin â'r gwiriadau hyn ar-lein, a'u bod ar hyn o bryd ond yn gallu derbyn cyrff ambarél newydd sy'n ymdrin â gwiriadau papur, sy'n gallu cymryd hyd at 18 wythnos yn hytrach na'r ychydig ddyddiau y mae gwiriadau ar-lein yn eu cymryd? Os ydych yn ymwybodol o hynny, a allech egluro pa drefniadau sy'n cael eu rhoi ar waith i sicrhau bod corff ambarél yn gallu cyflawni'r rôl hon yn y dyfodol, ac y gellir cadw at y dyddiad cau a osodwyd gennych drwy ymestyn y cyllid, sef mis Medi, ac y bydd trefniadau eraill ar waith?

14:01 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Officials are taking this forward now with the WCVA. You mentioned that I had some under-utilised funding, which I've now provided to them to extend the scheme until the end of September, so those discussions around not taking on new registered umbrella bodies will be something that officials will talk about. You mentioned the difficulties that organisations are facing. Wales is the only country in the UK that has this scheme, so, for instance I spoke to somebody from Hockey Wales—England Hockey had their own scheme; they don't look to any other scheme. So, I think we have to recognise that we are the only country that provided this scheme in the UK. We're the only country in the UK that provided that help for the third sector. We can't just keep doing the same things, particularly when evidence shows that there are much more cost-effective ways of achieving the same outcome.

Mae swyddogion yn bwrw ymlaen â hyn yn awr gyda'r Cyngor Gweithredu Gwirfoddol. Fe sonioch fod rhywfaint o gyllid gennyf sy'n cael ei danddefnyddio, ac rwyf bellach wedi darparu'r cyllid hwnnw iddynt er mwyn ymestyn y cynllun tan ddiwedd mis Medi, felly bydd swyddogion yn cael y trafodaethau hynny ynghylch peidio â defnyddio cyrff ambarél cofrestredig. Fe sonioch am yr anawsterau y mae sefydliadau yn eu hwynebu. Cymru yw'r unig wlad yn y DU sydd â'r cynllun hwn, felly, er enghraifft bûm yn siarad â rhywun o Hoci Cymru—roedd gan England Hockey eu cynllun eu hunain; nid ydynt yn edrych ar unrhyw gynllun arall. Felly, credaf fod yn rhaid i ni gydnabod mai ni yw'r unig wlad a oedd yn darparu'r cynllun hwn yn y DU. Ni yw'r unig wlad yn y DU a ddarparodd yr help hwnnw i'r trydydd sector. Ni allwn barhau i wneud yr un pethau, yn enwedig pan fo tystiolaeth yn dangos bod yna ffyrdd llawer mwy costeffeithiol o sicrhau'r un canlyniad.

14:02 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move back to questions on the paper, and question 3 is Mark Isherwood.

Symudwn yn ôl at y cwestiynau ar y papur yn awr, a daw cwestiwn 3 gan Mark Isherwood.

## Tai mewn Ardaloedd Gwledig

## Housing in Rural Areas

14:02 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*3. Sut y mae Llywodraeth Cymru yn cwrdd â'r galw am dai mewn ardaloedd gwledig? OAQ(4)0428(CTP)*

*3. How is the Welsh Government meeting housing demand in rural areas? OAQ(4)0428(CTP)*

14:02 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. Increasing the supply of homes in communities across Wales forms part of my wider housing supply priorities. I recognise rural Wales has particular housing challenges and I have approved funding of rural housing enabler projects to support the continued delivery of affordable homes in rural areas.

Diolch. Mae cynyddu'r cyflenwad tai mewn cymunedau ledled Cymru yn rhan o fy mlaenoriaethau ehangach ar gyfer y cyflenwad tai. Rwy'n cydnabod bod heriau penodol i gefn gwlad Cymru ym maes tai ac rwyf wedi cymeradwyo cyllid ar gyfer prosiectau swyddogion galluogi tai gwledig i gefnogi'r gwaith o barhau i gyflwyno cartrefi fforddiadwy mewn ardaloedd gwledig.

14:02 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. Of course, the omission of a budget line for housing enablers caused huge concern, and your u-turn announcement at the rural regeneration conference of Community Housing Cymru last week on this was very well received. In taking this forward, however, what action have you actually taken—? That was the case. We did ask you about this in committee, and you failed to address the question then. However, what action have you taken since the Welsh Government's 2014 evaluation of rural housing enablers in Wales to address the concern raised in that that there had been a change in activity away from raising community awareness of rural housing needs and measuring it when the enablers, in fact, need to be supported to identify that need in order to work with the community to deliver more housing?

Diolch. Wrth gwrs, bu cryn bryder o ganlyniad i hepgor y llinell wariant ar gyfer swyddogion galluogi tai, a chafodd eich cyhoeddiad tro pedol ar hyn groeso mawr yng nghynhadledd adfywio gwledig Cartrefi Cymunedol Cymru yr wythnos diwethaf. Wrth fwrw ymlaen â hyn, fodd bynnag, pa gamau a roddwyd ar waith gennych mewn gwirionedd—? Dyna a ddigwyddodd. Cawsoch eich holi gennym ynglŷn â hyn yn y pwyllgor, ac ni lwyddoch i ateb y cwestiwn y pryd hwnnw. Fodd bynnag, pa gamau a roesoch ar waith ers gwerthusiad Llywodraeth Cymru yn 2014 o swyddogion galluogi tai gwledig yng Nghymru i fynd i'r afael â'r pryder a fynegwyd ynddo fod y gweithgaredd wedi newid o godi ymwybyddiaeth gymunedol o anghenion tai gwledig a mesur yr anghenion hynny, pan fo angen cynorthwyo'r swyddogion galluogi, mewn gwirionedd, i nodi'r anghenion hynny er mwyn gweithio gyda'r gymuned i ddarparu mwy o dai?

14:03 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I absolutely recognise that rural housing enablers really make a real difference in delivering rural housing. I made the announcement of the extension of the funding way back last year at their conference, so they've always been assured that that funding was there so that they could continue to work with communities across rural Wales to ensure that projects were delivered.

Rwy'n cydnabod yn llwyr fod swyddogion galluogi tai gwledig yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol o ran darparu tai gwledig. Cyhoeddais estyniad i'r cyllid y llynedd yn eu cynhadledd, felly maent bob amser wedi cael sicrwydd fod y cyllid yno iddynt allu parhau i weithio gyda chymunedau ledled Cymru wledig i sicrhau bod prosiectau'n cael eu cyflawni.

14:04 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I've been contacted by several constituents in Newport—Newport, Pembrokeshire, that is—who have faced severe housing pressures around commercial development for housing in rural areas. Last week I visited Brynhir in Tenby where similar development is threatening sustainable communities. It seems that in rural areas we're faced either with very expensive developments, which have little in the way of affordable homes and maximise the views and attractions for second homes and so forth, or the alternative, which are the very, if you like, alternative developments under the One Planet policy, which is certainly something that doesn't appeal to everyone. So, what are you doing as a Government to look at alternatives in rural areas—things like low-impact living affordable communities, where people own through mutual home ownership schemes, and there is a collective living co-operative, which is low carbon, but it's also low cost for those who live there. This is truly affordable housing. Shouldn't we be doing more to promote this as an alternative to the commercial development of many of our rural areas?

Weinidog, mae nifer o etholwyr yn Nhrefdraeth, Sir Benfro wedi cysylltu â mi am eu bod wedi wynebu pwysau difrifol ym maes tai yn ymwneud â datblygiadau tai masnachol mewn ardaloedd gwledig. Yr wythnos ddiwethaf ymwelais â Brynhir yn Ninbych-y-pysgod lle y mae datblygiad tebyg yn bygwth cymunedau cynaliadwy. Mewn ardaloedd gwledig, ymddengys ein bod naill ai'n wynebu datblygiadau drud iawn, heb lawer o dai fforddiadwy ac sy'n gwneud y gorau o'r golygfeydd ac atyniadau ar gyfer ail gartrefi ac yn y blaen, neu'r dewis arall, sef datblygiadau amgen iawn, os hoffech, o dan y polisi Cenedl Un Blaned, sy'n sicr yn rhywbeth nad yw'n apelio at bawb. Felly, beth rydych yn ei wneud fel Llywodraeth i edrych ar ddewisiadau eraill mewn ardaloedd gwledig—pethau fel cymunedau fforddiadwy bach eu heffaith, lle y mae pobl yn berchen ar eiddo drwy gynlluniau perchentyaeth cydfuddiannol, a cheir cydweithrediaeth fyw ar y cyd, sy'n garbon isel, ond hefyd yn gost isel i'r rhai sy'n byw yno. Mae'r rhain yn dai gwirioneddol fforddiadwy. Oni ddylem fod yn gwneud mwy i hyrwyddo hyn fel dewis amgen yn lle datblygiadau masnachol yn llawer o'n hardaloedd gwledig?

14:05 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, certainly, we are looking at what alternatives we have going forward. I'm a big fan of co-operative housing. We've now supported at least three co-operative developments across Wales; I've been fortunate to visit two of them. But I think we do have to look at alternative ways, particularly in rural areas. We obviously invest a huge amount of money, over £400 million, through the social housing grant, and, again, I think we need to look at how that is spent, particularly in rural areas.

Dylem, yn sicr, ac rydym yn ystyried pa ddewisiadau eraill sydd gennym ar gyfer y dyfodol. Rwy'n hoff iawn o gynlluniau tai cydweithredol. Rydym bellach wedi cefnogi o leiaf tri datblygiad cydweithredol ledled Cymru; rwyf wedi bod yn ddigon ffodus i ymweld â dau ohonynt. Ond credaf fod yn rhaid i ni edrych ar ffyrdd amgen, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Rydym yn amlwg yn buddsoddi llawer iawn o arian, dros £400 miliwn, drwy'r grant tai cymdeithasol, ac unwaith eto, credaf fod angen i ni edrych i weld sut y mae hwnnw'n cael ei wario, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.

14:05 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, picking up the theme that's been taken up by Simon Thomas, this morning in the Enterprise and Business Committee, Ross Murray, President of the Country Land and Business Association, spoke of the potential that technical advice note 6 had to help to address some of these issues. As one of the co-authors of that policy, he said it had many merits. However, in the delivery, it has been more than a little disappointing, particularly in the take-up level with local authorities. So, given the contribution that it has to build greater affordable housing in rural areas, what commitment can you make for a future Assembly that this work will be prioritised, particularly working with those Ministers responsible for local government and planning to enjoy greater support for this valuable initiative?

Weinidog, gan barhau â'r thema a gyflwynodd Simon Thomas, y bore yma yn y Pwyllgor Menter a Busnes, siaradodd Ross Murray, Llywydd Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad, ynglŷn â'r potensial sydd gan nodyn cyngor technegol 6 i helpu i fynd i'r afael â rhai o'r materion hyn. Fel un o gyd-awduron y polisi hwnnw, dywedodd fod iddo lawer o rinweddau. Fodd bynnag, o ran ei gyflawni, mae wedi bod yn eithaf siomedig, yn enwedig y lefel o awdurdodau lleol sy'n gwneud defnydd ohono. Felly, o ystyried ei gyfraniad i adeiladu mwy o dai fforddiadwy mewn ardaloedd gwledig, pa ymrwymiad y gallwch ei wneud ar ran Cynulliad yn y dyfodol y bydd y gwaith hwn yn cael ei flaenoriaethu, yn enwedig drwy weithio gyda'r Gweinidogion hynny sy'n gyfrifol am lywodraeth leol a chynllunio lleol i sicrhau mwy o gefnogaeth i'r fenter werthfawr hon?

14:06 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I obviously work very closely with my colleague the Minister for Natural Resources, and I know, obviously, he's carrying out reforms to the planning system through the Planning (Wales) Act 2015 and through his 'Positive Planning' proposals, but I'm sure a new Government would be very interested to look at that.

Yn amlwg, rwy'n gweithio'n agos iawn gyda fy nghyd-Aelod y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, a gwn ei fod yn diwygio'r system gynllunio drwy Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 a thrwy ei gynigion 'Cynllunio Cadarnhaol', ond rwy'n siŵr y byddai Llywodraeth newydd yn awyddus iawn i edrych ar hynny.

### Hawliau Dynol

### Human Rights

14:06 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*4. Pa gynnydd a wnaed o ran hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol yn y pedwerydd Cynulliad? OAQ(4)0438(CTP)[W]*

*4. What progress has been made to promote equality and human rights in the fourth Assembly? OAQ(4)0438(CTP)[W]*

14:06 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch. The principles of human rights and equality underpin our programme for government. We have made good progress on our equality objectives, as highlighted in our annual reports on equality. I am concerned about the timing of the British Bill of Rights consultation, and have written to Michael Gove this week.

Diolch. Mae egwyddorion cydraddoldeb a hawliau dynol yn sail i'n rhaglen lywodraethu. Rydym wedi gwneud cynnydd da o ran ein hamcanion cydraddoldeb, fel yr amlygwyd yn ein hadroddiadau blynyddol ar gydraddoldeb. Rwy'n pryderu ynghylch amseriad ymgynghoriad y Ddeddf Hawliau Dynol Brydeinig, ac wedi ysgrifennu at Michael Gove yr wythnos hon.

14:07 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Ond onid un o'r heriau mwyaf yw'r un a glywsom amdani ddoe, pan gyhoeddwyd yr adroddiad 'Menywod Dawnus ar gyfer Cymru Lwyddiannus', gyda'r diffyg difrifol mewn peirianneg, ffiseg a chyfrifiadureg sydd yn cael ei bwysleisio yn yr adroddiad, ein bod ni'n brin o 600 o academyddion STEM yng Nghymru? Onid oes yna gyfle, felly, i'r Llywodraeth yma roi neges i'r Llywodraeth nesaf, pwy bynnag fydd ynddi hi, fod hwn yn flaenoriaeth o ran economi Cymru, ac mai hyn, yn wir, fydd un arall o gyfraniadau disglair y Gweinidog sy'n gyfrifol am faes addysg uwch, yn ogystal â'r economi a thrafnidiaeth, sef galluogi llawer mwy o fenywod i fanteisio ar yr addysg uwch y dylen nhw fod yn ei chael er mwyn dod yn ymchwilwyr llwyddiannus i economi Cymru?

But isn't one of the greatest challenges the one we heard of yesterday, when the 'Talented Women for a Successful Wales' report was published, with the serious deficiencies in engineering, physics and computer science that is emphasised in this report, that we are down by 600 STEM academics in Wales? Isn't there an opportunity, therefore, for this Government to give a message to the next Government, whoever that Government may be, that this is a priority in terms of the Welsh economy, and that this, indeed, will be another of the great contributions of the Minister responsible for higher education, as well as the economy and transport, namely enabling far more women to take advantage of the higher education that they should be able to get in order to become successful researchers for the Welsh economy?

14:08 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, absolutely. I haven't had a chance to read that report, but I'm certainly aware of the headline figures. Across Government, with several of my ministerial colleagues, we are doing really good work to try and encourage women to have a look at what may be viewed as alternative careers that they, perhaps, hadn't thought of in the first place. I spoke at an event last month in Wrexham, actually, regarding women being encouraged to come into the construction and engineering industry in relation to the new prison that's being built in north Wales. So, I think it's not just for, as you said, the higher education Minister or the Minister for science—it is for all Ministers to look at what we can do to ensure that women are aware of these careers.

Oes, yn bendant. Nid wyf wedi cael cyfle i ddarllen yr adroddiad hwnnw, ond rwy'n sicr yn ymwybodol o'r ffigurau. Ar draws y Llywodraeth, gyda nifer o fy nghyd-Weinidogion, rydym yn gwneud gwaith da iawn ar geisio annog menywod i ystyried gyrfaoedd y gellid eu hystyried yn yrfaoedd amgen, nad oeddent, efallai, wedi meddwl amdanynt i ddechrau. Siaradais mewn digwyddiad fis diwethaf yn Wrecsam ynglŷn â menywod yn cael eu hannog i ddod i mewn i'r diwydiant adeiladu a pheirianneg yng nghyswllt y carchar newydd sy'n cael ei adeiladu yng ngogledd Cymru. Felly, ni chredaf mai mater ar gyfer y Gweinidog addysg uwch neu'r Gweinidog gwyddoniaeth yn unig yw hwn, fel y dywedoch—dylai'r holl Weinidogion edrych ar yr hyn y gallwn ei wneud i sicrhau bod menywod yn ymwybodol o'r gyrfaoedd hyn.

14:08 **Gwyn R. Price** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Could the Minister outline how the Welsh Government is working to promote rights and opportunities for people with disabilities?

A wnaiff y Gweinidog amlinellu sut y mae Llywodraeth Cymru yn gweithio i hyrwyddo hawliau a chyfleoedd pobl ag anableddau?

14:09 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. The Welsh Government's framework for action on independent living sets out the actions we're taking to promote the rights of disabled people in Wales to live independently and ensure they have the same rights as any other citizen. We've had extensive involvement of disabled people in developing the framework, and I think that will provide them and us, as a Government, with an assurance that we're addressing the issues that are most important to them. We also have a disability equality forum, and I engage directly with disabled people and I hear from them how our legislation and our policies impact on their lives.

Diolch. Mae fframwaith gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer byw'n annibynnol yn nodi'r camau rydym yn eu cymryd i hyrwyddo hawliau pobl anabl yng Nghymru i fyw'n annibynnol a sicrhau bod ganddynt yr un hawliau ag unrhyw ddinesydd arall. Mae pobl anabl wedi cyfrannu'n helaeth at y gwaith o ddatblygu'r fframwaith, a chredaf y bydd hynny'n rhoi sicrwydd iddynt hwy ac i ninnau, fel Llywodraeth, ein bod ni'n mynd i'r afael â'r materion sydd bwysicaf iddynt. Hefyd, mae gennym fforwm cydraddoldeb i bobl anabl, ac rwy'n ymgysylltu'n uniongyrchol â phobl anabl ac yn clywed ganddynt sut y mae ein deddfwriaeth a'n polisïau yn effeithio ar eu bywydau.

14:09 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, following International Women's Day yesterday, it does remain an absolute scandal that here we are in Wales in 2016 with women still doing the same job as men and still being paid less. Even today, despite the Equal Pay Act 1970, my own local authority still has a number of outstanding equal pay claims. How is your Government working with local government to ensure that such inequality for our working women stops, and it stops right now?

Weinidog, yn dilyn Diwrnod Rhyngwladol y Menywod ddoe, mae'n parhau'n warthus fod gennym fenywod, yma yng Nghymru ym 2016, yn dal yn gwneud yr un gwaith â dynion ac yn dal i gael eu talu'n is. Hyd yn oed heddiw, er gwaethaf Deddf Cyflog Cyfartal 1970, mae gan fy awdurdod lleol nifer o hawliadau cyflog cyfartal nas talwyd. Sut y mae eich Llywodraeth yn gweithio gyda llywodraeth leol i sicrhau bod anghydraddoldeb o'r fath i'n menywod sy'n gweithio yn dod i ben, ac yn dod i ben ar unwaith?

14:10 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I'd be very happy to write to local authorities to remind them of those duties before the end of this term.

Wel, byddwn yn hapus iawn i ysgrifennu at awdurdodau lleol i'w hatgoffa am y dyletswyddau hynny cyn diwedd y tymor hwn.

### Cymunedau yn Gyntaf

### Communities First

14:10 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*5. A wnaiff y Gweinidog yn nodi'r cynnydd a wnaed ar draws portffolios Llywodraeth Cymru o ran cyflawni amcanion Cymunedau yn Gyntaf? OAQ(4)0434(CTP)*

*5. Will the Minister set out progress across Welsh Government portfolios in achieving the objectives of Communities First? OAQ(4)0434(CTP)*

14:10 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. Communities First works across portfolio interests and continues to deliver against a range of economic, health and learning objectives. Performance data for 2015-16 are being finalised, and will be published before the Easter recess. The latest published data, for 2014-15, demonstrate good progress being made in a number of areas.

Diolch. Mae Cymunedau yn Gyntaf yn gweithio ar draws y meysydd portffolio ac yn parhau i gyflawni yn erbyn ystod o amcanion economaidd, iechyd a dysgu. Mae data perfformiad ar gyfer 2015-16 yn cael eu cwblhau, a chaiff ei gyhoeddi cyn toriad y Pasg. Mae'r data diweddaraf a gyhoeddwyd, ar gyfer 2014-15, yn dangos bod cynnydd da yn cael ei wneud mewn nifer o feysydd.

14:10 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Minister, increasing physical activity in our most deprived communities will benefit their health and, indeed, general quality of life. This Friday, I'm holding a meeting locally in Newport, bringing together key partners to try and achieve further progress around those objectives. Will you ensure that the necessary links are made across Welsh Government portfolios to drive greater physical activity in our more deprived communities, given these benefits?

Weinidog, bydd cynyddu gweithgarwch corfforol yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig o fudd i'w hiechyd, ac yn wir, i ansawdd eu bywydau yn gyffredinol. Ddydd Gwener, byddaf yn cynnal cyfarfod lleol yng Nghasnewydd i ddod â phartneriaid allweddol at ei gilydd i geisio sicrhau cynnydd pellach ar yr amcanion hynny. A wnewch chi sicrhau bod y cysylltiadau angenrheidiol yn cael eu gwneud ar draws portffolios Llywodraeth Cymru i ysgogi mwy o weithgarwch corfforol yn ein cymunedau mwy difreintiedig, o ystyried y manteision hyn?

Yes, absolutely. It's very good to hear that you're having such a meeting on Friday. I'll be very interested to hear the outcome. Communities First explicitly seeks to improve health outcomes for people living in some of Wales's most deprived communities. The programme runs a number of successful projects, many of which you'll be aware of—StreetGames, for instance—to have that very strong emphasis on physical activity and also on healthy living and healthy eating. We do work across Government departments, my officials and other Ministers' officials, to ensure that we continue to drive up physical activity and healthy lifestyle choices.

Gwnaf, yn bendant. Mae'n braf iawn clywed y byddwch yn cael cyfarfod o'r fath ddydd Gwener. Edrychaf ymlaen at glywed y canlyniad. Mae Cymunedau yn Gyntaf yn ceisio gwella canlyniadau iechyd i bobl sy'n byw yn rhai o gymunedau mwyaf difreintiedig Cymru. Fe fyddwch yn ymwybodol o lawer o'r prosiectau llwyddiannus sy'n cael eu rhedeg gan y rhaglen—GemauStryd, er enghraifft—er mwyn sicrhau'r pwyslais cryf hwnnw ar weithgarwch corfforol yn ogystal ag ar fyw'n iach a bwyta'n iach. Mae fy swyddogion a swyddogion Gweinidogion eraill yn gweithio ar draws adrannau'r Llywodraeth i sicrhau ein bod yn parhau i wella gweithgarwch corfforol a dewisiadau byw'n iach.

14:12 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Minister, figures provided by your Government reveal that, in the three years from 2012 to 2015, Newport City Council returned over £780,000 of Communities First grant funding to the Welsh Government. Will the Minister advise what systems are in place to ensure lead delivery bodies in Wales, such as Newport City Council, are making full and effective use of Communities First funding for the benefit of the communities they serve?

Weinidog, mae ffigurau a ddarparwyd gan eich Llywodraeth yn datgelu bod Cyngor Dinas Casnewydd wedi dychwelyd dros £780,000 o gyllid grant Cymunedau yn Gyntaf i Lywodraeth Cymru yn ystod y tair blynedd rhwng 2012 a 2015. A wnaiff y Gweinidog roi gwybod pa systemau sydd ar waith i sicrhau bod cyrff cyflawni arweiniol yng Nghymru, megis Cyngor Dinas Casnewydd, yn gwneud defnydd llawn ac effeithiol o arian Cymunedau yn Gyntaf er budd y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu?

14:12 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

It's very important that any lead delivery body uses the funding for the right intentions and in the correct way. If there is any underspend, I made it very clear that it would be returned to Government and then the funding could be utilised to ensure that the money went to other priorities.

Mae'n bwysig iawn fod unrhyw gorff cyflawni arweiniol yn defnyddio'r cyllid ar gyfer y bwriadau iawn, ac yn y ffordd gywir. Os oes unrhyw danwario, gwneuthum yn glir iawn y byddai'n cael ei ddychwelyd i'r Llywodraeth ac yna gellid defnyddio'r cyllid i sicrhau bod yr arian yn mynd tuag at flaenoriaethau eraill.

14:13 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Minister, just 12 months ago, an evaluation report on the successes of the Communities First programme stated that real community involvement in the schemes was not always being achieved. What action will you be proposing to ensure that members of the local community will have a much greater say in the content and organisation of the Communities First programmes, please?

Weinidog, 12 mis yn ôl yn unig, roedd adroddiad gwerthuso ar lwyddiannau'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn datgan nad oedd cymunedau bob amser yn cael eu cynnwys yn llawn yn y cynlluniau. Pa gamau y byddwch yn eu cynnig i sicrhau y bydd gan aelodau o'r gymuned leol lawer mwy o lais yng nghynnwys a threfniadaeth rhaglenni Cymunedau yn Gyntaf, os gwelwch yn dda?

14:13 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The Communities First clusters absolutely have to identify and demonstrate how they are engaging with vulnerable people in the communities. All the activities have to contribute to the overall aim of tackling poverty, which is what the programme is designed for, with community involvement. My officials very closely monitor that.

Mae'n rhaid i'r clystyrau Cymunedau yn Gyntaf nodi a dangos sut y maent yn ymgysylltu â phobl sy'n agored i niwed yn y cymunedau. Mae'n rhaid i'r holl weithgareddau gyfrannu at y nod cyffredinol o drechu tlodi, sef yr hyn y cynlluniwyd y rhaglen ar ei gyfer, gydag ymwneud y gymuned. Mae fy swyddogion yn monitro hynny'n ofalus iawn.

14:13 **Christine Chapman** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I was recently invited to speak at an Oxfam Cymru event celebrating their Building Livelihoods and Strengthening Communities in Wales project. Now the project, which ran in communities across Wales, including in Glyncoch in my constituency, adopted an individual-centred approach, boasted impressive outcomes and complemented the aims and objectives of Communities First. The project has drawn to a close, but I would be keen for the lessons not to be forgotten. So, has the Minister considered what Welsh Government could learn from this, and how its success could be embedded into Communities First and other anti-poverty strategies?

Weinidog, cefais wahoddiad yn ddiweddar i siarad mewn digwyddiad Oxfam Cymru i ddathlu eu prosiect Adeiladu Bywoliaethau a Chryfhau Cymunedau. Mabwysiadodd y prosiect, a weithredai mewn cymunedau ledled Cymru, gan gynnwys yng Nglyncoch yn fy etholaeth i, ymagwedd a ganolbwyntiai ar yr unigolyn, gallai ddangos canlyniadau trawiadol ac roedd yn ategu nodau ac amcanion Cymunedau yn Gyntaf. Mae'r prosiect wedi dod i ben, ond rwy'n awyddus i'r gwersi beidio â chael eu hanghofio. Felly, a yw'r Gweinidog wedi ystyried yr hyn y gallai Llywodraeth Cymru ei ddysgu o hyn, a sut y gellid ymgorffori ei lwyddiant o fewn Cymunedau yn Gyntaf a strategaethau gwrthdlodi eraill?

14:14 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes; I am, obviously, aware of this scheme and I know there are about 1,000 beneficiaries of the scheme. Of the people who participated in the project, many had worked alongside Communities First, including in Glyncoch. My officials have already met with Oxfam Cymru to see how they can ensure that the lessons learned from it and the benefits from it can be embedded into Communities First.

Do; yn amlwg, rwy'n ymwybodol o'r cynllun hwn a gwn fod tua 1,000 o bobl wedi elwa o'r cynllun. O'r bobl a gymerodd ran yn y prosiect, roedd llawer wedi gweithio gyda Cymunedau yn Gyntaf, gan gynnwys yng Nglyncoch. Mae fy swyddogion eisoes wedi cyfarfod ag Oxfam Cymru i weld sut y gallant ymgorffori'r manteision a'r gwersi a ddysgwyd o'r prosiect o fewn Cymunedau yn Gyntaf.

### Cefnogi Teuluoedd

### Supporting Families

14:14 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*6. Sut y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi teuluoedd yng Nghymru? OAQ(4)429(CTP)*

*6. How is the Welsh Government supporting families in Wales? OAQ(4)429(CTP)*

14:14 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. We provide a range of support to families and our commitment is backed up by investment in our support programmes such as Families First and Supporting People. We also provide support and information to parents through our campaign 'Parenting. Give it time'.

Diolch. Rydym yn darparu ystod o gymorth i deuluoedd a chefnogir ein hymrwymiad gan fuddsoddiad yn ein rhaglenni cymorth fel Teuluoedd yn Gyntaf a Cefnogi Pobl. Rydym hefyd yn darparu cefnogaeth a gwybodaeth i rieni drwy ein hymgyrch 'Magu plant. Rhowch amser iddo'.

14:15 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Child contact centres are places where non-resident parents may have supervised or supported contact with their child or children. As you will be aware, funding for them is disappearing. The National Association of Child Contact Centres has responded to the Welsh Government's offer of a one-off transitional sum of £2,000 by saying that this misses the fundamental point of the need for the centres to be funded for the work they do and will continue to do, and Relate state that the rate of family breakdown in general has not reduced and that the associated problems remain. Given that your ministerial responsibilities include family support and children and young people's rights and entitlements, how do you respond to concern that cutting this funding for specialist intervention, supporting families through relationship breakdown, will impact on other services, generating far higher costs further down the road for health, education and social services and, of course, a far, far higher cost for the children concerned themselves?

Mae canolfannau cyswllt â phlant yn fannau lle y gall rhieni dibreswyl gael cyswllt dan oruchwyliaeth neu gyswllt â chymorth â'u plentyn neu â'u plant. Fel y gwyddoch, mae'r cyllid ar eu cyfer yn diflannu. Mae Cymdeithas Genedlaethol y Canolfannau Cyswllt Plant wedi ymateb i gynnig Llywodraeth Cymru o swm trosiannol untro o £2,000 gan ddweud bod hyn yn methu'r pwynt sylfaenol ynglŷn â'r angen i'r canolfannau gael eu hariannu ar gyfer y gwaith y maent yn ei wneud ac y byddant yn parhau i'w wneud, ac mae Relate yn datgan nad yw'r gyfradd chwalfeydd teuluol wedi lleihau a bod y problemau cysylltiedig yn parhau. O ystyried bod eich cyfrifoldebau gweinidogol yn cynnwys cymorth i deuluoedd a hawliau plant a phobl ifanc, sut rydych yn ymateb i'r pryder y bydd torri'r cyllid hwn ar gyfer ymyrraeth arbenigol, sy'n cefnogi teuluoedd drwy berthynas yn chwalu, yn effeithio ar wasanaethau eraill, gan gynhyrchu costau uwch o lawer yn nes ymlaen i'r gwasanaethau iechyd ac addysg a'r gwasanaethau cymdeithasol, ac wrth gwrs, cost uwch o lawer i'r plant dan sylw eu hunain?

14:16 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Thank you. Supporting families and supporting relationships are a key feature of our programme for government commitments, as I've previously outlined in a previous question to you. However, mediation to families is not a devolved issue. It is a reserved matter led by the Ministry of Justice, and I know that Children and Family Court Advisory and Support Service Cymru have reduced the funding, but I have to say that the referrals to them have reduced significantly also.

Diolch. Mae cefnogi teuluoedd a chefnogi perthynas pobl â'i gilydd yn nodwedd allweddol o ymrwymiadau ein rhaglen lywodraethu, fel yr amlinellais mewn cwestiwn blaenorol. Fodd bynnag, nid yw cyfryngu i deuluoedd yn fater datganoledig. Mae'n fater a gadwyd dan adain y Weinyddiaeth Gyfiawnder, a gwn fod y Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd wedi lleihau'r cyllid, ond mae'n rhaid i mi ddweud bod yr atgyfeiriadau atynt wedi gostwng yn sylweddol hefyd.

Senedd.tv
Fideo Video

14:16 **Ann Jones** Bywgraffiad Biography

Minister, I hope you'll agree with me that employment is a route out of poverty for many families, and certainly for families within my own constituency. So, therefore, what plans do you have so that childcare and lifelong training opportunities will be available to those hardest to reach families in constituencies, including mine, where we still see very high unemployment benefit claimant numbers?

Weinidog, gobeithiaf y byddwch yn cytuno fod cyflogaeth yn ffordd allan o dlodi i lawer o deuluoedd, ac yn sicr i deuluoedd yn fy etholaeth i. Pa gynlluniau sydd gennych, felly, i sicrhau y bydd gofal plant a chyfleoedd hyfforddi gydol oes ar gael i'r teuluoedd mwyaf anodd eu cyrraedd mewn etholaethau, gan gynnwys fy etholaeth i, lle rydym yn dal i weld niferoedd uchel o bobl yn hawlio budd-dal diweithdra?

Senedd.tv
Fideo Video

14:17 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

I absolutely agree that employment and investment in early years provide a route out of poverty, and that's why we've had this refreshed approach to tackling poverty by increasing employability, improving skills and supporting people to enter and then progress into employment, because we know workless households are particularly at risk of living in poverty, and that's why we've got programmes such as LIFT and Communities for Work. I don't think getting people into employment is just about increasing skills; I think it's about looking at the needs of the individual and the barriers that may face them in terms of gaining employment. So, again, Flying Start and Families First provide support to children and families to bring about positive long-term outcomes.

Cytunaf yn llwyr fod cyflogaeth a buddsoddiad yn y blynyddoedd cynnar yn darparu llwybr allan o dlodi, a dyna pam rydym wedi mabwysiadu'r ymagwedd newydd hon tuag at drechu tlodi drwy gynyddu cyflogadwyedd, gwella sgiliau a chynorthwyo pobl i gael gwaith ac yna i gamu ymlaen yn eu swyddi, oherwydd gwyddom fod aelwydydd heb waith mewn perygl arbennig o fyw mewn tlodi, a dyna pam fod gennym raglenni fel Esgyn a Cymunedau am Waith. Ni chredaf mai ymwneud â gwella sgiliau'n unig y mae cael pobl i mewn i waith; credaf ei fod yn ymwneud ag edrych ar anghenion yr unigolyn a'r rhwystrau a allai eu hwynebu o ran cael gwaith. Felly, unwaith eto, mae Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf yn rhoi cymorth i blant a theuluoedd sicrhau canlyniadau hirdymor cadarnhaol.

Senedd.tv
Fideo Video

14:17 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Rwy'n frwd dros sicrhau bod rhagor o ofal addysgol yn cael ei roi i blant o dair oed fel modd i ryddhau rhieni i fynd allan i weithio er eu lles eu hunain ac er lles economi Cymru. Ac, yn sicr, mi fydd maniffesto Plaid Cymru ar gyfer yr etholiad yma yn addo bwrw ymlaen at roi 30 awr yr wythnos o ofal i blant tair oed. A ydy'r Gweinidog yn cytuno bod hynny yn ffordd dda ymlaen?

I'm eager to ensure that more educational care is provided for children from the age of three in order to free up parents to go out to work for their own benefit and for the benefit of the Welsh economy. Certainly, the Plaid Cymru manifesto for the election will pledge to provide 30 hours a week of childcare for three-year-olds. Does the Minister agree that that is an effective way forward?

Senedd.tv
Fideo Video

14:18 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Well, the Welsh Labour commitment is for 30 hours childcare for working parents of three and four year olds for 48 weeks. So, I think we're probably slightly similar, but we're probably a bit better.

Wel, ymrwymiad Llafur Cymru yw 30 awr o ofal plant i rieni sy'n gweithio a chanddynt blant tair a phedair oed am 48 wythnos. Felly, credaf ein bod yn weddol debyg, ond mwy na thebyg ein bod ni ychydig yn well.

Senedd.tv
Fideo Video

### Cymunedau yn Gyntaf (Gogledd Cymru)

### Communities First (North Wales)

14:18 **Janet Haworth** Bywgraffiad Biography

*7. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gyllid Cymunedau yn Gyntaf yng Ngogledd Cymru? OAQ(4)0432(CTP)*

*7. Will the Minister make a statement on Communities First funding in North Wales? OAQ(4)0432(CTP)*

Senedd.tv
Fideo Video

14:18 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Thank you. I've protected next year's Communities First funding. Current funding available across north Wales's eight clusters is over £4.4 million. Indicative figures have been provided to lead delivery bodies for 2016-17. Delivery plans for next year are being assessed and final-offer letters will issue at the conclusion of the exercise.

Diolch. Rwyf wedi diogelu cyllid Cymunedau yn Gyntaf am y flwyddyn nesaf. Mae'r cyllid presennol sydd ar gael ar draws wyth clwstwr gogledd Cymru yn fwy na £4.4 miliwn. Mae ffigurau dangosol wedi'u darparu i'r cyrff cyflawni arweiniol ar gyfer 2016-17. Mae cynlluniau cyflawni ar gyfer y flwyddyn nesaf yn cael eu hasesu a bydd llythyrau cynigion terfynol yn cael eu hanfon ar ddiwedd yr ymarfer.

Senedd.tv Fideo Video

14:18 **Janet Haworth** Bywgraffiad Biography

Thank you, Minister, for that data; it is quite reassuring. But the data for the last financial year shows that four councils in north Wales returned over 10 per cent of their Communities First grant during their last full financial year, with north Wales councils making up four of the top five repayers in percentage terms. Minister, your Government does make great play of the importance of Communities First money, so can you explain why so much is returned to your Government each year, and what actions are you putting in place to ensure that the funds allocated to this project are fully used?

Diolch am y data hwnnw, Weinidog; mae'n eithaf calonogol. Ond mae'r data ar gyfer y flwyddyn ariannol ddiwethaf yn dangos bod pedwar cyngor yng ngogledd Cymru wedi dychwelyd dros 10 y cant o'u grant Cymunedau yn Gyntaf yn ystod eu blwyddyn ariannol lawn ddiwethaf, a chynghorau yng ngogledd Cymru yw pedwar o'r pum cyngor sy'n ad-dalu fwyaf o ran canran. Weinidog, mae eich Llywodraeth yn gwneud môr a mynydd o bwysigrwydd arian Cymunedau yn Gyntaf, felly a allwch egluro pam fod cymaint yn cael ei ddychwelyd i'ch Llywodraeth bob blwyddyn, a pha gamau rydych yn eu cymryd i sicrhau bod y cyllid a ddyrannir i'r prosiect hwn yn cael ei ddefnyddio'n llawn?

Senedd.tv Fideo Video

14:19 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

One of the highest costs of Communities First funding is obviously the staff and, when delivery plans are put forward, there will be staff costings within that plan. If all the funding is not spent—if there is a time when all posts aren't filled, for instance, or if somebody leaves and they're not able to fill that post—that money then has to be returned, and I think that's absolutely right and proper.

Un o gostau uchaf cyllid Cymunedau yn Gyntaf yw'r staff, yn amlwg, a phan fydd cynlluniau cyflawni yn cael eu cyflwyno, bydd costau staff wedi'u cynnwys yn y cynllun hwnnw. Os na fydd yr holl arian yn cael ei wario—os bydd cyfnod pan nad yw'r holl swyddi wedi'u llenwi, er enghraifft, neu os oes rhywun yn gadael ac nad ydynt yn gallu llenwi'r swydd honno—yna bydd yn rhaid dychwelyd yr arian hwnnw, a chredaf fod hynny'n hollol gywir a phriodol.

Senedd.tv Fideo Video

14:19 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Minister, I'm sure you'll agree with me that the success of the Communities First programme is its focus on providing new opportunities, skills and supporting employment as a way out of poverty. Minister, will you comment on the work of the business entrepreneurship network project in Flintshire?

Weinidog, rwy'n siŵr y byddwch yn cytuno mai llwyddiant y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yw ei ffocws ar ddarparu cyfleoedd newydd, sgiliau a chefnogi cyflogaeth fel ffordd allan o dlodi. Weinidog, a allwch wneud sylwadau ar waith y prosiect rhwydwaith entrepreneuriaeth busnes yn Sir y Fflint?

Senedd.tv Fideo Video

14:20 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Yes, I very much welcome the work of the network. They were quite a prominent feature, actually, in the recent Communities First conference, which was held in Newport, I think just last month. That conference really helped to share learning and best practice, and I know the network's presentation went down very well. What the network does is really support Welsh Government's priorities in relation to partnership working, to volunteer support in the community and a strong focus on employment as a way out of poverty.

Gwnaf, croesawaf waith y rhwydwaith yn fawr. Roeddent yn nodwedd amlwg, mewn gwirionedd, o'r gynhadledd Cymunedau yn Gyntaf ddiweddar, a gynhaliwyd yng Nghasnewydd, fis diwethaf, rwy'n credu. Roedd y gynhadledd honno'n help mawr i rannu dysgu ac arferion gorau, a gwn fod cyflwyniad y rhwydwaith wedi cael ymateb da iawn. Mae'r rhwydwaith yn cefnogi blaenoriaethau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â gweithio mewn partneriaeth, cefnogi gwirfoddoli yn y gymuned a ffocws cryf ar gyflogaeth fel ffordd allan o dlodi.

Senedd.tv Fideo Video

14:20

## Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Further to the figures raised by my colleague Janet Haworth, and according to your response to my recent WAQ, since 2013, £14.6 million of Communities First funding has been returned by lead delivery bodies across Wales. Now, recently, on my Communities, Equalities and Local Government Committee, we led a poverty inquiry, where resources were identified as a much needed priority. Would you look into why this Communities First returned money has just simply gone back into Welsh Government coffers and hasn't been used for its intended aim, and that is to reduce the poverty levels here in Wales?

Yn dilyn y ffigurau a nodwyd gan fy nghyd-Aelod Janet Haworth, ac yn ôl eich ymateb i fy nghwestiwn Cynulliad yn ddiweddar, ers 2013, mae £14.6 miliwn o gyllid Cymunedau yn Gyntaf wedi cael ei ddychwelyd gan gyrff cyflawni arweiniol ledled Cymru. Nawr, yn ddiweddar, cynhaliodd fy Mhwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ymchwiliad i dlodi, lle y nodwyd bod adnoddau'n flaenoriaeth fawr ei hangen. A wnewch chi archwilio i weld pam fod yr arian Cymunedau yn Gyntaf hwn a ddychwelwyd wedi mynd yn syth yn ôl i goffrau Llywodraeth Cymru a heb gael ei ddefnyddio ar gyfer y nod a fwriadwyd ar ei gyfer, sef gostwng lefelau tlodi yma yng Nghymru?

14:21

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think I just gave the answer to that question in a previous question to Janet Haworth.

Credaf fy mod newydd ateb eich cwestiwn mewn cwestiwn blaenorol i Janet Haworth.

14:21

## Llyr Gruffydd Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mae llawer o ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf wedi cael budd sylweddol o gronfeydd adfywio Ewropeaidd. A gaf i ofyn felly pa asesiad mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o effaith gadael yr Undeb Ewropeaidd ar bolisïau gwrthdlodi yng Nghymru a hefyd pa drefniadau amgen y byddai angen eu cyflwyno yn wyneb penderfyniad o'r fath?

A number of Communities First areas have seen significant benefit from European regeneration funds. So, can I ask you, therefore, what assessment the Welsh Government has made of the impact of leaving the EU on anti-poverty policies in Wales and, also, what alternative arrangements would be needed in the face of such a decision?

14:21

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, we very much hope that the people of the UK will not vote to leave Europe, but you're quite right—so many of our programmes would miss out if they didn't have that European funding and that is a piece of work that officials are currently working on.

Wel, gobeithiwn yn fawr na fydd pobl y DU yn pleidleisio i adael Ewrop, ond rydych yn llygad eich lle—byddai cymaint o'n rhaglenni ar eu colled pe na baent yn cael cyllid Ewropeaidd, ac mae hwnnw'n waith y mae swyddogion wrthi'n gweithio arno ar hyn o bryd.

14:22

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Question 8, Dafydd Elis-Thomas.

Cwestiwn 8, Dafydd Elis-Thomas.

14:22

## Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Fonesig Lywydd, gwnaf drio darllen yn well y tro yma.

Thank you, Dame Presiding Officer, I'll try to read it correctly this time.

### Hawliau Plant a Phobl ifanc

### The Rights of Children and Young People

14:22

## Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*8. Pa gynnydd a wnaed o ran hyrwyddo hawliau plant a phobl ifanc yn ystod y pedwerydd Cynulliad? OAQ(4)0439(CTP)[W]*

*8. What progress has been made to promote the rights of children and young people during the fourth Assembly? OAQ(4)0439(CTP)[W]*

14:22

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch. Our programme for children and young people highlights the many pieces of legislation and policies we have delivered to promote children's rights across the programme for government. We are considered world leaders as a result of the children's rights Measure passed in 2011, the children's rights scheme, children's rights impact assessments and compliance reports.

Diolch. Mae ein rhaglen ar gyfer plant a phobl ifanc yn tynnu sylw at y deddfwriaethau a'r polisïau niferus a gyflwynwyd gennym i hyrwyddo hawliau plant ar draws y rhaglen lywodraethu. Ystyrir ein bod yn arwain drwy'r byd o ganlyniad i'r Mesur hawliau plant a basiwyd yn 2011, y cynllun hawliau plant, yr asesiadau effaith ar hawliau plant ac adroddiadau cydymffurfio.

14:22 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Onid un o'r hawliau mwyaf pwysig sydd gan ddisgyblion a phobl ifanc yng Nghymru ydy'r cyfle iddyn nhw wasanaethu a chael eu hethol ar gynghorau ysgol? Bob tro y byddaf i'n cyfarfod pobl ifanc o'r etholaeth yn dod i'r Cynulliad yma, mi fyddaf i'n cymharu fy hun efo nhw fel pobl sydd wedi'u hethol. Ond onid y rhodd fwyaf y gallai Llywodraeth Cymru a'r Senedd hon ei rhoi i bobl ifanc Cymru fyddai rhoi'r hawl iddyn nhw bleidleisio yn 16? Fydd hynny ddim yn bosib yn yr etholiad Cynulliad nesaf, ond oni ddylai fo fod yn bosib yn yr etholiad dilynol?

Would you agree that one of the most important rights of pupils and young people in Wales is the opportunity to serve and be elected to school councils? Every time I meet young people from the constituency who visit the Assembly, I compare myself to them as elected representatives. But wouldn't the greatest gift that the Welsh Government and this Senedd could give to the young people of Wales be the right to vote at the age of 16? That won't be possible in the next Assembly election, but should it not be possible in the one following that?

14:23 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, it is an issue that's often raised with me. Just last week, I met with some 15 and 16-year-olds. I'm always very surprised that there is quite a difference—sometimes you go and you get a majority of young people who don't think 16 is the right age to vote and then, at other times—and this time—the majority of young people did believe they should vote at 16. I happen to believe that that would be the right age. You know, they work at 16, they can get married at 16 with parental permission, so I think it's a shame that they won't be able to vote in the Assembly elections.

Wel, mae'n fater sy'n cael ei ddwyn i fy sylw'n aml. Yr wythnos diwethaf yn unig, cyfarfûm â phobl ifanc 15 a 16 oed. Rwyf bob amser yn synnu'n fawr fod cryn wahaniaeth—weithiau ni fydd y rhan fwyaf o bobl ifanc yn credu mai 16 yw'r oedran iawn i gael yr hawl i bleidleisio, ac yna ar adegau eraill—a'r tro hwn—roedd y rhan fwyaf o'r bobl ifanc yn credu y dylent bleidleisio yn 16 oed. Rwy'n digwydd credu mai dyna fyddai'r oedran cywir. Maent yn gweithio yn 16 oed, gallant briodi yn 16 oed gyda chaniatâd eu rhieni, felly credaf ei bod yn drueni na fyddant yn cael pleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad.

14:23 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I'm pleased that Dafydd Elis-Thomas has raised this issue in the same week as International Women's Day and, indeed, the day of our debate. Issues such as domestic violence also affect children and young people in the families of women who are affected by it. Welsh Women's Aid have been doing a great job across Wales and in my constituency in helping tackle this issue and, indeed, they've been supporting a safe house in Abergavenny that has provided sanctuary over the years for many women and children. How are you supporting these safe environments for children and young people?

Weinidog, rwy'n falch fod Dafydd Elis-Thomas wedi codi'r mater hwn yn ystod yr un wythnos â Diwrnod Rhyngwladol y Menywod, ac yn wir, ar ddiwrnod ein dadl. Mae materion fel trais domestig hefyd yn effeithio ar blant a phobl ifanc yn nheuluoedd y menywod sy'n cael eu heffeithio ganddo. Mae Cymorth i Fenywod Cymru wedi bod yn gwneud gwaith gwych ledled Cymru ac yn fy etholaeth yn helpu i fynd i'r afael â'r broblem hon, ac yn wir, maent wedi bod yn cefnogi tŷ diogel yn y Fenni sydd wedi darparu lloches dros y blynyddoedd i lawer o fenywod a phlant. Sut rydych chi'n cefnogi'r amgylcheddau diogel hyn i blant a phobl ifanc?

14:24 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, you'll be aware of the legislation that was taken through this Assembly by my colleague, the Minister for Public Services. I think, you know, that piece of legislation just shows how we do support children who, unfortunately, are living in homes where domestic abuse is prevalent.

Wel, fe fyddwch yn ymwybodol o'r ddeddfwriaeth a gyflwynwyd yn y Cynulliad gan fy nghyd-Aelod, y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus. Credaf fod y ddeddfwriaeth honno'n dangos sut rydym yn cynorthwyo plant sydd, yn anffodus, yn byw mewn cartrefi lle y mae cam-drin domestig yn gyffredin.

**Tlodi Plant yn Nhorfaen**

**Child Poverty in Torfaen**

14:24 **Lynne Neagle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*9. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ymdrechion Llywodraeth Cymru i ddileu tlodi plant yn Nhorfaen? OAQ(4)0440(CTP)*

*9. Will the Minister make a statement on the Welsh Government's efforts to eradicate child poverty in Torfaen? OAQ(4)0440(CTP)*

14:24 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. We are tackling child poverty through programmes such as Flying Start, Families First, Communities First and the pupil deprivation grant. We are also investing in programmes to reduce the number of children living in workless households. Numbers are at one of their lowest levels in Torfaen and across Wales.

Diolch. Rydym yn mynd i'r afael â thlodi plant drwy raglenni fel Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf, Cymunedau yn Gyntaf a'r grant amddifadedd disgyblion. Rydym hefyd yn buddsoddi mewn rhaglenni i leihau nifer y plant sy'n byw ar aelwydydd heb waith. Mae'r niferoedd ar eu lefelau isaf yn Nhorfaen a ledled Cymru.

14:25 **Lynne Neagle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister. I was very relieved that the Tory Government, following further pressure from the House of Lords, abandoned its attempts to bury the bodies created by welfare reform by removing income as a measurement of child poverty in the UK. They are, however, repealing the Child Poverty Act 2010, which enshrined in statute the last Labour Government's historic commitment to eradicate child poverty by 2020. Will you take this opportunity to restate this Welsh Labour Government's commitment to eradicating child poverty, despite the onslaught we now face from Tory cuts and welfare reforms?

Diolch yn fawr, Weinidog. Roeddwn yn falch iawn fod y Llywodraeth Dorïaidd, yn dilyn rhagor o bwysau gan Dŷ'r Arglwyddi, wedi rhoi'r gorau i'w hymdrechion i gladdu'r cyrff a grëwyd gan ddiwygio lles drwy gael gwared ar incwm fel mesur o dlodi plant yn y DU. Fodd bynnag, maent yn diddymu Deddf Tlodi Plant 2010, a ymgorfforai mewn statud ymrwymiad hanesyddol y Llywodraeth Lafur ddiwethaf i ddileu tlodi plant erbyn 2020. A wnewch chi fanteisio ar y cyfle hwn i ailddatgan ymrwymiad Llywodraeth Lafur Cymru i ddileu tlodi plant, er gwaethaf yr ymosodiad a wynebwn yn awr gan doriadau'r Torïaid a'r diwygiadau lles?

14:25 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Absolutely. We've recently reaffirmed our ambition to eradicate child poverty in Wales by 2020, unlike the UK Government, which, as you say, has stepped away from that target. When we went out to consultation, when we were refreshing our 2015 child poverty strategy, it became very apparent that stakeholders felt that, if we kept that ambition, it would keep that momentum going that we have gained here in Wales and ensure that the ongoing investment in preventing poverty in the longer term was at the fore. I also was pleased that our 2015 strategy included two new strategic objectives for tackling child poverty. The first focused on tackling in-work poverty, because we've seen a rise in in-work poverty, and the second aims to support families to increase household income through debt and financial advice. Therefore, we can address the poverty premium.

Yn bendant. Yn ddiweddar, rydym wedi ailddatgan ein huchelgais i ddileu tlodi plant yng Nghymru erbyn 2020, yn wahanol i Lywodraeth y DU, sydd wedi rhoi'r gorau i'r targed hwnnw, fel y dywedwch. Pan gynhaliwyd ymgynghoriad gennym ar hyn, pan oeddem yn adnewyddu ein strategaeth tlodi plant ar gyfer 2015, daeth yn amlwg iawn fod y rhanddeiliaid yn teimlo, pe baem yn cadw'r uchelgais hwnnw, y byddai hynny'n cadw'r momentwm rydym wedi'i ennill yma yng Nghymru ac yn sicrhau bod y buddsoddiad parhaus mewn atal tlodi yn y tymor hir yn flaenoriaeth. Roeddwn hefyd yn falch fod ein strategaeth ar gyfer 2015 yn cynnwys dau amcan strategol newydd ar gyfer trechu tlodi plant. Roedd y cyntaf yn canolbwyntio ar drechu tlodi mewn gwaith, gan ein bod wedi gweld cynnydd mewn tlodi mewn gwaith, ac mae'r ail yn anelu i gynorthwyo teuluoedd i gynyddu incwm yr aelwyd drwy gyngor ar ddyledion a chyngor ariannol. Felly, gallwn fynd i'r afael â'r premiwm tlodi.

14:26 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, what assessment have you made of the studies by the British household panel survey, the family resources survey and Save the Children that indicate that, though there has been a decline in child poverty, there has been no proportionate decline in severe child poverty?

Weinidog, pa asesiad a wnaethoch o'r astudiaethau gan arolwg panel cartrefi Prydain, yr arolwg o adnoddau teulu ac Achub y Plant sy'n dangos, er bod gostyngiad wedi bod mewn tlodi plant, na fu unrhyw ostyngiad cymesur mewn tlodi plant difrifol?

14:27 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

That is a piece of work that officials are looking at. You're quite right: we have seen a decline in child poverty. I think the last figure I saw was 31 per cent for the number of children who are now, unfortunately, living in poverty in Wales. But it's something that we need to keep addressing. It does remain stubbornly high, but I think it's really important to recognise that we are making important progress in relation to a number of other key indicators.

Mae hwnnw'n waith y mae swyddogion yn edrych arno. Rydych chi'n llygad eich lle: rydym wedi gweld gostyngiad mewn tlodi plant. Credaf mai'r ffigur diwethaf a welais oedd 31 y cant ar gyfer y nifer o blant sydd bellach, yn anffodus, yn byw mewn tlodi yng Nghymru. Ond mae'n rhywbeth y mae'n rhaid i ni barhau i fynd i'r afael ag ef. Mae'n parhau i fod yn ystyfnig o uchel, ond credaf ei bod yn bwysig iawn cydnabod ein bod yn gwneud cynnydd pwysig mewn perthynas â nifer o ddangosyddion allweddol eraill.

### Undebau Credyd

### Credit Unions

14:27 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

*10. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am undebau credyd yng Nghymru? OAQ(4)0431(CTP)*

*10. Will the Minister provide an update on credit unions in Wales? OAQ(4)0431(CTP)*

Senedd.tv Fideo Video

14:27 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Diolch. Almost £1.9 million has been committed to support credit unions until March 2017. This project allows them to support financially excluded people who may not be able to access mainstream financial products. The funding has enabled the provision of more than 18,500 loans to individuals, totalling £14.8 million. Presiding Officer, I just want to declare that I am a member of the North Wales Credit Union.

Diolch. Mae bron i £1.9 miliwn wedi'i ymrwymo ar gyfer cefnogi undebau credyd tan fis Mawrth 2017. Mae'r prosiect hwn yn eu galluogi i gefnogi pobl sydd wedi'u heithrio'n ariannol nad ydynt o bosibl yn gallu cael mynediad at gynhyrchion ariannol prif ffrwd. Mae'r cyllid wedi ei gwneud hi'n bosibl darparu dros 18,500 o fenthyciadau i unigolion, sef cyfanswm o £14.8 miliwn. Lywydd, hoffwn ddatgan fy mod yn aelod o Undeb Credyd Gogledd Cymru.

Senedd.tv Fideo Video

14:28 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Diolch am yr ateb hynny. Yn ystod cyfnod mynd drwy fy Mil ar addysg a chynhwysiant ariannol, roedd y sector yn dweud bod Llywodraeth Cymru eisiau rhoi mwy o rôl i sector yr undebau credyd yng Nghymru, ond roedden nhw'n ei ffeindio hi'n anodd deall sut oedden nhw'n mynd i gymryd cyfrifoldeb llawn am yr hyn roeddech chi eisiau ei wneud oherwydd y ffaith bod yna rai cyfyngiadau cyfreithiol lle nad oedden nhw'n gallu gweithio mor dda gyda'i gilydd, ac oherwydd y ffaith bod yna doriad yn mynd i ddod i'w cyllideb yn 2017. Pa fath o waith yr ydych chi'n gweld undebau credyd yn gallu ei wneud gyda'i gilydd, i gydweithio yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni?

Thank you for that response. During the period of going through my Bill on financial education and inclusion, the sector was saying that the Welsh Government wanted to give more of a role to the credit union sector in Wales but that they found it difficult to understand how they were going to take full responsibility for what you wanted to see implemented because of the fact that there were some legal limitations where they couldn't work effectively together and the fact that there was to be a cut in their budget for 2017. So, what kind of work do you anticipate credit unions being able to do in collaboration in the current financial climate?

Senedd.tv Fideo Video

14:28 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

I think the Member raises a very important issue. I've been very pleased that, as you'll be aware, the Welsh credit union movement produced the first credit union strategy for Wales earlier this month, and I think that's really significant because it's been developed by the credit union family themselves. I think their primary aim is to make themselves sustainable and to take forward the work that we've been doing with them. I want to continue to help credit unions. I want to help them increase their membership, for instance, and we've seen a significant rise in the membership over the last 15 years—it's now over 80,000. But I just think that they're the best kept secret, and I don't want them to be the best kept secret, but I think it is important that we do continue to work with them.

Credaf fod yr Aelod yn crybwyll mater pwysig iawn. Roeddwn yn falch iawn fod mudiad undebau credyd Cymru, fel y byddwch yn ymwybodol, wedi cynhyrchu strategaeth gyntaf Cymru ar gyfer yr undebau credyd yn gynharach y mis hwn, a chredaf fod hynny'n bwysig iawn gan iddi gael ei datblygu gan deulu'r undebau credyd eu hunain. Credaf mai eu prif nod yw sicrhau eu bod yn gynaliadwy a bwrw ymlaen â'r gwaith rydym wedi bod yn ei wneud gyda hwy. Rwyf am barhau i helpu'r undebau credyd. Rwyf am eu helpu i gynyddu eu haelodaeth, er enghraifft, ac rydym wedi gweld cynnydd sylweddol yn eu haelodaeth dros y 15 mlynedd ddiwethaf—mae bellach dros 80,000. Ond credaf eu bod yn gyfrinach fawr, ac nid wyf yn dymuno iddynt fod y gyfrinach fawr, ond yn fy marn i, mae'n bwysig i ni barhau i weithio gyda hwy.

Senedd.tv Fideo Video

14:29 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

With an estimated two thirds of loan transactions estimated to actually save money for people if they belonged to credit unions or used credit unions as an alternative and with Welsh Government funding, as you said, due to end in 2017, how do you respond to the call by credit unions in Wales for the next Welsh Government to provide capacity-building support for the transition beyond 2017?

Amcangyfrifir bod oddeutu dwy ran o dair o drafodion benthyciadau yn arbed arian i bobl mewn gwirionedd os ydynt yn perthyn i undebau credyd neu'n defnyddio undebau credyd fel dewis amgen, a chyda chyllid Llywodraeth Cymru, fel y dywedoch, yn dod i ben yn 2017, sut rydych yn ymateb i'r galw gan undebau credyd yng Nghymru ar Lywodraeth nesaf Cymru i ddarparu cymorth meithrin gallu ar gyfer pontio y tu hwnt i 2017?

Senedd.tv Fideo Video

14:29 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, that would be a matter for the next Government. I think we've supported credit unions very well over the past few years. I've been very pleased with the work that has been done over the past 18 months. I've just mentioned they've brought forward their strategy themselves; they've all worked together on that, they've developed it, with the primary aim of making sure that credit union development in the coming years continues.

Wel, mater i'r Llywodraeth nesaf fyddai hynny. Credaf ein bod wedi cefnogi undebau credyd yn dda iawn yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Rwy'n falch iawn o'r gwaith a wnaed dros y 18 mis diwethaf. Rwyf newydd grybwyll eu bod wedi cyflwyno'u strategaeth eu hunain; maent oll wedi gweithio gyda'i gilydd arni, maent wedi'i datblygu, gyda'r prif nod o sicrhau bod undebau credyd yn parhau i ddatblygu yn y blynyddoedd i ddod.

14:30 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, in terms of taking the credit unions forward for the next Assembly term, I think one of the main issues is about the sustainability of those credit unions, in particular attracting members who are able to save more and take out loans, but also, I think, in terms of reducing the costs of credit unions. What work is the Government currently doing with the credit union movement in terms of getting common back-office systems, to reduce the costs that they all face in Wales?

Weinidog, o ran bwrw ymlaen â'r undebau credyd ar gyfer y tymor Cynulliad nesaf, credaf fod un o'r prif broblemau yn ymwneud â chynaliadwyedd yr undebau credyd hynny, yn enwedig denu aelodau sy'n gallu cynilo mwy a chael benthyciadau, ond hefyd, rwy'n meddwl, o ran lleihau costau undebau credyd. Pa waith y mae'r Llywodraeth yn ei wneud ar hyn o bryd gyda'r mudiad undebau credyd ar gael systemau swyddfa gefn cyffredin, er mwyn lleihau'r costau y maent oll yn eu hwynebu yng Nghymru?

14:30 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, this is something that the credit unions themselves are looking at. My officials are supporting them with this work. I think the point that you raise about getting more people to save with them, that was part of the work we undertook with them in relation to trying to get the private sector involved in credit unions. You'll be aware that Airbus, in my colleague Carl Sargeant's constituency, was the first private sector organisation to then have a payroll deduction scheme. And, again, that's been another focus. At the conference we held last year with the credit unions, that focus on payroll schemes was at the fore. Because, I think, if we do want to see more people save with them, that is the way forward.

Ie, dyma rywbeth y mae'r undebau credyd eu hunain yn edrych arno. Mae fy swyddogion yn eu cynorthwyo gyda'r gwaith hwn. Credaf fod y pwynt a wnewch ynglŷn â chael mwy o bobl i gynilo gyda hwy, roedd hynny'n rhan o'r gwaith a wnaethom gyda hwy i geisio annog y sector preifat i ymwneud ag undebau credyd. Fe fyddwch yn ymwybodol mai Airbus, yn etholaeth fy nghyd-Aelod Carl Sargeant, oedd y sefydliad cyntaf yn y sector preifat i gael cynllun didynnu o'r gyflogres. Ac unwaith eto, mae hynny wedi bod yn ffocws arall. Yn y gynhadledd a gynhaliwyd gennym y llynedd gyda'r undebau credyd, roedd y ffocws hwnnw ar gynlluniau cyflogres yn flaenoriaeth. Oherwydd, os ydym am weld mwy o bobl yn cynilo gyda hwy, credaf mai dyna'r ffordd ymlaen.

14:31 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister.

Diolch yn fawr, Weinidog.

14:31 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you.

Diolch.

14:31

## 3. Dadl ar Setliad Llywodraeth Leol 2016-17

## 3. Debate on the Local Government Settlement 2016-17

Senedd.tv Fideo Video

**Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

We now move to the next item, which is the debate on the local government settlement 2016-17, and I call on the Minister for Public Services, Leighton Andrews, to move the motion.

Symudwn yn awr at yr eitem nesaf, sef y ddadl ar y setliad llywodraeth leol ar gyfer 2016-17, a galwaf ar y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus, Leighton Andrews, i gynnig y cynnig.

Cynnig NDM5988 Jane Hutt

Motion NDM5988 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

Yn unol ag Adran 84H o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, yn cymeradwyo Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (Rhif 1) 2016-2017 (Setliad Terfynol—Cynghorau). Gosodwyd copi o’r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 2 Mawrth 2016.

Under Section 84H of the Local Government Finance Act 1988, approves the Local Government Finance Report (No. 1) 2016-17 (Final Settlement—Councils), which was laid in the Table Office on 2 March 2016.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

14:31

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus / The Minister for Public Services*

Thank you, Llywydd. I’m pleased to present to the Assembly, for its approval, the 2016-17 local government settlement for the 22 unitary authorities in Wales. Next year, local authorities in Wales will receive just over £4.1 billion in general revenue funding. This is a decrease of 1.3 per cent, compared with 2015-16. Now, while this settlement represents a reduction in funding, it is considerably better than local authorities were expecting, and at least twice as good as the settlement in England. And, indeed, in Scotland, there has been a 3.4 per cent cut to local government funding.

Diolch, Lywydd. Rwy’n falch o gyflwyno setliad llywodraeth leol 2016-17 i’r 22 awdurdod unedol yng Nghymru er mwyn i’r Cynulliad ei gymeradwyo. Y flwyddyn nesaf, bydd awdurdodau lleol yng Nghymru yn cael ychydig dros £4.1 biliwn o gyllid refeniw cyffredinol. Mae hyn yn ostyngiad o 1.3 y cant, o’i gymharu â 2015-16. Nawr, er y gostyngiad yng nghyllid y setliad hwn, mae gryn dipyn yn well na’r hyn roedd awdurdodau lleol yn ei ddisgwyl, ac o leiaf ddwywaith cystal â’r setliad yn Lloegr. Ac yn wir, yn yr Alban, cafwyd toriad o 3.4 y cant i gyllid llywodraeth leol.

It’s worth reflecting that the local government funding formula is kept under a continual programme of review and improvement, overseen by a working group of experts from across Wales. Each year, we consult on the formula, through the partnership council for Wales, the finance sub-group and the distribution sub-group. The Welsh Local Government Association and authorities from across Wales are represented on all these groups. We have also formally consulted on the provisional settlement. Therefore, I am confident that this settlement provides a robust basis for local authority budget planning for the coming financial year.

Mae’n werth ystyried bod fformiwla ariannu llywodraeth leol yn cael ei chadw o dan raglen adolygu a gwella parhaus, ac fe’i goruchwylir gan weithgor o arbenigwyr o bob rhan o Gymru. Bob blwyddyn, rydym yn ymgynghori ar y fformiwla, drwy gyngor partneriaeth Cymru, yr is-grŵp cyllid a’r is-grŵp dosbarthu. Cynrychiolir Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac awdurdodau o bob rhan o Gymru ar yr holl grwpiau hyn. Rydym hefyd wedi ymgynghori’n ffurfiol ar y setliad dros dro. Felly, rwy’n hyderus fod y setliad hwn yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer cynllunio cyllidebau awdurdodau lleol ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

We have protected the funding for local government in Wales over the course of this Assembly term. Local government in Wales has not been subject to the level of cuts experienced by councils in England. Over the past five years, spending on local services in Wales has increased by 2.5 per cent in cash terms, while in England it has decreased by around 10 per cent. And, in Scotland, spending on local services has fallen by 8.5 per cent. And that isn’t the worst of it. In England, the Tory Government have made sure that the most deprived areas received the biggest cuts. Over the last five years, the 10 most deprived areas in England have seen spending cuts 18 times higher than the 10 least deprived. This year, the local government Secretary in England announced a £300 million transitional grant for councils suffering the harshest cuts, but 85 per cent of this goes to the Tory authorities that have suffered the least since 2010.

Rydym wedi diogelu’r cyllid ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru yn ystod tymor y Cynulliad hwn. Nid yw llywodraeth leol yng Nghymru wedi profi’r un lefel o doriadau â chynghorau Lloegr. Dros y pum mlynedd ddiwethaf, mae gwariant ar wasanaethau lleol yng Nghymru wedi cynyddu 2.5 y cant yn nhermau arian parod, ac wedi gostwng oddeutu 10 y cant yn Lloegr. Ac yn yr Alban, mae gwariant ar wasanaethau lleol wedi gostwng 8.5 y cant. Ac nid dyna’r gwaethaf. Yn Lloegr, mae’r Llywodraeth Dorïaidd wedi gwneud yn siŵr mai’r ardaloedd mwyaf difreintiedig sydd wedi cael y toriadau mwyaf. Dros y pum mlynedd ddiwethaf, mae’r toriadau i 10 ardal fwyaf difreintiedig Lloegr wedi bod 18 gwaith yn fwy na’r toriadau i’r 10 ardal leiaf difreintiedig. Eleni, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd llywodraeth leol yn Lloegr grant trosiannol o £300 miliwn i’r cynghorau sy’n dioddef y toriadau mwyaf llym, ond mae 85 y cant o hwn yn mynd i’r awdurdodau Torïaidd sydd wedi dioddef leiaf ers 2010.

In this settlement, we have recognised the importance of strong, local social services to the long-term success of the health service in Wales. We’re providing an additional £21 million through the settlement in recognition of this. Again, a contrast with England. The Local Government Association made it clear last month that the additional 2 per cent rise allowed on council tax in England does not equate to proper funding of social care, and that councils in England are dangerously close to a social care crisis.

Yn y setliad hwn, rydym wedi cydnabod pwysigrwydd gwasanaethau cymdeithasol cryf, lleol i lwyddiant hirdymor y gwasanaeth iechyd yng Nghymru. Rydym yn darparu £21 miliwn yn ychwanegol drwy’r setliad i gydnabod hyn. Unwaith eto, ceir cyferbyniad â Lloegr. Fe’i gwnaed yn glir gan y Gymdeithas Llywodraeth Leol fis diwethaf nad yw’r cynnydd ychwanegol o 2 y cant a ganiateir ar y dreth gyngor yn Lloegr yn cyfateb i gyllid priodol ar gyfer gofal cymdeithasol, a bod cynghorau yn Lloegr yn beryglus o agos at argyfwng ym maes gofal cymdeithasol.

In line with the First Minister's commitment, we are also continuing to protect schools funding. The settlement includes resources to protect funding for schools at 1 per cent above the overall change in the Welsh revenue budget. And, in 2016-17, we are providing an additional £35 million for this. I'm proud of our commitment to maintain full entitlements for eligible applicants under the council tax reduction scheme. We're supporting local government to deliver the scheme in 2016-17 by, again, distributing £244 million within the settlement, and local authorities must take account of the scheme in making their decisions about council tax.

The settlement also includes the £2.5 million top-up funding for 2016-17 announced by the Minister for Finance and Government Business in the debate on the draft budget. Alongside the settlement, I have published the latest information on Welsh Government grant schemes for 2016-17: £766 million of revenue grant funding will be provided from across the Welsh Government.

We have made considerable progress in simplifying the range of grants. Over £190 million of an annual funding has been transferred into the settlement over the course of this Assembly term, and this settlement includes a transfer into the RSG of £31 million previously paid to local authorities through the outcome agreement grant.

We remain committed to looking for further ways to allow authorities flexibility in using the available resources while ensuring that key national priorities are addressed. I've also released up-to-date information on local authority capital funding. Overall capital funding is expected to be over £340 million for 2016-17.

This information provides local authorities with a comprehensive picture of the funding form Welsh Government for 2016-17, allowing them to budget effectively. Obviously, it's essential that authorities engage local people in decisions about how local resources are prioritised and spent.

As well as the funding announced in this settlement, those resources also include the funding raised from council tax and local fees and charges. Ultimately, it is for authorities to manage those resources. They need to consider all available options, including joining with others to deliver services, investing in transformation and in developing new models of delivery. It is also important that every authority exercises its right and responsibility to set its council tax at an appropriate level.

This is a fair and realistic settlement for local government in very difficult times. It underlines our commitment to maintain public services for those who need them most and to invest in local government, despite the pressures on the Welsh budget. I ask Assembly Members to support this motion.

Yn unol ag ymrwymiad y Prif Weinidog, rydym hefyd yn parhau i ddiogelu cyllid ysgolion. Mae'r setliad yn cynnwys adnoddau i sicrhau bod cyllid i ysgolion yn parhau i fod 1% yn uwch na'r newid cyffredinol yn y gyllideb refeniw yng Nghymru. Ac yn 2016-17, byddwn yn darparu £35 miliwn yn ychwanegol ar gyfer hyn. Rwy'n falch o'n hymrwymiad i gadw hawliau llawn i ymgeiswyr cymwys o dan gynllun gostyngiadau'r dreth gyngor. Rydym yn cynorthwyo llywodraeth leol i gyflawni'r cynllun yn 2016-17, unwaith eto drwy ddosbarthu £244 miliwn o fewn y setliad, ac mae'n rhaid i awdurdodau lleol ystyried y cynllun wrth wneud eu penderfyniadau ynghylch y dreth gyngor.

Mae'r setliad hefyd yn cynnwys y cyllid atodol o £2.5 miliwn ar gyfer 2016-17 a gyhoeddwyd gan Weinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth yn y ddadl ar y gyllideb ddrafft. Ynghyd â'r setliad, rwyf wedi cyhoeddi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau grant Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016-17: bydd £766 miliwn o arian grant refeniw yn cael ei ddarparu o bob rhan o Lywodraeth Cymru.

Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol ar symleiddio'r ystod o grantiau. Mae dros £190 miliwn o gyllid blynyddol wedi'i drosglwyddo i'r setliad yn ystod tymor y Cynulliad hwn, ac mae'r setliad hwn yn cynnwys trosglwyddiad o £31 miliwn i'r grant cynnal refeniw a dalwyd i awdurdodau lleol yn flaenorol drwy'r grant cytundeb canlyniadau.

Rydym yn parhau'n ymrwymedig i chwilio am ffyrdd pellach o ganiatáu hyblygrwydd i awdurdodau ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael, gan sicrhau y rhoddir sylw i flaenoriaethau cenedlaethol allweddol. Rwyf hefyd wedi rhyddhau'r wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â chyllid cyfalaf awdurdodau lleol. Disgwylir y bydd cyfanswm y cyllid cyfalaf dros £340 miliwn ar gyfer 2016-17.

Mae'r wybodaeth hon yn rhoi darlun cynhwysfawr i awdurdodau lleol o'r cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2016-17, gan eu caniatáu i gyllidebu'n effeithiol. Yn amlwg, mae'n hanfodol fod awdurdodau'n cynnwys pobl leol mewn penderfyniadau ynglŷn â sut y caiff adnoddau lleol eu blaenoriaethu a'u gwario.

Yn ogystal â'r cyllid a gyhoeddwyd yn y setliad hwn, mae'r adnoddau hynny hefyd yn cynnwys y cyllid a godwyd o'r dreth gyngor a ffioedd a thaliadau lleol. Yn y pen draw, mater i'r awdurdodau yw rheoli'r adnoddau hynny. Mae angen iddynt ystyried yr holl opsiynau sydd ar gael, gan gynnwys ymuno gydag eraill i ddarparu gwasanaethau, buddsoddi mewn trawsnewid ac mewn datblygu modelau darparu newydd. Mae hefyd yn bwysig fod pob awdurdod yn arfer ei hawl a'i gyfrifoldeb i bennu ei dreth gyngor ar lefel briodol.

Mae hwn yn setliad teg a realistig i lywodraeth leol mewn cyfnod anodd iawn. Mae'n pwysleisio ein hymrwymiad i gynnal gwasanaethau cyhoeddus ar gyfer y rhai sydd eu hangen fwyaf ac i fuddsoddi mewn llywodraeth leol, er gwaethaf y pwysau ar gyllideb Cymru. Gofynnaf i Aelodau'r Cynulliad gefnogi'r cynnig hwn.

14:37 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Once again, we stand here today as the Welsh Labour Government and its Minister seek to justify budget allocations to 22 authorities in Wales. Of course, the Minister will say that the amounts allocated have been agreed through consultation over a six-week period by representatives of local government. Yet, I would ask the Minister to justify such wide variances in terms of the financial support going to our authorities and to explain why there does appear to be some coincidental and financial advantage for some Labour-led authorities as opposed to others.

Unwaith eto, rydym yn sefyll yma heddiw wrth i Lywodraeth Lafur Cymru a'i Gweinidog geisio cyfiawnhau dyraniadau'r gyllideb i 22 awdurdod yng Nghymru. Wrth gwrs, bydd y Gweinidog yn dweud y cytunwyd ar y symiau a ddyrannwyd drwy ymgynghori dros gyfnod o chwe wythnos gan gynrychiolwyr llywodraeth leol. Eto i gyd, byddwn yn gofyn i'r Gweinidog gyfiawnhau amrywiadau mor eang yn y cymorth ariannol sy'n mynd i'n hawdurdodau ac i egluro pam y mae'n ymddangos bod rhywfaint o fantais drwy gyd-ddigwyddiad ac ariannol i rai awdurdodau dan arweiniad Llafur yn hytrach nag eraill.

Labour city councils have certainly done okay under this Welsh Labour Government. This settlement apparently takes into account the demographic, physical, economic and social characteristics of an authority. But, in real terms, the settlement put forward by Welsh Labour once again completely ignores the issue of rurality and the obvious inequality that we see too often in Wales. The settlement going forward this year, and the record of this Government, is one that will be remembered on 5 May I'm sure, as voters take to the polls.

Mae cynghorau dinas Llafur yn sicr wedi gwneud yn iawn o dan Lywodraeth Lafur Cymru. Mae'r setliad hwn, yn ôl pob golwg, yn ystyried nodweddion demograffig, ffisegol, economaidd a chymdeithasol awdurdod. Ond mewn termau real, mae'r setliad a gyflwynwyd gan blaid Lafur Cymru unwaith eto yn anwybyddu'n llwyr y materion sy'n ymwneud â natur wledig a'r anghydraddoldeb amlwg a welwn yn rhy aml yng Nghymru. Mae'r setliad a gyflwynir eleni, a record y Llywodraeth hon, yn un a gofir ar 5 Mai, rwy'n siŵr, wrth i bleidleiswyr fynd i bleidleisio.

Those living in our more rural parts are once again failed by a Welsh Labour Government that simply doesn't understand our countryside, isn't interested in sparsity and lower population numbers, and, frankly, doesn't give a damn about our countryside, including those who live and work in it—the very same people who, year on year, see their rural services diminishing, community transport cut and local service provisions simply stripped away, rendering many to feel in desperate isolation and unable to access the more vital services, so much more available in our urban authorities, and those services that we even take for granted.

Mae'r rhai sy'n byw yn ein hardaloedd mwy gwledig wedi cael cam unwaith eto gan Lywodraeth Lafur Cymru, nad yw'n deall ein cefn gwlad, Llywodraeth nad oes ganddi ddiddordeb mewn teneurwydd poblogaeth a phoblogaeth lai o faint, Llywodraeth nad yw'n malio dim, a dweud y gwir, am ein cefn gwlad, gan gynnwys y rhai sy'n byw ac yn gweithio yno—yr union bobl sydd, o un flwyddyn i'r llall, yn gweld eu gwasanaethau gwledig yn crebachu, cludiant cymunedol yn cael ei dorri a darpariaethau gwasanaethau lleol yn cael eu colli, gan olygu bod llawer yn teimlo wedi'u hynysu mewn anobaith llwyr ac yn methu â chael mynediad at y gwasanaethau mwy hanfodol, sydd ar gael i raddau llawer mwy yn ein hawdurdodau trefol, a'r gwasanaethau hynny rydym yn eu cymryd yn ganiataol hyd yn oed.

Minister, once again, your Government has failed our countryside. In order for the appropriate grant calculation to an authority, it is assumed that there is no use of, or contribution to, financial reserves. I would ask you, Minister: will you advise the Chamber today how you are monitoring the holding back of these moneys? Merthyr Tydfil holding £15 million, Bridgend £63.5 million and Rhondda Cynon Taf £130 million—all adding up to a staggering amount of £1.5 billion. How is this monitored? Why such variation? And, just how will these moneys be used to influence or shape any forthcoming local government merger proposals?

Weinidog, unwaith eto, mae eich Llywodraeth wedi gwneud cam â'n cefn gwlad. Er mwyn cyfrif y grant priodol i awdurdod, rhagdybir na wneir defnydd o, ac na chyfrennir tuag at gronfeydd ariannol wrth gefn. Carwn ofyn hyn i chi, Weinidog: a wnewch chi roi gwybod i'r Siambr heddiw sut rydych yn monitro'r modd y cedwir y cronfeydd hyn yn ôl? Mae Merthyr Tudful yn cadw £15 miliwn, Pen-y-bont ar Ogwr yn cadw £63.5 miliwn a Rhondda Cynon Taf yn cadw £130 miliwn—a'r cyfanswm syfrdanol yn £1.5 biliwn. Sut y caiff hyn ei fonitro? Pam y fath amrywio? A sut yn union y defnyddir yr arian hwn i ffurfio neu ddylanwadu ar unrhyw gynigion sydd ar y gweill i uno llywodraeth leol?

We know, too, that much of the determination is based on the standard spending assessment and top-up funding to include the non-domestic rate, and includes assumptions as to the amount of council tax that a council is able to raise. Now, the latter point, of course, being of much consternation to the Welsh Conservative benches, given that here in Wales we have seen eye-watering levels of council tax increases—168 per cent since you came into power. A band D property in Westminster is £674, a band D in Conway is £1,286; a band D property in Wandsworth is £683, and in Monmouthshire the same property would cost you, in council tax, £1,349. The percentage proportion of annual income paid in council tax in Wales is 4.76 per cent; in Scotland it's just 3.6 per cent.

Rydym yn gwybod, hefyd, fod llawer o'r penderfyniad yn seiliedig ar yr asesiad o wariant safonol a chyllid atodol i gynnwys ardrethi annomestig, ac mae'n cynnwys rhagdybiaethau ynglŷn â faint o dreth gyngor y bydd cyngor yn gallu ei chodi. Nawr, y pwynt olaf hwn, wrth gwrs, sy'n peri llawer o ddryswch i feinciau'r Ceidwadwyr Cymreig, o ystyried ein bod yma yng Nghymru wedi gweld cynnydd eithriadol yn lefelau'r dreth gyngor—168 y cant ers i chi ddod i rym. Mae eiddo band D yn San Steffan yn £674, mae band D yng Nghonwy yn £1,286; mae eiddo band D yn Wandsworth yn £683, a byddai'r un eiddo yn Sir Fynwy yn costio £1,349 i chi mewn treth gyngor. Y gyfran o ganran incwm blynyddol a delir o dreth gyngor yng Nghymru yw 4.76 y cant; yn yr Alban, 3.6 y cant yn unig ydyw.

During a recent survey across Aberconwy, one of the top three issues of concern to my residents was the level of council tax paid each year. You mention a demographically fair settlement. If you look at the demographics of Conwy, the age profile determines the inequality of a continual 5 per cent increase, made all the more painful when we have seen such swingeing cuts: our community bus routes slashed without reason; our bin collections reduced to a three-weekly cycle, with one area the first in Wales to ever be trialled on a four-weekly cycle; and, huge cash revenues received on the backs of our motorists and our shoppers from the implementation of increased car parking charges in our towns, and even within our remaining free car parks. And, yes, Minister, my constituents are simply fed up with paying more and receiving less. You cannot blame the UK Government for your own failed settlement process, and you cannot fool all the people all of the time.

Yn ystod arolwg diweddar ar draws Aberconwy, un o'r tri mater a oedd yn peri fwyaf o bryder i fy nhrigolion oedd lefel y dreth gyngor a delir bob blwyddyn. Rydych yn sôn am setliad sy'n deg yn ddemograffig. Os edrychwch ar ddemograffeg Conwy, mae'r proffil oedran yn dynodi anghydraddoldeb cynnydd parhaus o 5 y cant, sy'n fwy poenus byth pan rydym wedi profi toriadau mor llym: ein llwybrau bysiau cymunedol yn cael eu torri heb reswm; ein casgliadau bin yn cael eu cyfyngu i gylch pob tair wythnos, gydag un ardal yn gyntaf yng Nghymru i dreialu cylch pob pedair wythnos; a refeniw arian parod enfawr yn cael ei dderbyn ar draul ein modurwyr a'n siopwyr yn sgil cynyddu taliadau parcio yn ein trefi, a hyd yn oed yn y meysydd parcio rhad ac am ddim a oedd ar ôl gennym. Mae'n wir, Weinidog, mae fy etholwyr wedi cael llond bol ar dalu mwy a chael llai. Ni allwch feio Llywodraeth y DU am broses eich setliad aflwyddiannus eich hun, ac ni allwch dwyllo'r bobl i gyd drwy'r amser.

As with our health service, our education system and with the delivery of our most vital services, you and your Labour Government have failed. As I said a year ago, come 5 May, I do believe that our constituents will return a Welsh Conservative Government.

Fel gyda'n gwasanaeth iechyd, ein system addysg a darparu ein gwasanaethau mwyaf hanfodol, rydych chi a'ch Llywodraeth Lafur wedi methu. Fel y dywedais flwyddyn yn ôl, pan ddaw 5 Mai, rwy'n credu y bydd ein hetholwyr yn ethol Llywodraeth Geidwadol i Gymru.

14:43

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'd like to ask Janet Finch-Saunders, when she has time, to read the Record of what she said and to consider some of the use of her language, because you were borderline on what is acceptable in the Chamber.

Hoffwn ofyn i Janet Finch-Saunders, pan fydd ganddi amser, ddarllen y Cofnod o'r hyn a ddywedodd ac ystyried ei defnydd o iaith, oherwydd roeddech ar ffin yr hyn sy'n dderbyniol yn y Siambr.

14:43

## Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Okay. Only borderline.

Iawn. Ar y ffin, yn unig.

14:43

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I said 'borderline'; not 'only borderline', 'borderline'. Thank you. Mike Hedges.

Dywedais 'ar y ffin'; nid 'ar y ffin, yn unig', 'ar y ffin'. Diolch. Mike Hedges.

14:43

## Mike Hedges Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. Can I start off by saying that I believe in the importance of local government and the services it provides?

Diolch i chi, Lywydd. A gaf fi ddechrau drwy ddweud fy mod yn credu ym mhwysigrwydd llywodraeth leol a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu?

Can I return to what Janet Finch-Saunders was talking about—the formula? We talk about the formula. Can I just say I'm not one who normally stands up for Cardiff, but the council that gets the least money in Wales is Cardiff? The council that has the highest population growth is Cardiff. So, if the formula gets changed, I think that you may well find the cities doing an awful lot better and some of the rural areas doing an awful lot worse. Be careful what you wish for when changing a formula, because with the same amount of money going in, then all you're doing is moving it around. And although we only, here, talk about percentage changes year on year, if you actually look at the absolute numbers, then you'll find that some of the rural authorities do incredibly well compared to the cities. Sorry to interrupt prejudice with facts.

A gaf fi ddychwelyd at yr hyn roedd Janet Finch-Saunders yn siarad amdano—y fformiwla? Rydym yn siarad ynglŷn â'r fformiwla. A gaf fi ddweud nad wyf yn un sydd fel arfer yn achub cam Caerdydd, ond y cyngor sy'n cael leiaf o arian yng Nghymru yw cyngor Caerdydd? Caerdydd yw'r cyngor sydd â'r twf mwyaf yn ei boblogaeth. Felly, os newidir y fformiwla, rwy'n meddwl efallai y gwelwch y bydd y dinasoedd yn gwneud yn llawer gwell a rhai o'r ardaloedd gwledig yn gwneud yn llawer gwaeth. Byddwch yn ofalus o'r hyn a ddymunwch wrth newid fformiwla, oherwydd gyda'r un faint o arian yn mynd i mewn, y cyfan a wnewch yw ei symud o gwmpas. Ac er mai sôn yn unig am y newidiadau canrannol o un flwyddyn i'r llall a wnawn yma, os edrychwch ar y niferoedd absoliwt, yna fe welwch fod rhai o'r awdurdodau gwledig yn gwneud yn eithriadol o dda o gymharu â'r dinasoedd. Mae'n ddrwg gennyf am dorri ar draws rhagfarn gyda ffeithiau.

Can I welcome the local government reduction floor that's now been agreed? It shows how the local government debate has developed, when a 3 per cent cut in expenditure can be seen as a success. I remember when a 3 per cent increase in expenditure was seen as a problem.

A gaf fi groesawu terfyn isaf y gostyngiad i lywodraeth leol y cytunwyd arno erbyn hyn? Dengys y sut mae'r ddadl llywodraeth leol wedi datblygu, pan ellir ystyried toriad o 3 y cant yn y gwariant yn llwyddiant. Rwy'n cofio pan ystyrid cynnydd o 3 y cant yn y gwariant yn broblem.

14:44

## Nick Ramsay Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mike, will you give way?

Mike, a wnewch chi ildio?

14:44

## Mike Hedges Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Certainly.

Yn sicr.

14:44

## Nick Ramsay Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm grateful to you for giving way, Mike. It's the way you tell them. If you honestly think that rural authorities are getting a good deal compared with urban authorities, how can you justify 3 per cent cuts to authorities such as Ceredigion, Monmouthshire and Powys, and a 1.5 per cent cut for areas such as Torfaen? That's not fair, is it?

Rwy'n ddiolchgar i chi am ildio, Mike. Mae gennych ddawn gyda geiriau. Os ydych chi wir yn meddwl bod awdurdodau gwledig yn cael bargen dda o gymharu ag awdurdodau trefol, sut y gallwch gyfiawnhau toriadau o 3 y cant i awdurdodau fel Ceredigion, Sir Fynwy a Phowys, a thoriad o 1.5 cant i ardaloedd fel Torfaen? Ydy hynny'n deg?

14:44

## Mike Hedges Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can I just suggest you look at the absolute numbers rather than the percentage changes on a year-by-year basis, and you will find that rural authorities do far better than the big cities?

A gaf fi awgrymu eich bod yn edrych ar y ffigurau absoliwt yn hytrach na newidiadau canrannau o un flwyddyn i'r llall, ac fe welwch fod awdurdodau gwledig yn gwneud yn llawer gwell na'r dinasoedd mawr?

Too often here, we have discussions during Plenary sessions on health that only address the need for more money for hospitals and medical interventions, not stopping people needing these interventions. Local government plays a key role in dealing with health. Firstly, elderly care and home care are run by social services, which arrange a patient's hospital discharge packages and then provide support and care to reduce their need to return to hospital. Secondly, leisure services provide sporting and exercise opportunities, keeping people fit, keeping people active, improving their health. Thirdly, environmental health reduces the number of occurrences of food poisoning and deals with rodents and dead animals. Fourthly, and finally, though there could be a lot more, is education: providing children with information on lifestyle and diet, providing exercise during the school day, and providing nutritious school dinners.

Yn rhy aml yma, rydym yn cael trafodaethau yn ystod sesiynau'r Cyfarfod Llawn ar iechyd sydd ond yn ymdrin â'r angen am fwy o arian ar gyfer ysbytai ac ymyriadau meddygol, yn hytrach nag atal pobl rhag bod angen yr ymyriadau hyn. Mae llywodraeth leol yn chwarae rhan allweddol yn ymdrin ag iechyd. Yn gyntaf, caiff gofal yr henoed a gofal cartref eu rhedeg gan y gwasanaethau cymdeithasol, sy'n trefnu pecynnau rhyddhau cleifion o'r ysbyty ac yna'n darparu cymorth a gofal i leihau'r angen iddynt ddychwelyd i'r ysbyty. Yn ail, mae gwasanaethau hamdden yn darparu cyfleoedd chwaraeon ac ymarfer corff sy'n cadw pobl yn heini, yn cadw pobl yn weithgar, ac yn gwella eu hiechyd. Yn drydydd, mae iechyd yr amgylchedd yn lleihau nifer yr achosion o wenwyn bwyd ac yn delio â llygod ac anifeiliaid marw. Yn bedwerydd, ac yn olaf, er y gallai fod llawer mwy, mae addysg: rhoi gwybodaeth i blant ynglŷn â ffordd o fyw a deiet, darparu ymarfer corff yn ystod y diwrnod ysgol, a darparu cinio ysgol llawn maeth.

What has happened to local government in England? Local government spending in England has collapsed. The cuts continue. The underlying cut in funding for existing services is huge. Cuts in spending power and budgetary spend are systematically greater in the more deprived local authorities than in the more affluent ones—a difference of around £100 per person. Reduction in spending tells only part of the story, as authorities also have to cope with rising costs and demands—the demands of elderly people and their numbers are increasing, and the need for more community care, but also the costs of things like national insurance and pensions.

Beth sydd wedi digwydd i lywodraeth leol yn Lloegr? Mae gwariant llywodraeth leol yn Lloegr wedi dymchwel. Mae'r toriadau'n parhau. Mae'r toriad sylfaenol yn y cyllid ar gyfer gwasanaethau sy'n bodoli eisoes yn enfawr. Mae toriadau yn y grym gwario a gwariant cyllidebol yn uwch yn systematig yn yr awdurdodau lleol mwy difreintiedig nag yn y rhai mwy cefnog— gwahaniaeth o tua £100 y person. Nid yw gostyngiad yn y gwariant ond yn rhoi rhan o'r stori'n unig, gan fod yn rhaid i awdurdodau ymdopi hefyd â chostau a galwadau cynyddol—galwadau pobl oedrannus ac mae eu niferoedd yn cynyddu, a'r angen am fwy o ofal cymunedol, ond hefyd costau pethau fel yswiriant gwladol a phensiynau.

For those who believe that larger authorities can withstand the cuts better, Government is setting out to 'destroy Birmingham', Liam Byrne, a Birmingham MP, claimed in an emotional response to 6,000 job losses amid a £400 million budget black hole. Birmingham City Council is set to axe almost half its workforce in four years, losing more employees than were made redundant following the collapse of MG Rover. It has called into question the council's ability to deliver statutory resources like concessionary travel and waste disposal, after leader Albert Bore described it as a 'ticking time bomb', admitted whole services would be axed, and refused to rule anything out. The scale of job losses, which will see staff numbers plunge from 20,000 in 2011 to 7,000 in 2018, has left the council 'smashed', it has been claimed.

I'r rhai sy'n credu y gall awdurdodau mwy o faint wrthsefyll y toriadau yn well, mae'r Llywodraeth yn mynd ati i 'ddinistrio Birmingham', yn ôl Liam Byrne, AS yn Birmingham, mewn ymateb emosiynol i golli 6,000 o swyddi mewn twll du cyllidebol o £400 miliwn. Mae Cyngor Dinas Birmingham yn bwriadu cael gwared ar bron hanner ei weithlu mewn pedair blynedd, gan golli mwy o weithwyr nag a wnaed yn ddi-waith yn sgil methiant MG Rover. Mae hyn wedi bwrw amheuaeth ar allu'r cyngor i ddarparu adnoddau statudol fel teithio rhatach a gwaredu gwastraff ar ôl i'r arweinydd, Albert Bore, ei ddisgrifio fel 'bom yn tician', gan gyfaddef y byddai gwasanaethau cyfan yn cael eu torri, a gwrthododd ddiystyru unrhyw beth. Honnwyd bod graddau'r swyddi a gollir, a fydd yn arwain at ostyngiad enfawr yn niferoedd y staff o 20,000 yn 2011 i 7,000 yn 2018, wedi chwalu'r cyngor.

Turning to the timing of the settlement, the late timing of the UK Government's spending review presented the Welsh Government with a significant challenge in terms of preparing both the draft Welsh budget and local government settlement. The Welsh Government published the provision of final local government revenue and capital settlements for 2016-17 as soon as was possible following the delay imposed by the Tory UK Government decision to leave the publication of the spending review so late in the financial year. Local councils have to, by law, set their budgets within the next week or so. The late settlement leaves very little time for councils to set their budgets and leaves very little time for them to calculate and provide individual school budgets.

Gan droi at amseriad y setliad, roedd amseriad hwyr adolygiad o wariant Llywodraeth y DU yn her sylweddol i Lywodraeth Cymru o ran paratoi cyllideb ddrafft Cymru a'r setliad llywodraeth leol. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai setliadau refeniw a chyfalaf llywodraeth leol terfynol ar gyfer 2016-17 yn cael eu darparu cyn gynted â phosibl yn dilyn yr oedi yn sgil penderfyniad Llywodraeth Doriaidd y DU i gyhoeddi'r adolygiad o wariant mor hwyr yn y flwyddyn ariannol. Mae'n rhaid i gynghorau lleol, yn ôl y gyfraith, osod eu cyllidebau o fewn yr wythnos nesaf fwy neu lai. Nid yw'r setliad hwyr yn gadael fawr iawn o amser i gynghorau bennu eu cyllidebau a fawr iawn o amser i gyfrifo a darparu cyllidebau ysgolion unigol.

I believe local government provides key services and needs adequate funding, and we don't need to look at it on a year-by-year change, we need to look at the absolute amount of money coming in to local government. It provides so many really important services, and what I find interesting here is the number of people who are quite happy to see local government expenditure cut overall—though their own local authorities ought to be exempt—but also get upset, because, when those cuts actually turn into service cuts, then it's all the local authority's fault. What we need is adequate funding from Westminster, so we can get adequate funding for our local authorities.

Rwy'n credu bod llywodraeth leol yn darparu gwasanaethau allweddol ac mae angen cyllid digonol arnynt, ac nid oes angen i ni edrych ar hyn o ran newid o un flwyddyn i'r llall, mae angen i ni edrych ar y swm absoliwt o arian sy'n dod i mewn i lywodraeth leol. Maent yn darparu cymaint o wasanaethau pwysig iawn, a'r hyn sy'n ddiddorol yma yw nifer y bobl sy'n ddigon hapus i weld toriadau yng ngwariant llywodraeth leol yn gyffredinol—er y dylid eithrio eu hawdurdodau lleol eu hunain—ond sydd hefyd yn cynhyrfu, oherwydd, pan fydd y toriadau hynny'n troi'n doriadau i wasanaethau, mae'r bai i gyd ar yr awdurdod lleol. Yr hyn sydd ei angen arnom yw cyllid digonol o San Steffan, er mwyn i ni allu cael cyllid digonol i'n hawdurdodau lleol.

14:48 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Lywydd, a gaf i, yn y lle cyntaf gyfeirio at y dogfennau ategol ar gyfer y ddadl yma a'r ddadl nesaf, dogfennau sydd wedi eu cyflwyno gan Lywodraeth Cymru? Mae'r dogfennau hynny yn uniaith Saesneg. Rwy'n credu bod y ffaith honno yn dangos diffyg parch tuag at rywun fel fi sy'n dymuno gweithredu trwy gyfrwng y Gymraeg yn y lle hwn, ond mae e'n dangos diffyg parch hefyd at bolisi ieithoedd swyddogol y Cynulliad Cenedlaethol, sydd yn datgan y bydd yr holl ddeunyddiau hynny ar gael yn y ddwy iaith. Nid gwaith y Comisiwn yw cyfieithu dogfennau sy'n cael eu cyflwyno gan y Llywodraeth. Mae yna gyfrifoldeb ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno'r dogfennau hynny yn y Gymraeg ac yn y Saesneg hefyd. Fe fyddwn i'n gofyn ichi, Lywydd, i gael trafodaethau gyda Phrif Weinidog Cymru er mwyn sicrhau na fydd y math yma o fethiant yn codi eto. Rŷm ni'n tynnu at ddiwedd y Cynulliad yma. Mae'n rhaid inni sicrhau bod y Llywodraeth, pa liw bynnag y bydd hi wedi'r etholiad, yn ymwybodol o'i chyfrifoldebau o ran cyflwyno dogfennau yn y ddwy iaith swyddogol yn y lle yma.

A gaf i droi at y ddadl ei hunan? Rŷm ni wedi clywed cryn lawer o gymariaethau yn cael eu gwneud—cymhariaeth rhwng y setliad yma yng Nghymru a'r setliad yn Lloegr, a hyd yn oed y setliad yn yr Alban. Rŷm ni wedi clywed y gymhariaeth rhwng yr ardaloedd gwledig a'r ardaloedd dinesig, a phawb yn ceisio defnyddio'r cymariaethau hynny er mwyn cryfhau eu dadleuon eu hunain. Y realiti yw—y realiti y mae'n rhaid i ni ei wynebu ydy—fod pob un awdurdod lleol yng Nghymru yn wynebu penderfyniadau anodd iawn, fod pob un awdurdod lleol yng Nghymru yn gorfod edrych ar dorri'n ôl ar y gwasanaethau sylfaenol y maen nhw'n eu cynnig i bobl, fod pob un awdurdod lleol yng Nghymru bellach yn gorfod gofyn y cwestiwn, os nad ydy'r gwasanaeth yn statudol, a ydyn nhw'n gallu ei gyflwyno fe. Ac maent yn gorfod gofyn y cwestiwn i ba raddau y maen nhw'n gorfod torri'n ôl ar y gweithlu, a sut maen nhw'n gallu cyflwyno'r gwasanaethau hynny gyda llai o weithlu. A'r cwestiwn sy'n wynebu Llywodraeth Cymru ydy: sut ydych chi'n mynd i weithio gyda llywodraeth leol yng Nghymru i sicrhau bod y gwasanaethau hynny yn cael eu cyflwyno hyd yr eithaf? Beth mae Llywodraeth Cymru yn mynd i'w gynnig i awdurdodau lleol o ran cydweithrediad? Mae'r Llywodraeth bresennol wedi dweud mai eu nod nhw ydy adrefnu llywodraeth leol er mwyn cwtogi ar y niferoedd a bod yna arbedion i'w gwneud yn y modd hynny. Mae hynny'n mynd i gymryd cryn amser, ac mae yna gryn amser yn mynd i fod cyn bod yna adrefnu, cyn bod yna leihau ar y niferoedd, hyd yn oed os yw hynny'n digwydd. Ac mae yna lawer iawn mwy o amser yn mynd i fynd heibio cyn bod yna arbedion. Yn y cyfamser, beth yw bwriadau'r Llywodraeth yma ar gyfer cydweithio â llywodraeth leol er mwyn sicrhau eu bod nhw'n gallu cynnig gwasanaethau o'r safon uchaf i'r bobl sydd yn ddibynnol arnyn nhw?

Presiding Officer, may I, in the first place, refer to the supplementary documents for this debate and the subsequent debate, documents that have been presented by the Welsh Government? They are in English only. I believe that that fact does demonstrate a lack of respect towards somebody like myself, who wishes to work through the medium of Welsh in this place, but it also demonstrates a lack of respect towards the official languages policy of the National Assembly, which declares that all those materials will be available in both languages. It isn't the Commission's task to translate documents tabled by the Government. The Welsh Government are duty bound to table those documents in both Welsh and in English. I would ask you, Presiding Officer, to have discussions with the First Minister of Wales in order to ensure that this type of failure is not repeated. We are drawing towards the end of this Assembly. We must ensure that the Government, whatever its hue post the election, is aware of its responsibility as regards presenting documents in both the official languages in this place.

If I could turn to the debate itself, we've heard many comparisons being drawn—comparison between the settlement here in Wales and the settlement in England, and even the settlement in Scotland. We've heard the comparison drawn between the rural and urban areas, and everyone trying to use those comparisons in order to strengthen their own arguments. The reality is—the reality that we must face is—that each local authority in Wales is facing very difficult decisions, that every local authority in Wales must look at cutting back on the fundamental, basic services that they offer people, that every local authority in Wales now must ask the question, if it isn't a statutory service, of whether they can actually deliver it. And they must ask the question to what extent they'll have to cut back on the workforce, and how they can deliver those services with fewer members in that workforce. And the question facing Welsh Government is: how are you going to work with local government in Wales to ensure that those services are delivered to their utmost potential? What is Welsh Government going to offer local authorities in terms of co-operation? The current Government has said that their aim is to reorganise local government in order to cut back on the numbers and that savings can be made in that manner. That will take quite some time, and quite some time will elapse before there is a reorganisation, before the numbers are reduced, even if that is actually achieved. And very much more time will pass before savings are made. In the interim, what are the intentions of this Government in collaborating with local government to ensure that they're able to offer services of the highest standard to the people dependent upon them?

Yr ail gwestiwn sydd yn codi ydy: sut y mae Llywodraeth Cymru yn mynd i ryddhau'r rheoliadau sydd yn clymu llywodraeth leol ar hyn o bryd? Fe glywyd sôn am yr arian wrth gefn oedd gan rai awdurdodau lleol. Mae gan yr holl awdurdodau lleol arian wrth gefn—mae'n ofynnol arnyn nhw i fod ag arian wrth gefn er mwyn sicrhau eu bod nhw'n gallu ymateb i sefyllfaoedd arbennig a all godi. Ond mae yna arian wrth gefn y gellid ei ddefnyddio. A ydy'r Gweinidog yma yn awyddus i weld awdurdodau lleol yn defnyddio'r arian sydd wrth gefn mewn ffordd gyfrifol er mwyn ymateb i'r sefyllfa eithriadol yma sydd yn eu hwynebu nhw o ran cwtogi ar wasanaethau ar hyn o bryd?

The second question that arises is: how can Welsh Government free up the regulations that bind local government at present? We heard reference to the reserves that some local authorities have. All local authorities have funds in reserve—they are duty bound to hold reserves so that they can respond to particular and special circumstances that can arise. But there are reserves that can be used. Is this Minister eager to see local authorities using those reserve funds in a responsible manner in order to respond to the exceptional situation that now faces them as regards cutting back on services at present?

Yr hen ystrydeb ydy fod arian wrth gefn yno ar gyfer y dyddiau glawog hynny—wel, mae'n tywallt y glaw ar hyn o bryd ar awdurdodau lleol yng Nghymru, Weinidog. Gobeithio eich bod chi'n barod i weithio mewn ffordd gadarnhaol ac adeiladol gydag awdurdodau lleol er mwyn sicrhau bod yr arian yma yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd gyfrifol.

The old cliché is that the reserves are there for those rainy days—well, it is actually pouring down at present on local authorities in Wales, Minister. I hope that you're willing to work in a positive and affirmative manner with local authorities in order to ensure that this money is used in a responsible manner.

Gadewch inni anghofio am y cymariaethau, oherwydd nid ein gwaith ni yn y lle yma yw ceisio defnyddio'r rheini er mwyn cyfiawnhau'r sefyllfa bresennol, ac mae'n sefyllfa o argyfwng i awdurdodau lleol yng Nghymru.

Let's forget about the comparisons, because it is not our duty in this place to try to use them to justify the current situation, and it is a situation of crisis for local authorities in Wales.

14:53

## Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Can I thank the Minister for presenting the local government settlement, which, of course, is very last minute for reasons beyond the Welsh Government's control? But I think it's important to put that in context. I listened to Janet Finch-Saunders talking about the impact that this will have on local government. Before I go any further I should say, of course, that I am a member of Swansea council and declare that interest. It is the case, of course, that local government has been making substantial cuts, not just for the last five years, but actually for the last 10 years. I know that when I was part of the administration in Swansea council we had to make something like £40 million-worth of cuts between 2004 and 2008, simply because of the settlements that came down to us. That's not necessarily down to the resources that the Welsh Government passes down to us, but actually the pressures that local government is under in terms of delivery of services, the costs that they have to face up to, and, of course, the fact that a number of those services do need to be drastically restructured if we're going to continue to deliver those services in the future in a way that is to the benefit of local citizens.

Hoffwn ddiolch i'r Gweinidog am gyflwyno'r setliad llywodraeth leol, sy'n dod, wrth gwrs, ar y funud olaf un am resymau y tu hwnt i reolaeth Llywodraeth Cymru? Ond rwy'n credu ei bod yn bwysig rhoi hynny mewn cyd-destun. Gwrandewais ar Janet Finch-Saunders yn sôn am yr effaith a gaiff hyn ar lywodraeth leol. Cyn i mi fynd ymhellach, dylwn ddweud, wrth gwrs, fy mod yn aelod o gyngor Abertawe ac rwy'n datgan y buddiant hwnnw. Mae'n wir, wrth gwrs, fod llywodraeth leol wedi bod yn gwneud toriadau sylweddol, nid dros y pum mlynedd diwethaf yn unig, ond dros y 10 mlynedd diwethaf. Pan oeddwn yn rhan o'r weinyddiaeth yng nghyngor Abertawe, gwn ein bod wedi gorfod gwneud rhywbeth fel £40 miliwn o doriadau rhwng 2004 a 2008, oherwydd y setliadau a gawsom. Nid yw hynny o reidrwydd yn ymwneud â'r adnoddau y mae Llywodraeth Cymru yn eu rhoi i ni, ond oherwydd y pwysau sydd ar lywodraeth leol o ran darparu gwasanaethau, y costau y mae'n rhaid iddynt eu hwynebu, ac wrth gwrs, y ffaith fod angen ailstrwythuro nifer o'r gwasanaethau hynny yn sylweddol os ydym am barhau i ddarparu'r gwasanaethau hynny yn y dyfodol mewn ffordd sydd er budd dinasyddion lleol.

So, I think it's a bit simplistic, as Janet Finch-Saunders talked about, to talk about cuts to local government. The Conservatives talk about cuts to the health service, cuts to education, cuts to local government, cuts to agriculture, cuts to everything, and yet they never actually say where the money is going to come from to actually fill in those cuts, and I think that's something that—. I would expect more, to be honest, from an opposition spokesperson, if you're going to be criticising the Government and saying, 'This is wrong'. They should say where the money is going to come from to actually make that—.

Felly, rwy'n credu bod sôn am doriadau i lywodraeth leol, fel y soniodd Janet Finch-Saunders amdanynt, braidd yn rhy syml. Mae'r Ceidwadwyr yn sôn am doriadau i'r gwasanaeth iechyd, toriadau i addysg, toriadau i lywodraeth leol, toriadau i amaethyddiaeth, toriadau i bopeth, ac eto nid ydynt byth yn dweud o ble y daw'r arian i lenwi'r toriadau hynny, ac rwy'n meddwl bod hynny'n rhywbeth—. Byddwn yn disgwyl mwy, i fod yn onest, gan lefarydd yr wrthblaid, os ydych am feirniadu'r Llywodraeth a dweud, 'Mae hyn yn anghywir'. Dylent ddweud o ble y daw'r arian i wneud hynny—.

14:55

## Nick Ramsay Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Will the Member give way?

A wnaiff yr Aelod ildio?

14:55

## Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Nick.

Nick.

14:55

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Nick Ramsay.

Nick Ramsay.

14:55

## Nick Ramsay Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm grateful to Peter Black for giving way. I think you need to recognise, to be fair to Janet Finch-Saunders, while she did mention the overall cut to the budget, her focus within that speech was on the fairness, or relative unfairness, of dividing that money up among the Welsh councils. I'm sure you agree we need a—

Rwy'n ddiolchgar i Peter Black am ildio. Rwy'n meddwl bod angen i chi gydnabod, a bod yn deg â Janet Finch-Saunders, er ei bod wedi sôn am y toriad cyffredinol i'r gyllideb, roedd ei ffocws yn yr araith ar degwch, neu annhegwch cymharol, rhannu'r arian hwnnw rhwng cynghorau Cymru. Rwy'n siŵr eich bod yn cytuno bod angen i ni—

14:55

## Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, I was going to come on to that, Nick. But I just wanted to also—. One other aspect of Janet Finch-Saunders's speech was in relation to the so-called Conservative commitment to localism, because, you know, I very much respect the localism agenda, and the Welsh Liberal Democrats have always been committed to giving local councils the power to deliver services and to have the freedom to do that. But I think it's difficult to say you're committed to localism when you start making calls for a prescriptive command-and-control approach to local government on the part of the Minister, telling local government how they should spend their reserves, telling local government how they should be spending their money. Because that isn't localism: that is actually a Welsh Government command-and-control structure, which don't think actually works here. Local government have to make their own decisions, and local government have to be accountable for their own decisions, and I know that the reserves issue in particular is one that has exercised many minds. To be honest, Minister, you opened this Pandora's box when you published your examination of local authority reserves. But, I know that, in Swansea, where actually I'm a member of that council, the monitoring officer told—the section 103 officer or whatever he's called, the finance officer told—the councillors that they could not take any more money from reserves because a large number of those reserves were committed already and earmarked, and, in fact, if you started to dig into the un-earmarked reserves, you'd find yourself below the level at which the district auditor has recommended. So, it isn't as simple as saying local authorities can dip into reserves; local councils do their best to try to balance the books and to keep council tax down. I don't think they always succeed, but they're accountable locally for those decisions, and they need to be held to account locally for those decisions. It's not for us in this Assembly to hold them to account in that way.

Ie, roeddwn am ddod at hynny, Nick. Ond roeddwn hefyd eisiau—. Roedd agwedd arall ar araith Janet Finch-Saunders yn ymwneud ag ymrwymiad honedig y Ceidwadwyr i leoliaeth, oherwydd, wyddoch chi, rwy'n parchu agenda lleoliaeth yn fawr, ac mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru bob amser wedi ymrwymo i roi'r pŵer i gynghorau lleol ddarparu gwasanaethau ac i gael y rhyddid i wneud hynny. Ond rwy'n meddwl ei bod yn anodd dweud eich bod wedi ymrwymo i leoliaeth pan rydych yn dechrau galw am ddull gorchymyn a rheoli rhagnodol o ymwneud â llywodraeth leol ar ran y Gweinidog, gan ddweud wrth lywodraeth leol sut y dylent wario eu cronfeydd wrth gefn a dweud wrth lywodraeth leol sut y dylent wario eu harian. Oherwydd nid lleoliaeth yw hynny: strwythur gorchymyn a rheoli gan Lywodraeth Cymru yw hynny, mewn gwirionedd, ac nid wyf yn credu ei fod yn gweithio yma mewn gwirionedd. Mae'n rhaid i lywodraeth leol wneud eu penderfyniadau eu hunain, ac mae'n rhaid i lywodraeth leol fod yn atebol am eu penderfyniadau eu hunain, a gwn fod mater cronfeydd wrth gefn yn arbennig yn un sydd wedi peri pryder i nifer. A bod yn onest, Weinidog, fe agoroch flwch Pandora pan gyhoeddoch eich archwiliad i gronfeydd wrth gefn awdurdodau lleol. Ond rwy'n gwybod, yn Abertawe, lle rwy'n aelod o'r cyngor, fod y swyddog monitro wedi dweud—y swyddog adran 103 neu beth bynnag y'i gelwir—dywedodd y swyddog cyllid wrth y cynghorwyr na allent fynd â rhagor o arian o'r cronfeydd wrth gefn, gan fod nifer fawr o'r cronfeydd wrth gefn hynny eisoes wedi'u hymrwymo a'u clustnodi, ac yn wir, os dechreuech balu i'r cronfeydd wrth gefn nad ydynt wedi'u clustnodi, gwelech eich bod yn is na'r lefel y mae'r archwilydd dosbarth wedi'i hargymell. Felly, nid yw mor syml â dweud y gall awdurdodau lleol ddefnyddio arian o'r cronfeydd wrth gefn; mae cynghorau lleol yn gwneud eu gorau i geisio mantoli'r llyfrau ac i gadw'r dreth gyngor i lawr. Nid wyf yn credu eu bod bob amser yn llwyddo, ond maent yn atebol yn lleol am y penderfyniadau hynny, ac mae angen eu dwyn i gyfrif yn lleol am y penderfyniadau hynny. Nid mater i ni yn y Cynulliad hwn yw eu dwyn i gyfrif yn y ffordd honno.

Nick Ramsay raised the issue about the funding formula, and I think he's absolutely right. There were issues around the funding formula, mostly to do with the data being up to date, and the Welsh Local Government Association gave evidence to the committee along those lines. But I also have to say that, once you start inputting new data into the funding formula, you're not necessarily going to get the result you think you're going to get. As, I think, Mike Hedges already pointed out, if you look at funding per head, then, clearly, the urban authorities are underfunded in comparison to rural authorities. If you're going to have a needs-based formula based on population statistics, then any local authority that has a declining population is going to find it is going to get a declining income, because that's the way these formulas work. Whatever you do with the formula, unless you actually increase the amount of money available, then somebody is going to lose out and somebody is going to gain. So, it isn't as simple as saying we should do that.

Cododd Nick Ramsay fater y fformiwla ariannu, ac rwy'n credu ei fod yn hollol gywir. Roedd cwestiynau'n codi ynglŷn â'r fformiwla ariannu, yn ymwneud yn bennaf â pha mor gyfoes oedd y data, a rhoddodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru dystiolaeth i'r pwyllgor ar y llinellau hynny. Ond rhaid i mi ddweud hefyd, pan ddechreuwch fewnbynnu data newydd i'r fformiwla ariannu, nid ydych o reidrwydd yn mynd i gael y canlyniad rydych yn ei ddisgwyl. Fel y mae Mike Hedges eisoes wedi'i nodi, rwy'n meddwl, os edrychwch ar gyllid y pen, yna'n amlwg, mae'r awdurdodau trefol yn cael eu tangyllido o gymharu ag awdurdodau gwledig. Os ydych am gael fformiwla ar sail anghenion yn seiliedig ar ystadegau poblogaeth, yna bydd unrhyw awdurdod lleol sydd â phoblogaeth sy'n lleihau yn canfod gostyngiad yn ei incwm, gan mai dyna sut y mae'r fformiwlâu hyn yn gweithio. Beth bynnag a wnewch gyda'r fformiwla, oni bai eich bod yn cynyddu'r swm o arian sydd ar gael, bydd rhywun ar ei golled a bydd rhywun ar ei ennill. Felly, nid yw mor syml â dweud y dylem wneud hynny.

I just wanted to conclude, Presiding Officer, in talking about the challenge that we now face in terms of local government in terms of reorganisation. In general, I think reorganisation is going to be necessary. I don't accept the proposals that are in front of us as the ones to go forward on, but I do think that, if we're going to reorganise, we have to be able to justify that in terms of the way local authorities are run and make sure that local authorities do not incur unnecessary costs that they're not going to be able to meet as part of that. And we need to make sure that any funding formula that relates to those reorganised councils actually does reflect a fairer way of distributing funding so that we don't have the huge disparity we have at the moment between the 22 councils if we have 12 or eight, or whatever we end up with. Thank you.

Roeddwn eisiau cloi, Lywydd, drwy sôn am yr her a wynebwn yn awr mewn llywodraeth leol mewn perthynas ag ad-drefnu. Yn gyffredinol, rwy'n meddwl y bydd ad-drefnu yn angenrheidiol. Nid wyf yn derbyn y cynigion sydd ger ein bron fel y rhai i fwrw ymlaen â hwy, ond os ydym am ad-drefnu, rwy'n meddwl bod yn rhaid i ni allu cyfiawnhau hynny o ran y ffordd y caiff awdurdodau lleol eu rhedeg a gwneud yn siŵr nad yw awdurdodau lleol yn mynd i gostau diangen na fyddant yn gallu eu talu yn rhan o hynny. Ac mae angen i ni wneud yn siŵr fod unrhyw fformiwla ariannu sy'n ymwneud â'r cynghorau ar ôl eu had-drefnu yn adlewyrchu ffordd decach o ddosbarthu cyllid, fel na cheir y gwahaniaeth enfawr sydd gennym ar hyn o bryd rhwng y 22 cyngor os oes gennym 12 neu wyth, neu beth bynnag y bydd yn y pen draw. Diolch.

14:59

## Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I feel like I've already spoken in this debate in a number of contributions, so I will keep it brief, but I will say a few words, Jeff. I agree with much, actually, of what Janet Finch-Saunders said in her contribution, but also I do see some of the points that both Mike Hedges and Peter Black were making. First of all, once again, Minister, you've tried to defend this as a good settlement on the basis that local authorities in Wales were expecting far worse. Well, that doesn't seem to me to make an acceptable settlement. It just means that it's not as bad as it could've been. I think you do have to question—maybe I'm getting a bit cynical, but you have to question whether the original settlement that we were made aware of was actually made artificially bad at the start in order to make the revised one a couple of weeks ago look better. [Interruption.] Well, Jeff Cuthbert is appalled that that might actually be a strategy of the Welsh Government. I wouldn't accuse you of that, Jeff, but I do wonder whether that is the case.

Rwy'n teimlo fy mod eisoes wedi siarad yn y ddadl hon mewn nifer o gyfraniadau, felly fe fyddaf yn fyr, ond dywedaf ychydig o eiriau, Jeff. Cytunaf â llawer o'r hyn a ddywedodd Janet Finch-Saunders yn ei chyfraniad, mewn gwirionedd, ond hefyd rwy'n deall rhai o'r pwyntiau a wnaeth Mike Hedges a Peter Black. Yn gyntaf oll, unwaith eto, Weinidog, rydych wedi ceisio amddiffyn hwn fel setliad da ar y sail fod awdurdodau lleol yng Nghymru wedi disgwyl llawer gwaeth. Wel, nid yw hynny, yn fy marn i, yn gwneud setliad yn dderbyniol. Nid yw ond yn golygu nad yw cynddrwg ag y gallai fod. Rwy'n meddwl bod yn rhaid cwestiynu—efallai fy mod braidd yn sinigaidd, ond mae'n rhaid cwestiynu a gafodd y setliad gwreiddiol y cawsom wybod amdano ei wneud yn wael yn artiffisial ar y dechrau er mwyn gwneud i'r un diwygiedig ychydig wythnosau yn ôl edrych yn well. [Torri ar draws.] Wel, mae Jeff Cuthbert yn arswydo y gallai hynny fod yn strategaeth gan Lywodraeth Cymru. Ni fyddwn yn eich cyhuddo o hynny, Jeff, ond rwy'n meddwl tybed ai dyna'r gwir.

Yes, we welcome the additional funding in terms of the in-year transfers that the Minister mentioned, to Monmouthshire among others, and Ceredigion and Powys councils. But at the end of all that we are still experiencing in those authorities a 3 per cent cut, the joint-worst of local authorities in Wales, whilst, as has been pointed out, urban Valleys authorities are getting better deals, or at least not such bad deals as that. I have to say, it is a bit rich, Minister, for the Welsh Government to moan about disparities in the way that the UK Government is dividing up funding for local authorities across the border in England when the same sort of focus and attention that Welsh Conservatives are trying to put on the Welsh local government settlement here is not being honoured and respected by the Welsh Government. So, let's put our own house in order here in Wales before we start looking at the way that the UK Government is spending the local government cake in England.

Ydym, rydym yn croesawu cyllid ychwanegol y trosglwyddiadau yn ystod y flwyddyn a grybwyllodd y Gweinidog, i gyngor Sir Fynwy ymhlith eraill, a chynghorau Ceredigion a Phowys. Ond ar ddiwedd hyn oll, rydym yn dal i wynebu toriad o 3 y cant yn yr awdurdodau hynny sy'n rhannu'r toriad gwaethaf i awdurdodau lleol yng Nghymru, ac mae awdurdodau trefol y Cymoedd, fel y nodwyd, yn cael bargen well, neu o leiaf bargen nad yw cynddrwg â hynny. Mae'n rhaid i mi ddweud, Weinidog, mae braidd yn haerllug i Lywodraeth Cymru gwyno ynglŷn â gwahaniaethau yn y modd y mae Llywodraeth y DU yn rhannu cyllid i awdurdodau lleol ar draws y ffin yn Lloegr, pan nad yw'r un math o ffocws a sylw y mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn ceisio'i roi i'r setliad llywodraeth leol yng Nghymru yn cael ei anrhydeddu a'i barchu gan Lywodraeth Cymru. Felly, gadewch i ni roi trefn ar ein tŷ ein hunain yma yng Nghymru cyn i ni ddechrau edrych ar y ffordd y mae Llywodraeth y DU yn gwario arian llywodraeth leol yn Lloegr.

I've had discussions with the Finance Minister about the need for a fiscal framework as part of reforming the Barnett formula—very useful discussions. As the Minister knows, when it comes to Barnett funding for Wales as a whole, I agree there needs to be a change, and I do support the principle of a fiscal framework moving forward. However, in supporting that, I would also expect to see a better fiscal framework within Wales itself, and a revised local government formula that recognises the costs of delivering services across a large rural area. This isn't rocket science. Yes, of course, at a time when budgets overall are being restricted, there is less money to spend, but that does not mean that you can't have a greater equity of spend within Wales. The Labour Party historically was the party of fairness. I'm not quite sure what happened along the way, but that was certainly the party that I knew you once were, so let's look at how we can deliver fairness within the local funding settlement in Wales. As I say, I'm willing to support the Minister on the need for a fiscal framework. Let's have a bit of support for rural authorities within Wales.

Rwyf wedi cael trafodaethau gyda'r Gweinidog Cyllid ynglŷn â'r angen am fframwaith cyllidol fel rhan o ddiwygio fformiwla Barnett—trafodaethau defnyddiol iawn. Fel y gŵyr y Gweinidog, o ran cyllid Barnett i Gymru gyfan, rwy'n cytuno bod angen newid, ac rwy'n cefnogi'r egwyddor o fframwaith cyllidol wrth symud ymlaen. Fodd bynnag, wrth gefnogi hynny, rwyf hefyd yn disgwyl gweld fframwaith cyllidol gwell yng Nghymru ei hun, a fformiwla llywodraeth leol ddiwygiedig sy'n cydnabod costau darparu gwasanaethau ar draws ardal wledig fawr. Nid yw'n eithriadol o anodd. Oes, wrth gwrs, ar adeg pan fo cyllidebau'n gyffredinol yn gyfyngedig, mae llai o arian i'w wario, ond nid yw hynny'n golygu na ellir cael gwariant mwy cyfartal yng Nghymru. Y Blaid Lafur yn hanesyddol oedd plaid tegwch. Nid wyf yn hollol siŵr beth ddigwyddodd ar hyd y ffordd, ond dyna'n sicr oedd y blaid y gwyddwn amdani unwaith, felly gadewch i ni edrych ar sut y gallwn sicrhau tegwch yn y setliad cyllid lleol yng Nghymru. Fel y dywedais, rwy'n barod i gefnogi'r Gweinidog ar yr angen am fframwaith cyllidol. Gadewch i ni gael ychydig o gymorth i awdurdodau gwledig yng Nghymru.

I fully understand why Mike Hedges defends the current formula, very eloquently, actually. It benefits your area, Mike. Of course you support it. If I was in your area I would also support it. If I was getting the best funding settlement in my area, then I would probably do that.

Rwy'n deall pam fod Mike Hedges yn amddiffyn y fformiwla bresennol, yn huawdl iawn, mewn gwirionedd. Mae o fudd i'ch ardal chi, Mike. Wrth gwrs eich bod yn ei chefnogi. Pe bawn i yn eich ardal, buaswn innau hefyd yn ei chefnogi. Pe bawn yn cael y setliad cyllid gorau yn fy ardal, yna mae'n debyg y buaswn yn gwneud hynny.

*Mike Hedges a gododd—*

*Mike Hedges rose—*

15:02

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Are you taking an intervention?

A ydych am dderbyn ymyriad?

15:02

## Nick Ramsay Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

But there is a broader issue here as well, Mike, which you have to recognise. I'm sure you're rising to support a broader issue of principle.

Ond mae cwestiwn ehangach yma hefyd, Mike, sy'n rhaid i chi ei gydnabod. Rwy'n siŵr eich bod yn codi i gefnogi mater o egwyddor ehangach.

15:02 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, you say that—the figures say that Swansea had £1,661 per head; Conwy had £1,761 per head; Cardiff had £1,580 per head; and we've got Powys with £1,774 per head. Swansea does badly out of the numbers.

Wel, rydych yn dweud hynny—mae'r ffigurau'n dweud bod Abertawe wedi cael £1,661 y pen; roedd Conwy wedi cael £1,761 y pen; roedd Caerdydd wedi cael £1,580 y pen; ac mae gennym Bowys sydd â £1,774 y pen. Mae Abertawe yn gwneud yn wael o'r ffigurau.

15:02 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Look, Mike, you've got long experience in local government and I've had many interesting discussions with you on this, but the point is—[Interruption.] One moment. The point is that you're talking about starting from different bases. It is the actual cuts that you should be looking at. Those authorities that you mention are not getting the same level of cuts as the rural authorities.

Edrychwch, Mike, mae gennych brofiad hir mewn llywodraeth leol ac rwyf wedi cael llawer o drafodaethau diddorol gyda chi ynglŷn â hyn, ond y pwynt yw—[Torri ar draws.] Un funud. Y pwynt yw eich bod yn sôn am ddechrau o seiliau gwahanol. Dylech fod yn edrych ar y toriadau eu hunain. Nid yw'r awdurdodau rydych yn eu crybwyll yn cael yr un lefel o doriadau â'r awdurdodau gwledig.

*Sawl Aelod Cynulliad a gododd—*

*Several Assembly Members rose—*

15:03 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Are you taking an intervention?

A ydych yn derbyn ymyriad?

15:03 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'll take one brief one from Darren Millar.

Derbyniaf un byr gan Darren Millar.

15:03 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Darren Millar. [Interruption.] I'm sorry, you're not Darren Millar; he's Darren Millar.

Darren Millar. [Torri ar draws.] Mae'n ddrwg gennyf, nid Darren Millar ydych chi; ef yw Darren Millar.

15:03 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Nick, for taking the intervention. Would you agree with me that Mike Hedges has failed to recognise that the biggest reason for the differential in spending per head or allocation of funding per head between Conwy and Cardiff is the age profile? Conwy is the oldest county in Wales demographically. Cardiff is one of the youngest.

Diolch am dderbyn yr ymyriad, Nick. A fyddech yn cytuno â mi fod Mike Hedges wedi methu â chydnabod mai'r rheswm pennaf dros y gwahaniaeth mewn gwariant y pen neu ddyraniad cyllid y pen rhwng Conwy a Chaerdydd yw'r proffil oedran? Conwy yw'r sir hynaf yng Nghymru yn ddemograffig. Mae Caerdydd yn un o'r ieuengaf.

15:03 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, we started off from a different base with local authorities. It's the cuts to the budget that I'm more interested in. But I know that Mike Hedges hasn't got a chance to respond now, so I don't want to turn this into—[Interruption.]—you haven't got time, sorry—into a Mike Hedges-attacking session. All I would say, Minister, is yes, we welcome additional funding that's been made within the year. I think that was absolutely necessary and required. I think it was always in the bag anyway. But let's look more broadly at the local government settlement. It's not good enough at the moment. The WLGA secretly know that as well, but of course they're not going to tell you that at the moment. Let's look at a better funding settlement within Wales and get those rural local authorities the money and the support they so desperately need.

Do, dechreuasom o sylfaen wahanol gydag awdurdodau lleol. Mae gennyf fwy o ddiddordeb yn y toriadau i'r gyllideb. Ond rwy'n gwybod nad oes gan Mike Hedges gyfle i ymateb yn awr, felly nid wyf am droi hyn yn—[Torri ar draws.]—nid oes gennych amser, mae'n ddrwg gennyf—yn sesiwn ymosod ar Mike Hedges. Yr hyn y byddwn yn ei ddweud, Weinidog, yw, ydym, rydym yn croesawu'r cyllid ychwanegol a gafwyd o fewn y flwyddyn. Credaf fod hynny'n hollol angenrheidiol ac yn ofynnol. Rwy'n credu ei fod bob amser yn yr arfaeth, beth bynnag. Ond gadewch i ni edrych yn ehangach ar y setliad llywodraeth leol. Nid yw'n ddigon da ar hyn o bryd. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn gwybod hynny'n gyfrinachol hefyd, ond wrth gwrs, nid ydynt yn mynd i ddweud hynny wrthych ar hyn o bryd. Gadewch i ni edrych ar setliad cyllid gwell yng Nghymru a chael yr arian a'r gefnogaeth sydd eu hangen mor ddirfawr arnynt i'r awdurdodau lleol gwledig.

15:04 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Minister for Public Services to reply to the debate. Leighton Andrews.

Galwaf ar y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus i ymateb i'r ddadl. Leighton Andrews.

15:04 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus / The Minister for Public Services*

Thank you, Llywydd. Well, I think the Conservatives need to sit down together and decide what their line really is, actually. Because Janet Finch-Saunders said to begin with that Conwy did really badly. My colleague Mike Hedges then read out the figures that proved that Conwy did better than Swansea and Cardiff, and Darren Millar then dived in to say that the reason they do better is because of older people. Well, they either do better or they do worse. The Conservatives need to decide which it is. The reality is, per head of population, they get more money than the cities, as my colleague Mike Hedges has demonstrated. I'm very pleased that the Member for Monmouth recognised how eloquently Mike Hedges had spoken earlier in this debate, because he's put them right with the figures.

Diolch i chi, Lywydd. Wel, rwy'n credu bod angen i'r Ceidwadwyr ddod at ei gilydd a phenderfynu beth yw eu safbwynt, mewn gwirionedd. Oherwydd dywedodd Janet Finch-Saunders i ddechrau fod Conwy wedi gwneud yn wirioneddol wael. Yna, darllenodd fy nghyd-Aelod Mike Hedges y ffigurau a oedd yn profi bod Conwy yn gwneud yn well na Abertawe a Chaerdydd, ac yna neidiodd Darren Millar i mewn i ddweud mai pobl hŷn yw'r rheswm eu bod yn gwneud yn well. Wel, maent naill ai'n gwneud yn well neu maent yn gwneud yn waeth. Mae angen i'r Ceidwadwyr benderfynu pa un ydyw. Y gwir amdani yw, fesul y pen o'r boblogaeth, maent yn cael mwy o arian na'r dinasoedd, fel y mae fy nghyd-Aelod Mike Hedges wedi'i ddangos. Rwy'n falch iawn fod yr Aelod dros Fynwy wedi cydnabod pa mor huawdl y siaradodd Mike Hedges yn gynharach yn y ddadl hon, oherwydd fe'u cywirodd ynglŷn â'r ffigurau.

Can I say to Rhodri Glyn Thomas—? I heard what he said about the availability of documentation in English only in this debate. I don't know whether that is the responsibility of my department, in terms of what has appeared on the order paper. I have asked what has happened and I will give the Member an explanation of what has happened—whether it is down to my own department for having failed to provide the documentation in Welsh. If it is, I apologise for that, obviously.

A gaf fi ddweud wrth Rhodri Glyn Thomas—? Clywais yr hyn a ddywedodd ynglŷn â'r ffaith mai dogfennau Saesneg yn unig sydd ar gael ar gyfer y ddadl hon. Nid wyf yn gwybod ai cyfrifoldeb fy adran ydyw, o ran yr hyn sydd wedi ymddangos ar y papur trefn. Rwyf wedi gofyn beth sydd wedi digwydd a byddaf yn rhoi eglurhad i'r Aelod ynglŷn â'r hyn a ddigwyddodd—pa un ai bai fy adran i oedd methu â darparu dogfennau yn y Gymraeg. Os felly, rwy'n ymddiheuro am hynny, yn amlwg.

Can I deal with the one issue of substance that I think has been raised in the debate, which is the issue around reserves? It is the case that local authorities in Wales hold significant amounts in reserves. As Rhodri Glyn Thomas said, reserves are normally saved for a rainy day. I've used the same analogy myself in the past, and it is pouring out there at the present time; I accept that. What I have said consistently since I took on this portfolio—my predecessors also before me said the same—is that we expect local authorities to be able to explain why they are holding money in reserves. If they are holding money for good reasons—for example, they have a major school building programme about to commence, as Rhondda Cynon Taf County Borough Council, for example, does—then there is a reason for them to be holding those reserves. If they wish to spend those reserves in a responsible way, then we would certainly want to encourage local authorities to do that. This is the time when they should be making use.

A gaf fi drafod yr un mater o sylwedd a grybwyllwyd yn y ddadl, yn fy marn i, sef mater cronfeydd wrth gefn? Mae'n wir fod awdurdodau lleol yng Nghymru yn cadw symiau sylweddol mewn cronfeydd wrth gefn. Fel y dywedodd Rhodri Glyn Thomas, mae cronfeydd wrth gefn yn cael eu cadw fel arfer ar gyfer diwrnod glawog. Rwyf wedi defnyddio'r un gyfatebiaeth fy hun yn y gorffennol, ac mae'n arllwys y glaw tu allan ar hyn o bryd; rwy'n derbyn hynny. Yr hyn rwyf wedi'i ddweud yn gyson ers i mi ymgymryd â'r portffolio hwn—dywedodd fy rhagflaenwyr yr un peth hefyd—yw ein bod yn disgwyl i awdurdodau lleol allu egluro pam eu bod yn cadw arian mewn cronfeydd wrth gefn. Os ydynt yn cadw arian am resymau da—er enghraifft, am fod ganddynt raglen adeiladu ysgolion fawr ar fin cychwyn, fel sydd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, er enghraifft—yna mae ganddynt reswm dros gadw'r cronfeydd wrth gefn hynny. Os ydynt yn dymuno gwario'r cronfeydd wrth gefn hynny mewn ffordd gyfrifol, yna byddem yn sicr yn awyddus i annog awdurdodau lleol i wneud hynny. Dyma'r adeg y dylent fod yn eu defnyddio.

What does concern me—and I think it has happened is Wales—is that, sometimes, officers squirrel money away and they are not held to account sufficiently by local members as to what is the real purpose of those reserves. That's why I circulated guidance last year to members on how best to scrutinise the reserves that are being held by local authorities. I think it is important that those reserves are properly scrutinised at a local level. I agree with Peter Black that these are matters that should, preferably, be dealt with locally. However, I think it is also legitimate, given that over 60 per cent of funding of local government comes through our funding here, for us to have an interest in seeing that that money is properly spent as well. So, I think there are multiple accountabilities in this regard.

Yr hyn sy'n achos pryder i mi—ac rwy'n credu ei fod wedi digwydd yng Nghymru—yw bod swyddogion, weithiau, yn rhoi arian o'r neilltu ac nid ydynt yn cael eu dwyn i gyfrif yn ddigonol gan aelodau lleol ynglŷn â gwir ddiben y cronfeydd wrth gefn hynny. Dyna pam y dosbarthais ganllawiau i aelodau y llynedd ar y ffordd orau i graffu'r cronfeydd wrth gefn sy'n cael eu cadw gan awdurdodau lleol. Rwy'n credu ei bod yn bwysig fod y cronfeydd wrth gefn hynny'n cael eu craffu'n briodol ar lefel leol. Cytunaf â Peter Black fod y rhain yn faterion y dylid, yn ddelfrydol, ymdrin â hwy'n lleol. Fodd bynnag, credaf ei bod hefyd yn deg, o gofio bod dros 60 y cant o gyllid llywodraeth leol yn dod drwy ein cyllid yma, fod gennym ni ddiddordeb mewn gweld bod yr arian yn cael ei wario'n briodol hefyd. Felly, rwy'n meddwl bod yna gyfrifoldebau lluosog yn hyn o beth.

Can I just remind the Conservatives' spokesperson, of course, that average council tax increases in England this year are 3.75 per cent? England is not some kind of low-council-tax country; indeed, council tax, on average, in England is £158 per head higher than it is, of course, in Wales. I think we've provided a good settlement for local government this year. I think it comes on the back of a series of settlements throughout this Assembly that have demonstrated that this Government does stand up for local government. Local authorities in Wales have done better than local authorities have done in England, because we have protected local authorities as far as we have been able to do so. We have recognised the importance of social services in demonstrating support for our health service, and we have maintained that level of funding as far as we have been able to, despite the cuts that we have had to sustain from the Tories and, before them, the Tories and Liberal Democrats in Government in London.

A gaf fi atgoffa llefarydd y Ceidwadwyr mai cyfartaledd y cynnydd yn y dreth gyngor yn Lloegr eleni yw 3.75 y cant? Nid yw Lloegr yn wlad dreth-gyngor-isel o ryw fath; yn wir, mae'r dreth gyngor ar gyfartaledd yn Lloegr £158 y pen yn uwch nag y mae yng Nghymru, wrth gwrs. Rwy'n credu ein bod wedi darparu setliad da i lywodraeth leol eleni. Rwy'n credu ei fod yn dilyn cyfres o setliadau drwy gydol y Cynulliad hwn sydd wedi dangos bod y Llywodraeth hon yn sefyll dros lywodraeth leol. Mae awdurdodau lleol yng Nghymru wedi gwneud yn well nag awdurdodau lleol yn Lloegr, am ein bod wedi diogelu awdurdodau lleol cymaint ag y gallom ei wneud. Rydym wedi cydnabod pwysigrwydd gwasanaethau cymdeithasol wrth ddangos cefnogaeth i'n gwasanaeth iechyd, ac rydym wedi cynnal y lefel honno o gyllid cymaint ag y gallom ei wneud, er gwaethaf y toriadau y bu'n rhaid i ni eu dioddef gan y Torïaid ac, o'u blaenau, Llywodraeth y Torïaid a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn Llundain.

*Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair.*

*The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair.*

15:09

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? [Objection.] I will defer voting to voting time.

Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Gohiriaf y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

15:09

# 4. Dadl ar Setliad yr Heddlu 2016-17

# 4. Debate on the Police Settlement 2016-17

Senedd.tv Fideo Video

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Item 4 is a debate on the police settlement. I call on the Minister for Public Services to move the motion—Leighton Andrews.

Eitem 4 yw dadl ar setliad yr heddlu. Galwaf ar y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus i gynnig y cynnig—Leighton Andrews.

Cynnig NDM5989 Jane Hutt

Motion NDM5989 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

Yn unol ag Adran 84H o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, yn cymeradwyo Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (Rhif 2) 2016-2017 (Setliad Terfynol—Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu). Gosodwyd copi o'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 2 Mawrth 2016.

Under Section 84H of the Local Government Finance Act 1988, approves the Local Government Finance Report (No. 2) 2016-17 (Final Settlement—Police and Crime Commissioners), which was laid in the Table Office on 2 March 2016.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

15:09

## Leighton Andrews [Bywgraffiad] [Biography]

*Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus / The Minister for Public Services*

Senedd.tv
[Fideo] [Video]

Thank you, Dirprwy Lywydd. Today, I'm presenting to the Assembly the details of the Welsh Government's contribution to police funding for 2016-17 for the four police and crime commissioners in Wales. As Members will be aware, the overall funding picture is determined by the Home Office, which provides police grant and top-up support so that no Welsh police force receives a reduction in core funding of more than 0.6 per cent in 2016-17 compared to this financial year.

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd. Heddiw, rwy'n cyflwyno manylion i'r Cynulliad ynghylch cyfraniad Llywodraeth Cymru at gyllid yr heddlu yn 2016-17 ar gyfer y pedwar comisiynydd heddlu a throseddu yng Nghymru. Fel y gŵyr yr Aelodau, y Swyddfa Gartref sy'n penderfynu ar y darlun ariannu cyffredinol, a hi sy'n darparu grant yr heddlu a chymorth atodol fel nad oes unrhyw heddlu yng Nghymru yn wynebu gostyngiad yn y cyllid craidd o fwy na 0.6 y cant yn 2016-17, o'i gymharu â'r flwyddyn ariannol hon.

Total support for the police service in Wales for 2016-17 amounts to £355 million. Our contribution to this amount, through the revenue support grant, is £137 million, and this is the funding you're being asked to approve today.

Mae cyfanswm y cymorth i'r gwasanaeth heddlu yng Nghymru ar gyfer 2016-17 yn £355 miliwn. Ein cyfraniad at y swm hwn, drwy'r grant cynnal refeniw, yw £137 miliwn, a dyma'r cyllid y gofynnir i chi ei gymeradwyo heddiw.

This settlement confirms that police forces in Wales will face a further real-term cut in funding next year as a result of the UK Government's spending plans, despite previous assurances that police funding would be protected. The Home Office has continued to overlay its needs-based formula with a floor mechanism, resulting in all police forces in England and Wales receiving the same percentage reduction. The Home Office provides a top-up grant totalling £9.9 million for Dyfed-Powys and north Wales. Without this grant, the cash reductions for these forces would be even greater.

Mae'r setliad hwn yn cadarnhau y bydd heddluoedd yng Nghymru yn wynebu toriad pellach mewn termau real yn eu cyllid y flwyddyn nesaf o ganlyniad i gynlluniau gwariant Llywodraeth y DU, er gwaethaf sicrwydd blaenorol y byddai cyllid yr heddlu yn cael ei ddiogelu. Mae'r Swyddfa Gartref wedi parhau i osod mecanwaith gwaelodol ar ben ei fformiwla sy'n seiliedig ar anghenion, gan arwain at holl heddluoedd Cymru a Lloegr yn cael yr un gostyngiad canrannol. Mae'r Swyddfa Gartref yn darparu cyfanswm grant atodol o £9.9 miliwn i Ddyfed-Powys a gogledd Cymru. Heb y grant hwn, byddai'r gostyngiadau arian parod i'r heddluoedd yn fwy byth.

Members may recollect the widespread criticism of the police funding formula, which the UK Government had promised to change for the next financial year. However, Home Office errors in the indications for police forces using the new distribution led to the police funding review being suspended and the UK Government was forced to apologise. The discredited review had also been subject to a number of threats of legal challenge by police and crime commissioners. It's important that any further review of the formula properly takes account of the needs of all police forces, including those in Wales.

Efallai y bydd Aelodau'n cofio'r feirniadaeth eang ar fformiwla ariannu'r heddlu yr oedd Llywodraeth y DU wedi addo'i newid ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Fodd bynnag, arweiniodd gwallau'r Swyddfa Gartref yn y dyraniadau i heddluoedd gan ddefnyddio'r dosbarthiad newydd at atal adolygiad cyllid yr heddlu dros dro a gorfodwyd Llywodraeth y DU i ymddiheuro. Roedd yr adolygiad a danseiliwyd hefyd wedi wynebu sawl bygythiad o her gyfreithiol gan gomisiynwyr heddlu a throseddu. Mae'n bwysig fod unrhyw adolygiad pellach o'r fformiwla yn ystyried anghenion yr holl heddluoedd yn iawn, gan gynnwys rhai Cymru.

Of course, council tax is a devolved matter, and it's the responsibility of the police and crime commissioners to set their precepts, taking account of local circumstances and the needs of local communities. Unlike the position in England, police and crime commissioners in Wales have the freedom to make their own decisions about council tax increases and to use the revenue they generate to take forward policing in line with their local needs and priorities.

Wrth gwrs, mae'r dreth gyngor yn fater datganoledig, a chyfrifoldeb comisiynwyr heddlu a throseddu yw pennu eu praeseptau, gan gadw amgylchiadau lleol ac anghenion cymunedau lleol mewn cof. Yn wahanol i'r sefyllfa yn Lloegr, mae gan gomisiynwyr heddlu a throseddu yng Nghymru ryddid i wneud eu penderfyniadau eu hunain ynglŷn â chodiadau i'r dreth gyngor a defnyddio'r refeniw a gynhyrchant i symud plismona yn ei flaen yn unol â'u hanghenion a'u blaenoriaethau lleol.

Public safety is a top priority for this Government, and I'm committed to working with the PCCs and the chief constables to ensure the funding reductions are managed in ways that minimise the impact on community safety in Wales. Neighbourhood policing has been particularly badly hit, with over 4,500 police community support officers gone since 2010 across the UK, amounting to a 27 per cent reduction. In contrast, in Wales, our prioritisation of PCSOs, with additional spending of around £17 million each year, has resulted in a 33 per cent increase in the number of PCSOs in Wales. We're protecting our investment in the extra 500 community support officers for 2016-17.

Mae diogelwch y cyhoedd yn brif flaenoriaeth i'r Llywodraeth hon, ac rwy'n ymrwymedig i weithio gyda'r comisiynwyr a'r prif gwnstabliaid i sicrhau y rheolir y gostyngiadau cyllidol mewn ffyrdd sy'n lleihau'r effaith ar ddiogelwch cymunedol yng Nghymru. Mae plismona yn y gymdogaeth wedi cael ei daro'n arbennig o wael, gyda thros 4,500 o swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu wedi'u colli ers 2010 ledled y DU, sy'n gyfystyr â gostyngiad o 27 y cant. Mewn cyferbyniad, yng Nghymru, mae'r ffaith ein bod yn blaenoriaethu swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu, gyda gwariant ychwanegol o tua £17 miliwn bob blwyddyn, wedi arwain at gynnydd o 33 y cant yn nifer y swyddogion cymorth cymunedol yng Nghymru. Rydym yn diogelu ein buddsoddiad yn y 500 o swyddogion cymorth cymunedol ychwanegol ar gyfer 2016-17.

The full complement of officers has been deployed since October 2013, and they are making a positive contribution to public safety across Wales. A vital part of their role is actively engaging with partners and community organisations to address anti-social behaviour and related criminal activity. The Welsh Government, working in partnership with the four Welsh police forces and the British Transport Police, has introduced this additional resource, which is helping to make a real difference to the lives of the people of Wales.

Mae'r cyflenwad llawn o swyddogion wedi bod ar waith ers mis Hydref 2013, ac maent yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i ddiogelwch y cyhoedd ledled Cymru. Un elfen hanfodol o'u rôl yw ymgysylltu'n weithredol â phartneriaid a sefydliadau cymunedol er mwyn mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a gweithgarwch troseddol cysylltiedig. Mae Llywodraeth Cymru, drwy weithio mewn partneriaeth â phedwar heddlu Cymru a'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig, wedi cyflwyno'r adnodd ychwanegol hwn sy'n helpu i wneud gwahaniaeth go iawn i fywydau pobl yng Nghymru.

We appreciate that difficult decisions are necessary in developing plans for the coming years in the light of contracting resources, but Welsh police forces have a strong record of collaborating to make the best use of the funding available to them, from sharing corporate services to working with public sector partners through community safety partnerships to tackle issues in the community. A challenging outlook provides further impetus to look at relationships with other agencies. This is increasingly important for areas where services span organisational boundaries.

Rydym yn sylweddoli bod angen gwneud penderfyniadau anodd wrth ddatblygu cynlluniau ar gyfer y blynyddoedd i ddod o ystyried y cyfyngu ar adnoddau, ond mae gan heddluoedd Cymru record gref o gydweithio i wneud y defnydd gorau o'r cyllid sydd ar gael iddynt, o rannu gwasanaethau corfforaethol i weithio gyda phartneriaid yn y sector cyhoeddus drwy bartneriaethau diogelwch cymunedol i fynd i'r afael â phroblemau yn y gymuned. Mae rhagolwg heriol yn rhoi ysgogiad pellach i edrych ar gysylltiadau ag asiantaethau eraill. Mae hyn yn fwyfwy pwysig ar gyfer ardaloedd lle y mae gwasanaethau'n rhychwantu ffiniau sefydliadol.

Today's motion is to agree the local government finance report for police and crime commissioners, which has been laid before the Assembly. If approved, this will allow the commissioners to confirm their budgets. I therefore ask Assembly Members to support this motion today.

Y cynnig heddiw yw derbyn yr adroddiad cyllid llywodraeth leol ar gyfer comisiynwyr heddlu a throseddu, sydd wedi'i osod gerbron y Cynulliad. Os caiff ei gymeradwyo, bydd hyn yn caniatáu i'r comisiynwyr bennu eu cyllidebau. Felly, gofynnaf i Aelodau'r Cynulliad gefnogi'r cynnig hwn heddiw.

15:13 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

In November, the Chancellor announced that police budgets would be protected in line with inflation, and the counter-terrorism budget increased by 30 per cent. With the Home Office floor mechanism referred to, this means a 0.6 per cent reduction for 2016-17, and with the Welsh Government's contribution resulting in a comparable overall reduction, I again commend the generally positive way that police and crime commissioners have determined their 2016-17 police precepts. This will deliver increases in the amount council tax payers pay towards police services of 5 per cent in south Wales, 4 per cent in Gwent, 2 per cent in north Wales, and a payment freeze for Dyfed-Powys households. As Welsh Conservative Dyfed-Powys police and crime commissioner Chris Salmon said,

Ym mis Tachwedd, cyhoeddodd y Canghellor y byddai cyllidebau'r heddlu yn cael eu diogelu yn unol â chwyddiant, a bu cynnydd o 30 y cant yn y gyllideb wrthderfysgaeth. Gan gyfeirio at fecanwaith gwaelodol y Swyddfa Gartref, golyga hyn ostyngiad o 0.6 y cant ar gyfer 2016-17, a chyda chyfraniad Llywodraeth Cymru yn arwain at ostyngiad cyffredinol tebyg, rwyf unwaith eto yn canmol y ffordd gadarnhaol at ei gilydd y mae'r comisiynwyr heddlu a throseddu wedi pennu praeseptau'r heddlu ar gyfer 2016-17. Bydd hyn yn cynyddu'r swm y bydd talwyr y dreth gyngor yn ei dalu tuag at wasanaethau heddlu 5 y cant yn ne Cymru, 4 y cant yng Ngwent, 2 y cant yng ngogledd Cymru, ac mae'r taliad gan aelwydydd Dyfed-Powys wedi'i rewi. Fel y dywedodd comisiynydd heddlu a throseddu Ceidwadol Dyfed-Powys, Chris Salmon,

'I am determined to keep our communities safe. Over the last three years I have delivered more officers on our rural beats for more time, for less money. No other Police and Crime Commissioner has achieved that….My precept proposal, as in previous years, balances the needs of families with the needs of our police service.'

'Rwy'n benderfynol o gadw'n cymunedau'n ddiogel. Dros y tair blynedd diwethaf, rwyf wedi cyflwyno mwy o swyddogion ar y bît yn ein hardaloedd gwledig am fwy o amser, am lai o arian. Does dim un Comisiynydd Heddlu a Throseddu arall wedi cyflawni hynny...Fel yn y blynyddoedd blaenorol, mae fy nghynnig ar gyfer y praesept yn cydbwyso anghenion teuluoedd ag anghenion ein gwasanaeth heddlu.'

As the South Wales Police Federation has previously stated —.

Fel y datganodd Ffederasiwn Heddlu De Cymru yn flaenorol—.

15:14 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

You referred to the situation in Dyfed-Powys Police Authority. Do you accept that the latest assessment of performance in Dyfed-Powys showed that the performance of the police in Dyfed-Powys had actually got worse over the past few years, and that the police and crime commissioner decided to freeze the precept?

Fe gyfeirioch at y sefyllfa yn Awdurdod Heddlu Dyfed-Powys. A ydych yn derbyn bod yr asesiad diweddaraf o berfformiad Dyfed-Powys yn dangos bod perfformiad yr heddlu yn Nyfed-Powys wedi gwaethygu dros y blynyddoedd diwethaf, a bod y comisiynydd heddlu a throseddu wedi penderfynu rhewi'r praesept?

15:15 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Actually, that's a gross simplification; it was a far more balanced report highlighting what works well and what needs to be done differently, and reflecting the better way that statistics are now being reported. As the South Wales Police Federation has previously stated, increases in precept there closed the precept gap with other Welsh forces. The UK Government has made it easier for the police to do their job by cutting red tape, scrapping unnecessary targets and giving forces the discretion to use professional judgment. Under Labour, our police were bogged down in paperwork. This UK Government has cut red tape and given police just one simple target: to cut crime.

A dweud y gwir, mae hynny'n ei symleiddio gormod o lawer; roedd yn adroddiad llawer mwy cytbwys, yn tynnu sylw at yr hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn sydd angen ei wneud yn wahanol, ac yn adlewyrchu'r gwelliant yn y ffordd y caiff ystadegau eu hadrodd bellach. Fel y mae Ffederasiwn Heddlu De Cymru wedi'i ddatgan o'r blaen, mae cynnydd yn y praesept yno wedi cau'r bwlch praesept rhyngddynt a heddluoedd eraill Cymru. Mae Llywodraeth y DU wedi'i gwneud yn haws i'r heddlu wneud eu gwaith drwy leihau biwrocratiaeth, cael gwared ar dargedau diangen a rhoi'r disgresiwn i heddluoedd arfer crebwyll proffesiynol. O dan y blaid Lafur, roedd ein heddlu hyd at eu clustiau mewn gwaith papur. Mae Llywodraeth y DU wedi lleihau biwrocratiaeth ac wedi rhoi un targed syml i'r heddlu: lleihau troseddu.

Crime has fallen by more than 30 per cent since 2010 according to the independent crime survey for England and Wales. Although police-recorded crime increased 6 per cent last year, the Office for National Statistics states that this follows improved compliance with national recording standards by police forces, and a greater proportion of crimes being recorded. They add that improvements in the recording of crime are thought to have particularly affected some categories of violent crime recorded by the police. The 4 per cent increase in recorded crime in Wales is therefore below the England and Wales figure. As South Wales Police said:

Mae cyfraddau troseddu wedi gostwng mwy na 30 y cant ers 2010, yn ôl yr arolwg troseddu annibynnol ar gyfer Cymru a Lloegr. Er bod troseddau a gofnodwyd gan yr heddlu wedi cynyddu 6 y cant y llynedd, mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn nodi bod hyn yn dilyn cydymffurfio gwell gan heddluoedd â'r safonau cofnodi cenedlaethol, a chyfran uwch o droseddau yn cael eu cofnodi. Maent yn ychwanegu y credir bod gwelliannau wrth gofnodi troseddau wedi effeithio'n benodol ar rai categorïau o droseddau treisgar a gofnodwyd gan yr heddlu. Felly mae'r cynnydd o 4 y cant yn nifer y troseddau a gofnodwyd yng Nghymru yn is na ffigwr Cymru a Lloegr. Fel y dywedodd Heddlu De Cymru:

'Many of the notable increases in specific crimes are attributed to more reporting and better recording.'

Priodolir llawer o'r cynnydd amlwg mewn troseddau penodol i fwy o adrodd a chofnodi gwell.

And as North Wales Police said:

Ac fel y dywedodd Heddlu Gogledd Cymru:

'Although the reporting of sexual offences is up by 11% I believe that this is a reflection of the increasing confidence of victims to report such crimes to the police. We have significantly increased specialist resources to deal with these types of crime and provide care and support for victims.'

'Er bod y nifer o droseddau rhyw a riportiwyd wedi cynyddu 11%, credaf fod hyn yn adlewyrchiad o'r ffaith fod gan ddioddefwyr bellach fwy o hyder i riportio troseddau o'r fath i'r heddlu. Rydym wedi cynyddu ein hadnoddau arbenigol yn sylweddol er mwyn gallu ymdrin â throseddau o'r fath a diogelu a chefnogi'r dioddefwyr.'

I send my best wishes to north Wales police and crime commissioner, Winston Roddick, who's announced that he will not be seeking re-election in May. His time in office has seen an overall reduction in north Wales crime of 11 per cent, and a 10.5 per cent fall in victim-based crime. His fight against child sexual exploitation in north Wales has resulted in a tenfold increase in the number of perpetrator arrests.

Rwy'n dymuno'n dda i gomisiynydd heddlu a throseddu gogledd Cymru, Winston Roddick, sydd wedi cyhoeddi na fydd yn ceisio cael ei ailethol ym mis Mai. Yn ystod ei gyfnod yn y swydd, gwelwyd gostyngiad cyffredinol o 11 y cant mewn troseddau yng ngogledd Cymru, a gostyngiad o 10.5 y cant mewn troseddau'n seiliedig ar ddioddefwyr. Arweiniodd ei frwydr yn erbyn camfanteisio'n rhywiol ar blant yng ngogledd Cymru at arestio ddeg gwaith yn fwy o droseddwyr o'r fath.

The introduction of police and crime commissioners marked a real act of devolution, but the devolution of policing to Cardiff would put this into reverse. As my contacts in North Wales Police keep reminding me, most people live along the M4/A55 corridors, separated by a vast rural area and with very different policing requirements, and their operational priority is working cross-border with north-west England.

Roedd cyflwyno comisiynwyr heddlu a throseddu yn weithred o ddatganoli go iawn, ond byddai datganoli plismona i Gaerdydd yn gwrthdroi hyn. Fel y mae fy nghysylltiadau yn Heddlu Gogledd Cymru yn parhau i fy atgoffa, mae'r mwyafrif o bobl yn byw ar hyd coridorau'r M4/A55, wedi'u gwahanu gan ardal wledig eang a chyda gofynion gwahanol iawn o ran plismona, a'u blaenoriaeth weithredol yw gweithio'n drawsffiniol gyda gogledd-orllewin Lloegr.

And as Gwent Police's former deputy chief constable, Mick Giannasi, has written, although the list of potential benefits for the devolution of policing was a relatively short one, and ought to have been achievable within the existing arrangements, the potential consequences were much easier to identify. His concerns about devolution of policing covered the potential impact on interoperability, how factors such as growth international criminal markets and the threat of international terrorism might conflict with devolution, how the cost of recreating infrastructure on a stand-alone basis would be prohibitive and how policing in Wales would continue to be so interlocked with policing in England that we would end up with devolution in name only. He also questioned whether the Welsh Government had developed the resources or the experience to oversee policing. I would suggest not. Although he stated that the relationship between the four Welsh police forces and the Welsh Government has been constructive, he believed that if the role of Welsh Government changed to one of accountability and delivery, that would inevitably result in a change in the nature of its relationship with the police service, and one that may ultimately prove to be less productive. Thank you.

Ac fel y mae cyn-ddirprwy brif gwnstabl Heddlu Gwent, Mick Giannasi, wedi'i ysgrifennu, er bod y rhestr o fanteision posibl datganoli plismona yn un gymharol fyr, ac y dylai fod modd eu cyflawni o fewn y trefniadau presennol, roedd y canlyniadau posibl yn llawer haws i'w nodi. Roedd ei bryderon ynglŷn â datganoli plismona yn cynnwys yr effaith bosibl ar y gallu i ryngweithredu, sut y gallai ffactorau fel twf marchnadoedd troseddol rhyngwladol a'r bygythiad o derfysgaeth ryngwladol wrthdaro â datganoli, sut y byddai'r gost o ail-greu seilwaith ar sail annibynnol yn afresymol, a sut y byddai plismona yng Nghymru yn parhau i fod ynghlwm i'r fath raddau wrth blismona yn Lloegr fel na fyddai gennym ddatganoli yn y pen draw heblaw mewn enw yn unig. Roedd hefyd yn cwestiynu a oedd Llywodraeth Cymru wedi datblygu'r adnoddau neu'r profiad i oruchwylio plismona. Buaswn yn awgrymu nad yw wedi gwneud hynny. Er ei fod wedi dweud bod y berthynas rhwng y pedwar heddlu yng Nghymru a Llywodraeth Cymru wedi bod yn adeiladol, pe bai rôl Llywodraeth Cymru yn newid i fod yn rôl seiliedig ar atebolrwydd a chyflawniad, credai y byddai hynny'n arwain yn anochel at newid yn natur ei pherthynas â gwasanaeth yr heddlu, ac un a allai brofi'n llai cynhyrchiol yn y pen draw. Diolch.

15:19

## Mike Hedges Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can I perhaps start off with a bit of a history lesson? Policing used to be a local authority function. It used to be run by the local authority watch committees. It was nationalised by a Conservative Government pre-1964. So, we're certainly in a position where we've always had democratic control of the police, and it used to be run by a police committee that had representatives of local authorities, the magistrates and some independent members. So, I'm not quite sure what this great change of having these police and crime commissioners has achieved, apart from a lot of cost.

A gaf fi ddechrau gyda thamaid o wers hanes? Roedd plismona'n arfer bod yn un o swyddogaethau awdurdod lleol. Câi ei redeg gan bwyllgorau heddlu awdurdodau lleol. Cafodd ei wladoli gan Lywodraeth Geidwadol cyn 1964. Felly, rydym yn sicr mewn sefyllfa lle y mae gwasanaeth yr heddlu bob amser wedi bod dan reolaeth ddemocrataidd, ac arferai gael ei redeg gan bwyllgor yr heddlu a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr awdurdodau lleol, yr ynadon ac aelodau annibynnol. Felly, nid wyf yn hollol siŵr beth y mae'r newid mawr hwn o gael comisiynwyr heddlu a throseddu wedi'i gyflawni, ar wahân i gost fawr.

The UK Government continues to implement policing cuts that are in danger of putting our communities at risk. These Tory-driven cuts have made recent settlements the worst for the police in living memory—I use that term because I can't find any worse, but I've only gone back to the 1950s. One of the first priorities for a Government should be to keep their people safe. This is not the priority of Westminster, where austerity is not an economic policy but an ideology based upon shrinking state provision to 1950s levels. The latest figures already show the biggest fall in police numbers in decades, with a loss of 628 police officers in Wales between 2010 and 2015. Across England and Wales, 18,000 police officers have gone since David Cameron became Prime Minister.

Mae Llywodraeth y DU yn parhau i weithredu toriadau i blismona, toriadau a allai beryglu ein cymunedau. Mae'r toriadau hyn gan y Toriaid wedi golygu mai'r setliadau diweddar i'r heddlu yw'r rhai gwaethaf ers cyn cof—defnyddiaf yr ymadrodd hwnnw gan na allaf ddod o hyd i rai gwaeth, ond nid euthum yn ôl ymhellach na'r 1950au. Dylai cadw ei phobl yn ddiogel fod yn un o brif flaenoriaethau Llywodraeth. Nid dyna flaenoriaeth San Steffan, lle nad yw caledi'n bolisi economaidd; yn hytrach, ideoleg ydyw sy'n seiliedig ar grebachu darpariaeth y wladwriaeth i lefelau'r 1950au. Mae'r ffigurau diweddaraf eisoes yn dangos y gostyngiad mwyaf yn niferoedd yr heddlu ers degawdau, a chollwyd 628 o swyddogion heddlu yng Nghymru rhwng 2010 a 2015. Ledled Cymru a Lloegr, mae 18,000 o swyddogion yr heddlu wedi'u colli ers i David Cameron ddod yn Brif Weinidog.

In the face of this, the Welsh Government is doing all it can with its powers and budget to invest in keeping our communities safe by funding 500 new community support officers across Wales during this Assembly term, and by delivering safer communities for all to create an environment where communities can thrive and where businesses can feel confident to invest. I know from my own constituency, having attended meetings with other Members here, just how popular community support officers are and how well liked they are—and the job they do, being the public face of policing, which I saw Monday this week in Landore.

Yn wyneb hyn, mae Llywodraeth Cymru yn gwneud popeth y gall gyda'i phwerau a'i chyllideb i fuddsoddi mewn cadw ein cymunedau'n ddiogel drwy gyllido 500 o swyddogion cymorth cymunedol newydd ledled Cymru yn ystod tymor y Cynulliad hwn, a thrwy sicrhau cymunedau mwy diogel i bawb er mwyn creu amgylchedd lle y gall cymunedau ffynnu a lle y gall busnesau gael hyder i fuddsoddi. Yn fy etholaeth fy hun, rwy'n gwybod o fod wedi mynychu cyfarfodydd gydag Aelodau eraill yma, pa mor boblogaidd yw swyddogion cymorth cymunedol a chymaint y mae pobl yn eu hoffi, a'r gwaith y maent yn ei wneud—bod yn wyneb cyhoeddus i blismona, a gwelais hynny ddydd Llun yng Nglandŵr.

Taken together, these programmes, which total over £15.1 million in 2015-16, provide 500 full-time and 17 part-time community support officers, who've already been deployed ahead of schedule. These community support officers have become the public face of policing in Wales. Police funding is not wholly devolved and the overall police settlement is driven by Home Office's decision on the police grant. Funding is distributed to the police and crime commissioners in England and Wales in accordance with a distributive formula operated by the Home Office. Yet another formula, but because the rural areas do quite well out of it and the urban areas quite badly, no-one's complaining.

Gyda'i gilydd, mae'r rhaglenni hyn, sy'n werth cyfanswm o dros £15.1 miliwn yn 2015-16, yn darparu 500 o swyddogion cymorth cymunedol amser llawn a 17 o swyddogion cymorth cymunedol rhan-amser, sydd eisoes wedi'u cyflwyno yn gynt na'r disgwyl. Mae'r swyddogion cymorth cymunedol wedi dod yn wyneb cyhoeddus i blismona yng Nghymru. Nid yw cyllid yr heddlu wedi'i ddatganoli'n gyfan gwbl ac ysgogir setliad cyffredinol yr heddlu gan benderfyniad y Swyddfa Gartref ynglŷn â grant yr heddlu. Dosbarthir cyllid i gomisiynwyr heddlu a throseddu yng Nghymru a Lloegr yn unol â fformiwla ddosbarthol a weithredir gan y Swyddfa Gartref. Fformiwla arall eto, ond oherwydd bod yr ardaloedd gwledig yn gwneud yn eithaf da drwyddi ac ardaloedd trefol yn eithaf gwael, nid oes unrhyw un yn cwyno.

The Tories have already slashed funding to the police by a quarter since 2010, and were threatening to cut the police by a further 22 per cent or more. But the Labour campaign forced the Tories to u-turn in November on these extreme cuts, which are likely to put our communities under threat. It's led to a reduction in front-line policing. This may not affect those Tory MPs living in their gated communities. It certainly affects me and my constituents.

Mae'r Toriaid eisoes wedi torri chwarter y cyllid i'r heddlu ers 2010, ac roeddent yn bygwth torri 22 y cant pellach neu fwy oddi arno. Ond ym mis Tachwedd gorfodwyd y Toriaid gan ymgyrch y blaid Lafur i wneud tro pedol ar y toriadau eithafol hyn sy'n debygol o fygwth ein cymunedau. Mae wedi arwain at ostyngiad mewn plismona rheng flaen. Efallai na fydd hyn yn effeithio ar yr ASau Toriaidd sy'n byw yn eu cymunedau y tu ôl i gatiau. Mae'n sicr yn effeithio arnaf fi a fy etholwyr.

I welcome that Welsh police forces are saving money by undertaking more effective collaboration—so, sharing services, better procurement and workforce modernisation. This is a shared agenda for change that is designed to free up more money for front-line policing and community safety initiatives.

Rwy'n croesawu'r ffaith fod heddluoedd Cymru yn arbed arian drwy gydweithio'n fwy effeithiol—rhannu gwasanaethau, caffael gwell a moderneiddio'r gweithlu. Mae hon yn agenda ar y cyd ar gyfer newid sydd wedi'i chynllunio er mwyn rhyddhau mwy o arian ar gyfer plismona rheng flaen a mentrau diogelwch cymunedol.

No organisation is immune to the ability to make efficiency savings by sharing services, by using technology more effectively or by doing things differently and better. But anything more than a 20 per cent reduction of budget, then the service will inevitably suffer.

Nid oes unrhyw sefydliad yn ddiogel rhag y gallu i wneud arbedion effeithlonrwydd drwy rannu gwasanaethau, drwy ddefnyddio technoleg yn fwy effeithiol neu drwy wneud pethau'n wahanol ac yn well. Ond mae unrhyw ostyngiad i'r gyllideb sy'n fwy na 20 y cant yn mynd i olygu'n anochel y bydd y gwasanaeth yn dioddef.

Labour is different. When Labour was in power at Westminster, crime fell by 43 per cent. They listened to what people wanted and invested in neighbourhood policing. With 16,000 more police officers in England and Wales, neighbourhood policing was incredibly popular and worked. The latest figures from the Office for National Statistics in January show a 27 per cent rise in violent crime, a 9 per cent rise in offences involving knives, the murder rate has increased by 14 per cent year on year, hate crimes increasing by 18 per cent, and partially thanks to improved police recording, there's been a 36 per cent increase in sexual offences. The public deserves and has a right to be protected. It is the role of Government to protect them. It is a role that this current Westminster Government are clearly failing at.

Mae'r blaid Lafur yn wahanol. Pan oedd y blaid Lafur mewn grym yn San Steffan, gostyngodd lefelau troseddu 43 y cant. Gwrandawsant ar yr hyn roedd pobl ei eisiau a buddsoddwyd mewn plismona cymunedol. Gyda 16,000 yn fwy o swyddogion yr heddlu yng Nghymru a Lloegr, roedd plismona yn y gymdogaeth yn hynod o boblogaidd ac yn gweithio. Mae'r ffigurau diweddaraf gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ym mis Ionawr yn dangos cynnydd o 27 y cant mewn troseddau treisgar, cynnydd o 9 y cant mewn troseddau'n ymwneud â chyllyll, mae nifer y llofruddiaethau wedi cynyddu 14 y cant o un flwyddyn i'r llall, mae troseddau casineb wedi cynyddu 18 y cant, a diolch yn rhannol i gofnodi gwell gan yr heddlu, bu cynnydd o 36 y cant mewn troseddau rhywiol. Mae'r cyhoedd yn haeddu cael eu diogelu, ac mae ganddynt hawl i hynny. Swyddogaeth y Llywodraeth yw eu diogelu. Mae'n swyddogaeth y mae Llywodraeth bresennol San Steffan yn amlwg yn methu â'i chyflawni.

15:23

## Rhodri Glyn Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Ddirprwy Lywydd, a gaf i ddim ond nodi ar y dechrau fel hyn, fel y gwnes i gyda'r ddadl ddiwethaf, fod y ddogfen atodol ar gyfer y ddadl yma hefyd yn uniaith Saesneg?

Deputy Presiding Officer, may I just note at the outset, as I did with the last debate, that the supplementary document for this debate is also in English only?

O ran y sefyllfa sydd yn ein hwynebu ni gyda setliad ariannol yr heddlu, rwy'n derbyn yn llwyr y pwynt sydd wedi cael ei wneud gan y Gweinidog a chan Mike Hedges fod hyn i gyd yn cael ei yrru a'i benderfynu, mewn gwirionedd, gan y cymhorthdal sydd yn cael ei osod yn San Steffan, a bod cyfraniad Llywodraeth Cymru yn gymharol fach o'i gymharu â hynny.

As regards the situation that faces us with the police financial settlement, I fully accept the point made by the Minister and Mike Hedges that this is all being driven and decided, in fact, by the subsidy that is set by Westminster, and that the contribution of the Welsh Government is comparatively small compared to that.

A gaf i hefyd dderbyn bod yr hyn y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud drwy gyflogi 500 o swyddogion cymunedol wedi bod yn llwyddiant mawr iawn ac yn dderbyniol iawn yn ein cymunedau ni, ac wedi gwneud cyfraniad mawr? Serch hynny, mae'r heddluoedd yng Nghymru yn wynebu sefyllfa anodd iawn ac maen nhw'n gorfod edrych yn feirniadol iawn ar eu sefyllfa nhw o ran y gweithlu ac yn gorfod edrych ar ddiswyddiadau ac ymddeoliadau cynnar.

May I also accept that what the Welsh Government has done by employing 500 community officers has been a very big success and is most acceptable within our communities, and has made a great contribution? Notwithstanding that, the police forces in Wales do face a very difficult situation and they must look extremely critically at their own position as regards the size of the workforce and must look at early retirement and redundancies.

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn mynd i weithio gyda heddluoedd yng Nghymru er mwyn sicrhau yr hyn yr oedd y Gweinidog yn sôn amdano—mwy o gydweithredu, mwy o rannu adnoddau a gwneud y defnydd gorau o'r hyn sydd ar gael? Oherwydd un peth yw galw ar yr heddluoedd unigol i wneud hynny, ond peth arall ydy cydweithrediad gan Lywodraeth Cymru yn hyn o beth.

How is Welsh Government going to work with police forces in Wales in order to secure what the Minister alluded to—more collaboration, more sharing of resources and making optimum use of the resources available? Because it's one thing to call on the individual forces to do that, but collaboration from Welsh Government is quite another in this regard.

A gaf i ofyn hefyd i'r Gweinidog am ei drafodaethau gyda'r comisiynwyr heddlu a throsedd, oherwydd, fel y crybwyllodd Mark Isherwood, y sefyllfa yn Nyfed-Powys ydy bod y comisiynydd wedi penderfynu rhewi'r praesept yn y fan honno—cyfle i godi arian, cyfle i fuddsoddi mwy yn y gwasanaethau, ond yn dewis peidio â gwneud hynny. Rwy'n derbyn nad ydy'r comisiynwyr yn atebol i'r Gweinidog, ond a ydy'r Gweinidog yn gallu cynnal trafodaethau gyda'r comisiynwyr? A ydy e'n gallu mynegi ei bryderon mewn sefyllfa felly? Oherwydd y mae'r dystiolaeth yn dangos, er nad oedd Mark Isherwood yn barod i dderbyn hyn, fod yr adroddiad diweddaraf ar berfformiad—

May I also ask the Minister about his discussions with the police commissioners, because, as Mark Isherwood noted, the position in Dyfed-Powys is that the commissioner has decided to freeze the precept there—an opportunity to raise funds and to invest more in the services, but he has opted not to do so. I accept that the commissioners are not accountable to the Minister, but can the Minister hold discussions with the commissioners? Is he able to express his concerns about this? Because the evidence demonstrates—although Mark Isherwood wasn't willing to acknowledge this, that the most recent report on performance—

*Mark Isherwood a gododd—*

*Mark Isherwood rose—*

## Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography

Wel, gadewch imi orffen y pwynt. Mae'r adroddiad diweddaraf ar berfformiad Heddlu Dyfed-Powys yn dangos yn glir iawn bod y perfformiad wedi gwaethygu. Mark Isherwood.

Well, let me finish the point. The latest report on the performance of Dyfed-Powys Police force clearly shows that their performance has deteriorated. Mark Isherwood.

15:25

## Mark Isherwood Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

As you're referring to a Her Majesty's Inspectorate of Constabulary report, do you also accept that Her Majesty's Inspectorate of Constabulary statistics say that Dyfed-Powys has the lowest number of recorded crimes, the highest detection rate in England and Wales and has seen crime and anti-social behaviour fall further and faster than anywhere else in Wales? I thought that's what people wanted.

Gan eich bod yn cyfeirio at adroddiad gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi, a ydych hefyd yn derbyn bod ystadegau Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi yn dweud mai Heddlu Dyfed-Powys sydd â'r nifer isaf o droseddau wedi'u cofnodi, y gyfradd ddatrys uchaf yng Nghymru a Lloegr, a bod lefelau troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn disgyn ymhellach ac yn gyflymach nag yn unrhyw le arall yng Nghymru? Roeddwn i'n meddwl mai dyna roedd pobl ei eisiau.

15:26

## Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Ac y mae'r adroddiad yn dod i'r casgliad bod y perfformiad wedi dirywio. Mae'r ystadegau y mae Mark Isherwood yn cyfeirio atyn nhw yn wastad wedi bod yn wir yn Nyfed-Powys. Yr hyn y mae'r adroddiad yn ei ddweud ydy bod y sefyllfa wedi gwaethygu. Y cwestiwn rwyf yn gofyn i'r Gweinidog ydy: pa drafodaethau y mae e wedi eu cael gyda chomisiynydd Dyfed-Powys ynglŷn â'i benderfyniad e, o fewn y cyd-destun hwnnw, i rewi'r praesept? Yr her y byddwn i'n ei chyflwyno i Lywodraeth Cymru ydy—os ŷch chi'n mynd i ddadlau yn y fan hyn, 'Edrychwch, mae'r bai i gyd yn gorwedd gyda San Steffan—nhw sydd yn gosod y cymhorthdal ynglŷn â phlismona yng Nghymru; allwn ni ddim gwneud unrhyw beth amdano fe', a ydych chi'n barod i wneud yr alwad yn glir iawn y prynhawn yma, Weinidog, fod angen datganoli plismona yng Nghymru a bod angen i Lywodraeth Cymru dderbyn y cyfrifoldeb amdano er mwyn gwella'r gwasanaeth sy'n cael ei gynnig i bobl Cymru?

And the report comes to the conclusion that the performance has worsened. And the statistics that Mark Isherwood alluded to have always been true in Dyfed-Powys, but what the report states is that the position has deteriorated. So, the question I'm posing to the Minister is: what discussions has he had with the Dyfed-Powys commissioner with regard to his decision, within that context, to freeze the precept? The challenge I would set for Welsh Government is—if you're going to argue here, 'Look, all the blame lies with Westminster—they set the precept on policing in Wales; we can do nothing about it', are you willing to make a very clear call this afternoon, Minister, that policing needs to be devolved to Wales and that the Welsh Government should take responsibility for it in order to improve the service that is offered to the people of Wales?

15:27 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Like other speakers, I also have concerns about the fact that we are facing a 0.6 per cent cut in funding for the police. I accept that this is not down to the Minister here—that it is a UK-led initiative—but, certainly, a 0.6 per cent cut does not seem to me to meet the UK Government's promises of protecting police funding. It seems to me that a cut is a cut, and that's what we have in front of us. Although Mark Isherwood made the case that police and crime commissioners are an element of devolved Government—and I accept that point that we now have directly elected officials who are accountable locally for the delivery of services in their area and for the conduct of the police force in their area—it is not effectively a devolution of policing from Westminster; what it is is a change in the way that police forces are accountable locally. In fact, if you were to devolve policing from Westminster to this place here and give the Welsh Government responsibility, that would be real devolution because one of the issues that we face is that the funding formulas for the police forces are set by the UK Government, that the Welsh forces in particular—.

Fel siaradwyr eraill, mae gennyf finnau hefyd bryderon ynglŷn â'r ffaith ein bod yn wynebu toriad o 0.6 y cant yng nghyllid yr heddlu. Rwy'n derbyn nad bai'r Gweinidog yma yw hyn—cynllun a arweinir gan y DU ydyw—ond yn sicr, nid wyf yn ystyried bod toriad o 0.6 y cant yn gydnaws ag addewidion Llywodraeth y DU i ddiogelu cyllid yr heddlu. Ymddengys i mi mai toriad yw toriad, a dyna sydd gennym. Er bod Mark Isherwood wedi cyflwyno'r achos fod comisiynwyr heddlu a throseddu yn elfen o Lywodraeth ddatganoledig—ac rwy'n derbyn y pwynt fod gennym bellach swyddogion a etholir yn uniongyrchol sy'n atebol yn lleol am ddarparu gwasanaethau yn eu hardal ac am y modd y caiff yr heddlu ei redeg yn eu hardal—nid yw'n ddatganoli plismona o San Steffan mewn gwirionedd; yr hyn ydyw yw newid yn y ffordd y mae heddluoedd yn atebol yn lleol. Yn wir, pe baech yn datganoli plismona o San Steffan i'r fan hon ac yn rhoi'r cyfrifoldeb i Lywodraeth Cymru, dyna fyddai datganoli go iawn oherwydd un o'r problemau sy'n ein hwynebu yw bod fformiwlâu ariannu'r heddluoedd yn cael eu pennu gan Lywodraeth y DU, fod heddluoedd Cymru yn enwedig—.

*Mark Isherwood a gododd—*

*Mark Isherwood rose—*

**Peter Black** Bywgraffiad Biography

Let me finish the point. The Welsh forces in particular are disadvantaged because of the way that funding formula is set out. Cardiff is not treated as a capital city in the same way as London and Edinburgh in terms of that funding formula and, often, we find the funding for Welsh police forces top-sliced and money being redistributed elsewhere in the UK. So, clearly, if the Welsh Government had control of policing here and we were able to set our own formulas, I think that would make it a far more accountable process and I think Welsh police forces would benefit as a result of that.

Gadewch i mi orffen y pwynt. Mae heddluoedd Cymru yn enwedig dan anfantais oherwydd y modd y pennir y fformiwla ariannu. Nid yw Caerdydd yn cael ei thrin fel prifddinas yn yr un modd â Llundain a Chaeredin o ran y fformiwla ariannu ac yn aml, mae'r cyllid i heddluoedd Cymru wedi'i frigdorri ac arian yn cael ei ailddosbarthu i rannau eraill o'r DU. Felly, yn amlwg, pe bai gan Lywodraeth Cymru reolaeth dros blismona yma a phe baem yn gallu pennu ein fformiwlâu ein hunain, rwy'n meddwl y byddai hynny'n ei gwneud yn broses lawer mwy atebol ac rwy'n meddwl y byddai heddluoedd Cymru yn elwa o ganlyniad i hynny.

15:29 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Don't you see the risk that, in the wrong hands, we would end up with one police and crime commissioner for Wales—the Minister—and no devolution to the regions for local policing?

Onid ydych yn gweld y perygl, yn y dwylo anghywir, y byddai gennym yn y pen draw un comisiynydd heddlu a throseddu dros Gymru—y Gweinidog— heb unrhyw ddatganoli plismona lleol i'r rhanbarthau?

15:29 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

There's always a risk, Mark, with any democratic process of processes falling into the wrong hands. I mean, we have George Osborne and David Cameron running the UK Government. I think that's in the wrong hands. We can't always approve of people's democratic choices, but that's what happens. There are democratic choices, and people have to take responsibility for those choices.

Mae risg bob amser, Mark, gydag unrhyw broses ddemocrataidd, y bydd prosesau'n mynd i'r dwylo anghywir. Hynny yw, George Osborne a David Cameron sy'n rhedeg Llywodraeth y DU. Rwy'n credu bod honno yn y dwylo anghywir. Ni allwn gymeradwyo dewisiadau democrataidd pobl bob amser, ond dyna sy'n digwydd. Ceir dewisiadau democrataidd, ac mae'n rhaid i bobl gymryd cyfrifoldeb am y dewisiadau hynny.

The other point I wanted to make, and Mike Hedges alluded earlier on to a meeting that he and I were at on Monday night in Landore, which was a local PACT meeting, in fact. One of the things that became evident there was that, whereas the community that I represent on Swansea council, which that PACT meeting covers, used to have one warranted officer and four PCSOs covering it, there are now only two PCSOs covering it, one of whom is directly funded by the Welsh Government, and kudos to the Welsh Government for putting that funding in place. But, in fact, the number of PCSOs in Wales has declined since September 2013, when they peaked. On 31 March 2015, the Welsh police forces employed 986 PCSOs, which was a reduction of 114 since March 2014, and 142 fewer than that at the September 2013 peak. In March 2011, there were 686 PCSOs working in the Welsh police forces; that grew to 1,128 by September 2013. So, in fact, the number extra that is funded by the Welsh Government, in reality, worked out about 460, when you take the British Transport Police into account, not the 500 claimed.

Y pwynt arall rwyf am ei wneud, a chyfeiriodd Mike Hedges yn gynharach at gyfarfod roedd ef a minnau ynddo nos Lun yng Nglandŵr, sef cyfarfod lleol o Heddlu a Chymunedau Gyda'i Gilydd mewn gwirionedd. Roedd y cyfarfod hwnnw'n cynnwys y gymuned a gynrychiolaf ar gyngor Abertawe, ac un o'r pethau a ddaeth yn amlwg oedd bod un swyddog â gwarant a phedwar swyddog cymorth cymunedol yr heddlu yn arfer gweithio yn y gymuned honno, ac erbyn hyn, dau swyddog cymorth cymunedol yr heddlu yn unig sydd yno, un ohonynt yn cael ei gyllido'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru, a phob clod i Lywodraeth Cymru am roi'r cyllid hwnnw ar waith. Ond mewn gwirionedd, mae niferoedd swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu yng Nghymru wedi gostwng ers mis Medi 2013, pan oeddent ar eu huchaf. Ar 31 Mawrth 2015, roedd heddluoedd Cymru yn cyflogi 986 o swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu, sef gostyngiad o 114 ers mis Mawrth 2014, a 142 yn llai na phan oeddent ar eu huchaf ym mis Medi 2013. Ym mis Mawrth 2011, roedd 686 o swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu yn gweithio yn heddluoedd Cymru; tyfodd hynny i 1,128 erbyn mis Medi 2013. Felly, mewn gwirionedd, y nifer ychwanegol sy'n cael eu cyllido gan Lywodraeth Cymru, mewn gwirionedd, oedd tua 460, os ydych yn cynnwys yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig, nid y 500 a honnwyd.

But the point I'm making is that the number of PCSOs is continuing to decline, as a direct result of the cuts to the police forces. And, in fact, the PCSOs were viewed, if you like, as the cheaper option to help police communities, because they didn't cost as much as a warranted officer. The number of warranted officers has also declined. I think it's absolutely crucial, as a result of that, that the Welsh Government continues funding PCSOs in the next Assembly term—that, obviously, is going to be down to manifestos. But what is also clear is that the funding that is going into PCSOs is, effectively, replacing funding that the UK Government would normally be putting into police in Wales, and, as a result of that, the number of front-line officers—the people who I see, and everybody in this Chamber sees, on the streets of Wales, in their communities—is also declining, and I think that is to be regretted. So, I think this 0.6 per cent cut is carrying on that trend, if you like, and if it continues for much longer, I think the police forces will be struggling to continue to have a presence in our local communities. And that, I think, is something we should be concerned about.

Ond y pwynt rwy'n ei wneud yw bod niferoedd swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu yn parhau i ostwng, o ganlyniad uniongyrchol i'r toriadau i'r heddluoedd. Ac mewn gwirionedd, câi swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu eu hystyried, os mynnwch, fel yr opsiwn rhatach i helpu cymunedau heddlu, gan nad oeddent yn costio cymaint â swyddog â gwarant. Mae niferoedd y swyddogion â gwarant hefyd wedi lleihau. Rwy'n credu ei bod yn hollol hanfodol, o ganlyniad i hynny, fod Llywodraeth Cymru yn parhau i gyllido swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu yn ystod tymor nesaf y Cynulliad—bydd hynny, yn amlwg, yn dibynnu ar y maniffestos. Ond yr hyn sy'n amlwg hefyd yw bod y cyllid sy'n mynd tuag at swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu, i bob diben, yn cymryd lle'r cyllid y byddai Llywodraeth y DU fel arfer yn ei wario ar yr heddlu yng Nghymru, ac yn sgil hynny, mae niferoedd y swyddogion rheng flaen—y bobl rwy'n eu gweld, a'r bobl y mae pawb yn y Siambr hon yn eu gweld, ar strydoedd Cymru, yn eu cymunedau—hefyd yn lleihau, a chredaf fod hynny'n destun pryder. Felly, rwy'n credu bod y toriad hwn o 0.6 y cant yn parhau'r duedd honno, os mynnwch, ac os yw'n parhau lawer yn hwy, rwy'n credu y bydd yr heddluoedd yn ei chael hi'n anodd sicrhau presenoldeb yn ein cymunedau lleol. Ac mae hynny, rwy'n meddwl, yn rhywbeth y dylem boeni yn ei gylch.

In general, Deputy Presiding Officer, the settlement is what it is; I'm not particularly happy with it, but it is there in front of us. But I do think that we are going to have to start addressing some of the fundamental structural issues that are starting to rear their head in the police forces locally, which is nothing to do with the devolution of policing, nor anything to do with PCCs, and everything to do with the funding formula that we have imposed on us from Westminster.

Yn gyffredinol, Ddirprwy Lywydd, mae'r setliad yr hyn ydyw; nid wyf yn arbennig o hapus yn ei gylch, ond mae yno o'n blaenau. Ond rwy'n meddwl y bydd yn rhaid i ni ddechrau mynd i'r afael â rhai o'r materion strwythurol sylfaenol sy'n dechrau ymddangos yn yr heddluoedd yn lleol, nad ydynt yn ymwneud o gwbl â datganoli plismona na chomisiynwyr heddlu a throseddu, ond sy'n deillio'n gyfan gwbl o'r fformiwla ariannu a orfodwyd arnom gan San Steffan.

15:32 **Jeff Cuthbert** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I'm grateful for the opportunity to speak in this important debate today. Before I move on to the substance of my remarks, however, I do need to declare an interest, as I am my party's candidate to become Police and Crime Commissioner for Gwent on 5 May this year. Thank you very much.

Rwy'n ddiolchgar am y cyfle i siarad yn y ddadl bwysig hon heddiw. Cyn i mi symud ymlaen at brif sylwedd fy sylwadau, fodd bynnag, mae angen i mi ddatgan buddiant, gan mai fi yw ymgeisydd fy mhlaid i ddod yn Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent ar 5 Mai eleni. Diolch yn fawr iawn.

Nonetheless, the police settlement touches on a number of issues that I have come across over the course of this Assembly as a constituency Assembly Member, and which highlight the challenges facing the police service during a time of constrained public finances, and where it is important that they work with a number of other key stakeholders—

Serch hynny, mae setliad yr heddlu yn cyffwrdd ar nifer o faterion rwyf wedi dod ar eu traws yn ystod y Cynulliad hwn fel Aelod Cynulliad dros etholaeth, materion sy'n tynnu sylw at yr heriau sy'n wynebu gwasanaeth yr heddlu ar adeg pan fo arian cyhoeddus yn brin, a phan fo'n bwysig eu bod yn gweithio gyda nifer o randdeiliaid allweddol eraill—

15:32 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Will the Member give way?

A wnaiff yr Aelod ildio?

15:32 **Jeff Cuthbert** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Already?

Yn barod?

15:32 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Yes.

Ie.

15:32 **Jeff Cuthbert** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Go on, then.

Ewch ymlaen, felly.

15:32 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Nick Ramsay.

Nick Ramsay.

15:33 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Thanks for giving way. I'm grateful for what you've just said in terms of declaring an interest. I take it then that you, unlike the Minister, do agree with the role of the police commissioner.

Diolch am ildio. Rwy'n ddiolchgar am yr hyn rydych newydd ei ddweud o ran datgan buddiant. Rwy'n cymryd felly eich bod chi, yn wahanol i'r Gweinidog, yn cytuno â rôl y comisiynydd heddlu.

15:33 **Jeff Cuthbert** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I intend to use that role—if elected by the people of Gwent—to make sure that policing, as a key public service, is delivered in partnership with other key public services, and benefits, amongst others, the most vulnerable sections of the people of Gwent.

Rwy'n bwriadu defnyddio'r rôl honno—os caf fy ethol gan bobl Gwent—i sicrhau bod plismona, fel gwasanaeth cyhoeddus allweddol, yn cael ei gyflawni mewn partneriaeth â gwasanaethau cyhoeddus allweddol eraill, ac er budd y rhannau mwyaf agored i niwed, ymhlith eraill, o boblogaeth Gwent.

Cuts to the policing budget over the last five years by the UK Government, however well they may be disguised in Treasury spin, have gone too far and too fast, meaning that the police have been put under tremendous pressure in recent years when it comes to protecting front-line services. Police settlements have, therefore, been very difficult, and conversations that I have had with the chief constable of Gwent Police reflect this reality. Nonetheless, I am pleased that the Welsh Government is doing what it can, within its powers and budgetary capabilities, in order to boost the police services here in Wales.

Mae toriadau i'r gyllideb blismona dros y pum mlynedd diwethaf gan Lywodraeth y DU, waeth pa mor dda y cânt eu cuddio yn sbin y Trysorlys, wedi mynd yn rhy bell ac yn rhy gyflym, sy'n golygu bod yr heddlu wedi cael eu rhoi o dan bwysau aruthrol yn y blynyddoedd diwethaf o ran diogelu gwasanaethau rheng flaen. Mae setliadau'r heddlu, felly, wedi bod yn anodd iawn, ac mae trafodaethau a gefais gyda phrif gwnstabl Heddlu Gwent yn adlewyrchu'r realiti hwn. Serch hynny, rwy'n falch fod Llywodraeth Cymru yn gwneud yr hyn a all, o fewn ei phwerau a'i gallu cyllidebol, i roi hwb i wasanaethau'r heddlu yma yng Nghymru.

As Mike Hedges has mentioned, a commitment to increasing the number of PCSOs was included in our programme for government in this Assembly, and I'm delighted that the Welsh Government has delivered on this pledge ahead of schedule. I know for a fact that the additional 101 PCSOs in Gwent are very popular amongst the general public, and they provide vital support, especially in terms of providing reassurance. That is in addition, of course, to the work carried out by full-time officers, at a time when the latter's numbers have been cut. Indeed, the number of officers employed by Gwent Police fell by 242 between March 2010 and September 2015, because of Tory police cuts.

Fel y mae Mike Hedges wedi crybwyll, cynhwyswyd ymrwymiad i gynyddu niferoedd swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu yn ein rhaglen lywodraethu yn y Cynulliad hwn, ac rwyf wrth fy modd fod Llywodraeth Cymru wedi cyflawni ar yr addewid hwn yn gynt na'r disgwyl. Rwy'n gwybod bod y 101 o swyddogion cymorth cymunedol ychwanegol yng Ngwent yn boblogaidd iawn ymhlith y cyhoedd yn gyffredinol, ac maent yn darparu cymorth hanfodol, yn enwedig o ran sicrhau tawelwch meddwl. Wrth gwrs, mae hynny'n ychwanegol at y gwaith a wneir gan swyddogion amser llawn ar adeg pan fo niferoedd y swyddogion amser llawn wedi cael eu torri. Yn wir, gwelwyd gostyngiad o 242 yn nifer y swyddogion a gyflogir gan Heddlu Gwent rhwng mis Mawrth 2010 a mis Medi 2015 oherwydd toriadau'r Torïaid i'r heddlu.

At a time of squeezed resources and tightened public finances, it is more important than ever that the police service works with other partner organisations, particularly community groups and those in the voluntary sector, to ensure that we achieve better community cohesion and public safety by tackling our priorities such as anti-social behaviour, including hate crime and violence against women.

Ar adeg pan fo adnoddau'n brin a gwasgu ar gyllid cyhoeddus, mae'n bwysicach nag erioed fod gwasanaeth yr heddlu yn gweithio gyda sefydliadau partner eraill, yn enwedig grwpiau cymunedol a'r rhai yn y sector gwirfoddol, er mwyn sicrhau ein bod yn gwella cydlyniant cymunedol a diogelwch y cyhoedd drwy fynd i'r afael â'n blaenoriaethau megis ymddygiad gwrthgymdeithasol, gan gynnwys troseddau casineb a thrais yn erbyn menywod.

When I was Minister for Communities and Tackling Poverty, I saw the importance of such an approach, and in these areas the Welsh Government has developed an excellent relationship with Wales's police forces in order to ensure that these key priorities are addressed. This is particularly relevant given that yesterday was International Women's Day and served to remind us of how far we still have to go in terms of identifying violence against women and changing the culture that allows it to continue.

Pan oeddwn yn Weinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, gwelais bwysigrwydd ymagwedd o'r fath, ac yn y meysydd hyn mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu perthynas ardderchog gyda heddluoedd Cymru er mwyn sicrhau bod y blaenoriaethau allweddol hyn yn cael sylw. Mae hyn yn arbennig o berthnasol o ystyried mai ddoe oedd Diwrnod Rhyngwladol y Menywod a'n hatgoffodd pa mor bell sydd gennym i fynd o hyd o ran amlygu trais yn erbyn menywod a newid y diwylliant sy'n caniatáu iddo barhau.

So, to conclude, I thank the Welsh Government for presenting this motion on the police settlement today and for the chance to debate the effects that cuts to police funding by the UK Government have had on the service over the last five years. The police service faces huge challenges, not only in Gwent, but across Wales and in the years ahead. Only by working together in partnership can we address key priorities and ensure that our communities are safe and sustainable for future generations.

Felly, i gloi, diolch i Lywodraeth Cymru am gyflwyno'r cynnig hwn ar setliad yr heddlu heddiw ac am y cyfle i drafod yr effeithiau y mae toriadau i gyllid yr heddlu gan Lywodraeth y DU wedi'u cael ar y gwasanaeth dros y pum mlynedd diwethaf. Mae gwasanaeth yr heddlu yn wynebu heriau enfawr, nid yn unig yng Ngwent, ond ar draws Cymru ac yn y blynyddoedd i ddod. Drwy weithio gyda'n gilydd mewn partneriaeth yn unig y gallwn fynd i'r afael â blaenoriaethau allweddol a sicrhau bod ein cymunedau'n ddiogel ac yn gynaliadwy ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

15:36

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The Minister to reply.

Y Gweinidog i ymateb.

15:36 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus / The Minister for Public Services*

Thank you, Dirprwy Lywydd. Can I just pick up a few of the comments that have been raised in the debate today? I've been asked by a number of Members what are my views on the settlement specifically in Dyfed-Powys and what I might say to the police and crime commissioner in that area. It seems to me that it's not for me really to take that specific point up with the police and crime commissioner. I think it's a matter for the people of Dyfed-Powys to decide whether they believe that the settlements that are available there currently will deliver a sustainable form of local policing into the future. That is the big question, I think, that will face those communities as they go to the polls in May, not just in the elections for this place, but in the elections for the police and crime commissioners that will take place on the same day as our own elections.

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd. A gaf fi dynnu sylw at ychydig o'r sylwadau a grybwyllwyd yn y ddadl heddiw? Mae nifer o'r Aelodau wedi gofyn i mi beth yw fy marn ar y setliad i heddlu Dyfed-Powys yn benodol a beth fyddwn yn ei ddweud wrth y comisiynydd heddlu a throseddu yn yr ardal honno. Mae'n ymddangos i mi nad fy lle i mewn gwirionedd yw trafod hynny'n benodol gyda'r comisiynydd heddlu a throseddu. Rwy'n credu mai mater ar gyfer pobl Dyfed-Powys yw penderfynu a ydynt yn credu y bydd y setliadau sydd ar gael yno ar hyn o bryd yn cyflawni dull cynaliadwy o blismona lleol yn y dyfodol. Dyna'r cwestiwn mawr, rwy'n credu, a fydd yn wynebu'r cymunedau hyn wrth iddynt bleidleisio ym mis Mai, nid yn yr etholiadau i'r lle hwn yn unig, ond yn yr etholiadau ar gyfer comisiynwyr heddlu a throseddu a fydd yn digwydd ar yr un diwrnod â'n hetholiadau ein hunain.

I do meet with the police and crime commissioners on a regular basis. I also meet with the chief constables. Yesterday, I met the chief constables on their own without the police and crime commissioners. Not all police and crime commissioners, I think, like me meeting with the chief constables on their own, but I will say no more about that at this moment. But I will wish my colleague Jeff Cuthbert the best of luck in his candidacy for the post of Police and Crime Commissioner for Gwent. [Interruption.] And for all the other candidates of my party as well.

Rwy'n cyfarfod â'r comisiynwyr heddlu a throseddu yn rheolaidd. Rwyf hefyd yn cyfarfod â'r prif gwnstabliaid. Ddoe, cyfarfûm â'r prif gwnstabliaid ar eu pen eu hunain heb y comisiynwyr heddlu a throseddu. Nid wyf yn credu bod pob comisiynydd heddlu a throseddu yn hoffi fy mod yn cyfarfod â'r prif gwnstabliaid ar eu pen eu hunain, ond ni ddywedaf ragor am hynny ar hyn o bryd. Ond rwy'n dymuno pob lwc i fy nghyd-Aelod, Jeff Cuthbert, yn ei ymgais i gael ei ethol yn Gomisiynydd Heddlu a Throseddu ar gyfer Gwent. [Torri ar draws.] Ac i holl ymgeiswyr eraill fy mhlaid yn ogystal.

I think that a number of people, including Jeff Cuthbert, Peter Black and Rhodri Glyn Thomas, have raised the issue of the cuts in police spending that we've seen from Whitehall. I don't want to be churlish and remind Peter Black that his party was in power for some of the time in which these cuts took place and indeed shares partial responsibility, I suppose, for the creation of police and crime commissioner posts as well.

Credaf fod nifer o bobl, gan gynnwys Jeff Cuthbert, Peter Black a Rhodri Glyn Thomas, wedi codi mater y toriadau i wariant yr heddlu a welsom o Whitehall. Nid wyf am fod yn anfoesgar ac atgoffa Peter Black fod ei blaid mewn grym am beth o'r amser pan ddigwyddodd y toriadau ac yn wir, mae'n rhannu cyfrifoldeb rhannol, am wn i, am greu swyddi comisiynwyr heddlu a throseddu hefyd.

But, can I say to him that I do think that there are going to be areas where it's inevitable, given the responsibilities that police are facing—new kinds of crime, such as digital crime, for example, and organised crime online and child sexual exploitation, which require investment, very often, not only in capital, but also in skilled resources—that they are going to have to look at the rebalancing of the resources they have? It's not just about those officers on the beat, although obviously we want to maintain those, but they do need specialists in certain areas as well. It is important, of course, that we reflect that. That, I think, is where the Welsh Government's investment in supporting 500 community support officers across Wales has been critical, because without our investment—I think the chief constables are clear about this—they would have had a marked reduction in the number of individuals actually out there in the community, without the support that we have been able to give.

Ond a gaf fi ddweud wrtho fy mod yn credu bod yna feysydd yn mynd i fod lle y bydd yn anochel, o ystyried y cyfrifoldebau y mae'r heddlu yn eu hwynebu—mathau newydd o droseddau, megis troseddau digidol, er enghraifft, a throseddau cyfundrefnol ar-lein ac ecsbloetio plant yn rhywiol, sy'n aml yn galw am fuddsoddiad, yn aml iawn, nid yn unig ar ffurf cyfalaf, ond hefyd ar ffurf adnoddau medrus—fel eu bod yn mynd i orfod edrych ar ailgydbwyso'r adnoddau sydd ganddynt? Nid yw'n ymwneud yn unig â swyddogion rhawd, er ein bod am gadw'r rheini, yn amlwg, ond maent angen arbenigwyr mewn meysydd penodol hefyd. Mae'n bwysig, wrth gwrs, ein bod yn adlewyrchu hynny. Dyna ble y mae buddsoddiad Llywodraeth Cymru yn cefnogi 500 o swyddogion cymorth cymunedol ar draws Cymru wedi bod yn hollbwysig, rwy'n meddwl, oherwydd heb ein buddsoddiad—credaf fod y prif gwnstabliaid yn glir ynglŷn â hyn—byddai llawer iawn llai o unigolion allan yn y gymuned mewn gwirionedd, heb y gefnogaeth rydym wedi gallu ei rhoi.

This debate, Dirprwy Lywydd, has wandered somewhat away from the police settlement into areas such as the devolution of policing. Can I just say for the record that our party's policy is quite clear, and was set out in our UK general election manifesto last year, that power over policing in Wales would be devolved to Wales? That is our party's policy, it has remained our party's policy, and it was confirmed by the shadow Home Secretary yesterday, as the First Minister said. So, we are very clear that powers over policing would be devolved. Of course, if powers over policing were devolved, there would be no police and crime commissioners in Wales if my party had that power to implement. Much as I would regret abolishing my colleague Jeff Cuthbert in a new role in the future, that is the policy of our party. We would look at other structures to ensure that there was a local element in policing maintained in Wales. This would not be about centralisation; this would be about finding alternative and better structures to ensure the governance of policing in Wales.

Mae'r ddadl hon, Ddirprwy Lywydd, wedi crwydro braidd oddi wrth setliad yr heddlu i feysydd megis datganoli plismona. A gaf fi gofnodi bod polisi ein plaid yn glir iawn, ac fe'i nodwyd yn ein maniffesto ar gyfer etholiad cyffredinol y DU y llynedd, y byddai pŵer dros blismona yng Nghymru yn cael ei ddatganoli i Gymru? Dyna yw polisi ein plaid, dyna yw polisi ein plaid wedi bod, ac fe'i cadarnhawyd gan Ysgrifennydd Cartref yr wrthblaid ddoe, fel y dywedodd Prif Weinidog Cymru. Felly, rydym yn glir iawn y byddai pwerau dros blismona yn cael eu datganoli. Wrth gwrs, pe bai pwerau dros blismona yn cael eu datganoli, ni fyddai unrhyw gomisiynwyr heddlu a throseddu yng Nghymru pe bai gan fy mhlaid y pŵer i weithredu hynny. Er y byddwn yn difaru diddymu fy nghyd-Aelod Jeff Cuthbert mewn rôl newydd yn y dyfodol, dyna yw polisi ein plaid. Byddem yn edrych ar strwythurau eraill er mwyn sicrhau bod yna elfen leol yn cael ei chynnal mewn plismona yng Nghymru. Ni fyddai hyn yn ymwneud â chanoli; byddai'n ymwneud â dod o hyd i strwythurau gwahanol a gwell er mwyn sicrhau'r modd y caiff plismona ei lywodraethu yng Nghymru.

15:40

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? [Objection.] I defer voting until voting time.

Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Gohiriaf y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

15:40

# 5. Cyfnod 3 Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru)

# 5. Stage 3 of the Public Health (Wales) Bill

Y

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

## Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Item 5 has been withdrawn, as we completed our Stage 3 proceedings of the Public Health (Wales) Bill yesterday.

Mae eitem 5 wedi'i thynnu'n ôl, gan i ni gwblhau ein trafodion Cyfnod 3 ar Fil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) ddoe.

15:40

# 6. Cynnig i Gymeradwyo Diwygiadau i'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau'r Cynulliad

# 6. Motion to Approve Revisions to the Members' Code of Conduct

Y

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

## Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Item 6 is a motion to approve revisions to the Members' code of conduct and I call on the Chair of the Standards of Conduct Committee to move the motion—John Griffiths.

Eitem 6 yw cynnig i gymeradwyo diwygiadau i'r cod ymddygiad ar gyfer yr Aelodau a galwaf ar Gadeirydd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad i gynnig y cynnig—John Griffiths.

Cynnig NDM5990 John Griffiths

Motion NDM5990 John Griffiths

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

Yn mabwysiadu'r Cod Ymddygiad diwygiedig ar gyfer Aelodau'r Cynulliad, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 2 Mawrth 2016.

Adopts the revised Code of Conduct for Assembly Members, which was laid in the Table Office on 2 March 2016.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

15:41 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Ddirprwy Lywydd. I'm very pleased to propose that the National Assembly for Wales adopts the revised code of conduct for Assembly Members, which was laid in the Table Office on 2 March this year.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n falch iawn o gynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn mabwysiadu'r cod ymddygiad diwygiedig ar gyfer Aelodau'r Cynulliad, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 2 Mawrth eleni.

As Chair of the standards committee, I'm pleased to bring forward these changes to that code of conduct, resulting from preparations for the fifth Assembly, and, indeed, changes to the Assembly Commission's organisational structures. These changes will update references to the relevant guidance and people. They will provide, I believe, greater clarity for Members and ensure that the code of conduct and relevant associated documentation are fully ready for the fifth Assembly.

Fel Cadeirydd y pwyllgor safonau, rwy'n falch o gyflwyno'r newidiadau hyn i'r cod ymddygiad, yn deillio o'r paratoadau ar gyfer y pumed Cynulliad, ac yn wir, newidiadau i strwythurau sefydliadol Comisiwn y Cynulliad. Bydd y newidiadau hyn yn diweddaru cyfeiriadau at y canllawiau a'r bobl berthnasol. Yn fy marn i, byddant yn darparu mwy o eglurder i Aelodau ac yn sicrhau bod y cod ymddygiad a dogfennaeth gysylltiedig berthnasol yn gwbl barod ar gyfer y pumed Cynulliad.

15:41 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have no speakers, therefore, the proposal is to agree the motion. Does any Member object? The motion is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Nid oes gennyf siaradwyr, felly, y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Derbyniwyd y cynnig felly yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

15:42

## 7. Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv): Hunanladdiad

## 7. Debate by Individual Members under Standing Order 11.21(iv): Suicide

Senedd.tv Fideo Video

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Item 7 is a debate by individual Members under Standing Order 11.21, and I call on Eluned Parrott to move the motion.

Eitem 7 yw dadl gan Aelodau unigol o dan Reol Sefydlog 11.21, a galwaf ar Eluned Parrott i gynnig y cynnig.

Cynnig NDM5945 Eluned Parrott, Angela Burns, Bethan Jenkins

Motion NDM5945 Eluned Parrott, Angela Burns, Bethan Jenkins

Cefnogwyd gan William Powell, Mark Isherwood

Supported by William Powell, Mark Isherwood

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn gresynu at y ffaith bod rhwng 300 a 350 o bobl yn marw o ganlyniad i hunanladdiad bob blwyddyn yng Nghymru, gyda'r ffigurau diweddaraf yn dangos mai hunanladdiad yw'r prif achos o farwolaeth ymhlith pobl ifanc rhwng 20 a 34 oed;

1. Regrets that each year in Wales between 300 and 350 people die from suicide, with latest figures showing that it is the leading cause of death for 20-34 year olds;

2. Yn cydnabod bod pobl sydd wedi cael diagnosis o gyflwr iechyd meddwl mewn perygl arbennig ac amcangyfrifir bod gan 90 y cant o bobl sy'n ceisio cyflawni hunanladdiad neu'n marw o ganlyniad i hunanladdiad un neu fwy o gyflyrau iechyd meddwl;

2. Recognises that people with a diagnosed mental health condition are at particular risk, with an estimated 90 per cent of people who attempt or die by suicide having one or more mental health condition;

3. Yn credu bod angen gwneud mwy i annog pobl i siarad yn agored am hunanladdiad a theimladau hunanladdol, i godi ymwybyddiaeth a helpu i sicrhau nad oes neb yn cael eu gadael i deimlo eu bod yn dioddef ar eu pen eu hunain;

3. Believes that more needs to be done to encourage people to talk openly about suicide and suicidal feelings, to raise awareness and help ensure that nobody is left to feel they are suffering alone;

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

4. Calls on the Welsh Government to:

a) gwella'r broses o gasglu data i adnabod y rhai sy'n wynebu'r perygl mwyaf;

a) improve the collection of data to identify those most at risk;

b) sicrhau bod cymorth dilynol ar gael i bobl sy'n mynd i adrannau damweiniau ac achosion brys ar ôl hunan-niwed neu geisio cyflawni hunanladdiad;

b) ensure follow-up support for people attending A&E after self-harm or a suicide attempt;

c) darparu ffyrdd mwy effeithiol o gyfeirio pobl at wasanaethau gwrando ac eiriolaeth;

c) provide more effective signposting for listening and advocacy services;

d) edrych ar gyflawni prosiectau megis y parth tawelwch yn Lerpwl sy'n darparu cyngor sydd ar flaen y gad mewn ffordd sy'n briodol i oedran ac sy'n apelio at bobl ifanc, ac enghreifftiau cenedlaethol a rhyngwladol eraill o arferion gorau; ac

d) look at the delivery of projects such as the Calm Zone in Liverpool who are providing cutting edge advice in an age appropriate way that appeals to young people, and other national and international examples of best practice; and

e) asesu'r cymorth sydd ar gael i deuluoedd unigolion sydd â salwch meddwl.

e) assess support available for families of individuals with mental ill-health.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

15:42

## Eluned Parrott Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Ddirprwy Lywydd. I'm proud to move this motion in the memory of Christopher Wood who, sadly, died from suicide after a long battle with mental ill health. Sadly, I never met Christopher, but I have known his very brave mother, Deborah, for more than a year and she will be watching the proceedings today.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n falch o gynnig y cynnig hwn er cof am Christopher Wood a fu farw, yn anffodus, o ganlyniad i hunanladdiad ar ôl brwydr hir gyda salwch meddwl. Yn anffodus, ni chyfarfûm â Christopher erioed, ond rwyf wedi adnabod ei fam ddewr iawn, Deborah, ers dros flwyddyn a bydd yn gwylio'r trafodion heddiw.

Too often, discussions about suicide are abstract ones focused on statistics, but I wanted to show you the human impact, so we've prepared a short video clip with Deborah Wood who will tell us about her son, Christopher.

Yn rhy aml, mae trafodaethau am hunanladdiad yn rhai haniaethol sy'n canolbwyntio ar ystadegau, ond roeddwn eisiau dangos yr effaith ddynol i chi, felly rydym wedi paratoi clip fideo byr gyda Deborah Wood a fydd yn sôn wrthym am ei mab, Christopher.

*Dangoswyd DVD. Mae'r trawsgrifiad mewn dyfynodau isod yn drawsgrifiad o'r cyfraniadau llafar ar y DVD. Mae'r cyflwyniad ar gael drwy ddilyn y linc hon:*

*A DVD was shown. The transcription in quotation marks below is a transcription of the oral contributions on the DVD. The presentation can be accessed by following this link:*

Cyflwyniad DVD.

DVD presentation.

'Our loving son, Chris Wood, was a patient under the care of the community mental health team for four and a half years. He was described as a fragile, vulnerable boy and this is documented in his notes. That's something my husband and myself agreed with, and, as a result, we took him to all his appointments and attended his CPA.

Roedd ein mab cariadus, Chris Wood, yn glaf o dan ofal y tîm iechyd meddwl cymunedol ers pedair blynedd a hanner. Cafodd ei ddisgrifio fel bachgen bregus, agored i niwed ac mae hyn yn cael ei gofnodi yn ei nodiadau. Roedd hynny'n rhywbeth y cytunai fy ngŵr a minnau yn ei gylch, ac o ganlyniad, aethom ag ef i'w holl apwyntiadau a mynychu ei gyfarfod dull rhaglen ofal.

'Chris was a fun-loving guy. He was always happy and smiley, he loved going out, he loved his family—particularly fond and proud of his two nephews and his niece. He loved to talk about them to other people. He was a great animal lover; he was very fond of our cat and dog. He loved his grandparents and was very much a family boy. If you look at photos of him going back over the years, he was always the one with the big smile, thumbs up and happy. He engaged well, I think, particularly with older people; he was especially good with them, because he'd spent a lot of time with his grandparents.

Roedd Chris yn fachgen hoff o hwyl. Roedd bob amser yn hapus ac yn gwenu, wrth ei fodd yn mynd allan, yn caru ei deulu—ac yn arbennig o hoff ac yn falch o'i ddau nai a'i nith. Roedd yn hoff iawn o siarad amdanynt wrth bobl eraill. Roedd wrth ei fodd gydag anifeiliaid; roedd yn hoff iawn o'n cath a'n ci. Roedd yn caru ei daid a'i nain ac roedd yn fachgen ei deulu go iawn. Os edrychwch ar luniau ohono yn mynd yn ôl dros y blynyddoedd, ef oedd yr un â'r wên fawr bob amser, gyda'i fodiau i fyny ac yn hapus. Roedd yn ymwneud yn dda, rwy'n meddwl, â phobl hŷn yn arbennig; roedd yn arbennig o dda gyda hwy am ei fod wedi treulio llawer o amser gyda'i nain a'i daid.

'He was just a lovely, lovely person and he didn't deserve this and I don't think—. Well, why would he? And I don't think we deserved to find him as we did, considering all the effort and care that we gave to him and the trouble we went to to try and keep him safe, and the times we went to people asking for help. I think one of the major things that really concerns me is, we were there all the time, and yet this still happened to him. And, not everybody who has psychiatric problems has that level of support, and so, if this can happen to him, then I wonder what happens to other people who don't have the family backing that Chris had.'

Yn syml iawn, roedd yn berson hyfryd dros ben ac nid oedd yn haeddu hyn ac nid wyf yn credu—. Wel, pam y byddai? Ac nid wyf yn credu ein bod ni'n haeddu dod o hyd iddo fel y gwnaethom, o ystyried yr holl ymdrech a'r gofal a roesom iddo a'r drafferth yr aethom iddi i geisio ei gadw'n ddiogel, a'r adegau yr aethom at bobl i ofyn am help. Rwy'n credu mai un o'r pethau mawr sy'n fy mhoeni'n wirioneddol yw ein bod yno drwy'r amser, ac eto fe ddigwyddodd hyn iddo yr un fath. Ac nid yw pawb sydd â phroblemau seiciatrig yn cael y lefel honno o gefnogaeth, ac felly, os gall hyn ddigwydd iddo ef, yna tybed beth sy'n digwydd i bobl eraill nad ydynt yn cael cefnogaeth teulu fel y cafodd Chris.

15:44 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'd like to thank Deborah for her bravery in making that statement. It's for her, for Chris and for hundreds of families like them that this debate is so important today.

Hoffwn ddiolch i Deborah am ei dewrder yn gwneud y datganiad hwnnw. Mae'r ddadl hon mor bwysig heddiw iddi hi, i Chris ac i gannoedd o deuluoedd tebyg iddynt.

Last year in Britain, 6,000 people died from suicide. Over 300 were in Wales. That's three times as many as die in car crashes. Ninety per cent of those who die from suicide have one or more mental illness, and behind each one of those numbers is a family that's been torn apart. Suicide is the leading cause of death for 20 to 34-year-olds in Wales today. We, as a nation, should ask ourselves how we can change that.

Y llynedd ym Mhrydain, bu farw 6,000 o bobl drwy hunanladdiad. Roedd dros 300 ohonynt yng Nghymru. Dyna dair gwaith cymaint ag y bu farw mewn damweiniau car. Mae gan naw deg y cant o'r rhai sy'n marw o ganlyniad i hunanladdiad o leiaf un salwch meddwl, a thu ôl i bob un o'r bobl hynny, mae yna deulu wedi'i chwalu. Hunanladdiad yw prif achos marwolaeth ymhlith pobl rhwng 20 a 34 oed yng Nghymru heddiw. Fel cenedl, dylem ofyn i ni'n hunain sut y gallwn newid hyn.

One of the key issues remains stigma preventing people from seeking help. We have seen progress with campaigns like Time to Change, which I'm proud to support. It's been a success: more than 2.5 million people's opinions of those with mental ill health are more positive now than they were before. But discrimination remains rife. Despite an initial drop, 91 per cent of people with mental ill health still report discrimination—no change from 2008. Only through openness can we tackle stigma. Ignoring mental ill health, pretending that it's something that doesn't exist or shouldn't be talked about, that is part of the problem, because it marginalises people with mental ill health. We need to continue that progress, and now I feel it's time that we should tackle the final taboo.

Un o'r problemau allweddol o hyd yw stigma sy'n atal pobl rhag gofyn am gymorth. Rydym wedi gweld cynnydd gydag ymgyrchoedd fel Amser i Newid, ymgyrch rwy'n falch o'i chefnogi. Mae wedi bod yn llwyddiant: mae barn mwy na 2.5 miliwn o bobl sydd â salwch meddwl yn fwy cadarnhaol yn awr nag o'r blaen. Ond mae gwahaniaethu'n parhau i fod yn rhemp. Er gwaethaf gostyngiad cychwynnol, mae 91 y cant o bobl sydd â salwch meddwl yn dal i sôn am wahaniaethu—dim newid ers 2008. Drwy fod yn agored yn unig y gallwn fynd i'r afael â stigma. Mae anwybyddu salwch meddwl, gan esgus ei fod yn rhywbeth nad yw'n bodoli neu na ddylid siarad amdano yn rhan o'r broblem, gan ei fod yn ymyleiddio pobl â salwch meddwl. Mae angen i ni barhau'r cynnydd hwnnw, ac yn awr rwy'n teimlo ei bod yn bryd i ni fynd i'r afael â'r tabŵ terfynol.

Suicidal feelings are deeply personal. No two people will be affected in the same way. But we know that those intrusive thoughts can prey upon someone and that feeling unable to talk prevents them from getting help. Telling someone is the first step to beating those thoughts, but, of course, we have to ensure that, if someone has the courage to do that, they will be taken seriously and get the help they need. Sadly, in Christopher's case, despite being under the care of his community mental health team, that help was not adequate. The findings of a report commissioned by the health board and the family are damning. It states, and I quote, 'breaches of duty are, in my opinion, numerous, wide-ranging and overlapping.' And it concludes: 'I am of the opinion that, on the balance of probability, had Christopher Wood been provided with a reasonable standard of care, his death would have been prevented.'

Mae teimladau hunanladdol yn hynod o bersonol. Ni fydd dau unigolyn yn cael eu heffeithio yn yr un modd. Ond gwyddom y gall meddyliau ymwthiol boenydio meddwl rhywun a bod teimlo nad ydynt yn gallu siarad yn eu hatal rhag chwilio am help. Dweud wrth rywun yw'r cam cyntaf i drechu'r meddyliau hynny, ond wrth gwrs, mae'n rhaid i ni sicrhau y bydd rhywun sy'n ddigon dewr i wneud hynny yn cael eu cymryd o ddifrif ac yn cael yr help sydd ei angen arnynt. Yn anffodus, yn achos Christopher, er ei fod o dan ofal ei dîm iechyd meddwl cymunedol, nid oedd y cymorth hwnnw'n ddigon. Mae canfyddiadau adroddiad a gomisiynwyd gan y bwrdd iechyd a'r teulu yn ddamniol. Mae'n nodi, a dyfynnaf, fod 'methiannau i gyflawni dyletswydd, yn fy marn i, yn niferus, yn eang ac yn gorgyffwrdd.' A daw i'r casgliad: 'Rwyf o'r farn y byddai marwolaeth Christopher Wood, pe bai wedi cael safon resymol o ofal, wedi cael ei hatal yn ôl pob tebyg.'

That is just devastating.

Mae hynny'n drychinebus.

The Welsh Government must ensure that the Together for Mental Health strategy is delivered in meaningful ways on the ground. Local health boards should not be able to tick a box and say 'job done' because they've written a strategy. We must be more demanding in terms of real outcomes for real patients.

Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y strategaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl yn cael ei chyflwyno mewn ffyrdd ystyrlon ar lawr gwlad. Ni ddylai byrddau iechyd lleol allu ticio blwch a dweud 'wedi'i wneud' am eu bod wedi ysgrifennu strategaeth. Mae'n rhaid i ni fod yn fwy heriol o ran sicrhau canlyniadau gwirioneddol i gleifion go iawn.

We need good information to base care on. Currently, the ONS statistics on suicide can be misconstrued, because the information is recorded at the date the cause of death is identified, not the date of death. Inquests take time, so there can be a significant time lag. For research purposes, that's not a problem, but it hampers our ability to make good, responsive policy, as it creates artificial peaks and troughs.

Mae angen gwybodaeth dda arnom i seilio gofal arni. Ar hyn o bryd, gellid camddehongli ystadegau ONS ar hunanladdiad am fod y wybodaeth yn cael ei chofnodi ar y dyddiad y nodir achos y farwolaeth, nid ar ddyddiad y farwolaeth. Mae cwestau'n cymryd amser, felly gall fod oedi sylweddol. At ddibenion ymchwil, nid yw hynny'n broblem, ond mae'n llesteirio ein gallu i wneud polisi da, ymatebol, gan ei fod yn creu uchafbwyntiau ac isafbwyntiau artiffisial.

We need better support for both individuals and their families. There is a strong correlation between those who self-harm and those who later die by suicide. We must stop belittling it by describing it as attention seeking or a cry for help. If someone cries for help, we should answer. But patients still report that some health service staff lack sensitivity to those in that situation. Twenty-one per cent of people wait more than a year from a referral just to be assessed; 24 per cent must wait more than a year from assessment to treatment. When people do arrive at A&E having self-harmed, we need there to be better signposting to the support services that do exist, and routine follow-up appointments. But, according to research from Mind, 48 per cent of people have to actively request psychological therapies, and don't have them automatically offered to them.

Mae arnom angen gwell cefnogaeth i unigolion a'u teuluoedd. Mae cydberthynas gref rhwng rhai sy'n hunan-niweidio a rhai sy'n marw'n ddiweddarach drwy hunanladdiad. Mae'n rhaid i ni roi'r gorau i'w fychanu drwy ei ddisgrifio fel ymgais i gael sylw neu gri am gymorth. Os oes rhywun yn crio am ei fod eisiau cymorth, dylem ateb. Ond mae cleifion yn dal i nodi bod rhai staff gwasanaeth iechyd yn brin o sensitifrwydd tuag at rai yn y sefyllfa honno. Mae 21 y cant o bobl yn aros am fwy na blwyddyn rhwng atgyfeirio a chael asesiad yn unig; rhaid i 24 y cant aros mwy na blwyddyn rhwng cael eu hasesu a chael triniaeth. Pan fydd pobl yn cyrraedd adrannau damweiniau ac achosion brys ar ôl hunan-niweidio, mae angen cyfeirio gwell at y gwasanaethau cymorth sydd ar gael, ac apwyntiadau dilynol rheolaidd. Ond yn ôl ymchwil gan Mind, mae'n rhaid i 48 y cant o bobl ofyn am therapïau seicolegol, ac ni chânt eu cynnig iddynt yn awtomatig.

Now, a supportive family can make all the difference, but we do need to equip them with the advice they need, and that still doesn't always happen. Mr and Mrs Wood should have been involved in Chris's care plan, according to the Welsh Government's guidance, but they were not. The report agrees with their perception that they were marginalised, ignored and left to cope on their own.

Nawr, gall teulu cefnogol wneud y byd o wahaniaeth, ond mae angen i ni eu harfogi â'r cyngor sydd ei angen arnynt, ac nid yw hynny'n digwydd bob amser. Dylai Mr a Mrs Wood fod wedi cael rhan yn y broses o lunio cynllun gofal Chris, yn ôl canllawiau Llywodraeth Cymru, ond ni chawsant eu cynnwys. Mae'r adroddiad yn cytuno gyda'u canfyddiad eu bod wedi'u gwthio i'r cyrion, eu hanwybyddu a'u gadael i ymdopi ar eu pen eu hunain.

We should also do more to support families through the aftermath if the worst does happen. After a suicide, those left behind are thrown into an alien environment, battling through legal processes like inquests when they're in shock and least able to cope. Several families have told me that they couldn't cope, in fact. I was also asked why the cause of death, if not given as a narrative verdict, was listed as a specific method of suicide. It ignores the fact that, in the majority of cases, an illness—a mental illness—was responsible for the loss of that loved one and, ultimately, that act was an expression of that illness. Why don't we recognise, in those cases where an individual has battled with mental health bravely for many years, that this has been the case? I wonder if the Minister would agree to raise this with the UK Government, where the responsibility lies.

Dylem hefyd wneud mwy i gynorthwyo teuluoedd drwy'r canlyniadau os yw'r gwaethaf yn digwydd. Ar ôl hunanladdiad, caiff y rhai a adewir ar ôl eu taflu i amgylchedd estron, i frwydro drwy brosesau cyfreithiol fel cwestau pan fyddant mewn sioc ac yn lleiaf tebygol o allu ymdopi. Mae nifer o deuluoedd wedi dweud wrthyf na allent ymdopi, mewn gwirionedd. Gofynnwyd i mi hefyd pam y nodwyd achos y farwolaeth, os na chafodd ei roi fel rheithfarn naratif, fel dull penodol o gyflawni hunanladdiad. Mae'n anwybyddu'r ffaith, yn y mwyafrif o achosion, mai salwch—salwch meddwl—oedd yn gyfrifol am golli'r anwyliaid hyn ac yn y pen draw, roedd y weithred yn fynegiant o'r salwch hwnnw. Pam nad ydym yn cydnabod, mewn achosion lle y bu unigolyn yn brwydro gyda salwch meddwl yn ddewr ers nifer o flynyddoedd, mai dyna a ddigwyddodd? Tybed a fyddai'r Gweinidog yn cytuno i drafod hyn gyda Llywodraeth y DU, sydd â chyfrifoldeb yn y mater hwn.

I believe that the NHS failed Christopher and it failed his family. What this motion calls for today is modest in many ways, but it means the world to people whose families struggle with mental ill health, day in, day out. I ask for your support for this motion.

Credaf fod y GIG wedi gwneud cam â Christopher ac wedi gwneud cam â'i deulu. Mae'r hyn y mae'r cynnig hwn yn galw amdano heddiw yn gymedrol mewn sawl ffordd, ond mae'n golygu popeth i bobl y mae eu teuluoedd yn brwydro gyda salwch meddwl ddydd ar ôl dydd. Gofynnaf am eich cefnogaeth i'r cynnig hwn.

15:49 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Very interesting opening remarks by Eluned Parrott. I would like to just say that I think this is a men's issue, the day after International Women's Day and preceding the debate that we're about to have on that matter. I think men find it much more difficult to express their emotions and to seek support for mental distress, and that is a major reason why the prevalence of suicide amongst young men is much higher than amongst young women.

Sylwadau agoriadol diddorol iawn gan Eluned Parrott. Hoffwn ddweud mai mater i ddynion yw hwn yn fy marn i, y diwrnod ar ôl Diwrnod Rhyngwladol y Menywod a chyn y ddadl rydym ar fin ei chael ar y mater hwnnw. Rwy'n meddwl fod dynion yn ei chael hi'n llawer anos mynegi eu hemosiynau a gofyn am gymorth gyda thrallod meddwl, a dyna reswm pwysig pam fod nifer yr achosion o hunanladdiad ymhlith dynion ifanc yn llawer uwch nag ymhlith menywod ifanc.

On the television last night I saw a brave young man who described how, aged 15, he'd been prescribed Prozac on his first visit to his GP before he'd been offered any other intervention, including counselling. I think this is a matter that should be of extreme concern to us because there's no doubt that, often, people's mental distress is best resolved by having a caring person to listen and empathise with their pain. I think that the 54 per cent increase in the prescribing of antidepressants should be of concern to us all. Because, while it may be a lifesaver for some people, it only suppresses their pain rather than helping to resolve the causes of it. On top of that, it can also promote addiction to the drug. As this young man described, it can be very hard indeed to kick that habit.

Ar y teledu neithiwr gwelais ddyn ifanc dewr a ddisgrifiodd sut y rhagnodwyd Prozac ar ei gyfer, yn 15 oed, ar ei ymweliad cyntaf â'i feddyg teulu cyn iddo gael cynnig unrhyw ymyrraeth arall, gan gynnwys cwnsela. Rwy'n credu bod hwn yn fater a ddylai beri pryder eithriadol i ni gan nad oes amheuaeth mai'r ffordd orau yn aml o ddatrys gofid meddwl pobl yw cael person gofalgar i wrando a dangos empathi tuag at eu poen. Rwy'n meddwl y dylai'r cynnydd o 54 y cant yn lefelau rhagnodi gwrth-iselyddion fod yn destun pryder i bob un ohonom. Oherwydd, er y gall fod yn achubiaeth i rai pobl, lleddfu eu poen a wnant yn hytrach na helpu i ddatrys yr hyn sy'n ei achosi. Ar ben hynny hefyd, gall hybu dibyniaeth ar y cyffur. Fel y disgrifiodd y dyn ifanc hwn, mae rhoi'r gorau i'r arfer yn gallu bod yn anodd dros ben.

Young people have plenty to be depressed about. The UK Government cuts have fallen predominantly on young people, not pensioners, and they have paid the price for the bankers, with consistently low wages or no wages, priced out of getting their own home, both in the market for rent and to buy, which is beyond the reach of people on average incomes. They are forced to remain living at home with their parents long after they would have opted to move and establish their own place. That can cause plenty of mental distress, as well as a lack of confidence about who that person really is.

Mae gan bobl ifanc ddigon i fod yn isel yn ei gylch. Mae toriadau Llywodraeth y DU wedi disgyn yn bennaf ar bobl ifanc, nid ar bensiynwyr, ac maent wedi talu'r pris ar ran y bancwyr, gyda chyflogau isel cyson neu ddiffyg cyflog, a phrisiau tai'n rhy uchel iddynt allu prynu eu cartrefi eu hunain ar y farchnad rentu a phrynu, sydd y tu hwnt i gyrraedd pobl ar incwm cyfartalog. Cânt eu gorfodi i barhau i fyw gartref gyda'u rhieni ymhell ar ôl yr adeg y byddent wedi dewis symud a sefydlu eu cartref eu hunain. Gall hynny achosi digon o ofid meddwl, yn ogystal â diffyg hyder ynglŷn â phwy yw'r person hwnnw mewn gwirionedd.

It's well established that societies with wide differences in income are much less than content than more equal societies with more equal distribution in income. Rather than dwell on that, I'd just refer us all to 'The Spirit Level' by Richard Wilkinson and Kate Pickett, which absolutely proved that point.

Mae wedi'i hen sefydlu bod cymdeithasau gyda gwahaniaethau mawr mewn incwm yn llawer llai bodlon na chymdeithasau mwy cyfartal gyda dosbarthiad incwm mwy cyfartal. Yn hytrach na mynd ar ôl hynny, hoffwn gyfeirio pawb at 'The Spirit Level' gan Richard Wilkinson a Kate Pickett, a brofodd y pwynt hwnnw ar ei ben.

I recently visited The Links, the community mental health team, based at the Cardiff Royal Infirmary in Adamsdown, with the Deputy Minister, Vaughan Gething. I was interested to see that Deborah, Christopher's mother, mentioned the community mental health team. So, I'd just like to tell you a little bit about The Links. I was really impressed by the multidisciplinary team-working between psychiatrists, psychologists, social workers, occupational therapists and physiotherapists, working together as one organisation. One of their strengths is that they have an integrated manager who speaks for the service on behalf of all disciplines. We have to acknowledge that this was an important outcome of Part 2 of the Mental Health (Wales) Measure of 2010.

Yn ddiweddar, ymwelais â The Links, y tîm iechyd meddwl cymunedol yn Ysbyty Brenhinol Caerdydd yn Adamsdown, gyda'r Dirprwy Weinidog, Vaughan Gething. Roedd yn ddiddorol gweld bod Deborah, mam Christopher, wedi sôn am y tîm iechyd meddwl cymunedol. Felly, hoffwn ddweud ychydig wrthych am The Links. Cefais fy mhlesio gan y gwaith tîm amlddisgyblaethol rhwng seiciatryddion, seicolegwyr, gweithwyr cymdeithasol, therapyddion galwedigaethol a ffisiotherapyddion, yn gweithio gyda'i gilydd fel un sefydliad. Un o'u cryfderau yw bod ganddynt reolwr integredig sy'n siarad dros y gwasanaeth ar ran yr holl ddisgyblaethau. Mae'n rhaid i ni gydnabod bod hwn yn ganlyniad pwysig i Ran 2 o Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010.

It's important to note that community mental health teams—there are eight in Cardiff and the Vale—are designated secondary services for people who are unwell enough to require a care and treatment plan, and are often confused with primary care mental health services. These primary care mental health services were also inspired by the Mental Health (Wales) Measure, and are underpinned by talking therapies, which, it would seem, some people still have a great deal of difficulty accessing.

Mae'n bwysig nodi bod timau iechyd meddwl cymunedol—mae wyth ohonynt yng Nghaerdydd a'r Fro—yn wasanaethau eilaidd dynodedig ar gyfer pobl sy'n ddigon anhwylus i fod angen cynllun gofal a thriniaeth, ac yn aml cânt eu drysu gan wasanaethau iechyd meddwl gofal sylfaenol. Cafodd y gwasanaethau iechyd meddwl gofal sylfaenol hyn eu hysbrydoli hefyd gan Fesur Iechyd Meddwl (Cymru), ac fe'u seiliwyd ar therapïau siarad, ac mae'n ymddangos bod rhai pobl yn dal i gael llawer iawn o anhawster i gael mynediad atynt.

Listening carefully to what the integrated manager of The Links CMHT has to say, it is clear that that confusion between primary and secondary mental health services is shared not least by GPs, who are the main referrers to secondary services. I'm not trying to make some obscure point here, but to point out that primary care mental health services are still a work in progress. Its value to a person's recovery is not as well-known as it could be. Patients are often shy of the word 'group', and if the GP is not able to explain what the service really is, the patient may not be willing to give it a go and insist on a referral to a psychiatrist. A lot of the integrated manager's time is taken up with explaining to GPs how primary mental health services work, managing both patient and stakeholder expectation of what The Links and other services can provide.

Gan wrando'n ofalus ar yr hyn sydd gan reolwr integredig Tîm Iechyd Meddwl Cymuned The Links i'w ddweud, mae'n amlwg fod y dryswch hwn rhwng gwasanaethau iechyd meddwl sylfaenol ac eilaidd yn cael ei rannu nid yn lleiaf gan feddygon teulu, sef y prif atgyfeirwyr i wasanaethau eilaidd. Nid ceisio gwneud rhyw bwynt amwys rwyf fi yn y fan hon, ond nodi'n hytrach fod y gwasanaethau iechyd meddwl gofal sylfaenol yn dal i fod yn waith sydd ar y gweill. Nid yw eu gwerth i adferiad person mor hysbys ag y gallai fod. Mae cleifion yn aml yn swil o'r gair 'grŵp', ac os nad yw'r meddyg teulu yn gallu egluro beth yw'r gwasanaeth mewn gwirionedd, efallai na fydd y claf yn barod i roi cynnig arno gan fynnu atgyfeiriad at seiciatrydd. Mae llawer o amser y rheolwr integredig yn mynd ar egluro i feddygon teulu sut y mae gwasanaethau iechyd meddwl sylfaenol yn gweithio, a rheoli disgwyliadau cleifion a rhanddeiliaid fel ei gilydd o ran yr hyn y gall The Links a gwasanaethau eraill eu darparu.

Indeed, there's plenty of phone and e-mail contact between GP and CMHT to offer support, advice and information in a field that many GPs, in confidential surveys, revealed that they are not too confident about. Indeed, often, referral is a cry for support. I believe this Assembly, and this Government, have done a lot to tackle the stigma of mental ill health, but there is always more we can do, and particularly into the most painful aspect, which is suicide.

Yn wir, mae digon o gyswllt ffôn ac e-bost rhwng meddygon teulu a'r tîm iechyd meddwl cymunedol i gynnig cymorth, cyngor a gwybodaeth mewn maes y mae llawer o feddygon teulu, mewn arolygon cyfrinachol, yn datgelu nad ydynt yn rhy hyderus yn ei gylch. Yn wir, yn aml, mae atgyfeirio yn gri am gymorth. Rwy'n credu bod y Cynulliad a'r Llywodraeth hon wedi gwneud llawer i fynd i'r afael â stigma salwch meddwl, ond mae yna bob amser fwy y gallwn ei wneud, ac yn enwedig ar yr agwedd fwyaf poenus, sef hunanladdiad.

15:55 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Suicide is a tragic, devastating event, and 70 per cent more people die by suicide than in road traffic accidents each year, and the legacy is a wound that often never heals for the many people who are left to live on. Vale of Clwyd Mind introduced me to Mind Cymru's applied suicide intervention skills training for front-line workers and community members. Over 90 per cent of participants reported a significant increase in confidence.

Mae hunanladdiad yn ddigwyddiad trasig, trychinebus, ac mae 70 y cant yn fwy o bobl yn marw drwy hunanladdiad nag mewn damweiniau ar y ffyrdd bob blwyddyn, a'r hyn a adewir ar ôl yw clwyf nad yw byth yn gwella i'r nifer o bobl sy'n cael eu gadael i barhau â'u bywydau. Cefais fy nghyflwyno gan Mind Dyffryn Clwyd i hyfforddiant sgiliau ymyriadau hunanladdiad cymwysedig Mind Cymru i weithwyr rheng flaen ac aelodau o'r gymuned. Nododd dros 90 y cant o'r cyfranogwyr fod eu hyder wedi gwella'n sylweddol.

Drug misuse is known to increase the risk of suicide twentyfold, and substance misuse is particularly associated with impulsive suicide in young men. Many people, especially young men, are reluctant to discuss their mental health or to seek help when they're distressed. This combination of bottling up feelings and problems and the misuse of substances can significantly heighten the risk of suicide, especially among people living in socially deprived and isolated rural communities.

Gwyddys bod y risg o hunanladdiad ugain gwaith yn fwy wrth gamddefnyddio cyffuriau, ac mae camddefnyddio sylweddau yn gysylltiedig yn arbennig â hunanladdiad ar fympwy ymhlith dynion ifanc. Mae llawer o bobl, yn enwedig dynion ifanc, yn amharod i drafod eu hiechyd meddwl neu i ofyn am gymorth pan fyddant yn ofidus. Gall y cyfuniad hwn o fygu teimladau a phroblemau a chamddefnyddio sylweddau gynyddu risg o hunanladdiad yn sylweddol, yn enwedig ymysg pobl sy'n byw mewn cymunedau gwledig ynysig a difreintiedig yn gymdeithasol.

The 2011 'Children and Young People Wellbeing Monitor for Wales' showed a rise in hospital admissions for young people in Wales who self-harm, particularly among 15 to 17-year-old girls. The Northern Ireland Commissioner for Children and Young People's report on the impact of early childhood experiences on adolescent suicide and accidental death states the research is clear that earlier identification and response to a young person's poor mental health, and, in particular, depression, will reduce substance misuse, self-harm and suicide attempts. Self-harm is particularly prevalent in young people and is an indication of underlying social, relationship, emotional and psychological problems. Improving responses for people who harm themselves plays a critical role in preventing suicide and improving mental health and wellbeing. It's crucial that front-line services are equipped to address these needs in a sensitive and effective manner.

Dangosai 'Monitor Lles Plant a Phobl Ifanc Cymru' 2011 gynnydd yn y derbyniadau i'r ysbyty ymysg pobl ifanc yng Nghymru sy'n hunan-niweidio, yn enwedig ymhlith merched rhwng 15 a 17 oed. Mae adroddiad Comisiynydd Plant a Phobl Ifanc Gogledd Iwerddon ar effaith profiadau plentyndod cynnar ar hunanladdiad a marwolaeth ddamweiniol y glasoed yn datgan bod yr ymchwil yn nodi'n glir fod canfod salwch meddwl mewn person ifanc ac ymateb iddo'n gynt, ac iselder ysbryd yn arbennig, yn lleihau achosion o gamddefnyddio sylweddau, hunan-niweidio a cheisio cyflawni hunanladdiad. Mae hunan-niweidio yn arbennig o gyffredin mewn pobl ifanc ac yn arwydd o broblemau sylfaenol yn gymdeithasol, emosiynol, seicolegol ac yn eu perthynas ag eraill. Mae gwella ymatebion ar gyfer pobl sy'n hunan-niweidio yn chwarae rhan allweddol yn atal hunanladdiad a gwella iechyd meddwl a lles. Mae'n hanfodol fod gwasanaethau rheng flaen yn cael eu harfogi i fynd i'r afael â'r anghenion hyn mewn modd sensitif ac effeithiol.

Better care and management of people who harm themselves will increase the likelihood of reducing the suicide rate, improve the mental health and quality of life of many thousands of people, and reduce demand on our stretched emergency services. This must include dual diagnosis therapeutic counselling and peer-mentoring services for people with both mental health and substance misuse problems who otherwise fall between the gaps in services. As Flintshire Mind told me early in this Assembly term, real partnership requires local authorities and health boards to focus on people's needs, to listen, to be person-centred, to avoid short termism, and to work with the voluntary sector.

Bydd gwella gofal a dull o ymdrin â phobl sy'n hunan-niweidio yn cynyddu'r tebygolrwydd o leihau'r gyfradd hunanladdiad, gwella iechyd meddwl ac ansawdd bywyd miloedd lawer o bobl, ac yn lleihau'r galw ar ein gwasanaethau brys sydd o dan bwysau. Rhaid i hyn gynnwys gwasanaethau cwnsela therapiwtig diagnosis deuol a mentora gan gymheiriaid ar gyfer pobl â phroblemau iechyd meddwl a phroblemau camddefnyddio sylweddau sydd fel arall yn disgyn i'r bylchau rhwng gwasanaethau. Fel y dywedodd Mind Sir y Fflint wrthyf yn gynnar yn ystod y tymor Cynulliad hwn, mae partneriaeth go iawn yn galw ar awdurdodau lleol a byrddau iechyd i ganolbwyntio ar anghenion pobl, i wrando, i ganolbwyntio ar yr unigolyn, i osgoi ymagwedd fyrdymor, ac i weithio gyda'r sector gwirfoddol.

When I submitted a written question to the Minister for Health and Social Services, asking how many veterans provided therapies by NHS Wales committed suicide, I was told no veterans receiving treatment through, instead, Veterans NHS Wales—only part of NHS Wales—had committed suicide to the Welsh Government's knowledge. However, last summer, I was informed by a member of the armed forces community that six serving and former Welsh service personnel had committed suicide thus far that year alone.

Pan gyflwynais gwestiwn ysgrifenedig i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, yn gofyn faint o gyn-filwyr a gawsai therapïau gan GIG Cymru a gyflawnodd hunanladdiad, dywedwyd wrthyf nad oedd unrhyw gyn-filwyr a gafodd driniaeth drwy GIG Cymru i Gyn-filwyr, yn lle hynny—sef rhan yn unig o'r GIG yng Nghymru—wedi cyflawni hunanladdiad, yn ôl yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddeall. Fodd bynnag, yr haf diwethaf, cefais wybod gan aelod o gymuned y lluoedd arfog fod chwech o aelodau neu gyn-aelodau o'r lluoedd arfog yng Nghymru wedi cyflawni hunanladdiad hyd at yr adeg honno yn ystod y flwyddyn honno'n unig.

In the latest figures, for 2014, men aged 45 to 59 had the highest suicide rate in the UK. In Wales, 81 per cent of suicides in 2014 were male. We should also note that lesbian, gay, bisexual and/or transgender client groups have higher issues with drugs, alcohol and mental health, and higher rates for self-harm, attempted suicide and financial issues than the national data set.

Yn y ffigurau diweddaraf, ar gyfer 2014, ymhlith dynion rhwng 45 a 59 oed y gwelwyd y gyfradd uchaf o farwolaethau drwy hunanladdiad yn y DU. Yng Nghymru, roedd 81 y cant o'r rhai a gyflawnodd hunanladdiad yn 2014 yn ddynion. Dylem nodi hefyd fod gan grwpiau cleientiaid lesbiaidd, hoyw, deurywiol a/neu drawsrywiol fwy o broblemau gyda chyffuriau, alcohol ac iechyd meddwl, a chyfraddau uwch o achosion o hunan-niweidio, ceisio cyflawni hunanladdiad a phroblemau ariannol na'r set ddata genedlaethol.

The British Association for Counselling and Psychotherapy recommends that counselling and psychotherapy are provided to those at risk of suicide or self-harm, along with those affected by suicide, where psychological therapies have been shown to be effective interventions in reducing the risk of suicide and repeated self-harm. Mental health charity Hafal highlights the need to provide better advice and support for carers, the need for more services to prevent a mental health crisis occurring, and particularly the need to have more talking therapy sessions available for people living with a serious mental illness. As they also say, we need to better identify those people at greatest risk of self-harming and develop a range of services for them. Samaritans Cymru believes that local suicide prevention plans should be mandatory and established consistently across Wales. As they state, and my conclusion, suicide in Wales

Mae Cymdeithas Cwnsela a Seicotherapi Prydain yn argymell bod cwnsela a seicotherapi yn cael eu darparu i'r rhai sydd mewn perygl o gyflawni hunanladdiad neu o hunan-niweidio, ynghyd â'r rhai yr effeithir arnynt gan hunanladdiad, lle y gwelwyd bod therapïau seicolegol yn ymyriadau effeithiol i leihau'r risg o hunanladdiad a hunan-niweidio mynych. Mae'r elusen iechyd meddwl Hafal yn tynnu sylw at yr angen i ddarparu gwell cyngor a chymorth i ofalwyr, yr angen am fwy o wasanaethau i atal argyfwng iechyd meddwl rhag digwydd, ac yn benodol, yr angen i sicrhau bod rhagor o sesiynau therapi siarad ar gael i bobl sy'n byw gyda salwch meddwl difrifol. Fel y maent hefyd yn dweud, mae angen i ni allu nodi'n well pwy sydd fwyaf mewn perygl o hunan-niweidio a datblygu ystod o wasanaethau ar eu cyfer. Mae Samariaid Cymru yn credu y dylai cynlluniau lleol ar gyfer atal hunanladdiad fod yn orfodol ac wedi'u sefydlu'n gyson ledled Cymru. I gloi, maent yn datgan bod hunanladdiad yng Nghymru

'remains a major public health issue and is a devastating event for families and communities.

yn parhau i fod yn fater iechyd cyhoeddus o bwys ac yn ddigwyddiad trychinebus i deuluoedd a chymunedau.

'Achieving a reduction in suicide involves reaching more people who may be at risk of taking their own lives'.

Mae sicrhau gostyngiad yn y lefelau hunanladdiad yn galw am gyrraedd mwy o bobl a allai fod mewn perygl o gyflawni hunanladdiad.

This requires multi-agency action, which should be seen as a major and urgent priority in the national public health agenda in Wales. Thank you.

Mae hyn yn galw am weithredu amlasiantaethol a dylai gael ei ystyried yn flaenoriaeth o bwys ac ar frys ar agenda iechyd cyhoeddus cenedlaethol Cymru. Diolch.

16:00 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I know we have quite a lot of debates on mental health in this Chamber, and every time I stand up I always say it doesn't make it much easier to talk about these issues. Every time I stand up I start to get sweaty palms, because it just reminds me of a time in my life when I actually didn't want to exist anymore, and I think it's really hard for family and friends around you to realise why you don't want to even go about your daily activities and just live a normal life. They can't really understand why you don't even want to leave the house and you don't want to see people and don't want to eat the same foods you ate before—you don't want to do anything, really.

Rwy'n gwybod ein bod yn cael cryn dipyn o ddadleuon ar iechyd meddwl yn y Siambr hon, a phob tro rwy'n codi, rwy'n dweud bob amser nad yw'n mynd yn llawer haws siarad am y materion hyn. Bob tro rwy'n codi mae fy nwylo'n dechrau chwysu, gan ei fod yn fy atgoffa o amser yn fy mywyd pan nad oeddwn eisiau bodoli mwyach mewn gwirionedd, ac rwy'n meddwl ei bod yn anodd iawn i deulu a ffrindiau o'ch cwmpas sylweddoli pam nad ydych am gyflawni eich gweithgareddau bob dydd hyd yn oed a byw bywyd normal. Ni allant ddeall yn iawn pam nad ydych eisiau gadael y tŷ hyd yn oed a pham nad ydych am weld pobl a pham nad ydych am fwyta'r un bwydydd ag yr arferech eu bwyta—nid ydych eisiau gwneud unrhyw beth mewn gwirionedd.

I think what reminded me in what Deborah Wood said was that her son was really smiley, really happy, and I think that's true of a lot of us—we can be the most outwardly happy people, but then inside we're not very happy at all. Her son was smiling and joking around, just like the comedian Robin Williams. Nobody thought that Gary Speed had an issue, and I think sometimes we have to try and look behind that smile. We're all very surprised when we see in the news that somebody has taken their own lives. We're shocked about it, and I think we need to peel away the shock and actually ask, 'Well, why is that happening? Why are people feeling so desperate, especially young men, that they feel they can't speak to anybody?'

Rwy'n credu mai'r hyn a'm hatgoffodd yn yr hyn a ddywedodd Deborah Wood oedd bod ei mab yn berson a oedd yn gwenu llawer, yn hapus iawn, ac rwy'n credu bod hynny'n wir am lawer ohonom—gallwn fod yn bobl hollol hapus yn allanol, ond y tu mewn nid ydym yn hapus iawn o gwbl. Roedd ei mab yn gwenu ac yn cellwair, yn union fel y digrifwr Robin Williams. Nid oedd neb yn meddwl bod gan Gary Speed broblem, ac rwy'n meddwl weithiau fod yn rhaid i ni geisio edrych y tu ôl i'r wên honno. Rydym i gyd yn synnu pan welwn ar y newyddion fod rhywun wedi cyflawni hunanladdiad. Rydym yn synnu, ac rwy'n credu bod angen i ni blicio'r sioc i ffwrdd a gofyn mewn gwirionedd, 'Wel, pam y mae hynny'n digwydd? Pam y mae pobl yn teimlo mor anobeithiol, yn enwedig dynion ifanc, fel eu bod yn teimlo nad ydynt yn gallu siarad â neb?'

That's why I took it upon myself a few years ago to contact the charity organiser for CALM, the Campaign Against Living Miserably, based in Liverpool. She set up that charity because she wanted to try and target the issue around male suicide. The last Government strategy didn't really look at identifying gender in relation to suicide, because yes, everybody has their own battles, but it is mostly men who are taking their own lives. She said that if we're going to look at suicide prevention it is pointless unless we also talk about gender. We have to look at why they're not accessing help. They're not accessing help because it's not put to them in the right way and because they don't think they should. There needs to be no shame in seeking help. So, CALM recently launched a high-profile in-store campaign with Topman that featured famous DJs talking about suicide and the importance of speaking out, along with posters across London proclaiming that silence is killing us. When I spoke to Jane, she said that lots of men were ringing them from Wales, either because they didn't know or didn't like the suicide strategies that were happening in Wales. Her words were that they too NHS-style, they weren't approachable, and were quite stuffy in their language. I'm not saying that's true of the charities, I'm saying that's true of perhaps some of the governmental literature. I think that's something we really all have to think about, because if it's not appealing to young men, if they're not accessing it because of the type of message they've been given, then we really need to approach it in a different way.

Dyna pam y penderfynais gysylltu, ychydig flynyddoedd yn ôl, â threfnydd elusennol CALM, yr ymgyrch yn erbyn byw'n ddiflas, a leolir yn Lerpwl. Sefydlodd yr elusen honno am ei bod am geisio targedu problem hunanladdiad ymhlith dynion. Nid oedd strategaeth ddiwethaf y Llywodraeth yn edrych ar nodi'r gwahaniaeth rhwng y rhywiau mewn perthynas â hunanladdiad mewn gwirionedd, oherwydd oes, mae gan bawb eu brwydrau eu hunain, ond dynion ifanc yn bennaf sy'n cyflawni hunanladdiad. Os ydym am edrych ar atal hunanladdiad, dywedodd ei fod yn ddibwrpas oni bai ein bod hefyd yn siarad am y gwahaniaeth rhwng y rhywiau. Mae'n rhaid i ni edrych ar pam nad ydynt yn cael mynediad at gymorth. Nid ydynt yn cael mynediad at gymorth oherwydd nad yw'n cael ei gynnig iddynt yn y ffordd iawn ac oherwydd nad ydynt yn credu y dylent geisio cymorth. Mae angen sicrhau nad oes unrhyw gywilydd mewn gofyn am gymorth. Felly, yn ddiweddar lansiodd CALM ymgyrch broffil uchel yn siopau Topman a oedd yn cynnwys DJs enwog yn siarad am hunanladdiad a phwysigrwydd siarad allan, ynghyd â phosteri ar draws Llundain yn cyhoeddi bod distawrwydd yn ein lladd ni. Pan siaradais â Jane, dywedodd fod llawer o ddynion yn eu ffonio o Gymru, naill ai oherwydd nad oeddynt yn gwybod neu oherwydd nad oeddent yn hoffi'r strategaethau hunanladdiad a oedd yn digwydd yng Nghymru. Yn ôl yr hyn a ddywedodd, roeddent yn rhy debyg i ddull y GIG o fynd ati, nid oeddent yn hygyrch, ac roeddent yn eithaf sychlyd o ran eu hiaith. Nid wyf yn dweud bod hynny'n wir am yr elusennau, rwy'n dweud ei fod yn wir am rywfaint o lenyddiaeth y llywodraeth efallai. Rwy'n credu bod hynny'n rhywbeth sy'n rhaid i ni i gyd feddwl amdano, oherwydd os nad yw'n apelio at ddynion ifanc, os nad ydynt yn ceisio cymorth oherwydd y math o neges a roddir iddynt, yna mae'n rhaid i ni ei wneud mewn ffordd wahanol.

The other thing that I found fascinating as well was that CALM are going out to the bridges where people were—you know; I don't want to talk about what people do. So, they were sending taxis out with posters in them, if somebody was taking a taxi to a certain bridge, or they were having monitors along certain bridges in the Liverpool area so that they could try and dissuade people from taking their own lives. I thought that was an innovative approach to have.

Y peth arall a oedd o ddiddordeb mawr i mi hefyd oedd bod CALM yn mynd allan at y pontydd lle y mae pobl yn—wyddoch chi; nid wyf am siarad am beth y mae pobl yn ei wneud. Felly, roeddent yn gyrru tacsis allan gyda phosteri ynddynt, os oedd rhywun yn cymryd tacsi at bont benodol, neu roeddent yn cael monitorau ar hyd pontydd penodol yn ardal Lerpwl fel y gallent geisio cymell pobl rhag lladd eu hunain. Roeddwn i'n meddwl bod honno'n ffordd arloesol o fynd ati.

Another issue I've been talking to Swansea University sports department about is research in terms of physical health and mental health. We don't really have that much information on suicide ideation, as it's called. The most recent study comes from Korea, and it argued that the recognition of suicide as a major public health problem should lead us to focus on ideation in the suicide process. Their study looked at Korean women, and many women who had physical problems, and it showed that there were increased suicidal thoughts with women in that category, if they had functional limitation. What they tried to do—it's not rocket science, again—was to promote regular walking in middle-aged women in Korea, with mass-media campaigns, and also introducing systems for screening for suicide risk in healthcare settings. So, I believe that we should carry out similar research here in Wales so that we can find out what our population of Welsh people need, and where their thoughts originate from.

Mater arall rwyf wedi bod yn siarad ag adran chwaraeon Prifysgol Abertawe amdano yw ymchwil ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl. Nid oes gennym gymaint â hynny o wybodaeth ar syniadaeth hunanladdiad, fel y'i gelwir. Daw'r astudiaeth ddiweddaraf o Korea, a dadleuai y dylai cydnabod hunanladdiad fel problem iechyd cyhoeddus o bwys ein harwain i ganolbwyntio ar syniadaeth yn y broses hunanladdiad. Edrychodd eu hastudiaeth at fenywod Korea, a llawer o fenywod a oedd â phroblemau corfforol, a dangosai fod mwy o feddyliau am hunanladdiad ymhlith menywod yn y categori hwnnw, os oedd ganddynt gyfyngiadau gweithredol. Yr hyn y ceisient ei wneud—nid yw'n wyddoniaeth aruchel, unwaith eto—oedd annog menywod canol oed i gerdded yn rheolaidd yn Korea, gydag ymgyrchoedd ar y cyfryngau torfol, a chyflwyno systemau hefyd i sgrinio ar gyfer risg o hunanladdiad mewn lleoliadau gofal iechyd. Felly, rwy'n credu y dylem wneud gwaith ymchwil tebyg yma yng Nghymru er mwyn i ni allu darganfod beth sydd ei angen ar ein poblogaeth, a'r hyn sy'n gwneud iddynt feddwl fel y gwânt.

Lastly, I think there's a new app in Liverpool also—I seem to have an obsession with Liverpool—that is monitoring those who may have suicidal thoughts throughout their whole lives—looking at their Facebook updates and looking at their communications in texts to identify the trigger points in their day when they may be struggling more. That may be something that the Welsh Government could look at, too, to see how we can develop those strategies as well. Diolch yn fawr.

Yn olaf, rwy'n meddwl bod yna ap newydd yn Lerpwl hefyd—mae'n ymddangos bod gennyf obsesiwn gyda Lerpwl—sy'n monitro'r rhai a allai fod wedi bod yn meddwl am hunanladdiad drwy gydol eu bywydau—gan edrych ar eu diweddariadau Facebook ac edrych ar eu dull o gyfathrebu mewn negeseuon testun i nodi'r pwyntiau ysgogol yn eu diwrnod pan allent fod yn ei chael hi'n fwy anodd na'i gilydd. Gall hynny fod yn rhywbeth y gallai Llywodraeth Cymru edrych arno hefyd, i weld sut y gallwn ddatblygu'r strategaethau hynny yn ogystal. Diolch yn fawr.

16:05

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call the Minister for Health and Social Services—Mark Drakeford.

Galwaf ar y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Mark-Drakeford.

16:05

## Mark Drakeford Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services*

Diolch yn fawr, Ddirprwy Lywydd. I'd like to thank all those individual Members who brought forward the motion for debate today. Suicide is a difficult and emotive topic, and the motion begins, as each one of us would wish it to, by regretting the death of each and every person by suicide. That any person should take their own life is, of course, tragic for them, and it leaves its lasting impact on their family, friends, their wider social circle and those professionals who've been involved in working with and caring for that person. Mark Isherwood referred to it as a 'wound that never heals', and I think we heard that very vividly in the video that we heard at the beginning of this debate.

Diolch yn fawr, Ddirprwy Lywydd. Hoffwn ddiolch i'r holl Aelodau unigol a gyflwynodd y cynnig ar gyfer y ddadl heddiw. Mae hunanladdiad yn bwnc anodd ac emosiynol, ac mae'r cynnig yn dechrau, fel y byddai pob un ohonom yn dymuno iddo, drwy resynu at bob marwolaeth drwy hunanladdiad. Mae'r ffaith y byddai unrhyw berson yn cyflawni hunanladdiad, wrth gwrs, yn drasig iddynt hwy, ac mae'n gadael ei effaith barhaol ar eu teulu, eu ffrindiau, eu cylch cymdeithasol ehangach a'r gweithwyr proffesiynol sydd wedi bod yn gweithio gyda'r person hwnnw ac yn gofalu amdano. Cyfeiriodd Mark Isherwood ato fel 'clwyf nad yw byth yn gwella', ac rwy'n meddwl ein bod wedi clywed hynny'n fyw iawn yn y fideo a glywsom ar ddechrau'r ddadl hon.

The latest figures we have from the Office for National Statistics show a sharp fall in suicides in Wales, with 247 registered suicides in Wales in 2014—146 fewer than the year before. That means that in 2014, the Welsh suicide rate was the lowest of all the UK nations and the lowest since the Office for National Statistics began collating those figures, as far back as 1981.

Mae'r ffigurau diweddaraf sydd gennym gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos gostyngiad sydyn yn nifer yr achosion o hunanladdiad yng Nghymru, gyda 247 o hunanladdiadau cofrestredig yng Nghymru yn 2014—146 yn llai na'r flwyddyn flaenorol. Mae hynny'n golygu bod y gyfradd hunanladdiad yng Nghymru yn 2014 yn is na holl wledydd eraill y DU a'r isaf ers i'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ddechrau casglu'r ffigurau hynny mor bell yn ôl â 1981.

16:06

## Mark Isherwood Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Just on this point, I wonder—are those coroner's court figures? Mind in north Wales has expressed concern to me that narrative verdicts—where the burden of proof, as in murder, means that 100 per cent of the jury need to identify it as a suicide—might be excluded from those figures.

Ar y pwynt hwn, rwy'n meddwl tybed ai ffigurau llysoedd crwneriaid yw'r rheini? Mae Mind yng ngogledd Cymru wedi mynegi pryder wrthyf y gallai rheithfarnau naratif—lle y golyga'r baich profi, fel gyda llofruddiaeth, fod angen i 100 y cant o'r rheithgor ei ystyried yn hunanladdiad—fod wedi'u hepgor o'r ffigurau hynny.

16:07

## Mark Drakeford Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, Mark Isherwood is right to point to the issue of narrative verdicts and the difficulty that they sometimes give in classification. There are other difficulties with the data, as well, that Eluned Parrott pointed to, in terms of the date of registration as opposed to the date of the event itself. I don't for a minute think we should be anything other than cautious in hoping that the figures from 2014 tell us something positive about the way things are happening in Wales. Nevertheless, the figures are there. The problems in the data are no different in 2014 than they would be in any other year, and we look forward to seeing whether there is something of the beginning of a trend there.

Ydy, mae Mark Isherwood yn iawn i dynnu sylw at fater rheithfarnau naratif a'r anhawster y maent yn ei achosi weithiau wrth ddosbarthu. Ceir anawsterau eraill gyda'r data yn ogystal, fel y soniodd Eluned Parrott, yn ymwneud â dyddiad cofrestru yn hytrach na dyddiad y digwyddiad ei hun. Nid wyf am funud yn meddwl na ddylem fod yn wyliadwrus wrth obeithio bod ffigurau 2014 yn dweud rhywbeth cadarnhaol wrthym ynglŷn â'r ffordd y mae pethau'n digwydd yng Nghymru. Serch hynny, mae'r ffigurau yno. Nid yw'r problemau yn y data yn wahanol yn 2014 nag y byddent mewn unrhyw flwyddyn arall, ac edrychwn ymlaen at weld a oes tueddiad yn dechrau yno.

The causes and patterns of suicide are complex and not easy to investigate or to understand. At an individual level, suicide is often the result of an interaction between personal and social circumstances. At a societal level, as we've heard, patterns do not fall randomly. Suicide is shaped by gender—it's far more common in men than women, as Jenny Rathbone said, yet self-harm is far more common amongst young women. It's partly why peer mentoring, as, again, I think Mark Isherwood mentioned, is such an important part of the repertoire of services that is needed in addressing this issue.

Mae achosion a phatrymau hunanladdiad yn gymhleth ac nid yw'n hawdd eu hymchwilio na'u deall. Ar lefel unigol, mae hunanladdiad yn aml yn deillio o ganlyniad i ryngweithio rhwng amgylchiadau personol a chymdeithasol. Ar lefel gymdeithasol, fel y clywsom, nid yw'r patrymau'n digwydd ar hap. Caiff hunanladdiad ei siapio yn ôl rhyw—mae'n llawer mwy cyffredin mewn dynion na menywod, fel y dywedodd Jenny Rathbone, ac eto mae hunan-niwed yn llawer mwy cyffredin ymhlith menywod ifanc. Dyna'n rhannol pam fod mentora gan gymheiriaid, fel y soniodd Mark Isherwood eto, rwy'n meddwl, yn rhan mor bwysig o'r repertoire o wasanaethau sydd eu hangen i fynd i'r afael â'r mater.

Suicide is patterned by age. It is, as the motion says, the leading cause of death for 20 to 34-year-olds, but the suicide rate is actually lowest amongst people under 30 and highest amongst those aged 45 to 59. Suicides rates are, quite certainly, we know, shaped by economic factors, with a discernible alignment between economic distress and suicide—that sense for young men in particular of a chain of attainability having been broken; of the impossibility of seeing how, if you do something in your life today, you can see a path in front of you that leads you to where you would like to be in the future.

Mae i hunanladdiad batrwm oedran. Fel y mae'r cynnig yn ei ddweud, hunanladdiad yw prif achos marwolaeth ymhlith pobl rhwng 20 a 34 oed, ond mewn gwirionedd mae'r gyfradd hunanladdiad ar ei hisaf ymhlith pobl o dan 30 oed ac ar ei huchaf ymhlith pobl rhwng 45 a 59 oed. Gwyddom yn bendant iawn fod cyfraddau hunanladdiad yn cael eu ffurfio gan ffactorau economaidd, gyda chyfliniad canfyddadwy rhwng trallod economaidd a hunanladdiad—y teimlad hwnnw mewn dynion ifanc yn arbennig o fod cadwyn o nodau cyraeddadwy wedi'i thorri; o'r amhosibilrwydd i weld sut, os ydych yn gwneud rhywbeth yn eich bywyd heddiw, y gallwch weld llwybr o'ch blaen sy'n eich arwain at ble'r hoffech fod yn y dyfodol.

Even the relationship between mental health and suicide is complex. As the motion suggests, a very high proportion of people who commit suicide have a mental health condition, but about three quarters of all people who commit suicide had had no contact with specialist mental health services in the 12 months leading up to their death, an explanation that lies behind some of the figures on veterans' experiences that we heard earlier. Far more people who commit suicide will have had, within two weeks of the event, contact with their GP, with an accident and emergency department or with the police. This means that our efforts have to be focused on identifying and training those priority professional groups and support them to try to offer a chance to talk to people who may be at risk of suicide.

Mae hyd yn oed y berthynas rhwng iechyd meddwl a hunanladdiad yn gymhleth. Fel y mae'r cynnig yn awgrymu, mae gan gyfran uchel iawn o bobl sy'n cyflawni hunanladdiad gyflwr iechyd meddwl, ond nid oedd tua thri chwarter yr holl bobl sy'n cyflawni hunanladdiad wedi cael unrhyw gysylltiad â'r gwasanaethau iechyd meddwl arbenigol yn y 12 mis yn arwain at eu marwolaeth, esboniad sydd wrth wraidd rhai o'r ffigurau ar brofiadau cyn-filwyr a glywsom yn gynharach. Bydd llawer mwy o bobl sy'n cyflawni hunanladdiad, o fewn pythefnos i'r digwyddiad, wedi bod mewn cysylltiad â'u meddyg teulu, gydag adran damweiniau ac achosion brys neu gyda'r heddlu. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i ni ganolbwyntio ein hymdrechion ar nodi a hyfforddi'r grwpiau proffesiynol â blaenoriaeth hyn a'u cynorthwyo i geisio cynnig cyfle i siarad â phobl a allai fod mewn perygl o gyflawni hunanladdiad.

We know for those left behind it can be the unexpected nature of suicide, as Bethan Jenkins mentioned, which makes it so difficult to reach an understanding or a reconciliation. In that regard, the third aspect of today's motion surely gets it right in recognising that the most fundamental shift needed is in culture—towards one that encourages openness and receptivity.

I'r rhai a adawyd ar ôl, gwyddom mai natur annisgwyl hunanladdiad o bosibl, fel y crybwyllodd Bethan Jenkins, sy'n ei gwneud mor anodd deall neu ddygymod. Yn hynny o beth, mae'n sicr fod trydedd elfen y cynnig heddiw yn cael pethau'n iawn o ran cydnabod mai newid diwylliannol yw'r newid mwyaf sylfaenol sydd ei angen—tuag at ddiwylliant sy'n annog bod yn agored a derbyngarwch.

Dirprwy Lywydd, I don't think any of us would wish to pretend that this is easy. Suicide is a profoundly disturbing and frightening event for all those caught up in it. Eluned Parrott began by mentioning the need to place a person, rather than a set of statistics, at the heart of the way we think about these things. So, let me just tell you very briefly about very early on when I first became an Assembly Member and a very distressed middle-aged woman came to my Saturday morning surgery. She showed me the livid bruise around her neck where she had tried earlier that week, in a state of bleak despair, to take her own life. So, there you are; you're on your own, you're faced with somebody across the desk who is in such palpable distress, someone whose life was so overburdened by debt that she could see no way of resolving her predicament. Now, I hope that I responded in the spirit of the third part of this motion, but, as I recall very vividly today, the heightened emotion of that encounter, where every word you speak has to be weighed so carefully for its possible impact on the highly vulnerable person in front of you—well, none of us would underestimate—would we—the challenge of discussing suicide in a way that is both open and supportive.

Ddirprwy Lywydd, nid wyf yn meddwl y byddai unrhyw un ohonom am esgus bod hyn yn hawdd. Mae hunanladdiad yn ddigwyddiad hynod o annifyr a brawychus i bawb sy'n dod i gysylltiad ag ef. Dechreuodd Eluned Parrott drwy sôn am yr angen i osod yr unigolyn, yn hytrach na set o ystadegau, wrth wraidd y ffordd rydym yn meddwl am y pethau hyn. Felly, gadewch i mi ddweud wrthych yn fyr iawn am adeg yn gynnar iawn pan ddeuthum yn Aelod o'r Cynulliad am y tro cyntaf a daeth gwraig ganol oed ofidus iawn i fy nghymhorthfa ar fore Sadwrn. Dangosodd i mi'r clais dulas o gwmpas ei gwddf lle'r oedd wedi ceisio lladd ei hun yn gynharach yr wythnos honno, mewn cyflwr o anobaith mawr. Felly, dyna ni; rydych ar eich pen eich hun, rydych yn wynebu rhywun ar yr ochr arall i'r ddesg sydd mewn trallod amlwg o'r fath, rhywun yr oedd ei bywyd wedi'i lethu gan ddyled fel na allai weld unrhyw ffordd o ddatrys ei sefyllfa anodd. Nawr, rwy'n gobeithio fy mod wedi ymateb yn ysbryd trydedd ran y cynnig hwn, ond fel rwy'n cofio'n fyw iawn heddiw, roedd emosiwn dwys y cyfarfyddiad, pan oedd yn rhaid ystyried pob gair a ddywedech yn ofalus o ran ei effaith bosibl ar y person agored iawn i niwed o'ch blaen—wel, ni fyddai neb ohonom yn bychanu—oni fyddem—yr her o drafod hunanladdiad mewn modd sy'n agored ac yn gefnogol.

That's why, Dirprwy Lywydd, the remainder of the motion, with its practical proposals for improvement, is so important. Its elements do seem to me to be closely aligned with the Welsh strategy to reduce suicide, 'Talk to me 2', which aims to promote, co-ordinate and support plans and programmes for the prevention and reduction of suicidal behaviours and self-harm at the national, regional and local levels in the period up to 2019. It identifies priority groups of people who are especially vulnerable, priority places where that vulnerability comes to the surface, and priority providers who are best placed to respond to that vulnerability. As well as people who work in the public services, those priority providers include employers, who are very important in responding in a way that recognises the signs of mental distress, and the highly important third sector here in Wales, as they work with people considering suicide to seek help, and ensure sources of advice and support are properly available to them.

Dyna pam, ddirprwy Lywydd, mae gweddill y cynnig mor bwysig, gyda'i gynigion ymarferol ar gyfer gwella. Mae'n ymddangos i mi fod ei elfennau'n cyd-fynd yn agos â strategaeth Cymru i leihau hunanladdiad, 'Beth am Siarad â Fi 2', sy'n anelu at hyrwyddo, cydlynu a chefnogi cynlluniau a rhaglenni ar gyfer atal a lleihau ymddygiad hunanladdol a hunan-niweidio ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol yn y cyfnod hyd at 2019. Mae'n nodi grwpiau o bobl â blaenoriaeth sy'n arbennig o agored i niwed, lleoedd â blaenoriaeth lle y daw'r natur agored i niwed honno i'r wyneb, a darparwyr â blaenoriaeth sydd yn y sefyllfa orau i ymateb i'r natur agored i niwed honno. Yn ogystal â phobl sy'n gweithio yn y gwasanaethau cyhoeddus, mae'r darparwyr â blaenoriaeth hynny yn cynnwys cyflogwyr, sy'n bwysig iawn wrth ymateb mewn ffordd sy'n adnabod arwyddion o ofid meddwl, a'r trydydd sector hynod o bwysig yma yng Nghymru, gan eu bod yn gweithio gyda phobl sy'n ystyried hunanladdiad i'w cael i ddod o hyd i gymorth, a sicrhau bod ffynonellau o gyngor a chymorth ar gael yn briodol iddynt.

One of the key aims of 'Talk to me 2' is to improve learning, information and monitoring systems. We have one of the most comprehensive sources of information covering suicide through the SAIL database at Swansea University, and we put that to work through 'Talk to me 2', to try and make sure we put our efforts where they are most needed. That includes, of course, accident and emergency departments, where this year we've found another £4 million to improve psychiatric liaison services at the front door of district hospitals. It was very interesting to hear from Bethan Jenkins about the calm zone and what it might bring to us here in Wales, and there are other projects already operating here aimed at young people, such as Heads above the Waves, here in Cardiff. No one thing works for everybody in this field, and our aim must be to have a broad suite of potential initiatives and ways of intervening in the lives of people who we identify as early as we can, make our services as accessible to them as possible, and work together in such a way that we go on trying to make sure that we have a way of making the suicide rate here in Wales go on falling. Diolch yn fawr.

Un o nodau allweddol 'Beth am Siarad â Fi 2' yw gwella systemau dysgu, gwybodaeth a monitro. Mae gennym un o'r ffynonellau mwyaf cynhwysfawr o wybodaeth ynglŷn â hunanladdiad drwy gronfa ddata SAIL ym Mhrifysgol Abertawe, ac rydym wedi rhoi hynny ar waith drwy 'Beth am Siarad â Fi 2', i geisio sicrhau ein bod yn canolbwyntio ein hymdrechion lle y bo'r angen mwyaf. Mae hynny'n cynnwys adrannau damweiniau ac achosion brys, wrth gwrs, lle rydym wedi dod o hyd i £4 miliwn arall eleni i wella gwasanaethau cyswllt seiciatrig wrth y drws yn ein hysbytai dosbarth. Roedd yn ddiddorol iawn clywed gan Bethan Jenkins am y parth tawelwch a beth y gallai ei roi i ni yma yng Nghymru, a cheir prosiectau eraill eisoes ar waith yma sydd wedi'u hanelu at bobl ifanc, megis Heads above the Waves yma yng Nghaerdydd. Nid oes un ateb sy'n gweithio i bawb yn y maes hwn, a rhaid i'n nod gynnwys cyfres eang o fentrau posibl a ffyrdd o ymyrryd ym mywydau pobl a nodwn mor gynnar ag y bo modd, gwneud ein gwasanaethau mor hygyrch iddynt ag y bo modd, a gweithio gyda'n gilydd mewn modd a fydd yn sicrhau bod gennym ffordd o wneud i'r gyfradd hunanladdiad yma yng Nghymru barhau i ostwng. Diolch yn fawr.

16:14

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call Angela Burns to reply to the debate.

Galwaf ar Angela Burns i ymateb i'r ddadl.

16:14 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much, Deputy Presiding Officer. I am very pleased to be able to take part in this debate, and I'm very grateful to all the contributors. I'd like to thank Eluned very much for bringing this forward and for involving Bethan and me. Above all, I'd like to thank Mrs Wood—Deborah—for being so kind as to share with us her experience of her son, Chris, and the feelings and the thoughts that she went through through her loss. I cannot imagine how dreadful it must be to lose your child and in such a way, but I'm very grateful because her bravery enables people like us to be able to talk about this subject in a more open way. And I'd like to pay tribute again to Bethan Jenkins, who is incredibly brave in bringing forward to us and reminding us that we all can see down these dark tunnels at times, and I think that your contribution was very, very helpful because what you did was you reminded us of just how bleak times can be, and how sometimes you simply cannot find a way out—you cannot see the ladder, you cannot see the light—and it just seems that the only way is to end your life.

Diolch yn fawr iawn, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n falch iawn o allu cymryd rhan yn y ddadl hon, ac rwy'n ddiolchgar iawn i'r holl gyfranwyr. Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i Eluned am gyflwyno hyn ac am gynnwys Bethan a minnau. Yn fwy na dim, hoffwn ddiolch i Mrs Wood—Deborah—am fod mor garedig â rhannu profiad ei mab, Chris, â ni a'i theimladau a'i meddyliau yn ei cholled. Ni allaf ddychmygu pa mor ofnadwy fyddai colli eich plentyn ac yn y fath fodd, ond rwy'n ddiolchgar iawn am fod ei dewrder yn galluogi pobl fel ni i allu siarad am y pwnc mewn ffordd fwy agored. A hoffwn dalu teyrnged unwaith eto i Bethan Jenkins, sy'n eithriadol o ddewr yn cyflwyno i ni ac yn ein hatgoffa y gallwn i gyd edrych i lawr y twneli tywyll hyn ar brydiau, ac rwy'n meddwl bod eich cyfraniad yn ddefnyddiol tu hwnt gan eich bod wedi ein hatgoffa pa mor llwm y gall pethau fod, a sut na allwch ddod o hyd i ffordd allan weithiau—ni allwch weld yr ysgol, ni allwch weld y golau—ac mae'n ymddangos mai'r unig ffordd yw lladd eich hun.

Minister, I'm very grateful to you for your very courteous and thoughtful response, because this is not an agitating debate; we're not trying to say, 'Welsh Government, you haven't done this or that.' We do appreciate that there are an awful lot of activities that are being undertaken, and I think that one of the comments that you made that is an absolute truism is that there is no one thing that suits everyone; there is no one magic bullet that will persuade people not to undertake this act.

Weinidog, rwy'n ddiolchgar iawn i chi am eich ymateb cwrtais a meddylgar iawn, gan nad dadl i gorddi yw hon; nid ydym yn ceisio dweud, 'Lywodraeth Cymru, nid ydych wedi gwneud hyn neu'r llall.' Rydym yn sylweddoli bod llawer iawn o weithgareddau yn cael eu cyflawni, ac rwy'n meddwl bod un o'r sylwadau a wnaethoch mor sylfaenol wir, sef nad oes un peth sy'n addas i bawb; nid oes ateb cyffredinol a fydd yn perswadio pobl i beidio â chyflawni'r weithred hon.

There are some asks that we have, and one of them I really do cleave to is one that Eluned brought up right at the very beginning, which is about actually looking at cause of death and what is put on that death certificate, because I think that's very important for families. In my own personal experience, people with mental health issues and people who have committed suicide and families who've had to deal with it have been up close and personal in my life, and in the life of my family and my friends. And I can tell you now that years down the road, we still talk about people who have taken their lives, and my best friend's sister did just that. And even today, 30 years later, her family still resent the fact that she was put down as a suicide victim, whereas they felt that she was a victim of depression, something that she'd been suffering from for years and years and years. I think Mark Isherwood raised that as well when he talked about military personnel and about how they don't always come forward early enough, and it just happens like that and it's put down again as that word 'suicide'. It's hard, it's a tough word and it doesn't explain the acres of anguish that sit behind it, and that is what people want to see.

Rydym yn gofyn am rai pethau, ac un rwy'n glynu ato'n bendant yw'r hyn y soniodd Eluned amdano ar y dechrau un, sef edrych mewn gwirionedd ar achos y farwolaeth a'r hyn sy'n cael ei roi ar y dystysgrif farwolaeth, oherwydd credaf fod hynny'n bwysig iawn i deuluoedd. Yn fy mhrofiad personol, mae pobl â phroblemau iechyd meddwl a phobl sydd wedi cyflawni hunanladdiad a theuluoedd sydd wedi gorfod ymdopi â hynny wedi bod yn rhan agos a phersonol o fy mywyd, a bywydau fy nheulu a fy ffrindiau. A gallaf ddweud wrthych yn awr flynyddoedd wedyn, rydym yn dal i siarad am bobl sydd wedi cyflawni hunanladdiad, ac fe wnaeth chwaer fy ffrind gorau hynny. A hyd yn oed heddiw, 30 mlynedd yn ddiweddarach, mae ei theulu'n dal yn ddig ei bod wedi'i nodi fel dioddefydd hunanladdiad, er eu bod hwy'n teimlo mai dioddef o iselder oedd hi, iselder y bu'n dioddef ohono ers blynyddoedd mawr. Rwy'n meddwl bod Mark Isherwood wedi cyfeirio at hynny hefyd pan soniodd am bersonél milwrol a sut nad ydynt bob amser yn gofyn am gymorth yn ddigon cynnar, ac mae'n digwydd fel hynny ac mae'n cael ei nodi eto drwy ddefnyddio'r gair 'hunanladdiad'. Mae'n anodd, mae'n air anodd ac nid yw'n egluro'r ehangder o ing sy'n sail iddo, a dyna beth y mae pobl am ei weld.

It is about talking and that's one of the hardest things for any of us to do, isn't it—to talk about the things that really affect us? I think that one of the things that's come out of today so very clearly is that for men, and please forgive me all the men in this room, but for men in particular it's really, really super tough. Most women have a little bit of a gene that enables us to chat in a more easy way—and I'm going to be lynched probably after this by all sorts of people saying, 'Oh, for heaven's sake, you know, we're all the same', but we're not, and I know that men do bottle things up. What we need are more of these talking therapies, but also things like Men's Sheds—you know, a great project where men can go and get together and just feel reconnected to each other, and reconnected to their communities. It does affect people who've lost their jobs; it affects people whose marriages have broken down.

Mae'n ymwneud â siarad a dyna un o'r pethau anoddaf i unrhyw un ohonom ei wneud, ynte—siarad am y pethau sy'n effeithio arnom mewn gwirionedd? Rwy'n meddwl mai un o'r pethau a ddeilliodd yn glir iawn o'r ddadl heddiw yw'r ffaith ei bod mor anodd i ddynion, a maddeuwch i mi, yr holl ddynion yn yr ystafell hon, ond i ddynion yn benodol mae'n eithriadol o anodd. Mae gan y rhan fwyaf o fenywod rywfaint o enynnau sy'n ein galluogi i sgwrsio mewn ffordd haws—ac mae'n siŵr y caf fy llabyddio ar ôl hyn yn ôl pob tebyg gan bob math o bobl yn dweud, 'O, er mwyn y nefoedd, wyddoch chi, mae pawb ohonom yr un fath', ond nid yw hynny'n wir, ac rwy'n gwybod bod dynion yn celu eu teimladau. Yr hyn rydym ei angen yw mwy o therapïau siarad, a hefyd pethau fel Men's Sheds—wyddoch chi, prosiect gwych lle y gall dynion ddod at ei gilydd a theimlo'u bod wedi'u hailgysylltu â'i gilydd, ac wedi'u hailgysylltu â'u cymunedau. Mae'n effeithio ar bobl sydd wedi colli eu swyddi; mae'n effeithio ar bobl y mae eu priodas wedi chwalu.

A long time ago when I was younger and fitter, I did quite a lot of work on the streets in London trying to help homeless people. And actually, almost overwhelmingly, they were men whose families had broken down and they had nowhere to go, nothing else to do and they took drugs and they drank too much, and, you know, their lives were in a really, really sticky position. So, if the Welsh Government can—and it's a difficult ask, I understand that—look at ways where we can increase the knowledge of these talking strategies, where we can target these people who might be more vulnerable than the average person, I think that that would go a way forward.

Amser maith yn ôl pan oeddwn yn iau ac yn fwy heini, gwneuthum gryn dipyn o waith ar y strydoedd yn Llundain yn ceisio helpu pobl ddigartref. Ac mewn gwirionedd, roedd y mwyafrif llethol yn ddynion yr oedd eu teuluoedd wedi chwalu ac nid oedd ganddynt unman i fynd, dim arall i'w wneud ac roeddent yn cymryd cyffuriau ac yn yfed gormod, a wyddoch chi, roedd cyflwr eu bywydau'n anffodus dros ben. Felly, os yw Llywodraeth Cymru yn gallu—ac mae'n llawer i'w ofyn, rwy'n deall hynny—edrych ar ffyrdd lle y gallwn gynyddu gwybodaeth am y strategaethau siarad hyn, lle y gallwn dargedu'r bobl hyn a allai fod yn fwy agored i niwed na'r person cyffredin, rwy'n meddwl y byddai hynny'n gam pendant ymlaen.

I also think that we could do more, Minister, to make GPs and the front-line people who first see somebody who might be in distress—. We could do an awful lot more to give them a better understanding of what some of the signs are. I do accept that some people will commit suicide and we have absolutely no idea that their soul is in such torment. But there are others who at that last moment will turn to a GP, will turn up at A&E, and sometimes their symptoms, or their condition, is simply not recognised in enough detail for them to be able to receive the treatment—if they'd had that intervention at that moment, that staying hand and that 'Help is on the way, let's talk about it'—that might have made a difference.

Rwyf hefyd yn credu y gallem wneud mwy, Weinidog, i wneud meddygon teulu a'r bobl ar y rheng flaen sy'n dod i gysylltiad cyntaf â rhywun a allai fod yn teimlo trallod—. Gallem wneud llawer iawn mwy i roi gwell dealltwriaeth iddynt o'r arwyddion posibl. Rwy'n derbyn y bydd rhai pobl yn cyflawni hunanladdiad ac nid oes gennym unrhyw syniad yn y byd fod eu henaid yn dioddef y fath artaith. Ond bydd eraill ar y funud olaf yn troi at feddyg teulu, yn mynd i adran ddamweiniau ac achosion brys, ac weithiau ni fydd eu symptomau, neu eu cyflwr, yn cael ei adnabod yn ddigon manwl iddynt allu cael y driniaeth—pe baent wedi cael yr ymyrraeth honno ar yr adeg honno, y llaw warcheidiol a'r 'mae help ar y ffordd, gadewch i ni siarad am y peth'—gallai hynny fod wedi gwneud gwahaniaeth.

I was very shocked by Eluned's comments about the fact that 21 per cent of people who are in this kind of trouble will wait a year for an assessment, and another 24 per cent from assessment to treatment. Those are two changes that are in the gift of the Government of the day to try to do something about—perhaps make health boards, GPs, all the other primary services a little bit more aware. When we're talking about that, Minister, I wouldn't like to leave out of that equation either people like paramedics and ambulance personnel, because they are, again, another first line.

Cefais fy synnu'n fawr gan sylwadau Eluned am y ffaith y bydd 21 y cant o bobl sydd yn y math hwn o drafferth yn aros blwyddyn i gael asesiad, a 24 y cant arall rhwng asesu a chael triniaeth. Mae'r rheini'n ddau newid y gall Llywodraeth y dydd geisio gwneud rhywbeth yn eu cylch—efallai drwy wneud byrddau iechyd, meddygon teulu, yr holl wasanaethau sylfaenol eraill ychydig yn fwy ymwybodol. Wrth sôn am hynny, Weinidog, ni fyddwn yn hoffi gadael pobl fel parafeddygon a staff ambiwlans allan o'r hafaliad ychwaith, oherwydd eu bod, unwaith eto, yn rheng flaen arall.

Finally, I just want to once again pay my tribute to Mrs Wood for sharing this story, for giving us that opportunity to open this debate, to thank everyone for their contributions and to say that even one life is one life too many to lose to suicide. Whilst I welcome the fact that the rates of suicide are dropping in Wales, until they are zero, I don't think we should rest. Thank you.

Yn olaf, rwyf am dalu teyrnged i Mrs Wood unwaith eto am rannu'r stori hon, am roi'r cyfle i ni i agor y ddadl hon, i ddiolch i bawb am eu cyfraniadau ac i ddweud bod hyd yn oed un bywyd yn un bywyd yn ormod i'w golli drwy hunanladdiad. Er fy mod yn croesawu'r ffaith fod cyfraddau hunanladdiad yn gostwng yng Nghymru, nid wyf yn credu y dylem orffwys hyd nes eu bod yn sero. Diolch.

16:22

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? The motion is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

# 8. Dadl ar Ddiwrnod Rhyngwladol y Menywod

# 8. Debate on International Women's Day

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1, 2, 3 a 4 yn enw Paul Davies.*

*The following amendments have been selected: amendments 1, 2, 3 and 4 in the name of Paul Davies.*

16:22

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Item 8 is the debate on International Women's Day, and I call the Presiding Officer to move the motion.

Eitem 8 yw'r ddadl ar Ddiwrnod Rhyngwladol y Menywod, a galwaf ar y Llywydd i gynnig y cynnig.

Cynnig NDM5991 Rosemary Butler

Motion NDM5991 Rosemary Butler

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

Yn dathlu Diwrnod Rhyngwladol y Menywod i gydnabod cyflawniad cymdeithasol, economaidd, diwylliannol a gwleidyddol menywod yng Nghymru, a'r angen parhaus i gyflymu cydraddoldeb rhwng y rhywiau—a hynny'n benodol mewn bywyd cyhoeddus.

Celebrates International Women's Day in recognition of the social, economic, cultural and political achievement of women in Wales, and the remaining need to accelerate gender parity—particularly in public life.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

16:22

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much. It gives me great pleasure to move this motion and to introduce this debate on behalf of the cross-party Women in Democracy caucus. We wanted the Assembly to celebrate this year's International Women's Day by marking the event on the floor of the Chamber.

Diolch yn fawr iawn. Mae'n rhoi pleser mawr i gynnig y cynnig hwn ac i gyflwyno'r ddadl hon ar ran y cawcws trawsbleidiol Menywod mewn Democratiaeth. Roeddem am i'r Cynulliad ddathlu Diwrnod Rhyngwladol y Menywod eleni drwy nodi'r digwyddiad ar lawr y Siambr.

The eighth of March is observed in many ways through thousands of events held all over the world to inspire women and girls to celebrate their achievements. This date has been observed since the early 1900s. It is an opportunity to reflect on the sacrifices made by women worldwide who brought about positive change. They fought for the vote and for equal pay, among many other things, and we should be very thankful to them.

Nodir yr wythfed o Fawrth mewn sawl ffordd drwy filoedd o ddigwyddiadau a gynhelir ar draws y byd i ysbrydoli menywod a merched i ddathlu eu cyflawniadau. Nodwyd y dyddiad ers dechrau'r 1900au. Mae'n gyfle i fyfyrio ar yr aberth a wnaed gan fenywod ar draws y byd i greu newid cadarnhaol. Maent wedi brwydro am y bleidlais ac am gyflog cyfartal, ymhlith llawer o bethau eraill, a dylem fod yn ddiolchgar iawn iddynt.

As part of my work as Presiding Officer, and my concern about gender parity at the Assembly slipping backwards where we once were a world leader, I established the Assembly Women in Democracy caucus. This caucus was made up of one representative from each of the Assembly's four political parties, and we were keen for informed decisions and positive steps to be taken towards ensuring fair representation of women within our Welsh democracy.

Fel rhan o fy ngwaith fel Llywydd, a fy mhryder fod cydraddoldeb rhwng y rhywiau yn y Cynulliad yn llithro am yn ôl lle roeddem unwaith yn arwain y byd, sefydlais gawcws Menywod mewn Democratiaeth yn y Cynulliad. Lluniwyd y cawcws o un cynrychiolydd o bob un o bedair plaid wleidyddol y Cynulliad, ac roeddem yn awyddus i benderfyniadau gwybodus a chamau cadarnhaol gael eu cymryd tuag at sicrhau cynrychiolaeth deg i fenywod yn ein democratiaeth yng Nghymru.

The principal aim of the caucus was to seek and impart best practice, including from other Parliaments. While it concentrated on national and international research that identified good practice, its value-added work was to take some of those messages back to political parties to ensure that measures were in place to encourage more women into public life in future.

Prif nod y cawcws oedd dod o hyd i arferion gorau a'u rhannu, gan gynnwys arferion Seneddau eraill. Er ei bod yn canolbwyntio ar waith ymchwil cenedlaethol a rhyngwladol a nodai arferion da, ei waith gwerth ychwanegol oedd mynd â rhai o'r negeseuon hynny yn ôl i'r pleidiau gwleidyddol er mwyn sicrhau bod camau ar waith i annog mwy o fenywod i fywyd cyhoeddus yn y dyfodol.

Research such as the Equality and Human Rights Commission's 'Who Runs Wales?' continues to inform us that there are fewer women than men in public life. Well, we all know that but it's nice to have it in black and white. Despite making up more than half of the population, quite simply, their voices are not being heard, and therefore their views are being overlooked. As one former United States Secretary of State said:

Mae ymchwil megis "Pwy sy'n rhedeg Cymru?" gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn parhau i'n hysbysu bod llai o fenywod na dynion mewn bywyd cyhoeddus. Wel, rydym i gyd yn gwybod hynny, ond mae'n braf ei gael mewn du a gwyn. Er eu bod yn fwy na hanner y boblogaeth, yn syml iawn, nid yw eu lleisiau'n cael eu clywed, ac felly anwybyddir eu barn. Fel y dywedodd un cyn-Ysgrifennydd Tramor yr Unol Daleithiau:

'There cannot be true democracy unless women's voices are heard. There cannot be true democracy unless women are given the opportunity to take responsibility for their own lives.'

Ni all fod democratiaeth go iawn oni bai bod lleisiau menywod yn cael eu clywed. Ni all fod democratiaeth go iawn oni bai bod menywod yn cael cyfle i ysgwyddo cyfrifoldeb dros eu bywydau eu hunain.

And,

ac,

'There cannot be true democracy unless all citizens are able to participate fully in the lives of their country.'

Ni all fod democratiaeth go iawn oni bai bod pob dinesydd yn gallu cymryd rhan lawn ym mywyd eu gwlad.

Now, Members in the Chamber will know that in 2003, the Assembly was the first legislature in the world to achieve gender parity. Between 2006 and 2007, more women than men sat in the Assembly. Although current representation of women in the Assembly is lower than in the past, Wales would still rank as the ninth most gender-balanced legislature in the world. And for that we should be very proud, but there has been a drift in women's representation in both the 2007 and 2011 Assembly elections. As we prepare for the next election in May, the caucus has twice challenged the leaders of parties already represented at the Assembly to do more to redress the balance, and I hope that those efforts will bear fruit and that we will see a move back towards the 50 per cent that we previously achieved.

Nawr, bydd yr Aelodau yn y Siambr yn gwybod mai'r Cynulliad yn 2003 oedd y ddeddfwrfa gyntaf yn y byd i gyflawni cydraddoldeb rhwng y rhywiau. Rhwng 2006 a 2007, roedd mwy o fenywod na dynion yn Aelodau o'r Cynulliad. Er bod cynrychiolaeth bresennol menywod yn y Cynulliad yn is nag yn y gorffennol, byddai Cymru yn nawfed drwy'r byd o ran cydbwysedd rhwng y rhywiau. A dylem fod yn falch iawn o hynny, ond gwelwyd cam yn ôl o ran cynrychiolaeth menywod yn etholiadau'r Cynulliad yn 2007 a 2011. Wrth i ni baratoi ar gyfer yr etholiad nesaf ym mis Mai, mae'r cawcws wedi herio arweinwyr y pleidiau a gynrychiolir eisoes yn y Cynulliad ddwywaith i wneud mwy i adfer y cydbwysedd, ac rwy'n gobeithio y bydd yr ymdrechion hynny'n dwyn ffrwyth ac y gwelwn symudiad yn ôl tuag at y 50 y cant a gyflawnwyd gennym yn flaenorol.

I would like to take this opportunity to put on record my sincere thanks to the caucus members for the considered and innovative contributions they made. That's Jocelyn Davies, Suzy Davies, Eluned Parrott and Joyce Watson. Thank you very much indeed. I think some of the meetings were really quite amazing. As I've said many times before, it's not that women are better than men or vice versa, but research shows us that the more diversity involved in decision making, the better those decisions are.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i gofnodi fy niolch diffuant i aelodau'r cawcws am eu cyfraniadau ystyriol ac arloesol. Dyna Jocelyn Davies, Suzy Davies, Eluned Parrott a Joyce Watson. Diolch yn fawr iawn yn wir. Rwy'n credu bod rhai o'r cyfarfodydd wedi bod yn eithaf anhygoel. Fel rwyf wedi dweud sawl gwaith o'r blaen, nid yw'n ymwneud â bod menywod yn well na dynion neu i'r gwrthwyneb, ond mae ymchwil yn dangos i ni po fwyaf o amrywiaeth sy'n rhan o'r broses o wneud penderfyniadau, y gorau fydd y penderfyniadau hynny.

As 51 per cent of the population, women are not fairly represented in those decision-making positions, and that is why the multiple strands of the Women in Public Life campaign have been so important. We attracted new audiences by holding a range of lectures from high-profile women who had succeeded in traditionally male-dominated occupations and made public appointments more accessible through creating a one-stop online portal. We also plugged another gaping hole by providing a development scheme for women in middle management positions, equipping them with the experience, skills and, importantly, confidence, to enable them to break through into board and trustee positions. I am delighted with the outcome of the campaign, but I want it to have a sustainable future. The interest is most definitely there with over 4,000 followers on our combined social media channels and 600 in receipt of our monthly newsletters. I've also been contacted by my counterparts in other Parliaments in the UK and further afield who want to replicate the outstanding successes of our scheme. I know that the Welsh Government has also replicated part of this scheme in their Diversity in Democracy initiative with local government. So, I am delighted that at least some aspects of this work will carry on and that women's lives will continue to be changed long after my time as the Presiding Officer of this Assembly is over.

Fel 51 y cant o'r boblogaeth, nid yw menywod yn cael eu cynrychioli'n deg mewn swyddi lle y gwneir y penderfyniadau hynny, a dyna pam y mae elfennau lluosog yr ymgyrch Menywod mewn Bywyd Cyhoeddus wedi bod mor bwysig. Llwyddasom i ddenu cynulleidfaoedd newydd drwy gynnal ystod o ddarlithoedd gan fenywod proffil uchel a oedd wedi llwyddo mewn galwedigaethau a arweinid gan ddynion yn bennaf yn draddodiadol a gwneud penodiadau cyhoeddus yn fwy hygyrch drwy greu porth un stop ar-lein. Llwyddasom hefyd i gau bwlch mawr arall drwy ddarparu cynllun datblygu ar gyfer menywod mewn swyddi rheolaeth ganol, gan eu harfogi â'r profiad, y sgiliau ac yn bwysig, yr hyder, i'w galluogi i dorri drwodd i swyddi ar fyrddau ac fel ymddiriedolwyr. Rwy'n fodlon iawn gyda chanlyniad yr ymgyrch, ond rwyf am iddi gael dyfodol cynaliadwy. Mae'r diddordeb yno'n bendant iawn gyda thros 4,000 o ddilynwyr ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol cyfunol a 600 yn derbyn ein cylchlythyron misol. Mae fy nghymheiriaid mewn Seneddau eraill yn y DU a thu hwnt wedi cysylltu â mi hefyd am eu bod eisiau efelychu llwyddiannau eithriadol ein cynllun. Rwy'n gwybod bod Llywodraeth Cymru hefyd wedi efelychu rhan o'r cynllun hwn yn eu menter Amrywiaeth mewn Democratiaeth gyda llywodraeth leol. Felly, rwy'n falch iawn fod o leiaf rai agweddau ar y gwaith hwn yn mynd i barhau ac y bydd bywydau menywod yn parhau i gael eu newid ymhell ar ôl i fy nghyfnod fel Llywydd y Cynulliad hwn ddod i ben.

Shami Chakrabarti, the human rights campaigner and one of our speakers in the Women in Public Life campaign, said in her lecture that gender injustice is possibly the biggest injustice in the world if you're talking about a disadvantaged group—not a minority, but a disadvantaged group—and that this may be the biggest, most systematic, deep-seated prejudice or injustice in the world.

Yn ei darlith, dywedodd Shami Chakrabarti, yr ymgyrchydd hawliau dynol ac un o'n siaradwyr yn yr ymgyrch Menywod mewn Bywyd Cyhoeddus, mai anghyfiawnder rhyw o bosibl yw'r anghyfiawnder mwyaf yn y byd os ydych yn sôn am grŵp dan anfantais—nid lleiafrif, ond grŵp difreintiedig—ac efallai mai dyma'r rhagfarn neu'r anghyfiawnder mwyaf, a mwyaf systematig a dwfn yn y byd.

She is impatient for change and so am I. So, while Shami expressed a view of the global injustice of gender inequality, I believe that, as the seat of democracy in Wales, we have the opportunity between us across the political parties to set a positive example and return to our 50/50 gender balance. I move.

Mae'n awyddus i weld newid a minnau yn yr un modd. Felly, wrth i Shami fynegi safbwynt ynghylch anghyfiawnder byd-eang anghydraddoldeb rhwng y rhywiau, fel canolfan democratiaeth yng Nghymru, credaf fod cyfle gennym ar draws y pleidiau gwleidyddol i osod esiampl gadarnhaol a dychwelyd at ein cydbwysedd 50/50 rhwng y rhywiau. Rwy'n cynnig.

16:28

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have selected the four amendments to the motion. I call on Mohammad Asghar to move amendments 1, 2, 3 and 4, tabled in the name of Paul Davies.

Rwyf wedi dethol pedwar gwelliant i'r cynnig. Galwaf ar Mohammad Asghar i gynnig gwelliannau 1, 2, 3 a 4, a gyflwynwyd yn enw Paul Davies.

*Gwelliant 1—Paul Davies*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Yn nodi mai'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau cyfredol yw'r isaf a gofnodwyd erioed.*

*Gwelliant 1—Paul Davies*

*Add as a new point at end of motion:*

*Notes that the current gender pay gap is the lowest on record.*

*Gwelliant 2—Paul Davies*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Yn nodi bod mwy o fenywod yn gweithio yn y DU nag erioed o'r blaen.*

*Gwelliant 2—Paul Davies*

*Add as a new point at end of motion:*

*Notes that there are more women in work in the UK than ever before.*

*Gwelliant 3—Paul Davies*

*Gwelliant 3—Paul Davies*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as a new point at end of motion:*

*Yn croesawu cyhoeddiad Llywodraeth y DU y bydd tablau cynghrair sy'n rhestru cwmnïau mawr yn ôl trefn y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn cael eu cyhoeddi erbyn 2018.*

*Welcomes the UK Government's announcement that league tables ranking large firms by gender pay gap will be published by 2018.*

*Gwelliant 4—Paul Davies*

*Gwelliant 4—Paul Davies*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as a new point at end of motion:*

*Yn gresynu at y ffaith bod menywod sy'n gweithio yng Nghymru wedi wynebu cynnydd mwy mewn costau gofal plant nag mewn mannau eraill yn y DU.*

*Regrets that working women in Wales have faced bigger increases in childcare costs than elsewhere in the UK.*

*Cynigiwyd gwelliannau 1, 2, 3 a 4.*

*Amendments 1, 2, 3 and 4 moved.*

16:28

## Mohammad Asghar Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. I move the amendments tabled in the name of Paul Davies. I'm grateful for the opportunity to speak this afternoon to celebrate International Women's Day. This debate provides an excellent platform to note the progress that has been made in promoting gender parity and to explore the further measures that can be taken. The Prime Minister said:

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Cynigiaf y gwelliannau a gyflwynwyd yn enw Paul Davies. Rwy'n ddiolchgar am y cyfle i siarad y prynhawn yma i ddathlu Diwrnod Rhyngwladol y Menywod. Mae'r ddadl hon yn rhoi llwyfan gwych i nodi'r cynnydd a wnaed yn hyrwyddo cydraddoldeb rhwng y rhywiau ac ar archwilio'r camau pellach y gellir eu cymryd. Dywedodd y Prif Weinidog:

'You can't have true opportunity without real equality.'

Ni allwch gael gwir gyfle heb gydraddoldeb go iawn.

This is clearly true. Not only is pursuing gender equality the right thing to do, it can also bring great economic benefit to the country. We need to harness the talents of women and the skills they bring to our workplaces. It has been estimated that fully bridging the pay gap could add over £0.5 trillion of additional gross domestic product by 2025. Significant progress has been made. Today, there are more women in work than ever before. Female employment has increased with 14.5 million women now in work; 1 million small and medium-sized enterprises in Britain are run by women; women's representation on FTSE 100 companies' boards has more than doubled since 2011; and we have the lowest ever gender pay gap on record. Transparency is one of the most powerful tools that we have for shaping behaviour and driving change. I welcome news that the UK Government will press ahead with the legislation to force companies with over 250 employees to publish their gender pay gap data by 2018. This action will make it clear where the pay gap is at its worst and needs to be tackled.

Mae hyn yn amlwg yn wir. Mae ceisio cydraddoldeb rhwng y rhywiau nid yn unig yn iawn, gall hefyd ddwyn budd economaidd mawr i'r wlad. Mae angen i ni harneisio doniau menywod a'r sgiliau y maent yn eu cynnig yn ein gweithleoedd. Amcangyfrifwyd y gallai pontio'r bwlch cyflog yn llawn ychwanegu dros £0.5 triliwn o gynnyrch domestig gros ychwanegol erbyn 2025. Gwnaed cynnydd sylweddol. Heddiw, mae mwy o fenywod mewn gwaith nag erioed o'r blaen. Mae cyflogaeth menywod wedi cynyddu gyda 14.5 miliwn o fenywod yn awr mewn gwaith; menywod sy'n arwain 1 filiwn o fentrau bach a chanolig eu maint ym Mhrydain; mae cynrychiolaeth menywod ar fyrddau cwmnïau'r FTSE 100 wedi mwy na dyblu ers 2011; a'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau cyfredol yw'r isaf a gofnodwyd erioed. Mae tryloywder yn un o'r arfau mwyaf pwerus sydd gennym ar gyfer llunio ymddygiad a hybu newid. Rwy'n croesawu'r newyddion y bydd Llywodraeth y DU yn bwrw ymlaen â'r ddeddfwriaeth i orfodi cwmnïau gyda thros 250 o weithwyr i gyhoeddi eu data ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau erbyn 2018. Bydd y camau hyn yn ei gwneud yn glir ble mae'r bwlch cyflog ar ei waethaf ac angen mynd i'r afael ag ef.

Transparency will also help to ensure that the talents of women are recognised equally and fairly in the workplace. This means in the boardroom, too. The UK Government has called for an end to all-male boards in the FTSE 250. Women make up 50 per cent of the population. It is obvious that having qualified and experienced women board members brings substantial benefits, as companies better reflect the customers they serve.

Bydd tryloywder hefyd yn helpu i sicrhau bod doniau menywod yn cael eu cydnabod yn gyfartal ac yn deg yn y gweithle. Mae hyn yn golygu yn ystafell y bwrdd hefyd. Mae Llywodraeth y DU wedi galw am roi diwedd ar fyrddau sy'n cynnwys dynion yn unig ymhlith cwmnïau'r FTSE 250. Menywod yw 50 y cant o'r boblogaeth. Mae'n amlwg fod cael menywod cymwys a phrofiadol yn aelodau o fyrddau yn creu manteision sylweddol, wrth i gwmnïau adlewyrchu'r cwsmeriaid y maent yn eu gwasanaethu yn well.

We also need to tackle occupational segregation. It is a fact that women remain concentrated in lower paid occupations. To correct this imbalance, we must take action to make sure that many more girls are studying science, technology, engineering and maths subjects in schools and colleges. We must break down the belief that some careers are for boys and others for girls. I call on the Minister, in her reply, to advise what the Welsh Government is doing to raise the aspiration of girls in the classroom.

Mae angen i ni fynd i'r afael â gwahanu galwedigaethol hefyd. Mae'n ffaith fod menywod wedi'u crynhoi mewn galwedigaethau sy'n talu cyflogau is. I unioni'r anghydbwysedd hwn, mae'n rhaid i ni roi camau ar waith i wneud yn siŵr fod llawer mwy o ferched yn astudio gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg mewn ysgolion a cholegau. Rhaid i ni chwalu'r gred fod rhai gyrfaoedd ar gyfer bechgyn ac eraill ar gyfer merched. Galwaf ar y Gweinidog, yn ei hateb, i ddweud beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i godi uchelgais merched yn yr ystafell ddosbarth.

Flexible working hours and childcare are key to breaking down the barriers preventing women from starting or returning to work. The cost of childcare can discourage women from taking up full-time work, or even part-time work. I'm concerned, therefore, to hear the results of research by the Family and Childcare Trust. They say that working mothers in Wales have faced bigger increases in childcare costs than elsewhere in the United Kingdom. The average increase is 5.6 per cent over last year's. This is larger than England or Scotland. The Welsh Government must ensure these costs do not escalate to such a degree that they become a larger barrier to women returning to work.

Mae oriau gweithio hyblyg a gofal plant yn allweddol i chwalu'r rhwystrau sy'n atal menywod rhag dechrau neu ddychwelyd i'r gwaith. Gall cost gofal plant atal menywod rhag cymryd gwaith amser llawn, neu hyd yn oed waith rhan-amser. Rwy'n bryderus, felly, i glywed canlyniadau ymchwil gan yr Ymddiriedolaeth Teuluoedd a Gofal Plant. Maent yn dweud bod mamau sy'n gweithio yng Nghymru wedi wynebu cynnydd mwy mewn costau gofal plant nag mewn mannau eraill yn y Deyrnas Unedig. Mae'r cynnydd cyfartalog 5.6 y cant yn uwch na'r flwyddyn ddiwethaf. Mae hyn yn fwy na Lloegr a'r Alban. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau nad yw'r costau hyn yn codi i'r fath raddau fel eu bod yn dod yn fwy o rwystr i fenywod sy'n dychwelyd i'r gwaith.

There is no better time than International Women's Day to commit ourselves to eradicating gender inequality in Wales. Michelle Obama said:

Nid oes amser gwell na Diwrnod Rhyngwladol y Menywod i ymrwymo i ddileu anghydraddoldeb rhwng y rhywiau yng Nghymru. Meddai Michelle Obama:

'No country can ever truly flourish if it stifles the potential of its women and deprives itself of the contributions of half of its citizens'.

Ni all yr un wlad ffynnu go iawn os yw'n mygu potensial ei menywod ac yn amddifadu ei hun o gyfraniadau hanner ei dinasyddion.

Thank you, Presiding Officer. I support the motion.

Diolch i chi, Lywydd. Cefnogaf y cynnig.

16:33

## Sandy Mewies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Of course, I'm very pleased to make a contribution to this afternoon's debate to celebrate International Women's Day. I speak today as the Assembly Commissioner with responsibility for equality and diversity.

Wrth gwrs, rwy'n falch iawn o gyfrannu at y ddadl y prynhawn yma i ddathlu Diwrnod Rhyngwladol y Menywod. Rwy'n siarad heddiw fel Comisiynydd y Cynulliad sydd â chyfrifoldeb dros gydraddoldeb ac amrywiaeth.

I'd like to thank the Presiding Officer for her opening remarks, which quite rightly set the Assembly, and all the political parties within it, the challenge to return to gender parity in the future. Before I move on to talk about International Women's Day more generally, I must pay tribute to the work the Presiding Officer has done under the umbrella of the Women in Public Life campaign. Many of us already know about the successful range of lectures that were delivered by high-profile speakers who had succeeded in roles that were traditionally dominated by men. The campaign improved access to board and trustee positions by creating a portal, a one-stop shop for all you need to know about getting involved with the public appointments system in Wales. Both of these strands invigorated an audience and we have seen much greater engagement as a result.

Hoffwn ddiolch i'r Llywydd am ei sylwadau agoriadol, a oedd yn gosod her i'r Cynulliad yn gwbl briodol, a'r holl bleidiau gwleidyddol, i ddychwelyd at gydraddoldeb rhwng y rhywiau yn y dyfodol. Cyn i mi symud ymlaen i sôn am Ddiwrnod Rhyngwladol y Menywod yn fwy cyffredinol, mae'n rhaid i mi roi teyrnged i'r gwaith y mae'r Llywydd wedi'i wneud o dan ambarél yr ymgyrch Menywod mewn Bywyd Cyhoeddus. Gŵyr llawer ohonom eisoes am yr amrywiaeth lwyddiannus o ddarlithoedd a gyflwynwyd gan siaradwyr proffil uchel a oedd wedi llwyddo mewn rolau a gyflawnwyd gan ddynion yn bennaf yn draddodiadol. Llwyddodd yr ymgyrch i wella mynediad at swyddi ar fyrddau ac fel ymddiriedolwyr drwy greu porth, siop un stop ar gyfer popeth sydd angen i chi ei wybod ar gyfer cymryd rhan yn y system penodiadau cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r ddwy elfen hon wedi bywiogi cynulleidfa ac rydym wedi gweld llawer mwy o ymgysylltiad o ganlyniad.

Research provided in the 'Who Runs Wales?' report, annually updated by the Equality and Human Rights Commission, told us that women were, without doubt, underrepresented in decision-making positions throughout Wales. I think that came as no surprise to many of us. It is clear that there are existing opportunities at the grass-roots level to empower women, but there is a deficit for those wishing to break through into leadership positions.

Mae ymchwil a ddarparwyd yn adroddiad 'Pwy sy'n Rhedeg Cymru?', sy'n cael ei ddiweddaru bob blwyddyn gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, yn dangos i ni heb amheuaeth nad yw menywod ledled Cymru yn cael eu cynrychioli'n ddigonol mewn swyddi sy'n galw am wneud penderfyniadau. Ni chredaf fod hynny'n syndod i lawer ohonom. Mae'n amlwg fod yna gyfleoedd i'w cael ar lawr gwlad i rymuso menywod, ond mae yna brinder o gyfleoedd i rai sy'n dymuno torri drwodd i swyddi arwain.

Addressing this brought about a new strand for the campaign—the Women in Public Life development scheme. Its purpose was to ensure the effective development and progression of women into roles that often have a direct influence on people's lives across Wales. It would also provide mentoring, shadowing and training opportunities for a number of women in Wales for 18 months, enabling them to develop the confidence and skills to apply for positions in public life. But it's outcomes that are important, as we always say, and these have been fantastic, with 85 per cent of participants having applied for a position in public life and 31 per cent of them applying for more than one position. Over half have been successful and some have gained more than one position. Campaigns like this do make a difference. If we have more diversity in positions where important decisions are taken, those decisions will be more balanced and more enduring.

Drwy roi sylw i hyn, crëwyd elfen newydd i'r ymgyrch—cynllun datblygu Menywod mewn Bywyd Cyhoeddus. Ei bwrpas oedd sicrhau bod menywod yn datblygu ac yn camu ymlaen yn effeithiol i rolau sy'n aml yn dylanwadu'n uniongyrchol ar fywydau pobl ledled Cymru. Byddai hefyd yn darparu cyfleoedd mentora, cysgodi a hyfforddi i nifer o fenywod yng Nghymru am 18 mis, gan eu galluogi i ddatblygu hyder a'r sgiliau i wneud cais am swyddi mewn bywyd cyhoeddus. Ond canlyniadau sy'n bwysig, fel rydym bob amser yn dweud, ac mae'r rhain wedi bod yn wych, gydag 85 y cant o gyfranogwyr wedi gwneud cais am swydd mewn bywyd cyhoeddus a 31 y cant ohonynt yn gwneud cais am fwy nag un swydd. Mae dros eu hanner wedi bod yn llwyddiannus ac mae rhai wedi cael mwy nag un swydd. Mae ymgyrchoedd fel hyn yn gwneud gwahaniaeth. Os oes gennym fwy o amrywiaeth mewn swyddi lle y gwneir penderfyniadau pwysig, bydd y penderfyniadau hynny'n fwy cytbwys ac yn fwy parhaol.

I'm very pleased that, through the Women in Public Life campaign, the Assembly has been able to address a representational deficit and has made a start at redressing the balance. So, Presiding Officer, congratulations to you for having the vision to pursue this. I certainly hope, and I'm sure we all do, that a sustainable future can be found for this scheme after May.

Rwy'n falch iawn fod y Cynulliad, drwy ymgyrch Menywod mewn Bywyd Cyhoeddus, wedi gallu mynd i'r afael â diffyg cynrychiolaeth ac wedi dechrau adfer y cydbwysedd. Felly, Lywydd, llongyfarchiadau i chi am gael y weledigaeth i fynd ar drywydd hyn. Rwy'n sicr yn gobeithio, ac rwy'n siŵr ein bod i gyd yn gobeithio, y gellir sicrhau dyfodol cynaliadwy i'r cynllun hwn ar ôl mis Mai.

I turn now to International Women's Day more generally. This year's theme was 'Pledge for parity', where men and women made pledges to take steps to help achieve gender parity more quickly. It's not just the making of the pledge that's important; it's following it up and taking action. I was delighted, as I'm sure everybody was, to see the many pledges on social media yesterday for International Women's Day. Posting pledges in this way does make a public commitment, and anything that moves us towards gender parity in our society deserves our encouragement and support.

Trof yn awr at Ddiwrnod Rhyngwladol y Menywod yn fwy cyffredinol. Y thema eleni oedd 'Addewid o gydraddoldeb', gyda dynion a menywod yn gwneud addewidion i roi camau ar waith i helpu i gyflawni cydraddoldeb rhwng y rhywiau yn gyflymach. Nid gwneud yr addewid yn unig sy'n bwysig, ond dilyn hynny drwy roi camau ar waith. Roeddwn wrth fy modd, fel roedd pawb rwy'n siŵr, o weld y llu o addewidion ar y cyfryngau cymdeithasol ddoe ar gyfer Diwrnod Rhyngwladol y Menywod. Mae postio addewidion yn y modd hwn yn ymrwymiad cyhoeddus, ac mae unrhyw beth sy'n ein symud tuag at gydraddoldeb rhwng y rhywiau yn ein cymdeithas yn haeddu ein hanogaeth a'n cefnogaeth.

Within the Assembly Commission, we have an excellent record on gender equality, equal pay and family-friendly working practices. With women as the chief executive, director of Legal Services and over half of the management board, the staff make-up sets an example for other public sector organisations in Wales. We have received external recognition by receiving the prestigious Investors in People gold award, being listed in 'The Times' newspaper's top-50 employers for women, and being awarded top employer for working families. These are fantastic achievements because these external benchmarks demonstrate that an inclusive workplace culture has been generated that values the contribution that a diverse workplace can bring. As the Assembly Commissioner for equalities, these achievements give me a great sense of pride, and I'm delighted to be able to put them on the record as we debate and celebrate the contribution that women make to Wales.

Yng Nghomisiwn y Cynulliad, mae gennym record ragorol o ran cydraddoldeb rhwng y rhywiau, cyflog cyfartal ac arferion gwaith sy'n ystyriol o deuluoedd. Gyda'r prif weithredwr, cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a thros hanner y bwrdd rheoli yn fenywod, mae gwead y staff yn gosod esiampl i sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Rydym wedi cael cydnabyddiaeth allanol drwy ennill gwobr aur fawreddog Buddsoddwr mewn Pobl, cael ein rhestru ymhlith y 50 o gyflogwyr gorau ar gyfer menywod ym mhapur newydd 'The Times', a chael ein dyfarnu'n gyflogwr gorau i deuluoedd sy'n gweithio. Mae'r rhain yn gyflawniadau gwych gan fod y meincnodau allanol hyn yn dangos bod diwylliant cynhwysol yn y gweithle wedi'i gynhyrchu sy'n rhoi gwerth ar y cyfraniad y gall gweithle amrywiol ei greu. Fel Comisiynydd y Cynulliad sydd â chyfrifoldeb dros gydraddoldebau, mae'r cyflawniadau hyn yn destun balchder mawr i mi, ac rwy'n falch iawn o allu eu cofnodi wrth i ni drafod a dathlu'r cyfraniad y mae menywod yn ei wneud i Gymru.

Finally, Deputy Presiding Officer, I am sure that the Minister and none of us here need to be reminded about what is behind International Women's Day. Whilst congratulating ourselves in Wales on the progress that we've made here, let us not forget about those women across the world who are victims, weapons of and hostages of war, and women who are treated as sex slaves, who suffer on a daily basis. We can campaign for ourselves; they cannot.

Yn olaf, Ddirprwy Lywydd, rwy'n siŵr nad oes angen atgoffa'r Gweinidog na neb ohonom yma am yr hyn sydd wrth wraidd Diwrnod Rhyngwladol y Menywod. Wrth i ni longyfarch ein hunain yng Nghymru ar y cynnydd a wnaethom yma, gadewch i ni beidio ag anghofio am y menywod ar draws y byd sy'n dioddef yn sgil rhyfeloedd, menywod sy'n ddioddefwyr, arfau a gwystlon mewn rhyfeloedd, a menywod sy'n cael eu trin fel caethweision rhyw, ac sy'n dioddef yn ddyddiol. Gallwn ymgyrchu drosom ein hunain; ni allant hwy wneud hynny.

16:38 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

As the Presiding Officer said earlier, International Women's Day is an opportunity to reflect on the achievements women have made, and continue to make each day, in battling for equality and justice, whether it's through large-scale campaigns or the bravery of the many individual women who keep fighting for success despite facing barriers that men do not face and while receiving less reward than their male colleagues.

Fel y dywedodd y Llywydd yn gynharach, mae Diwrnod Rhyngwladol y Menywod yn gyfle i fyfyrio ar yr hyn y mae menywod wedi'i gyflawni ac yn parhau i'w gyflawni bob dydd, wrth frwydro dros gydraddoldeb a chyfiawnder, boed drwy ymgyrchoedd ar raddfa fawr neu ddewrder llawer o fenywod unigol sy'n parhau i frwydro dros lwyddiant er gwaethaf y rhwystrau a wynebir ganddynt nad yw dynion yn eu hwynebu ac er eu bod yn cael llai am wneud hynny na'u cydweithwyr gwrywaidd.

Often on International Women's Day, we celebrate the achievements of extraordinary women, the trailblazers and the revolutionaries who make us all proud. But I believe that a sign of feminism's success will be when we see mediocre women achieve as much success as mediocre men. I'm sure we can all cite examples of average men seemingly having very little trouble climbing to the top, and I don't resent their success one bit, I just want to see women, average women, getting the same chance.

Yn aml ar Ddiwrnod Rhyngwladol y Menywod, rydym yn dathlu llwyddiant menywod eithriadol, y menywod sydd wedi arwain y ffordd a'r chwyldroadwyr rydym i gyd yn falch ohonynt. Ond rwy'n credu y gwelwn arwydd o lwyddiant ffeministiaeth pan welwn fenywod cyffredin yn cael cymaint o lwyddiant â dynion cyffredin. Rwy'n siwr y gallwn i gyd nodi enghreifftiau o ddynion cyffredin sydd i'w gweld yn cael fawr o drafferth i ddringo i'r brig, ac nid wyf yn dal dig yn eu herbyn oherwydd eu llwyddiant; rwyf am weld menywod, menywod cyffredin, yn cael yr un cyfle, dyna i gyd.

One of the challenges, of course, in tackling persistent discrimination against women is the sexism that exists in all of us. It's not just horrible people out there—all of us have that. We all grow up in a sexist culture and, no matter how well intentioned we think we are, those attitudes are part of each and every one of us. With each leap forward the movement for equality takes, we always see a few steps back as society adjusts to the change.

Un o'r heriau, wrth gwrs, wrth fynd i'r afael â gwahaniaethu parhaus yn erbyn menywod yw'r rhywiaeth sy'n bodoli ym mhob un ohonom. Nid pobl ofnadwy draw acw yn unig—mae'n perthyn i ni i gyd. Rydym i gyd yn tyfu i fyny mewn diwylliant rhywiaethol ac ni waeth pa mor dda y credwn yw ein bwriadau, mae'r agweddau hynny'n rhan o bob un ohonom. Gyda phob naid ymlaen gan y mudiad dros gydraddoldeb, rydym bob amser yn gweld ychydig o gamau'n ôl wrth i gymdeithas addasu i'r newid.

I want to tell you the story of Gwyneth Bebb, and I know that I've mentioned this here before, so please forgive me, but she was a brilliant woman who should have been our first female barrister in the UK. She wasn't born in Wales, but her father was the principal of the Lampeter college, and I'm sure she has very strong Welsh connections. She was the sixth woman to read law at Oxford University and she received first-class marks in her exams. Of course, she didn't graduate because women were not afforded degrees by Oxford until 1920.

Rwyf am ddweud stori Gwyneth Bebb wrthych, ac rwy'n gwybod fy mod wedi crybwyll hyn yma o'r blaen, felly maddeuwch i mi os gwelwch yn dda, ond roedd hi'n wraig wych a ddylai fod wedi bod yn fargyfreithiwr benywaidd cyntaf y DU. Ni chafodd ei geni yng Nghymru, ond ei thad oedd prifathro coleg Llanbedr Pont Steffan, ac rwy'n siŵr fod ganddi gysylltiadau Cymreig cryf iawn. Hi oedd y chweched fenyw i astudio'r gyfraith ym Mhrifysgol Rhydychen a chafodd farciau dosbarth cyntaf yn ei harholiadau. Wrth gwrs, ni raddiodd gan na roddid graddau i fenywod yn Rhydychen hyd 1920.

Gwyneth was studying at a time when the president of the British Medical Association and a lot of other highly respected and established medical experts were convinced that encouraging women to engage in intellectual pursuits would have a disastrous effect on their health. The theory was that girls had to rest during their adolescence in order to get their reproductive apparatus started, because studying would divert energies causing the uterus to shrivel up. This was the backdrop in 1913.

Roedd Gwyneth yn astudio ar adeg pan oedd llywydd Cymdeithas Feddygol Prydain a llawer o arbenigwyr meddygol uchel eu parch a sefydledig eraill yn argyhoeddedig fod annog menywod i gymryd rhan mewn gweithgareddau deallusol yn cael effaith drychinebus ar eu hiechyd. Y ddamcaniaeth oedd bod yn rhaid i ferched orffwys yn ystod eu harddegau er mwyn rhoi cychwyn ar eu cyfarpar atgenhedlu, gan y byddai astudio'n dargyfeirio egni gan achosi i'r groth grebachu. Dyma oedd y cefndir yn 1913.

Gwyneth took legal action against the Law Society after her application for entry was turned down because of her gender. The problem was that the law allowed persons to take the entrance exam. She argued that she should be considered a person under the law, and she failed. The court determined that women were not people for this purpose and declared that women were under a general disability, due to their gender, to become lawyers. But the case did have an impact on public opinion and in 1919 Parliament passed the Sex Disqualification (Removal) Act and enabled women to become lawyers for the first time. Tragically, Gwyneth Bebb died soon after childbirth, before she had that opportunity to take her place. But she became one of the many exceptional women who have been lost to history—a history, I think, that often chooses to forget them.

Rhoddodd Gwyneth gamau cyfreithiol ar waith yn erbyn Cymdeithas y Gyfraith ar ôl i'w chais am fynediad gael ei wrthod oherwydd ei rhyw. Y broblem oedd bod y gyfraith yn caniatáu i bobl sefyll yr arholiad mynediad. Dadleuodd y dylai gael ei hystyried yn berson o dan y gyfraith, ac fe fethodd. Penderfynodd y llys nad oedd menywod yn bobl at y diben hwn a datganodd fod gan fenywod anabledd cyffredinol, oherwydd eu rhyw, a'u rhwystrai rhag bod yn gyfreithwyr. Ond effeithiodd yr achos ar farn y cyhoedd ac yn 1919 pasiodd y Senedd Ddeddf Anghymhwyso Rhyw (Dileu) a galluogi menywod i ddod yn gyfreithwyr am y tro cyntaf. Yn drasig, bu farw Gwyneth Bebb yn fuan ar ôl rhoi genedigaeth, cyn iddi gael cyfle i gymryd ei lle. Ond daeth yn un o nifer o fenywod eithriadol sydd wedi'u colli o hanes —hanes sy'n aml yn dewis eu hanghofio, rwy'n credu.

If we fast-forward a century, last year, Lord Sumption, a member of the Supreme Court—and sometimes called the cleverest man in Britain—said in an interview that the transformation of the status of women in our society is not something that can happen overnight, and warned against taking any action at all to achieve gender equality in the judiciary in case—listen to this—it puts off male applicants in the future and upsets the balance of the profession. Now, 100 years, of course, is not overnight. Although women have taken a leap forward in the last century, we continue to experience these ridiculous backwards attitudes at all levels. So, I guess brains aren't everything.

Os symudwn ymlaen yn gyflym dros ganrif, y llynedd, dywedodd yr Arglwydd Sumption, aelod o'r Goruchaf Lys—sy'n cael ei alw weithiau'n ddyn mwyaf clyfar Prydain—mewn cyfweliad, nad oedd trawsnewid statws menywod yn ein cymdeithas yn rhywbeth a all ddigwydd dros nos, a rhybuddiodd rhag rhoi unrhyw gamau ar waith o gwbl i gyflawni cydraddoldeb rhwng y rhywiau rhag ofn—gwrandewch ar hyn—y bydd yn atal ymgeiswyr gwrywaidd yn y dyfodol a tharfu ar gydbwysedd y proffesiwn. Nawr, nid 'dros nos' yw 100 mlynedd, wrth gwrs. Er bod menywod wedi rhoi llam ymlaen dros y ganrif ddiwethaf, rydym yn parhau i brofi'r agweddau cyntefig ynfyd hyn ar bob lefel. Felly, rwy'n amau nad yw ymennydd yn bopeth.

Similarly, the first female Member of Parliament was elected in 1918. She didn't take her seat as she wouldn't take the oath, and she was followed a year later by Nancy Astor. The first female Cabinet Minister was in 1929 and, of course, we've had a woman Prime Minister—I don't like to remind everybody here of that, but it happened—and yet female politicians still have to put up with comments about their appearance that men rarely do. Sometimes men do, but it's very rare. I'm proud to represent Plaid Cymru here, and a party with a brave woman leader. But I am aware of the sexism she and all other female politicians here continue to face just because of their gender. We must guard against that in ourselves as well as in others.

Yn yr un modd, etholwyd yr Aelod Seneddol benywaidd cyntaf ym 1918. Ni chymerodd ei sedd gan nad oedd am gymryd y llw, ac fe'i dilynwyd flwyddyn yn ddiweddarach gan Nancy Astor. Cafwyd y Gweinidog Cabinet benywaidd cyntaf yn 1929 ac wrth gwrs, rydym wedi cael dynes yn Brif Weinidog—nid wyf yn hoffi atgoffa pawb yma o hynny, ond fe ddigwyddodd—ac eto mae'n rhaid i wleidyddion benywaidd ddioddef sylwadau am eu hymddangosiad o hyd mewn modd nad yw dynion bron byth yn gorfod ei wneud. Weithiau rhaid i ddynion ddioddef hynny, ond mae'n brin iawn. Rwy'n falch o gynrychioli Plaid Cymru yma, plaid gydag arweinydd benywaidd dewr. Ond rwy'n ymwybodol o'r rhywiaeth y mae hi a'r holl wleidyddion benywaidd eraill yma yn parhau i'w hwynebu yn unig oherwydd eu rhyw. Mae'n rhaid i ni warchod yn erbyn hynny ynom ein hunain yn ogystal â mewn pobl eraill.

Finally, Presiding Officer, I'd like to thank you for the work that you're doing to promote women in public life. It's a big task, and I'm sure that you will do it with the same enthusiasm and—I have to say—style that you undertake all your other public functions. I think we can say a 'thank you' to Gwyneth Bebb that we are allowed to have public functions, I think, as women. As we look forward to the next Assembly, I hope that, in Wales, we can continue to build on the progress that we've made already.

Yn olaf, Lywydd, hoffwn ddiolch i chi am y gwaith rydych yn ei wneud ar hyrwyddo menywod mewn bywyd cyhoeddus. Mae'n dasg fawr, ac rwy'n siŵr y byddwch yn ei wneud gyda'r un brwdfrydedd a—mae'n rhaid i mi ddweud—gyda'r un steil ag y cyflawnwch eich holl swyddogaethau cyhoeddus eraill. Rwy'n credu y gallwn ddweud 'diolch' wrth Gwyneth Bebb ein bod wedi cael caniatâd i gyflawni swyddogaethau cyhoeddus, rwy'n meddwl, fel menywod. Wrth i ni edrych ymlaen at y Cynulliad nesaf, gobeithiaf y gallwn yng Nghymru barhau i adeiladu ar y cynnydd a wnaethom eisoes.

16:43

## Julie Morgan Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think it's a great opportunity on International Women's Day to have the opportunity to have a look at the status of women in society. I'd also like to pay tribute to the Presiding Officer and all the work that she has done for women's equality.

Rwy'n credu bod Diwrnod Rhyngwladol y Menywod yn gyfle gwych i edrych ar statws menywod yn y gymdeithas. Hoffwn hefyd roi teyrnged i'r Llywydd a'r holl waith y mae wedi'i wneud dros gydraddoldeb i fenywod.

She mentioned 2003, I think it was, when there was a 50/50 balance of men and women in this Assembly. Certainly, in the Labour Party that was as a result of quite a painful process of twinning. I'm sure we remember being burned by that, but what a result—that we were able to contribute to this Assembly and help towards that 50/50 balance. I'm very pleased that Welsh Labour will actually be going now into the Assembly elections, in the 30 seats that we now hold, with 15 women and 15 men in those seats. So, again, I think that is very good that we are keeping up our number of gender-balanced candidates. Because I think it is very important that we keep working at this. I don't think that we ever reach a status quo when the time has arrived: we have to keep working to ensure gender equality.

Soniodd am 2003, rwy'n credu, pan oedd cydbwysedd 50/50 o ddynion a menywod yn y Cynulliad hwn. Yn sicr, yn y Blaid Lafur deilliodd hynny o ganlyniad i broses eithaf poenus o efeillio. Rwy'n siŵr ein bod yn cofio cael ein llosgi gan hynny, ond am ganlyniad—ein bod wedi gallu cyfrannu at y Cynulliad hwn a helpu tuag at y cydbwysedd 50/50 hwnnw. Rwy'n falch iawn y bydd Llafur Cymru mewn gwirionedd yn mynd i mewn i etholiadau'r Cynulliad yn awr, yn y 30 sedd sydd gennym, gyda 15 o fenywod a 15 o ddynion yn y seddi hynny. Felly, unwaith eto, rwy'n meddwl ei bod yn dda iawn ein bod yn cynnal nifer ein hymgeiswyr ar sail cydbwysedd rhwng y rhywiau. Oherwydd rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn ein bod yn parhau i weithio ar hyn. Nid wyf yn credu ein bod byth yn cyrraedd status quo pan fo'r amser yn cyrraedd: mae'n rhaid i ni barhau i weithio i sicrhau cydraddoldeb rhwng y rhywiau.

But, as a celebrated US feminist said, it is hard work being a woman. And it is hard work, for some of the reasons that Jocelyn Davies has referred to, that sexism does exist, and sometimes that sort of sexism is very niggling that you hardly like to mention it because people think that you're being, you know, ultrasensitive. Or, sometimes, it's absolutely outrageous and you can feel very strongly about it. I'd just like to refer to a few examples. I'm sure many of you remember that, last year, a bus advert was placed by New Adventure Travel on the back of its buses in Cardiff to promote a new, all-day £3 fare, and it showed a semi-naked woman holding a sign saying 'Ride me all day for £3'. Now, that was in our capital city. It was just down the road, over here, and that company had not envisaged what—. I cannot imagine what they could have been thinking about. I only think that they didn't think, and they put it on there without thinking of the deep offence that it caused to many women and men. And there was an absolute outrage, and it was withdrawn. But I just want to say that things are improving; we are doing much better in terms of having women in situations of power. Things are getting better, but this underlying sexism is still there and we must beware and we must do what we can to stop it.

Ond fel y dywedodd y ffeminist enwog o'r Unol Daleithiau, mae'n waith caled bod yn fenyw. Ac mae'n waith caled, oherwydd rhai o'r rhesymau y cyfeiriodd Jocelyn Davies atynt, am fod rhywiaeth yn bodoli, ac weithiau mae'r math hwnnw o rywiaeth yng nghefn y meddwl fel nad ydych prin yn hoffi sôn amdano am fod pobl yn meddwl eich bod yn orsensitif, wyddoch chi. Neu weithiau, mae'n hollol warthus a gallwch deimlo'n gryf iawn am y peth. Hoffwn gyfeirio at ychydig o enghreifftiau. Rwy'n siŵr y bydd llawer ohonoch yn cofio, y llynedd, fod New Adventure Travel wedi gosod hysbyseb ar gefn eu bysiau yng Nghaerdydd i hybu tocyn diwrnod £3 newydd, a dangosai fenyw led-noeth yn dal arwydd yn dweud 'Ride me all day for £3'. Nawr, roedd hynny yn ein prifddinas, i lawr y ffordd, draw yma, ac ni ragwelodd y cwmni—. Ni allaf ddychmygu beth allai fod yn mynd drwy eu meddyliau. Credaf nad oeddent wedi meddwl, a rhoesant hynny yno heb feddwl am y tramgwydd dwfn a achosai i lawer o fenywod a dynion. A chafwyd cynnen fawr, ac fe'i tynnwyd yn ôl. Ond rwyf eisiau dweud bod pethau'n gwella; rydym yn gwneud yn llawer gwell o ran cael menywod mewn sefyllfaoedd o bŵer. Mae pethau'n gwella, ond mae'r rhywiaeth sylfaenol yn dal yno a rhaid i ni fod yn wyliadwrus a gwneud yr hyn a allwn i'w atal.

Last week, I was very pleased to visit a restaurant that was going to open in my constituency and went to meet the team who were working there. One of them was a young woman carpenter, and she absolutely loved her job. She said how much she loved it, but she said she was one of a very few female carpenters that she knew. So, I did ask her did she experience any difficulty being the only woman amongst so many men, and she said, no, on the whole, it was all fine, but she did say that, on the building site, the foreman would say to her, 'Are you OK, beaut?' That upset her; she didn't like that, that this expression was used when he spoke to her. She did laugh about it, but she did say that it was a sign of, really, an underlying attitude that I think is sometimes there towards women—you know, 'dear' and 'love' and those sort of expressions that sometimes are meant very well, but sometimes are signs, I think, of underlying sexism. I also met a female British Gas engineer who is a constituent of mine, and she mentioned how she is one of a few female engineers, and she said customers were often quite staggered when they came to the door and she was the engineer.

Yr wythnos diwethaf, roeddwn yn falch iawn o ymweld â bwyty a oedd yn mynd i agor yn fy etholaeth ac euthum i gyfarfod â'r tîm oedd yn gweithio yno. Saer benywaidd ifanc oedd un ohonynt, ac roedd wrth ei bodd yn ei swydd. Dywedodd cymaint roedd hi'n ei hoffi, ond dywedodd ei bod yn un o ychydig iawn o seiri benywaidd y gwyddai amdanynt. Felly, gofynnais iddi a oedd hi'n profi unrhyw anhawster drwy fod yr unig fenyw ymysg cymaint o ddynion, a dywedodd nad oedd, ac ar y cyfan, roedd y cyfan yn iawn, ond fe ddywedodd y byddai'r fforman yn dweud wrthi, ar y safle adeiladu, 'wyt ti'n iawn, biwt?' Roedd hynny'n peri gofid iddi; nid oedd yn hoffi hynny, fod yr ymadrodd hwnnw'n cael ei ddefnyddio pan siaradai â hi. Roedd hi'n chwerthin am y peth, ond fe ddywedodd ei fod yn arwydd, mewn gwirionedd, o ymagwedd sylfaenol sydd yno weithiau tuag at fenywod, rwy'n credu—wyddoch chi, 'bach' a 'cariad' a'r mathau hynny o ymadroddion sy'n cael eu dweud gyda phob bwriad da, ond sydd weithiau'n arwydd o rywiaeth sylfaenol, rwy'n meddwl. Cyfarfûm hefyd â pheiriannydd Nwy Prydain benywaidd sy'n un o fy etholwyr, a soniodd sut y mae'n un o ychydig o beirianwyr benywaidd, a dywedodd fod cwsmeriaid yn aml yn eithaf syfrdan wrth agor y drws a gweld mai hi yw'r peiriannydd.

But, of course, change is happening all the time, and I think it's important to end on a positive note that we now have the first female president of the Institution of Engineering and Technology. It's taken 144 years to get to this point, so no-one could say that change has been speedy, but I congratulate Naomi Climer on her appointment, and I hope it will inspire new, younger generations of girls and women to become engineers and technicians of the future.

Ond wrth gwrs, mae newid yn digwydd drwy'r amser, ac rwy'n credu ei bod yn bwysig gorffen ar nodyn cadarnhaol fod gennym bellach lywydd benywaidd cyntaf ar y Sefydliad Peirianneg a Thechnoleg. Mae wedi cymryd 144 mlynedd i gyrraedd y pwynt hwn, felly ni allai neb ddweud bod newid wedi bod yn gyflym, ond rwy'n llongyfarch Naomi Climer ar ei phenodiad, ac rwy'n gobeithio y bydd yn ysbrydoli cenedlaethau newydd iau o ferched a menywod i ddod yn beirianwyr a thechnegwyr yn y dyfodol.

16:48 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm very proud to take part in this debate today in recognition of International Women's Day, and I was proud of my membership of the Presiding Officer's caucus, too. It was a very challenging project that we undertook, but I think that, perhaps particularly as an economy spokesperson for my party, what I very much saw is that the representation of women in public life must also be reflected in the representation of women in the private sector and in our economy more generally, too. Our society just cannot thrive if 50 per cent of our population can't be a full part of it. And I think the biggest challenge to equality in Britain today is complacency. For that reason, I would caution the Conservatives today on the amendments that they have tabled, because, whilst progress is of course welcome, and we should be proud of the achievements that we've made, we really must guard against congratulating ourselves too soon when the challenges really haven't been won yet.

Rwy'n falch iawn o gymryd rhan yn y ddadl hon heddiw i gydnabod Diwrnod Rhyngwladol y Menywod, ac roeddwn yn falch o fy aelodaeth o gawcws y Llywydd hefyd. Roedd yn brosiect heriol iawn a gynhaliwyd gennym, ond rwy'n meddwl mai'r hyn a welais, yn arbennig fel llefarydd fy mhlaid ar yr economi efallai, oedd bod yn rhaid i gynrychiolaeth menywod mewn bywyd cyhoeddus gael ei hadlewyrchu yn y gynrychiolaeth o fenywod yn y sector preifat ac yn ein heconomi yn fwy cyffredinol hefyd. Ni all ein cymdeithas ffynnu os na all 50 y cant o'n poblogaeth fod yn rhan lawn ohoni. Ac rwy'n meddwl mai'r her fwyaf i gydraddoldeb ym Mhrydain heddiw yw hunanfodlonrwydd. Am y rheswm hwnnw, byddwn yn rhybuddio'r Ceidwadwyr heddiw ynglŷn â'r gwelliannau y maent wedi'u cyflwyno, oherwydd, er bod cynnydd i'w groesawu wrth gwrs, a dylem fod yn falch o'r hyn a gyflawnwyd gennym, mae gwir raid i ni ochel rhag llongyfarch ein hunain yn rhy fuan pan nad yw'r heriau wedi'u goresgyn eto mewn gwirionedd.

I have to confess I was guilty of that complacency, too. When I first left college and went into the workplace, I thought that the work that my parents' generation had done pretty much meant that life would be relatively equal for me. I think it was when I first had children I realised that, actually, all of the blocks were stacked against me. Unconscious and conscious bias comes to the fore, then, and it's subtle things, like I was asked by my boss on one occasion if I was really that interested in my career progression now that I had a family, because, clearly, I would have other priorities. There's the casual assumption that mum is always the primary carer, that the school will always phone mum when your child has had a bump or a scrape, and, in my family's case, that's on a weekly basis.

Mae'n rhaid i mi gyfaddef fy mod yn euog o hunanfodlonrwydd o'r fath hefyd. Pan adewais y coleg yn gyntaf a mynd i'r gweithle, credwn fod y gwaith a wnaeth cenhedlaeth fy rhieni yn golygu i raddau helaeth y byddai bywyd yn gymharol gyfartal i mi. Rwy'n credu mai pan gefais blant gyntaf y sylweddolais mewn gwirionedd fod yr holl flociau wedi'u pentyrru yn fy erbyn. Daw rhagfarn anymwybodol ac ymwybodol i'r amlwg bryd hynny, ac mae'n ymwneud â phethau cynnil, fel fy rheolwr yn gofyn ar un achlysur os oedd gennyf gymaint â hynny o ddiddordeb mewn camu ymlaen yn fy ngyrfa gan fod gennyf deulu bellach, oherwydd, yn amlwg, byddai gennyf flaenoriaethau eraill. Mae yna ragdybiaeth ddiofal mai mam yw'r prif ofalwr bob amser, y bydd yr ysgol bob amser yn ffonio mam pan fydd eich plentyn wedi taro'i ben neu gael crafiad, ac yn achos fy nheulu i, digwyddai hynny'n wythnosol.

In some ways, I think those subtle, unconscious sources of bias are even more corrosive than the obvious ones, because they so often go unchallenged. They silently embed inequality and they normalise it in our society, and we have to be so cautious with that. We see the casual gendering of roles, for example, in school plays—and yes, I agree, a male Mary in the infant nativity is probably a bit art house, but I've seen some shocking examples of school concerts featuring classes dressed up as chefs and waitresses, sportsmen and cheerleaders, princesses and heroes—yes, very recently—and I think we can do better than that. And, yes, I am a joy at parents' evenings, as you can imagine. But I do think that there's an opportunity to deliver training in our schools to identify and then tackle some of those unconscious biases before they have a truly corrosive impact on the future life expectations of children of both genders, because that drip, drip of gender norms from the most formative parts of our lives leads to the gender disparity we see in occupations later in life.

Mewn rhai ffyrdd, rwy'n meddwl bod ffynonellau cynnil, anymwybodol o'r fath o ragfarn hyd yn oed yn fwy cyrydol na'r rhai amlwg, gan eu bod yn aml yn cael eu gadael heb eu herio. Maent yn ymgorffori anghydraddoldeb yn dawel ac yn ei normaleiddio yn ein cymdeithas, ac mae'n rhaid i ni fod mor ofalus ynglŷn â hynny. Rydym yn gweld gwahaniaethu diofal rhwng rolau ar sail rhyw, er enghraifft, mewn dramâu ysgol—ac ydw, rwy'n cytuno bod cael Mair wrywaidd yn nrama geni'r babanod yn gelf braidd yn arbrofol yn ôl pob tebyg, ond rwyf wedi gweld rhai enghreifftiau brawychus o gyngherddau ysgol yn cynnwys dosbarthiadau wedi gwisgo fel cogyddion a gweinyddesau, mabolgampwyr a chodwragedd hwyl, tywysogesau ac arwyr—do, yn ddiweddar iawn—ac rwy'n meddwl y gallwn wneud yn well na hynny. Ac, ydw, rwy'n llawn o sbort ar nosweithiau rhieni, fel y gallwch ddychmygu. Ond rwy'n meddwl bod yna gyfle i gyflwyno hyfforddiant yn ein hysgolion i nodi a mynd i'r afael â rhai o'r rhagfarnau anymwybodol hynny cyn iddynt gael effaith wirioneddol gyrydol ar ddisgwyliadau bywyd plant o'r ddau ryw yn y dyfodol, oherwydd bod drip-drip normau rhywedd o'r rhannau mwyaf ffurfiannol o'n bywydau yn arwain at yr anghyfartalwch rhwng y rhywiau a welwn mewn galwedigaethau yn ddiweddarach mewn bywyd.

The report published earlier this week into the crisis in women in science careers should be a call to arms, but it shouldn't be a shock to us. You cannot be surprised if your daughter doesn't grow up to be an engineer if you've never dressed her as one, perhaps, to go into school at some point—if you have gendered her choices from that early age.

Dylai'r adroddiad a gyhoeddwyd yn gynharach yr wythnos hon ar argyfwng y prinder menywod mewn gyrfaoedd gwyddonol fod yn alwad i'r gad, ond ni ddylai fod yn sioc i ni. Ni allwch synnu os nad yw eich merch yn tyfu i fyny i fod yn beiriannydd os nad ydych erioed wedi'i gwisgo fel un, efallai, i fynd i'r ysgol ar ryw bwynt—os ydych wedi trefnu ei dewisiadau ar sail rhyw o oedran cynnar.

But assumptions aren't the only reason that science careers are dominated by men. The leaky pipeline, as it's called, into academia, with short-term contracts, difficulty taking career breaks, people's attitudes towards those career breaks, and long, inflexible working hours, must also be tackled if we want to see real change.

Ond nid rhagdybiaethau yw'r unig reswm mai dynion yn bennaf sy'n dewis gyrfaoedd gwyddonol. Os ydym am weld newid go iawn, mae'n rhaid mynd i'r afael hefyd â'r biben sy'n gollwng, fel y'i gelwir, i'r byd academaidd, gyda chontractau tymor byr, anhawster i gymryd seibiant gyrfa, agweddau pobl tuag at seibiant gyrfa o'r fath, ac oriau gwaith hir ac anhyblyg.

There are also practical barriers that we must be proactive about. For example, childcare is a big one; the lack of flexibility in childcare is a big problem. If you work in a senior position, you cannot get childcare outside of perhaps 8 a.m. until 6 o'clock in the evening, and that simply isn't good enough for the flexible way in which the modern workforce works.

Mae yna rwystrau ymarferol hefyd sy'n rhaid i ni fod yn rhagweithiol yn eu cylch. Er enghraifft, mae gofal plant yn un mawr; mae diffyg hyblygrwydd mewn gofal plant yn broblem fawr. Os ydych yn gweithio mewn swydd uwch, ni allwch gael gofal plant y tu allan i tua 8 o'r gloch y bore tan 6 o'r gloch yr hwyr, ac nid yw hynny'n ddigon da ar gyfer y ffordd hyblyg y mae'r gweithlu modern yn gweithio.

We have to be honest as well about what we provide to parents in terms of the free childcare places that are offered from the age of three for two and a half hours a day, five days a week. Many working parents cannot take advantage of that because they're in work, and there is no wraparound care. That needs to be tackled. We have to recognise as well that, if we're starting that support when the child is three years old, we're expecting a woman to take a three-year gap in her career before that support kicks in. That first three years are the most expensive; they are when the ratios have to be the smallest for child to carer, and, for that reason, women have to take longer breaks than they might otherwise have done, and they tend to go back then into their careers at a lower skill level than they might have done if they'd taken a shorter break.

Rhaid i ni fod yn onest hefyd am yr hyn rydym yn ei ddarparu i rieni o ran y lleoedd gofal plant am ddim sy'n cael eu cynnig i blant o dair oed am ddwy awr a hanner y dydd, bum diwrnod yr wythnos. Ni all llawer o rieni sy'n gweithio fanteisio arno am eu bod yn gweithio, ac ni cheir gofal cofleidiol. Mae angen mynd i'r afael â hynny. Os ydym yn dechrau'r cymorth hwnnw pan fydd y plentyn yn dair oed, rhaid i ni gydnabod hefyd ein bod yn disgwyl i fenyw gymryd toriad o dair blynedd yn ei gyrfa cyn i'r cymorth hwnnw gychwyn. Y tair blynedd gyntaf yw'r rhai mwyaf drud; dyna pryd y ceir y cymarebau plentyn/gofalwr lleiaf, ac am y rheswm hwnnw, rhaid i fenywod gymryd seibiant hwy nag y byddent wedi'i wneud fel arall o bosibl, ac maent yn tueddu i ddychwelyd at eu gyrfaoedd felly ar lefel sgiliau is nag y byddent wedi'i wneud pe baent wedi cymryd seibiant byrrach.

Then there's transport: not only the cost of transport, but, in some places, the lack of access to transport. In terms of cost, though, I'm very pleased to see Arriva Trains Wales introducing a carnet system for part-time workers, which is very welcome, but we need to look at part-time season tickets.

Wedyn, mae trafnidiaeth: nid yn unig cost trafnidiaeth, ond mewn rhai mannau, diffyg mynediad at drafnidiaeth. O ran y gost, fodd bynnag, rwy'n falch iawn o weld Trenau Arriva Cymru yn cyflwyno system drwydded ar gyfer gweithwyr rhan-amser, sydd i'w chroesawu'n fawr, ond mae angen i ni edrych ar docynnau tymor rhan-amser.

So, yes, we have a lot of progress to welcome. We have a lot to be celebrating here in Wales particularly. But we must keep up the pressure if we're to see those unconscious sources of bias removed from our society entirely.

Felly, do, gwnaed llawer o gynnydd sydd i'w groesawu. Mae gennym lawer i'w ddathlu yma yng Nghymru yn arbennig. Ond rhaid i ni gynnal y pwysau os ydym i weld y ffynonellau anymwybodol hynny o ragfarn yn cael eu dileu o'n cymdeithas yn gyfan gwbl.

16:53 **Joyce Watson** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm really pleased to be able to take part in this debate today, and I hope that it would be the case that we always have an international women's debate, and that we always look at those issues that affect women disproportionally to those that affect men.

Rwy'n hynod o falch o allu cymryd rhan yn y ddadl hon heddiw, ac rwy'n gobeithio y gallem gael dadl ar ddiwrnod rhyngwladol y menywod bob amser, a'n bod bob amser yn edrych ar y materion sy'n effeithio'n anghyfartal ar fenywod o gymharu â dynion.

One of those areas that clearly do affect women disproportionate to those affecting men is the role of carers. I want today to mention those women who are not in the workforce because they are caring for others. It is the case that 58 per cent of carers in the UK are women, and that increases to over 60 per cent when there are more than 60 hours of care provided. Many women in Wales are juggling either full- or part-time work as well as providing a substantial number of hours of unpaid care to loved ones. The Welsh Government did bring forward a landmark Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 under the guidance of Gwenda, and I want to pay tribute to her, because that will come into force on 6 April. It is a massively important piece of legislation, and it will benefit women—and men, as well—who are providing care, because, as carers, they will have an equal right to assessment for support to those who they care for. There's also an additional £2 million funding package that's being made available over the next two years to provide support to carers, and I think that that is a hugely welcome investment.

Un o'r meysydd hynny sy'n amlwg yn effeithio'n anghyfartal ar fenywod o gymharu â dynion yw rôl gofalwyr. Heddiw hoffwn sôn am y menywod nad ydynt yn y gweithlu am eu bod yn gofalu am eraill. Mae'n wir fod 58 y cant o ofalwyr yn y DU yn fenywod, ac mae hynny'n cynyddu i dros 60 y cant pan ddarperir mwy na 60 awr o ofal. Mae llawer o fenywod yng Nghymru yn jyglo gwaith amser llawn neu waith rhan-amser yn ogystal â darparu nifer sylweddol o oriau o ofal yn ddi-dâl i anwyliaid. Cyflwynodd Llywodraeth Cymru Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 o dan arweiniad Gwenda, ac rwyf am dalu teyrnged iddi, gan y bydd y ddeddf arwyddocaol hon yn dod i rym ar 6 Ebrill. Mae'n ddeddfwriaeth aruthrol o bwysig, a bydd o fudd i'r menywod—a'r dynion hefyd—sy'n darparu gofal, oherwydd fel gofalwyr, bydd ganddynt hawl cyfartal i gael asesiad am gymorth i'r rhai y maent yn gofalu amdanynt. Ceir pecyn cyllid ychwanegol o £2 filiwn hefyd a ddaw ar gael dros y ddwy flynedd nesaf i ddarparu cymorth i ofalwyr, a chredaf fod hwnnw'n fuddsoddiad sydd i'w groesawu'n fawr.

We have seen—there are amendments down to today's debate that talk about and speak about the gender pay gap. We have heard from earlier comments about more women being employed than ever before, and we can read the miniscule progression that has been made in terms of equalising pay for women. But, if we are truly wanting to close the gender pay gap, then what we really have to do is actually take women out of the traditionally low-paid work that they very often find themselves in and move them into the higher-paid higher-skilled jobs that they can enjoy. It is the case that that is happening through the Agile Nation 2 project that Chwarae Teg have been funded to provide with £10.2 million of funding from the Welsh Government and the European social fund, so that those women will have real opportunities to take themselves into the world of work, but, more importantly, as most of them are single mothers, to take their families out of poverty.

Rydym wedi gweld—ceir gwelliannau i ddadl heddiw sy'n trafod ac yn siarad am y bwlch cyflog rhwng y rhywiau. Clywsom sylwadau yn gynharach am fwy o fenywod yn cael eu cyflogi nag erioed o'r blaen, a gallwn weld y cynnydd bach iawn a wnaed o ran cydraddoli cyflogau menywod. Ond os ydym o ddifrif eisiau cau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau, yna yr hyn sydd gennym i'w wneud mewn gwirionedd yw codi menywod allan o'r gwaith ar gyflogau isel y maent yn aml iawn yn ei wneud yn draddodiadol a'u symud i swyddi ar gyflogau uwch sy'n galw am fwy o sgiliau, swyddi y gallant eu mwynhau. Mae'n wir fod hynny'n digwydd drwy'r prosiect Cenedl Hyblyg 2 yr ariannwyd Chwarae Teg i'w ddarparu gyda £10.2 miliwn o gyllid gan Lywodraeth Cymru a chronfa gymdeithasol Ewrop, fel bod cyfleoedd go iawn gan y menywod hyn i fynd i mewn i fyd gwaith, ond yn bwysicach, gan fod y rhan fwyaf ohonynt yn famau sengl, i godi eu teuluoedd allan o dlodi.

It is obviously the case that, when we are looking at huge investments, and many of those investments that we talk about are in research and development and engineering, that we look at working with partners outside, like the Construction Industry Training Board and the Institution of Civil Engineers, who are doing really good work in this area, and that we actually turn around the statistics that currently exist, where the maximum number of women in construction is 11 per cent. That is definitely not good enough if we are talking about 50 per cent of women being the case.

Mae'n amlwg yn wir, pan edrychwn ar fuddsoddiadau enfawr—ac mae llawer o'r buddsoddiadau rydym yn siarad amdanynt ym maes ymchwil a datblygu a pheirianneg—ein bod yn edrych ar weithio gyda phartneriaid ar y tu allan, fel Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu a Sefydliad y Peirianwyr Sifil, sy'n gwneud gwaith da iawn yn y maes hwn, a'n bod mewn gwirionedd yn gwrthdroi'r ystadegau presennol, lle mae'r uchafswm o fenywod yn y diwydiant adeiladu yn 11 y cant. Yn sicr, nid yw hynny'n ddigon da os ydym yn sôn am 50 y cant o fenywod.

We do need to be quite serious about what it is that we're doing when we're talking about those things that affect women particularly more so than men. I'm very proud that, when we brought forward the legislation to end violence against women, we did focus and did keep the name 'women'. It was mentioned yesterday by a Member of Parliament, whose name now escapes me, I'm afraid, in Westminster that 120 women—and they were named in Westminster yesterday—died as a consequence of violence against the person. That is why I'm pleased that we kept the focus on women. Hopefully, next year, when we go to discuss the consequences of that Bill and the appointments that have followed, we won't be talking about 120 women who have been killed. Thank you.

Mae angen i ni fod o ddifrif ynghylch yr hyn a wnawn pan soniwn am y pethau sy'n effeithio ar fenywod yn benodol yn fwy felly na dynion. Pan gyflwynasom y ddeddfwriaeth i roi diwedd ar drais yn erbyn menywod, rwy'n falch iawn ein bod wedi canolbwyntio ar, a chadw'r gair 'menywod'. Cafodd ei grybwyll ddoe gan Aelod Seneddol yn San Steffan, nad wyf yn cofio'i henw yn awr, rwy'n ofni, fod 120 o fenywod—a chawsant eu henwi ddoe yn San Steffan—wedi marw o ganlyniad i drais yn erbyn yr unigolyn. Dyna pam rwy'n falch ein bod yn cadw'r ffocws ar fenywod. Y flwyddyn nesaf, pan fyddwn yn trafod canlyniadau'r Bil hwnnw a'r penodiadau a'i dilynodd, gobeithio na fyddwn yn sôn am 120 o fenywod a gafodd eu lladd. Diolch.

16:58

## Gwenda Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Joyce for her comments, but I rise to speak of what I see as some influential men in my life, and to say that I had a father who encouraged free speech in our home. I didn't join the Labour movement, I was born into it, and I've never felt the need to leave it. I had a husband who was of unconditional support, but I realise that that's not as easy for everybody. Twenty-seven years ago, I was elected as a member of West Glamorgan County Council and became the first woman chair of a major committee. Chauvinism was dying very, very hard at that time, and much of the time in committee, being that I was the only woman there, was spent apologising for slipped swear words, and you can imagine the scenario that existed.

Hoffwn ddiolch i Joyce am ei sylwadau, ond rwy'n codi i siarad am yr hyn rwy'n eu gweld fel dynion dylanwadol yn fy mywyd, ac i ddweud fy mod wedi cael tad a anogai ryddid i lefaru yn ein cartref. Nid ymunais â'r mudiad Llafur, cefais fy ngeni i mewn iddo, ac nid wyf erioed wedi teimlo'r angen i'w adael. Roedd gennyf ŵr a roddodd ei gefnogaeth ddiamod, ond rwy'n sylweddoli nad oedd hynny mor hawdd i bawb. Saith mlynedd ar hugain yn ôl, cefais fy ethol yn aelod o Gyngor Sir Gorllewin Morgannwg a deuthum yn gadeirydd benywaidd cyntaf ar bwyllgor pwysig. Roedd siofiniaeth yn mynd drwy farwolaeth araf iawn ar y pryd, a threulid llawer o amser y pwyllgor, gan mai fi oedd yr unig fenyw yno, yn ymddiheuro am regfeydd a lithrai allan, a gallwch ddychmygu'r senario a oedd yn bodoli.

However, I would like to take this opportunity to pay tribute to two leaders of West Glamorgan County Council, Fred Kingdom and Tom Jones—enlightened men who encouraged me, who pushed me a bit, who showed that this could be done. I did chair the social services committee, and I do believe that, without their encouragement, I wouldn't be where I am today and I wouldn't have had the honour to be an Assembly Member here for 17 years. Therefore, Deputy Presiding Officer, in my opinion, true respect between women and men, and men and women, will be the very best boost for women in our society. Diolch yn fawr.

Fodd bynnag, hoffwn fachu ar y cyfle hwn i dalu teyrnged i ddau arweinydd Cyngor Sir Gorllewin Morgannwg, Fred Kingdom a Tom Jones—dynion goleuedig a wnaeth fy annog, a fy ngwthio ychydig, ac a ddangosodd y gellid gwneud hyn. Fe gadeiriais y pwyllgor gwasanaethau cymdeithasol, ac rwy'n credu, heb eu hanogaeth, na fyddwn lle rwyf fi heddiw, ac ni fyddwn wedi cael y fraint o fod yn Aelod Cynulliad yma ers 17 mlynedd. Felly, Ddirprwy Lywydd, yn fy marn i, parch gwirioneddol rhwng menywod a dynion, a dynion a menywod, fydd yr hwb gorau oll i fenywod yn ein cymdeithas. Diolch yn fawr.

17:00

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

And I call the Minister for Communities and Tackling Poverty—Lesley Griffiths.

A galwaf ar y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi—Lesley Griffiths.

17:00 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty*

How do I follow that? Thank you, Deputy Presiding Officer. I'm very pleased to have the opportunity to respond on behalf of the Welsh Government to this debate today in recognition of International Women's Day 2016. This day celebrates the achievements and progress that we have made, but also highlights the barriers we face still standing in the way of true equality for women and girls, including the lack of women in decision-making roles, the unequal division of care, in-work poverty, domestic violence, and the gender pay gap.

Sut y mae dilyn hynny? Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n falch iawn o gael cyfle i ymateb ar ran Llywodraeth Cymru i'r ddadl hon heddiw i gydnabod Diwrnod Rhyngwladol y Menywod 2016. Mae'r diwrnod yn dathlu'r cyflawniadau a'r cynnydd a wnaethom, ond mae hefyd yn tynnu sylw at y rhwystrau a wynebwn o hyd rhag sicrhau gwir gydraddoldeb i fenywod a merched, gan gynnwys y diffyg menywod mewn rolau sy'n galw am wneud penderfyniadau, rhaniad anghyfartal gofal, tlodi mewn gwaith, trais domestig, a'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau.

Last week, I published a written statement setting out this Welsh Government's continued commitment to International Women's Day and to tackling gender equality in Wales. Our strategic equality plan contains the actions we are taking to help women and girls to access, achieve and aspire within education, training and employment. It also sets out what we're doing to tackle gender stereotyping and enable women to access the careers of their choice. We are encouraging and supporting women into different and often male-dominated sectors.

Yr wythnos diwethaf, cyhoeddais ddatganiad ysgrifenedig yn nodi ymrwymiad parhaus y Llywodraeth hon yng Nghymru i Ddiwrnod Rhyngwladol y Menywod ac i fynd i'r afael â chydraddoldeb rhwng y rhywiau yng Nghymru. Mae ein cynllun cydraddoldeb strategol yn cynnwys y camau gweithredu rydym yn eu cymryd i helpu menywod a merched i gael mynediad, i gyflawni ac i gael uchelgais mewn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. Mae hefyd yn nodi'r hyn rydym yn ei wneud i fynd i'r afael â stereoteipio ar sail rhyw a galluogi menywod i gael mynediad at yrfaoedd o'u dewis. Rydym yn annog ac yn cynorthwyo menywod i fynd i mewn i sectorau gwahanol lle y ceir llawer mwy o ddynion nag o fenywod yn aml.

Our funding for Chwarae Teg's Agile Nation 2 announced in April last year will support over 2,000 women in work with employers in the industry sector to promote female career advancement. We need to continue to build women's confidence and their skills so they can enter a wider range of sectors and achieve positions of influence in these areas. To support this, we held two 'Girls Make a Difference' conferences in 2014 and 2015, which brought role models and year 12 and 13 girls together. The speakers were inspiring and encouraged the young women to consider a wide range of non-traditional careers. We're also proud to support the Women's Equality Network Wales in delivering four International Women's Day events across Wales.

Bydd ein cyllid ar gyfer Cenedl Hyblyg 2 Chwarae Teg a gyhoeddwyd ym mis Ebrill y llynedd yn cefnogi dros 2,000 o fenywod mewn gwaith gyda chyflogwyr yn y sector diwydiant i hyrwyddo datblygiad gyrfa ymhlith menywod. Mae angen i ni barhau i feithrin hyder a sgiliau menywod fel y gallant fynd i ystod ehangach o sectorau a chael swyddi dylanwadol yn y meysydd hyn. I gefnogi hyn, cynaliasom ddwy gynhadledd 'Merched yn Gwneud Gwahaniaeth' yn 2014 a 2015, a ddaeth â modelau rôl a merched blwyddyn 12 a blwyddyn 13 at ei gilydd. Roedd y siaradwyr yn ysbrydoli ac yn annog y menywod ifanc i ystyried ystod eang o yrfaoedd anhraddodiadol. Rydym hefyd yn falch o gynorthwyo Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru i gynnal pedwar digwyddiad Diwrnod Rhyngwladol y Menywod ledled Cymru.

I believe our economy is strongest when everyone has the chance to contribute. This means we must help parents to balance working life with family life, and tackle the barriers that restrict participation in the workplace. Improving access to high-quality, affordable childcare is a key priority of this Government. It enables parents to work or to access training, and supports our drive to increase economic growth, tackle poverty and reduce inequalities. Last October, I announced the parents, childcare and employment project, which is jointly funded by Welsh Government and the European social fund. It aims to support around 8,000 parents to source and fund childcare, enabling parents to train or get work experience and improve their job prospects. The majority of these parents are expected to be female lone parents and, over the next two years, just over £7 million has been allocated to help remove childcare barriers.

Rwy'n credu bod ein heconomi ar ei chryfaf pan fydd pawb yn cael cyfle i gyfrannu. Golyga hyn fod yn rhaid i ni helpu rhieni i gydbwyso bywyd gwaith a bywyd teuluol, a mynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n cyfyngu ar gyfranogiad yn y gweithle. Mae gwella mynediad at ofal plant fforddiadwy o ansawdd uchel yn flaenoriaeth allweddol i'r Llywodraeth hon. Mae'n galluogi rhieni i weithio neu i gael mynediad at hyfforddiant, ac yn cefnogi ein hymgyrch i hybu twf economaidd, trechu tlodi a lleihau anghydraddoldebau. Fis Hydref diwethaf, cyhoeddais y prosiect rhieni, gofal plant a chyflogaeth, a ariennir ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a chronfa gymdeithasol Ewrop. Ei nod yw cynorthwyo tua 8,000 o rieni i gyllido a dod o hyd i ofal plant, gan alluogi rhieni i hyfforddi neu gael profiad gwaith a gwella eu rhagolygon gwaith. Disgwylir mai rhieni unigol benywaidd fydd y rhan fwyaf o'r rhieni hyn a thros y ddwy flynedd nesaf, dyrennir ychydig dros £7 miliwn i helpu i gael gwared ar rwystrau i ofal plant.

International Women's Day also provides the opportunity to highlight the fantastic achievements of so many organisations and individuals across Wales in working towards gender equality. At this point, I, too, would like to recognise the work of our Presiding Officer, Dame Rosemary Butler, and her Women in Public Life campaign. Her tireless work on this campaign has ensured women who previously did not have the confidence to enter public life now feel encouraged to do so, and I am sorry that, due to Plenary business, I was not able to join you last night at your final event.

Mae Diwrnod Rhyngwladol y Menywod hefyd yn rhoi cyfle i dynnu sylw at lwyddiannau gwych cynifer o sefydliadau ac unigolion ledled Cymru wrth weithio tuag at gydraddoldeb rhwng y rhywiau. Ar y pwynt hwn, hoffwn innau hefyd gydnabod gwaith ein Llywydd, y Fonesig Rosemary Butler, a'i hymgyrch Menywod mewn Bywyd Cyhoeddus. Mae ei gwaith diflino ar yr ymgyrch hon wedi sicrhau bod menywod nad oedd ganddynt yr hyder i fynd i mewn i fywyd cyhoeddus yn flaenorol bellach yn teimlo anogaeth i wneud hynny, ac mae'n ddrwg gennyf nad oeddwn yn gallu ymuno â chi neithiwr yn eich digwyddiad olaf oherwydd busnes y Cyfarfod Llawn.

However, we know women are still missing from public life and from many of the top jobs in Wales. The majority of public appointments in Wales are still men, and most of the chairperson positions are held by men. The Welsh Government has pledged its commitment to the 50/50 by 2020 campaign, alongside employers and organisations in all sectors in Wales. Signing up to the campaign shows employers' public commitment to working towards equal gender representation in decision-making and influencing roles in Wales. We've continued our focus on increasing the number of women in public appointments and, in January, we published our call for evidence summary report. We are making progress. The overall number of women on boards has been creeping upwards, with female representation on regulated public sector boards at over 40 per cent in April 2015.

Fodd bynnag, gwyddom fod prinder menywod mewn bywyd cyhoeddus ac yn llawer o'r swyddi uchaf yng Nghymru. Dynion yw'r rhan fwyaf o benodiadau cyhoeddus yng Nghymru o hyd, a dynion yw'r rhan fwyaf o gadeiryddion. Mae Llywodraeth Cymru wedi addo ei hymrwymiad i'r ymgyrch 50/50 erbyn 2020, ochr yn ochr â chyflogwyr a sefydliadau ym mhob sector yng Nghymru. Mae ymuno â'r ymgyrch yn dangos ymrwymiad cyhoeddus cyflogwyr i weithio tuag at gynrychiolaeth gyfartal y rhywiau mewn rolau sy'n galw am wneud penderfyniadau a dylanwadu yng Nghymru. Rydym wedi parhau ein ffocws ar gynyddu nifer y menywod mewn penodiadau cyhoeddus ac ym mis Ionawr, cyhoeddwyd ein galwad am adroddiad cryno ar y dystiolaeth. Rydym yn gwneud cynnydd. Mae nifer cyffredinol y menywod ar fyrddau wedi codi'n raddol, a chyrhaeddodd cynrychiolaeth menywod ar fyrddau yn y sector cyhoeddus rheoledig dros 40 y cant ym mis Ebrill 2015.

I'm also proud to highlight our four commissioners in Wales, who are all female—commissioners for future generations, older people, children and Welsh language. These significant public appointments showcase the talent we have here in Wales and will, I believe, encourage other women to put themselves forward. Sandy Mewies mentioned the female leadership roles we have here in the Assembly, and it's good the chief executive, Claire Clancy, is with us. And also in Welsh Government, the chief veterinary officer, the chief medical officer and the chief scientific officer—all female.

Rwyf hefyd yn falch o dynnu sylw at ein pedwar comisiynydd yng Nghymru, sydd i gyd yn fenywod—y comisiynwyr ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, pobl hŷn, plant a'r iaith Gymraeg. Mae'r penodiadau cyhoeddus arwyddocaol hyn yn arddangos y doniau sydd gennym yma yng Nghymru ac yn fy marn i, bydd yn annog menywod eraill i gynnig eu hunain. Crybwyllodd Sandy Mewies y rolau arweiniol benywaidd sydd gennym yma yn y Cynulliad, ac mae'n dda fod y prif weithredwr, Claire Clancy, gyda ni. Ac yn Llywodraeth Cymru hefyd, mae'r prif swyddog milfeddygol, y prif swyddog meddygol a'r prif swyddog gwyddonol oll yn fenywod.

Welsh Government is supportive of the motion as tabled by the Presiding Officer today. We recognise and value the social, economic, cultural and political achievement of women in Wales, and we will continue to take effective action to achieve gender parity, particularly in public life.

Mae Llywodraeth Cymru yn gefnogol i'r cynnig fel y'i cyflwynwyd gan y Llywydd heddiw. Rydym yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi cyflawniadau cymdeithasol, economaidd, diwylliannol a gwleidyddol menywod yng Nghymru, a byddwn yn parhau i roi camau effeithiol ar waith i sicrhau cydraddoldeb rhwng y rhywiau, yn enwedig mewn bywyd cyhoeddus.

Turning to the amendments, all tabled by the Welsh Conservatives, we support amendment 1 and confirm our continued commitment to tackling the underlying issues which create gender pay inequality. We recognise here in Wales it is not an even playing field, with women often concentrated in low-paid, part-time work.

Gan droi at y gwelliannau, a gyflwynwyd gan y Ceidwadwyr Cymreig bob un, rydym yn cefnogi gwelliant 1 ac yn cadarnhau ein hymrwymiad parhaus i fynd i'r afael â'r problemau sylfaenol sy'n creu anghydraddoldeb cyflog rhwng y rhywiau. Rydym yn cydnabod yma yng Nghymru, na cheir chwarae teg, gyda llawer mwy o fenywod yn aml mewn gwaith rhan-amser sy'n talu cyflogau isel.

We also support amendment 2. In Wales since 2011, the number of women in employment has increased by over 20,000. We will continue in our actions to increase access to childcare provision, as well as training and employment opportunities in Wales.

Rydym hefyd yn cefnogi gwelliant 2. Yng Nghymru ers 2011, gwelwyd cynnydd o dros 20,000 yn nifer y menywod mewn gwaith. Byddwn yn parhau â'n camau gweithredu i gynyddu mynediad at ddarpariaeth gofal plant, yn ogystal â chyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth yng Nghymru.

We support amendment 3, and welcome the announcement that league tables will be published. However, we know simply reporting the gender pay gap is not enough. We already have a robust equal pay duty, introduced through our Welsh-specific equality duties, and Welsh Government actions are focused on addressing the root causes of pay differences, which will help to ensure a level playing field for all. This is why we provide support for programmes such as Women Adding Value to the Economy. We are encouraging employers across Wales to make use of WAVE's gender employment and pay analysis method to identify where gender pay gaps exist, and also look at ways in which gender patterns and ways of working could be addressed.

Rydym yn cefnogi gwelliant 3, ac yn croesawu'r cyhoeddiad y bydd tablau cynghrair yn cael eu cyhoeddi. Fodd bynnag, gwyddom nad yw adrodd am y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn ddigon ynddo'i hun. Mae gennym ddyletswydd cyflog cyfartal cadarn eisoes, a gyflwynwyd drwy ein dyletswyddau cydraddoldeb sy'n benodol i Gymru, ac mae camau gweithredu Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar fynd i'r afael ag achosion sylfaenol gwahaniaethau cyflog, a fydd yn helpu i sicrhau chwarae teg i bawb. Dyma pam rydym yn darparu cymorth ar gyfer rhaglenni fel Menywod yn Ychwanegu Gwerth at yr Economi. Rydym yn annog cyflogwyr ledled Cymru i wneud defnydd o ddull dadansoddi cyflogaeth a chyflogau y ddau ryw Menywod yn Ychwanegu Gwerth at yr Economi er mwyn nodi lle y ceir bylchau cyflog rhwng y rhywiau, ac i edrych hefyd ar ffyrdd y gellid mynd i'r afael â phatrymau a ffyrdd o weithio y ddau ryw.

We oppose amendment 4, although we welcome the Family and Childcare Trust's 2016 childcare survey. Whilst the survey does show the increase in nursery costs for 25 hours of care, in Wales, between 2015 and 2016—was higher than in the rest of the UK. Such annual changes in cost are volatile, and the average cost of childcare in Wales remains lower than the UK average.

Rydym yn gwrthwynebu gwelliant 4, er ein bod yn croesawu arolwg gofal plant yr Ymddiriedolaeth Teuluoedd a Gofal Plant ar gyfer 2016. Er bod yr arolwg yn dangos bod y cynnydd yng nghostau meithrinfeydd am 25 awr o ofal yng Nghymru rhwng 2015 a 2016 yn uwch nag yng ngweddill y DU—. Mae newidiadau blynyddol o'r fath yn y gost yn gyfnewidiol, ac mae cost gofal plant yng Nghymru ar gyfartaledd yn parhau'n is na chyfartaledd y DU.

Wales has much to be proud of in addressing the issues which prevent women from working or from reaching their full potential. We're also continuing in our commitment to advance the roles of women in public life. We are not complacent; we know we have come a long way since the first International Women's Day in 1911, but significant barriers do remain. Today's debate demonstrates how important International Women's Day is in bringing men and women together to discuss the issues around gender inequality today, and to look for even more opportunities to address this.

Mae gan Gymru lawer i ymfalchïo ynddo wrth fynd i'r afael â'r materion sy'n atal menywod rhag gweithio neu rhag cyrraedd eu potensial llawn. Rydym hefyd yn parhau gyda'n hymrwymiad i hybu rolau menywod mewn bywyd cyhoeddus. Nid ydym yn hunanfodlon; gwyddom ein bod wedi dod yn bell ers y Diwrnod Rhyngwladol y Menywod cyntaf ym 1911, ond mae rhwystrau sylweddol yn parhau. Mae'r ddadl heddiw yn dangos pa mor bwysig yw Diwrnod Rhyngwladol y Menywod ar gyfer dod â dynion a menywod at ei gilydd i drafod y materion sy'n ymwneud ag anghydraddoldeb rhwng y rhywiau heddiw, ac i chwilio am fwy o gyfleoedd eto i ymdrin â hyn.

I want to finish by underlining the Welsh Government's support for International Women's Day 2016, in recognition of the social, economic, cultural and political achievement of women in Wales. Thank you.

Rwyf am orffen drwy danlinellu cefnogaeth Llywodraeth Cymru i Ddiwrnod Rhyngwladol y Menywod 2016, i gydnabod cyflawniadau cymdeithasol, economaidd, diwylliannol a gwleidyddol menywod yng Nghymru. Diolch.

17:08

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I call the Presiding Officer to reply to the debate.

Galwaf ar y Llywydd i ymateb i'r ddadl.

17:08

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Thank you very much. I thought it would be a good and interesting debate, and my expectations were, I think, well proven.

Diolch yn fawr iawn. Roeddwn yn meddwl y byddai'n ddadl dda a diddorol, ac mae fy nisgwyliadau, rwy'n meddwl, wedi'u cadarnhau.

I'd like to thank Mohammad Asghar for his opening introductory remarks, but I would like to just pick up on a couple of the points on the amendments that were tabled in the name of Paul Davies. Amendments 1 and 3 relate to the gender pay gap. It is worth noting that the latest statistics from the annual survey of hours and earnings show a gender pay gap in Wales of 7.8 per cent in 2015, meaning that the median hourly earnings, excluding overtime of men working full-time, were 7.8 per cent higher than those of women. While this is lower than most English regions and the UK average, it is higher than the gender pay gap in Scotland and Northern Ireland.

Hoffwn ddiolch i Mohammad Asghar am ei sylwadau rhagarweiniol, ond hoffwn grybwyll un neu ddau o'r pwyntiau ar y gwelliannau a gyflwynwyd yn enw Paul Davies. Mae gwelliannau 1 a 3 yn ymwneud â'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau. Mae'n werth nodi bod yr ystadegau diweddaraf o'r arolwg blynyddol o oriau ac enillion yn dangos bwlch cyflog rhwng y rhywiau yng Nghymru o 7.8 y cant yn 2015, sy'n golygu bod canolrif enillion yr awr, heb gynnwys goramser, dynion sy'n gweithio amser llawn 7.8 y cant uwch nag enillion menywod. Er bod hyn yn is na'r rhan fwyaf o ranbarthau Lloegr a chyfartaledd y DU, mae'n uwch na'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Whichever way you look at the statistics, the fact that there is a gender pay gap in this day and age is an absolute disgrace. The Equal Pay Act was introduced in 1970 and largely superseded by a new Act in 2010. This has been a very slow burn and I welcome any action to obliterate the pay gap, including moves to publish league tables ranking large firms by gender pay gap by 2018.

Pa ffordd bynnag yr edrychwch ar yr ystadegau, mae'r ffaith fod yna fwlch cyflog rhwng y rhywiau yn yr oes hon yn warth llwyr. Cyflwynwyd y Ddeddf Cyflog Cyfartal ym 1970 a'i disodli i raddau helaeth gan Ddeddf newydd yn 2010. Mae'r broses o wireddu hyn wedi bod yn araf iawn ac rwy'n croesawu unrhyw gamau i ddileu'r bwlch cyflog, gan gynnwys camau i gyhoeddi tablau cynghrair yn rhestru'r cwmnïau mawr yn ôl bwlch cyflog rhwng y rhywiau erbyn 2018.

On the face of it, the sentiment of amendment 2, noting that there are more women in work in the UK than ever before, does actually look positive. However, the analysis by the Office for National Statistics—which is in my constituency—shows that while the UK employment rate for women, at 69.1 per cent, was the joint highest since comparable records began in 1971, this is partly due to ongoing changes to the state pension age for women resulting in fewer women retiring between the ages of 60 and 65. Also, the percentage of women in work in Wales, at 67.1 per cent, is lower than the UK average. So when you start scratching the surface, it's clear that there are probably other environmental reasons why there are more women in work.

Ar yr olwg gyntaf, mae'r teimlad wrth wraidd gwelliant 2, sy'n nodi bod mwy o fenywod mewn gwaith yn y DU nag erioed o'r blaen yn edrych yn gadarnhaol mewn gwirionedd. Fodd bynnag, mae dadansoddiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol—sydd yn fy etholaeth i—yn dangos, er bod cyfradd gyflogaeth menywod yn y DU, sef 69.1 y cant, gyfuwch â'r lefel uchaf ers dechrau cadw cofnodion cymaradwy ym 1971, y rheswm am hyn yn rhannol yw oherwydd bod newidiadau parhaus i oedran pensiwn y wladwriaeth ar gyfer menywod wedi arwain at lai o fenywod yn ymddeol rhwng 60 a 65 oed. Hefyd, mae canran y menywod mewn gwaith yng Nghymru, sef 67.1 y cant, yn is na chyfartaledd y DU. Felly, pan ddechreuwch grafu'r wyneb, mae'n amlwg fod yna resymau amgylcheddol eraill yn ôl pob tebyg pam y mae mwy o fenywod mewn gwaith.

On amendment 4, I am concerned that the proposed wording only paints part of the picture. It is true to say that childcare costs are undoubtedly a serious issue for families, and I don't want to underplay that. But the amendment states that Wales has faced bigger increases in childcare costs than anywhere else in the UK.

O ran gwelliant 4, rwy'n pryderu mai rhan o'r darlun yn unig y mae'r geiriad arfaethedig yn ei roi. Mae'n wir dweud bod costau gofal plant yn ddi-os yn fater difrifol i deuluoedd, ac ni allaf roi digon o bwyslais ar hynny. Mae'r gwelliant yn datgan bod Cymru wedi wynebu cynnydd mwy mewn costau gofal plant nag unrhyw le arall yn y DU.

The recent Family and Childcare Trust report shows that, while some types of childcare costs have risen more in Wales than elsewhere, others have fallen in Wales while they've risen in England and Scotland. So, looking at the figures, Wales does appear to be bucking the trend when it comes to a reduction in childcare costs for after school clubs and after school childminder pick-ups.

Mae adroddiad diweddar yr Ymddiriedolaeth Teuluoedd a Gofal Plant yn dangos, er bod rhai mathau o gostau gofal plant wedi codi mwy yng Nghymru nag mewn mannau eraill, mae eraill wedi gostwng yng Nghymru tra'u bod wedi codi yn Lloegr a'r Alban. Felly, gan edrych ar y ffigurau, mae'n ymddangos bod Cymru yn mynd yn groes i'r duedd o ran gostyngiad yng nghostau gofal plant clybiau ar ôl ysgol a gwarchodwyr i gasglu plant o'r ysgol.

I would like to thank Sandy Mewies for her contribution and warm words as Assembly Commissioner for equalities. I think that what we're doing here at the Assembly on equality is second to none, and I would like to compliment Claire Clancy and her team for what they're doing. I think, if we can't be exemplar employers, then nobody else can be. So, I would like to say thank you very much for what we're doing.

Hoffwn ddiolch i Sandy Mewies am ei chyfraniad a'i geiriau cynnes fel Comisiynydd cydraddoldeb y Cynulliad. Rwy'n meddwl bod yr hyn rydym yn ei wneud yma yn y Cynulliad ar gydraddoldeb yn ardderchog, a hoffwn ganmol Claire Clancy a'i thîm am yr hyn y maent yn ei wneud. Os na allwn ni fod yn gyflogwyr enghreifftiol, yna nid wyf yn credu y gall neb arall fod. Felly, hoffwn ddweud diolch yn fawr iawn am yr hyn rydym yn ei wneud.

I'd also like to thank the caucus members for their contributions this afternoon. Jocelyn Davies in her usual eloquent style reminded us again about Gwyneth Bebb. I think your story does prove to me that we shouldn't have history lessons, but we should have herstory lessons, and I think we need to change that in the curriculum. If the Minister for education, in his last week, can perhaps change that title, it would be quite helpful.

Hoffwn ddiolch hefyd i aelodau'r cawcws am eu cyfraniadau y prynhawn yma. Cawsom ein hatgoffa eto gan Jocelyn Davies yn ei dull huawdl arferol am Gwyneth Bebb. Rwy'n meddwl bod eich stori yn profi i mi na ddylem gael gwersi 'history', ond dylem gael gwersi 'herstory', ac rwy'n credu bod angen newid hynny yn y cwricwlwm. Byddai'n ddefnyddiol iawn pe bai'r Gweinidog addysg, yn ei wythnos olaf, yn gallu newid y teitl hwnnw.

Julie Morgan—she talked about underlying sexism. It is there, and even though sometimes it's meant kindly, it does undermine women's confidence. Of course, she reminded us we have the first woman president of the engineering society.

Julie Morgan—soniodd am rywiaeth sylfaenol. Mae yno, ac er bod y bwriad yn garedig weithiau, mae'n tanseilio hyder menywod. Wrth gwrs, cawsom ein hatgoffa ganddi fod gennym y llywydd benywaidd cyntaf ar y gymdeithas beirianneg.

Eluned—she played an excellent part in the caucus. She brought her experience—both her professional experience, but also the experience of being a young mother. Whilst the rest of us have been mothers, we're not quite as young as we were, and we tend to forget how difficult it is. And you raised the issue again about childcare—should it be the woman, should it be the man? But it must be—good childcare's got to be affordable, accessible and of the highest possible quality. I think that's something that came across every time you spoke at the caucus.

Eluned—chwaraeodd ran ragorol yn y cawcws. Daeth â'i phrofiad—ei phrofiad proffesiynol, ond hefyd y profiad o fod yn fam ifanc. Er bod y gweddill ohonom wedi bod yn famau, nid ydym mor ifanc ag y buom, ac rydym yn tueddu i anghofio pa mor anodd yw hynny. Ac fe godoch fater gofal plant eto—ai'r fenyw, ai'r dyn a ddylai ofalu? Ond mae'n rhaid iddo fod—rhaid i ofal plant da fod yn fforddiadwy, yn hygyrch ac o'r safon uchaf posibl. Rwy'n credu bod hynny'n rhywbeth a gyflewyd gennych bob tro y byddech yn siarad yn y cawcws.

Joyce—she talked about the carers and the carers issues. Sixty eight per cent of women are carers—I suspect it's probably more than that—but they are the carers, underpaid and overworked, and it's something that needs to be looked at. You talked about domestic violence, and this isn't just this country. I've recently been to South Africa and it's the same—well, it's worse there than it is here, and wherever you go in the world it is a major issue. We do need to eradicate it and I think the Welsh Government need—well, they certainly need to be congratulated on passing the Welsh Government's Bill on domestic violence. I think, Carl Sargeant, you fronted that incredibly well, so thank you very much.

Joyce—soniodd am y gofalwyr a materion sy'n ymwneud â gofalwyr. Mae 68 y cant o fenywod yn ofalwyr—rwy'n amau ei fod yn fwy na hynny yn ôl pob tebyg—ond hwy yw'r gofalwyr nad ydynt yn cael eu talu'n ddigonol ac sy'n gwneud gormod o waith, ac mae'n rhywbeth y dylid edrych arno. Fe sonioch am drais yn y cartref, ac nid yn y wlad hon yn unig. Bûm yn Ne Affrica yn ddiweddar ac mae yr un fath—wel, mae'n waeth yno nag y mae yma, a ble bynnag yr ewch yn y byd mae'n broblem fawr. Mae angen i ni ei ddileu ac rwy'n meddwl bod angen i Lywodraeth Cymru—wel, yn sicr mae angen eu llongyfarch ar basio Bil Llywodraeth Cymru ar drais domestig. Rwy'n meddwl, Carl Sargeant, eich bod wedi arwain ar hwnnw'n eithriadol o dda, felly diolch yn fawr iawn.

Joyce didn't mention trafficking. I think we should mention the work that Joyce has done on trying to stop trafficking of women and children. You should be congratulated on that. Unfortunately, it's a big issue and it's going to take a long time to eradicate it.

Ni soniodd Joyce am fasnachu mewn pobl. Rwy'n meddwl y dylem grybwyll y gwaith y mae Joyce wedi'i wneud yn ceisio atal masnachu mewn menywod a phlant. Dylid eich llongyfarch ar hynny. Yn anffodus, mae'n broblem fawr ac mae'n mynd i gymryd amser hir i'w dileu.

Gwenda very importantly reminded us of the importance of men and the role of men. I do talk about the difference in men and women—I'm only too glad there is a difference, but we're not one better than the other. But we do need to have equal effort by men, and that's why this pledge for parity—which is the theme of this year's International Women's Day—is a fantastic thing. I would hope all the men here will pledge to do something very small, or very big, to make sure that they do look towards parity in the future. And then you talked about these fantastic men who showed you the way, but I think it's got something to do with our genes to be perfectly honest. I think what you've done on social services is fantastic.

Cawsom ein hatgoffa gan Gwenda yn bwysig iawn pa mor bwysig yw dynion a rôl dynion. Rwy'n siarad am y gwahaniaeth rhwng dynion a menywod—rwyf ond yn rhy falch fod yna wahaniaeth, ond nid yw un yn well na'r llall. Ond mae angen i ni gael ymdrech gyfartal gan ddynion, a dyna pam fod yr addewid hwn i sicrhau cydraddoldeb—sy'n thema Diwrnod Rhyngwladol y Menywod eleni—yn beth gwych. Byddwn yn gobeithio y bydd yr holl ddynion yma'n addunedu i wneud rhywbeth bach iawn, neu fawr iawn, i wneud yn siŵr eu bod yn edrych tuag at gydraddoldeb yn y dyfodol. Ac yna fe siaradoch am y dynion gwych hyn a ddangosodd y ffordd i chi, ond rwy'n meddwl ei fod yn rhywbeth i'w wneud â'n genynnau i fod yn berffaith onest. Rwy'n credu bod yr hyn rydych wedi'i wneud ym maes gwasanaethau cymdeithasol yn wych.

Minister, we've shared many platforms this year. I think you'll agree with me that there have been some amazing women at the events we've organised. I had the privilege of travelling around Wales at the beginning of my campaign and I met fantastic women farmers in the north, women from Traveller organisations in Pembrokeshire. And they're really all amazing. They just need somebody to believe in them more than they believe in themselves, and I think that's what these schemes are actually doing. So, I'd like to thank you very much for all your contributions this afternoon.

Weinidog, rydym wedi rhannu llawer o lwyfannau eleni. Rwy'n credu y byddech yn cytuno ein bod wedi gweld rhai menywod rhyfeddol yn y digwyddiadau a drefnwyd gennym. Cefais y fraint o deithio o amgylch Cymru ar ddechrau fy ymgyrch a chyfarfûm â ffermwyr benywaidd gwych yn y gogledd, menywod o sefydliadau Teithwyr yn Sir Benfro. Ac maent i gyd yn wirioneddol anhygoel. Maent angen i rywun gredu ynddynt fwy nag y maent yn credu ynddynt eu hunain, dyna'i gyd, ac rwy'n meddwl mai dyna mae'r cynlluniau hyn yn ei wneud mewn gwirionedd. Felly, hoffwn ddiolch yn fawr iawn i chi am eich holl gyfraniadau y prynhawn yma.

As an Assembly, this afternoon's debate has demonstrated the important contribution women make to social, economic, cultural and political achievement in Wales. While I'll only be watching from the sidelines after May's election, I am looking forward to seeing a better gender balance in this Chamber, and I hope that each political party will take appropriate measures to ensure that the issue continues to receive the attention it deserves.

Fel Cynulliad, mae dadl y prynhawn yma wedi dangos y cyfraniad pwysig y mae menywod yn ei wneud i gyflawniad cymdeithasol, economaidd, diwylliannol a gwleidyddol yng Nghymru. Er mai gwylio o'r cyrion yn unig y byddaf yn ei wneud ar ôl etholiad mis Mai, rwy'n edrych ymlaen at weld cydbwysedd gwell rhwng y rhywiau yn y Siambr hon, ac rwy'n gobeithio y bydd pob plaid wleidyddol yn rhoi camau priodol ar waith i sicrhau bod y mater yn parhau i gael y sylw y mae'n ei haeddu.

Before I finish, I would also like to pay tribute to Christine Chapman, who chairs the cross-party women in the economy group—fantastic; Edwina Hart for the work that she's done; Jane Hutt, of course, for what she's done; and Janice Gregory. The whole front row and all the women here have fought a long hard campaign. I'm glad that Julie Morgan reminded us of the twinning campaign—[Laughter.]—because the sight of all of us in Swansea, singing 'We Shall Not Be Moved', unfortunately, was never recorded. I think that's something that—. Anyway, I'm digressing, Deputy Presiding Officer. I would hope that everybody would sign the pledge of parity. I would like to thank you all very much for taking part in this debate. I hope it will become an annual debate, but once a year is not enough—it needs to be continual. Fifty per cent of the population is women, and the Chinese say that they hold up 50 per cent of the sky. If we sit down, then, boys, you're all in trouble. [Laughter.] Thank you very much indeed. [Applause.]

Cyn i mi orffen, hoffwn hefyd dalu teyrnged i Christine Chapman, sy'n cadeirio grŵp trawsbleidiol gwych menywod yn yr economi; i Edwina Hart am y gwaith y mae hi wedi'i wneud; i Jane Hutt, wrth gwrs, am yr hyn y mae hi wedi'i wneud; a Janice Gregory. Mae'r rhes flaen gyfan a'r holl wragedd yma wedi ymladd ymgyrch hir a chaled. Rwy'n falch fod Julie Morgan wedi ein hatgoffa am yr ymgyrch efeillio—[Chwerthin.]—oherwydd ni chafodd yr olygfa o bob un ohonom yn Abertawe, yn canu 'We Shall Not Be Moved', erioed mo'i chofnodi, yn anffodus. Credaf fod hynny'n rhywbeth—. Beth bynnag, rwy'n crwydro, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n gobeithio y bydd pawb yn llofnodi'r addewid o gydraddoldeb. Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i chi i gyd am gymryd rhan yn y ddadl hon. Rwy'n gobeithio y bydd yn dod yn ddadl flynyddol, ond nid yw unwaith y flwyddyn yn ddigon—mae angen iddi fod yn barhaus. Mae 50 y cant o'r boblogaeth yn fenywod, ac mae'r Tsieineaid yn dweud eu bod yn dal i fyny 50 y cant o'r awyr. Os eisteddwn, yna fechgyn, rydych i gyd mewn trwbl. [Chwerthin.] Diolch yn fawr iawn yn wir. [Cymeradwyaeth.]

17:16

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

The proposal is to agree amendment 1. Does any Member object? Amendment 1 is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Y cynnig yw derbyn gwelliant 1. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Derbyniwyd gwelliant 1 felly yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd gwelliant 1 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 1 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

17:17

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

The proposal is to agree amendment 2. Does any Member object? Then amendment 2 is agreed.

Y cynnig yw derbyn gwelliant 2. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Yna derbyniwyd gwelliant 2.

*Derbyniwyd gwelliant 2 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 2 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

17:17

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

The proposal is to agree amendment 3. Does any Member object? Then amendment 3 is agreed.

Y cynnig yw derbyn gwelliant 3. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Yna derbyniwyd gwelliant 3.

*Derbyniwyd gwelliant 3 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 3 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

17:17

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

The proposal is to agree amendment 4. Does any Member object? [Objection.] I will defer the rest of the voting on this item until voting time, and voting time now follows.

Y cynnig yw derbyn gwelliant 4. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Gohiriaf weddill y pleidleisio ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio, ac mae'r cyfnod pleidleisio yn dilyn yn awr.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

17:17

# 9. Cyfnod Pleidleisio

# 9. Voting Time

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Are there are three Members who wish for the bell to be rung? There are not. So, we'll vote first on the debate on the local government settlement. I call for a vote on the motion tabled in the name of Jane Hutt. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 28, there voted against 21, there were five abstentions. Therefore, the motion is agreed.

A oes tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu? Nac oes. Felly, pleidleisiwn yn gyntaf ar y ddadl ar y setliad llywodraeth leol. Galwaf am bleidlais ar y cynnig a gyflwynwyd yn enw Jane Hutt. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 28 o blaid, pleidleisiodd 21 yn erbyn, roedd 5 yn ymatal. Felly, derbyniwyd y cynnig.

*Derbyniwyd y cynnig: O blaid 28, Yn erbyn 21, Ymatal 5.*

*Motion agreed: For 28, Against 21, Abstain 5.*

[Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5988.](#)

[Result of the vote on motion NDM5988.](#)

17:17

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

We'll now vote on the debate on the police settlement, and I call for a vote on the motion tabled in the name of Jane Hutt. Open the vote. Close vote. There voted in favour 40, there voted against five, there were nine abstentions. Therefore, the motion is agreed.

Pleidleisiwn yn awr ar y ddadl ar setliad yr heddlu, a galwaf am bleidlais ar y cynnig a gyflwynwyd yn enw Jane Hutt. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 40 o blaid, pleidleisiodd 5 yn erbyn, roedd 9 yn ymatal. Felly, derbyniwyd y cynnig.

*Derbyniwyd y cynnig: O blaid 40, Yn erbyn 5, Ymatal 9.*

*Motion agreed: For 40, Against 5, Abstain 9.*

[Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5989.](#)

[Result of the vote on motion NDM5989.](#)

17:18

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

We'll now conclude the voting on the debate on International Women's Day. I call for a vote on amendment 4, tabled in the name of Paul Davies. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 26, there voted against 28. Therefore, amendment 4 is not agreed.

Cwblhawn y pleidleisio yn awr ar y ddadl ar Ddiwrnod Rhyngwladol y Menywod. Galwaf am bleidlais ar welliant 4, a gyflwynwyd yn enw Paul Davies. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 26 o blaid, pleidleisiodd 28 yn erbyn. Felly, gwrthodwyd gwelliant 4.

*Gwrthodwyd gwelliant: O blaid 26, Yn erbyn 28, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 26, Against 28, Abstain 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 4 i gynnig NDM5991.](#)

[Result of the vote on amendment 4 to motion NDM5991.](#)

17:19

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I now call for a vote on the motion as amended.

Galwaf yn awr am bleidlais ar y cynnig fel y'i diwygiwyd.

Cynnig NDM5991 fel y'i diwygiwyd:

Motion NDM5991 as amended:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn dathlu Diwrnod Rhyngwladol y Menywod i gydnabod cyflawniad cymdeithasol, economaidd, diwylliannol a gwleidyddol menywod yng Nghymru, a'r angen parhaus i gyflymu cydraddoldeb rhwng y rhywiau—a hynny'n benodol mewn bywyd cyhoeddus.

1. Celebrates International Women's Day in recognition of the social, economic, cultural and political achievement of women in Wales, and the remaining need to accelerate gender parity—particularly in public life.

2. Yn nodi mai'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau cyfredol yw'r isaf a gofnodwyd erioed.

2. Notes that the current gender pay gap is the lowest on record.

3. Yn nodi bod mwy o fenywod yn gweithio yn y DU nag erioed o'r blaen.

3. Notes that there are more women in work in the UK than ever before.

4. Yn croesawu cyhoeddiad Llywodraeth y DU y bydd tablau cynghrair sy'n rhestru cwmnïau mawr yn ôl trefn y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn cael eu cyhoeddi erbyn 2018.

4. Welcomes the UK Government's announcement that league tables ranking large firms by gender pay gap will be published by 2018.

17:19

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Open the vote. Close the vote. There voted in favour 54, no votes against. Therefore, the motion as amended is agreed.

Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 54 o blaid, ni chafwyd unrhyw bleidleisiau yn erbyn. Felly, derbyniwyd y cynnig fel y'i diwygiwyd.

*Derbyniwyd cynnig NDM5991 fel y'i diwygiwyd: O blaid 54, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Motion NDM5991 as amended agreed: For 54, Against 0, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5991 fel y'i diwygiwyd.

Result of the vote on motion NDM5991 as amended.

17:19

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I ask those Members who are leaving the Chamber to do so quickly and quietly.

Gofynnaf i'r Aelodau sy'n gadael y Siambr wneud hynny'n gyflym ac yn dawel.

17:19

# 10. Dadl Fer: Cadw Llywodraeth Leol yn Lleol—yr Achos dros Ddiogelu Sir Benfro rhag Cynlluniau Uno Llywodraeth Cymru

# 10. Short Debate: Keeping the Local in Local Government—the Case for Protecting Pembrokeshire from Welsh Government Mergers

Senedd.tv Fideo Video

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Item 10 is the short debate, and I call on Paul Davies to speak on the topic he has chosen.

Eitem 10 yw'r ddadl fer, a galwaf ar Paul Davies i siarad ar y pwnc y mae wedi'i ddewis.

17:19

## Paul Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. I'm pleased to use my short debate this afternoon to highlight why the Welsh Government's proposals for the merger of Pembrokeshire with Carmarthenshire and Ceredigion will not result in a more effective delivery of public services in west Wales.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n falch o ddefnyddio fy nadl fer y prynhawn yma i dynnu sylw at pam na fydd cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer uno Sir Benfro Sir Gaerfyrddin a Cheredigion yn arwain at ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yn fwy effeithiol yng ngorllewin Cymru.

Members are all aware of the previous Dyfed model of governance that was abolished in 1996, and now this Minister wants to leap into his ministerial DeLorean and take us back to the future. It's quite clear that the geographic size and diversity of the whole Dyfed area presented significant challenges to the authority and, as a result, Dyfed County Council was seen as remote and unpopular by many local communities.

Mae'r Aelodau i gyd yn ymwybodol o fodel llywodraethu blaenorol Dyfed a ddiddymwyd ym 1996, ac yn awr mae'r Gweinidog hwn am neidio i mewn i'w DeLorean gweinidogol a mynd â ni yn ôl i'r dyfodol. Mae'n eithaf amlwg fod maint daearyddol ac amrywiaeth holl ardal Dyfed yn creu heriau sylweddol i'r awdurdod ac o ganlyniad, ystyrid Cyngor Sir Dyfed yn bell ac yn amhoblogaidd gan lawer o gymunedau lleol.

Indeed, in 1993, the then Secretary of State for Wales introduced a White Paper on Welsh local government, which proposed the single-tier structures of authorities that we have today. The paper stated that, and I quote,

Yn wir, ym 1993, cyflwynodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar y pryd Bapur Gwyn ar lywodraeth leol yng Nghymru, yn cynnig strwythurau haen sengl yr awdurdodau sydd gennym heddiw. Dywedai'r papur fod, a dyfynnaf,

'under unitary authority arrangements, local people will have a better understanding of who is providing their local services, and this will result in greater accountability.'

o dan drefniadau awdurdodau unedol, bydd gan bobl leol well dealltwriaeth o bwy sy'n darparu eu gwasanaethau lleol, a bydd hyn yn arwain at fwy o atebolrwydd.

Unquote. It goes on to say that the aim was, and I quote,

Cau'r dyfyniad. Mae'n mynd ymlaen i ddweud mai'r nod oedd, ac rwy'n dyfynnu,

'to balance the demands of local community loyalty with the requirements of effective and efficient service delivery, taking account of demographic factors, population distribution, geography and other relevant considerations.'

cydbwyso gofynion teyrngarwch cymunedol lleol â gofynion cyflwyno gwasanaethau'n effeithiol ac yn effeithlon, gan ystyried ffactorau demograffig, dosbarthiad y boblogaeth, daearyddiaeth ac ystyriaethau perthnasol eraill.

Unquote. And that hasn't changed as far as I'm concerned. Therefore, it's my view that the current Welsh Government's proposals to return to this style of governance will only return west Wales to an outdated, unpopular authority, unable to cope with the challenges that it had already failed to address in the past.

Cau'r dyfyniad. Ac nid yw hynny wedi newid o'm rhan i. Felly, yn fy marn i, ni fydd cynigion cyfredol Llywodraeth Cymru i ddychwelyd at y math hwn o lywodraethu ond yn mynd â gorllewin Cymru yn ôl at awdurdod sydd ar ei hôl hi, awdurdod amhoblogaidd sy'n methu ag ymdopi â'r heriau y mae eisoes wedi methu mynd i'r afael â hwy yn y gorffennol.

Now, I know the Minister will try to point the finger at my party when it comes to Welsh local government structures and try to argue that it was Ted Heath's Government that created Dyfed back in the early 1970s. But the simple fact is that the Conservative Party recognised that the Dyfed model did not serve local communities in west Wales effectively, and we did something about it.

Nawr, rwy'n gwybod y bydd y Gweinidog yn ceisio pwyntio bys at fy mhlaid mewn perthynas â strwythurau llywodraeth leol Cymru ac yn ceisio dadlau mai Llywodraeth Ted Heath a greodd Ddyfed yn ôl yn y 1970au cynnar. Ond y ffaith syml amdani yw bod y Blaid Geidwadol yn cydnabod nad oedd model Dyfed yn gwasanaethu cymunedau lleol yng ngorllewin Cymru yn effeithiol, ac fe wnaethom rywbeth ynglŷn â'r peth.

As the Williams commission recognises, a return to the Dyfed model, and I quote,

Fel y mae comisiwn Williams yn cydnabod, byddai dychwelyd at fodel Dyfed, a dyfynnaf,

'would cover the largest area of any UK unitary authority outside the most rural and remote parts of Scotland while having a significantly higher population than any of those areas.'

yn cwmpasu'r ardal fwyaf o holl awdurdodau unedol y DU y tu allan i'r rhannau mwyaf gwledig ac anghysbell o'r Alban er bod ganddi boblogaeth gryn dipyn yn uwch nag unrhyw un o'r ardaloedd hynny.

Unquote. The report recognises that the Scottish council areas of Highland, Argyll and Bute, Dumfries and Galloway and Aberdeenshire are all geographically larger than the Dyfed-style authority. However, each of these Scottish council areas have a population much less than the proposed Dyfed model, so Dyfed will have to manage a similar geography to those Scottish council authorities as well as a substantially higher population.

Cau'r dyfyniad. Mae'r adroddiad yn cydnabod bod ardaloedd cynghorau'r Alban, sef Highland, Argyll a Bute, Dumfries a Galloway a Swydd Aberdeen i gyd yn fwy o faint yn ddaearyddol nag awdurdod tebyg i Ddyfed. Fodd bynnag, mae pob un o ardaloedd y cynghorau hyn yn yr Alban â phoblogaeth lawer llai o faint na'r model Dyfed arfaethedig, felly bydd yn rhaid i Ddyfed reoli daearyddiaeth debyg i awdurdodau'r cynghorau yn yr Alban yn ogystal â phoblogaeth gryn dipyn yn fwy.

And, let's be clear, creating bigger authorities does not mean better services. Indeed, creating bigger authorities certainly takes the word 'local' out of local government. And the current Welsh Government is putting the cart before the horse when it comes to local government reorganisation. Surely, before redrawing lines on a map, there needs to be a discussion about what services we want to see delivered by local authorities in the future before deciding on an actual structure.

A gadewch i ni fod yn glir, nid yw creu awdurdodau mwy o faint yn arwain at wasanaethau gwell. Yn wir, mae creu awdurdodau mwy o faint yn sicr yn tynnu'r gair 'lleol' allan o lywodraeth leol. Ac mae Llywodraeth gyfredol Cymru yn rhoi'r cert o flaen y ceffyl o ran ad-drefnu llywodraeth leol. Yn sicr, cyn ail-lunio llinellau ar fap, mae angen cael trafodaeth ynglŷn â pha wasanaethau rydym am eu gweld yn cael eu darparu gan awdurdodau lleol yn y dyfodol cyn penderfynu ar strwythur gwirioneddol.

The Welsh Government's White Paper 'Reforming Local Government: Power to Local People' was, we're told, about decentralising power and, as the Minister made clear, and I quote,

Dywedir wrthym fod Papur Gwyn Llywodraeth Cymru, 'Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol' yn ymwneud â datganoli grym ac fel y gwnaeth y Gweinidog yn glir, a dyfynnaf,

'granting the general power of competence to local authorities and giving them the powers and responsibilities that they deserve and that they have requested.'

'rhoi pŵer cymhwysedd cyffredinol i awdurdodau lleol a rhoi'r pwerau a'r cyfrifoldebau y maent yn eu haeddu ac y maent wedi gofyn amdanynt.'

Unquote. However, it's my view that, until those powers and responsibilities are defined clearly and local authorities have a clear direction of travel, there's no way that appropriate delivery structures can be established.

Cau'r dyfyniad. Fodd bynnag, yn fy marn i, hyd nes y diffinnir y pwerau a'r cyfrifoldebau hynny'n glir a hyd nes y bydd gan awdurdodau lleol gyfeiriad teithio clir, nid oes unrhyw ffordd y gellir sefydlu strwythurau cyflawni priodol.

We should be debating what sort of services we want to see future local councils deliver before the Minister starts using his marker pen to highlight new local authority boundaries.

Dylem fod yn trafod pa fath o wasanaethau rydym am weld cynghorau lleol yn y dyfodol yn eu cyflwyno cyn i'r Gweinidog ddechrau defnyddio ei bin marcio i amlygu ffiniau awdurdodau lleol newydd.

As we move towards the fifth Assembly, it's crucial that there is an understanding of what our councils will look like in the future. For example, will local authorities receive any additional powers devolved to them alongside any potential reform? And also, what structures need to sit underneath these revised councils? Will town and community councils receive additional responsibilities as a result of reorganisation?

Wrth i ni symud tuag at y pumed Cynulliad, mae'n hanfodol fod yna ddealltwriaeth o sut olwg fydd ar ein cynghorau yn y dyfodol. Er enghraifft, a fydd awdurdodau lleol yn cael unrhyw bwerau ychwanegol wedi'u datganoli iddynt ochr yn ochr ag unrhyw ddiwygio posibl? A hefyd, pa strwythurau a ddylai ddod o dan y cynghorau diwygiedig hyn? A fydd cynghorau tref a chymuned yn cael cyfrifoldebau ychwanegol o ganlyniad i ad-drefnu?

For me, these are all questions that need to be answered first, before any structural changes are made to Wales's local authority map. Surely, we must have that debate before determining the size and structure of future local authorities.

I mi, mae'r rhain i gyd yn gwestiynau sydd angen eu hateb yn gyntaf, cyn gwneud unrhyw newidiadau strwythurol i fap awdurdodau lleol Cymru. Yn sicr, mae'n rhaid i ni gael y ddadl honno cyn penderfynu ar faint a strwythur awdurdodau lleol yn y dyfodol.

In my own constituency, not only is there fear and dread over the proposed re-merger with Ceredigion and Carmarthenshire, there are some very serious concerns over the effect of the Welsh Government's proposals to the Pembrokeshire brand itself. The Minister is well aware that Pembrokeshire has an international reputation for its beautiful coastline, and any move back to the Dyfed model would undoubtedly damage that brand. The local area has won award after award for its breathtaking landscapes and stunning beaches, continues to attract thousands of visitors each year and is recognised internationally. It is quite simply a global brand.

Yn fy etholaeth fy hun, ceir ofn a dychryn ynglŷn â'r ail-uno arfaethedig â Cheredigion a Sir Gaerfyrddin, ceir rhai pryderon difrifol iawn ynghylch effaith cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer brand Sir Benfro ei hun. Mae'r Gweinidog yn ymwybodol iawn fod gan Sir Benfro enw da yn rhyngwladol am ei harfordir hardd, a byddai unrhyw symud yn ôl at fodel Dyfed yn niweidio'r brand hwnnw yn ddi-os. Mae'r ardal leol wedi ennill gwobr ar ôl gwobr am ei thirweddau syfrdanol a'i thraethau trawiadol, mae'n parhau i ddenu miloedd o ymwelwyr bob blwyddyn ac mae'n cael ei chydnabod yn rhyngwladol. Yn syml iawn, mae'n frand byd-eang.

Similarly, given our extensive coastline and ports, Pembrokeshire is fast becoming a global leader in the marine energy market, both as a generator of energy and as an exporter of marine energy knowledge.

Yn yr un modd, o ystyried ein harfordir helaeth a'n porthladdoedd, mae Sir Benfro yn prysur ddod yn arweinydd byd-eang yn y farchnad ynni morol, fel cynhyrchydd ynni ac fel allforiwr gwybodaeth ynni morol.

And, of course, there's Pembrokeshire's reputation as a food hotspot. We have the Pembrokeshire Cheese Company, Penlan Uchaf Gardens in north Pembrokeshire, Welsh Seafoods Ltd at Milford Haven and, last Christmas, even Marks and Spencer wanted some of the action, by stocking Capestone bronze turkeys reared at the heart of the Pembrokeshire Coast National Park.

Ac wrth gwrs, mae gan Sir Benfro enw da fel ardal enwog am ei bwyd. Mae gennym y Pembrokeshire Cheese Company, Gerddi Penlan Uchaf yng ngogledd Sir Benfro, Welsh Seafoods Cyf yn Aberdaugleddau a'r Nadolig diwethaf, roedd hyd yn oed Marks and Spencer eisiau rhan o hyn, drwy stocio tyrcwn efydd Capestone a fagwyd yng nghanol Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro.

Pembrokeshire evidently has such a vibrant and rich reputation in everything from food, to music to the local environment. If a Dyfed model is created and Pembrokeshire is destroyed then we will lose the ability to promote Pembrokeshire as a worldwide destination. Therefore, this brand needs to be protected, so that the local and, indeed, national economy can continue to benefit in the future.

Mae'n amlwg fod gan Sir Benfro enw mor llewyrchus a chyfoethog mewn popeth o fwyd, i gerddoriaeth i'r amgylchedd lleol. Os crëir model Dyfed a bod Sir Benfro yn cael ei dinistrio, yna byddwn yn colli'r gallu i hyrwyddo Sir Benfro fel cyrchfan yn fyd-eang. Felly, mae angen diogelu'r brand, fel bod yr economi leol ac yn wir, yr economi genedlaethol yn gallu parhau i elwa yn y dyfodol.

The Welsh Local Government Association, in their evidence to the Williams commission, said that, and I quote,

Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, yn eu tystiolaeth i gomisiwn Williams, ac rwy'n dyfynnu,

'Wales is a nation of communities and community identity and loyalty are powerful mobilising and unifying characteristics that Wales must seek to capitalise on in the coming period.'

Mae Cymru yn genedl o gymunedau ac mae hunaniaeth a theyrngarwch cymunedol yn nodweddion pwerus sy'n crynhoi ac yn uno, a bydd yn rhaid i Gymru geisio manteisio arnynt yn y cyfnod sydd i ddod.

Unquote. Clearly, that statement is telling us how important it is to protect local identities and brands.

Cau'r dyfyniad. Yn amlwg, mae'r datganiad hwnnw'n dweud wrthym pa mor bwysig yw diogelu hunaniaeth a brandiau lleol.

The Welsh Government's proposals to force Pembrokeshire into a Dyfed model of governance are certainly not locally led. Creating a Dyfed model would take the decision-making process further away from communities in Pembrokeshire. There is no doubt that the new council headquarters would be based in Carmarthen, therefore taking local accountability away from us in Pembrokeshire. There is no appetite from local people across Pembrokeshire to centralise their local services. This point was made clear by Councillor Bob Kilmister, the Lib Dem candidate for Preseli Pembrokeshire, and Pembrokeshire Alliance Councillor Peter Stock during a debate on the proposals at Pembrokeshire County Council. This demonstrates the cross-party opposition to any merger with Carmarthenshire and Ceredigion.

Yn sicr nid yw cynigion Llywodraeth Cymru i orfodi Sir Benfro i fod yn rhan o fodel Dyfed o lywodraethu yn cael eu harwain yn lleol. Byddai creu model Dyfed yn mynd â'r broses o wneud penderfyniadau ymhellach oddi wrth gymunedau Sir Benfro. Nid oes unrhyw amheuaeth y byddai pencadlys newydd y cyngor wedi'i leoli yng Nghaerfyrddin, ac felly'n mynd ag atebolrwydd lleol oddi wrthym yn Sir Benfro. Nid oes unrhyw awydd gan bobl leol ledled Sir Benfro i ganoli eu gwasanaethau lleol. Gwnaed y pwynt hwn yn glir gan y Cynghorydd Bob Kilmister, ymgeisydd y Democratiaid Rhyddfrydol dros Breseli Sir Benfro, a Chynghorydd Cynghrair Penfro, Peter Stock, yn ystod dadl ar y cynigion yng Nghyngor Sir Penfro. Mae hyn yn dangos y gwrthwynebiad trawsbleidiol i unrhyw uno â Sir Gaerfyrddin a Cheredigion.

In fact, Pembrokeshire councillors from all parties, including the Minister's Labour colleagues, voted for a notice of motion that stipulated, and I quote,

Yn wir, pleidleisiodd cynghorwyr Sir Benfro o bob plaid, gan gynnwys cydweithwyr Llafur y Gweinidog, dros rybudd o gynnig a nodai, a dyfynnaf,

'That the Council informs Welsh Government that their recently published proposals that would see the re-introduction of the former failed local authority area of Dyfed are considered to be unacceptable...the proposals take us back to the structure which existed in 1996. This structure failed and was incredibly unpopular with its residents. This Council cannot see a rational argument for returning to this failed model.'

fod y Cyngor yn hysbysu Llywodraeth Cymru fod eu cynigion a gyhoeddwyd yn ddiweddar a fyddai'n arwain at ailgyflwyno ardal awdurdod lleol flaenorol aflwyddiannus Dyfed, yn cael eu hystyried yn annerbyniol... mae'r cynigion yn mynd â ni yn ôl at y strwythur a oedd yn bodoli ym 1996. Methodd y strwythur hwn ac roedd yn hynod o amhoblogaidd gyda'r trigolion. Ni all y Cyngor weld dadl resymegol dros ddychwelyd at y model aflwyddiannus hwn.

Unquote. And that same view is shared across local communities.

Cau'r dyfyniad. Ac mae'r un farn yn cael ei rhannu ar draws y cymunedau lleol.

More recently, local Labour politicians have advocated that Pembrokeshire County Council should conduct a poll of all local government electors in Pembrokeshire on 23 June, alongside the European Union membership referendum vote, to ask them their views on a merger with Carmarthen and Ceredigion. Perhaps the Minister will tell us, in responding to this debate, whether he agrees with his Labour colleagues in Pembrokeshire on whether a poll should be conducted. At least local Labour politicians believe in local democracy.

Yn fwy diweddar, mae gwleidyddion Llafur lleol wedi argymell y dylai Cyngor Sir Penfro gynnal pleidlais i holl etholwyr llywodraeth leol Sir Benfro ar 23 Mehefin, ochr yn ochr â'r bleidlais refferendwm ar ein haelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd, i ofyn eu barn ar uno gyda Chaerfyrddin a Cheredigion. Efallai y gwnaiff y Gweinidog ddweud wrthym, wrth ymateb i'r ddadl hon, a yw'n cytuno gyda'i gydweithwyr Llafur yn Sir Benfro y dylid cynnal pleidlais. O leiaf mae gwleidyddion Llafur lleol yn credu mewn democratiaeth leol.

Now, I've recently conducted a county-wide survey of my own in order to discover the views of local residents on the specific matter. More than 25,000 questionnaires were delivered to households across Pembrokeshire asking for their opinions on a range of issues including the Welsh Government proposals to dismantle Pembrokeshire, and the results showed that 74 per cent of responses opposed any return to a Dyfed-style authority. Surely, any change in the structure of local government in Wales must be locally led and represent the will of local communities. These proposals, if implemented, would simply reduce democratic accountability and would be against the will of local people.

Nawr, rwyf wedi cynnal fy arolwg fy hun yn ddiweddar ar draws y sir er mwyn canfod barn y trigolion lleol ar y mater hwn. Dosbarthwyd dros 25,000 o holiaduron i gartrefi ledled Sir Benfro yn gofyn am eu barn ar ystod o faterion gan gynnwys cynigion Llywodraeth Cymru i ddatgymalu Sir Benfro, a dangosodd y canlyniadau fod 74 y cant o'r ymatebion yn gwrthwynebu unrhyw ddychwelyd at awdurdod tebyg i Ddyfed. Yn sicr, rhaid i unrhyw newid yn strwythur llywodraeth leol yng Nghymru fod wedi'i arwain yn lleol a chynrychioli ewyllys cymunedau lleol. Ni fyddai'r cynigion hyn, o'u rhoi ar waith, ond yn lleihau atebolrwydd democrataidd a byddent yn groes i ewyllys y bobl leol.

Creating a Dyfed-style authority would undoubtedly result in the centralisation of services away from Pembrokeshire. You only need to look at our health services to see what will happen. As a result of establishing the Hywel Dda health board, people in Pembrokeshire have seen services transferred eastwards to Carmarthen, and I believe that will happen to our council services under a Dyfed local government model.

Byddai creu awdurdod tebyg i Ddyfed yn arwain yn ddi-os at ganoli gwasanaethau i ffwrdd o Sir Benfro. Nid oes ond angen i chi edrych ar ein gwasanaethau iechyd i weld beth fyddai'n digwydd. O ganlyniad i sefydlu bwrdd iechyd Hywel Dda, mae pobl yn Sir Benfro wedi gweld gwasanaethau'n cael eu trosglwyddo tua'r dwyrain i Gaerfyrddin, a chredaf y bydd hynny'n digwydd i'n gwasanaethau cyngor dan fodel Dyfed o lywodraeth leol.

Now, one of the more controversial effects of any local government merger, especially for Pembrokeshire residents, will be the effect of any reform on the amount of council tax they will have to pay. As the Minister is aware, my constituents pay substantially less council tax than in either Ceredigion or Carmarthenshire and so merging the three authorities will almost certainly lead to a council tax increase for local people in Pembrokeshire. Now, the Minister has made it clear to me recently that the Welsh Government is currently considering the impacts of local government reform on any council tax system, and this debate will give him an opportunity to tell us what impact these reforms will have on Pembrokeshire's council tax payers. This is certainly an issue for Pembrokeshire residents who currently enjoy the lowest council tax in Wales, and therefore my constituents are rightly concerned about how the Welsh Government's proposals will affect them financially.

Nawr, un o effeithiau mwy dadleuol unrhyw gamau i uno llywodraeth leol, yn enwedig i drigolion Sir Benfro, fydd effaith unrhyw ddiwygio ar y swm o dreth gyngor y bydd yn rhaid iddynt ei thalu. Fel y mae'r Gweinidog yn ymwybodol, mae fy etholwyr yn talu gryn dipyn yn llai o dreth gyngor nag yng Ngheredigion neu Sir Gaerfyrddin ac felly byddai cyfuno'r tri awdurdod bron yn sicr o arwain at gynnydd yn y dreth gyngor i'r bobl leol yn Sir Benfro. Nawr, mae'r Gweinidog wedi dweud yn glir wrthyf yn ddiweddar fod Llywodraeth Cymru wrthi'n ystyried effeithiau diwygio llywodraeth leol ar unrhyw system dreth gyngor, a bydd y ddadl hon yn rhoi cyfle iddo ddweud wrthym pa effaith y bydd y diwygiadau hyn yn ei chael ar drethdalwyr y dreth gyngor yn Sir Benfro. Mae hyn yn sicr yn broblem i drigolion Sir Benfro sydd ar hyn o bryd yn mwynhau'r dreth gyngor isaf yng Nghymru, ac felly mae lle gan fy etholwyr i fod yn bryderus iawn ynghylch y modd y bydd cynigion Llywodraeth Cymru yn effeithio arnynt yn ariannol.

Pembrokeshire has been pursuing a collaborative agenda for some time now, and progress has been made in several areas to minimise costs and duplication by working with other authorities. Pembrokeshire is working with numerous bodies, such as other local authorities, Pembrokeshire Coast National Park and other public sector partners, to share the delivery of services. I believe that the Welsh Government should continue with this direction of travel instead of forcing mergers. Councils are looking at ways to cut costs in the longer term by focusing on preventative measures, and the Welsh Government needs to do more to encourage this sort of activity. Forcing mergers against their will, and against the will of local communities, will simply distract from the very real problems that our councils face.

Mae Sir Benfro wedi bod yn dilyn agenda gydweithredol ers peth amser bellach, ac mae cynnydd wedi'i wneud mewn nifer o feysydd er mwyn lleihau costau a dyblygu drwy weithio gydag awdurdodau eraill. Mae Sir Benfro yn gweithio gyda nifer o gyrff, megis awdurdodau lleol eraill, Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro a phartneriaid eraill yn y sector cyhoeddus, i rannu'r modd y caiff gwasanaethau eu darparu. Credaf y dylai Llywodraeth Cymru barhau â'r cyfeiriad teithio hwn yn hytrach na gorfodi camau i uno. Mae cynghorau yn edrych ar ffyrdd o dorri costau yn y tymor hwy drwy ganolbwyntio ar fesurau ataliol, ac mae angen i Lywodraeth Cymru wneud mwy i annog y math hwn o weithgaredd. Ni fydd eu gorfodi i uno yn erbyn eu hewyllys, ac yn erbyn ewyllys cymunedau lleol, ond yn tynnu sylw oddi ar y problemau real iawn y mae ein cynghorau yn eu hwynebu.

As I've said before, the definition of local authorities needs to be revisited, and a robust discussion over the services that we want to see delivered in the future at a local level now needs to take place.

Fel y dywedais o'r blaen, mae angen ailedrych ar y diffiniad o awdurdodau lleol, ac mae angen cynnal trafodaeth drwyadl ynglŷn â'r gwasanaethau rydym am eu gweld yn cael eu darparu yn y dyfodol ar lefel leol.

Deputy Presiding Officer, in the ministerial foreword to the Welsh Government's White Paper, 'Reforming Local Government: Power to Local People', the Minister states, and I quote:

Ddirprwy Lywydd, yn y rhagair gweinidogol i Bapur Gwyn Llywodraeth Cymru, 'Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol', mae'r Gweinidog yn nodi, ac rwy'n dyfynnu:

'At a time when public service organisations all around the world are learning that the old ways of doing things are not sufficient for the future, Wales has the opportunity to leap beyond others if our minds are open to the possibility.'

'Ar adeg pan fo sefydliadau ym maes gwasanaethau cyhoeddus ledled y byd yn dysgu nad yw'r hen ffyrdd o wneud pethau yn ddigonol ar gyfer y dyfodol, mae gan Gymru gyfle i achub y blaen ar bawb arall os ydym yn effro i'r posibilrwydd o wneud hynny.'

I totally agree with the Minister. That's why a return to the Dyfed-style authority will only return to the old ways of doing things and will do nothing to help Wales leap beyond others. A merger between Pembrokeshire, Carmarthenshire and Ceredigion will simply see a return to a time when local government was distant and unrepresentative, and where public services will feel the strain even more than they do now.

Rwy'n cytuno'n llwyr â'r Gweinidog. Dyna pam na fyddai dychwelyd at awdurdod tebyg i Ddyfed ond yn ddychweliad at yr hen ffyrdd o wneud pethau ac ni fydd yn gwneud dim i helpu Cymru i achub y blaen ar bawb arall. Ni fydd uno Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin a Cheredigion ond yn ddychweliad at adeg pan oedd llywodraeth leol yn bell ac yn anghynrychioliadol, a lle y bydd gwasanaethau cyhoeddus yn teimlo'r straen hyd yn oed yn fwy nag ar hyn o bryd.

The message from my constituents is absolutely clear: no return to a failing, old, outdated and unpopular local authority called 'Dyfed'. Pembrokeshire is too important. Pembrokeshire is a unique global brand, internationally recognised. Let's make sure it's not dismantled and destroyed.

Mae'r neges gan fy etholwyr yn gwbl glir: ni ddylid dychwelyd at awdurdod lleol aflwyddiannus, hen, ar ei hôl hi ac amhoblogaidd o'r enw 'Dyfed'. Mae Sir Benfro yn rhy bwysig. Mae Sir Benfro yn frand byd-eang unigryw a gydnabyddir yn rhyngwladol. Gadewch i ni wneud yn siŵr nad yw'n cael ei ddatgymalu a'i ddinistrio.

17:32

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I call the Minister for Public Services to reply. Leighton Andrews.

Galwaf ar y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus i ateb. Leighton Andrews.

17:32

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus / The Minister for Public Services*

Deputy Presiding Officer, this is a short debate, and this is likely to be one of the shortest ministerial responses on record.

Ddirprwy Lywydd, dadl fer yw hon, ac mae'n debygol mai dyma un o'r ymatebion gweinidogol byrraf a gofnodwyd.

Can I start by saying that I did agree with some of what the Member said? I'd certainly agree with him that Pembrokeshire is a beautiful place. Indeed, my grandmother came from Dinas Cross in Pembrokeshire, which itself is a very beautiful place. But I do not intend to take part in a Conservative Party political broadcast. So, let me remind the Conservative Members who represent Pembrokeshire of a few facts: they weren't always so sentimental about Pembrokeshire County Council. Indeed, they may remember that when I was education Minister, along with the then Deputy Minister for Social Services, Gwenda Thomas, I had to put in place a ministerial board in respect of Pembrokeshire because it was in special measures on education over issues of safeguarding children. And we've had the continual saga over the management of Pembrokeshire County Council over recent years. Who will forget the saga of the Pembrokeshire Porsche? I'm sure that the residents of Pembrokeshire will not forget that.

A gaf fi ddechrau drwy ddweud fy mod yn cytuno â pheth o'r hyn a ddywedodd yr Aelod? Byddwn yn sicr yn cytuno ag ef bod Sir Benfro yn lle prydferth. Yn wir, dôi fy mam-gu o Ddinas Cross yn Sir Benfro, sydd ei hun yn lle prydferth iawn. Ond nid wyf yn bwriadu cymryd rhan mewn darllediad gwleidyddol ar ran y Blaid Geidwadol. Felly, gadewch i mi atgoffa'r Aelodau Ceidwadol sy'n cynrychioli Sir Benfro o rai ffeithiau: nid oeddent bob amser mor sentimental ynglŷn â Chyngor Sir Penfro. Yn wir, efallai eu bod yn cofio fy mod, pan oeddwn yn Weinidog addysg, gyda'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd, Gwenda Thomas, wedi gorfod sefydlu bwrdd gweinidogol mewn perthynas â Chyngor Sir Benfro am ei fod wedi'i osod dan weithdrefn mesurau arbennig ym maes addysg mewn perthynas â materion diogelu plant. Ac rydym wedi cael y saga barhaus ynglŷn â rheoli Cyngor Sir Penfro dros y blynyddoedd diwethaf. Pwy all anghofio saga Porsche Sir Benfro? Rwy'n siŵr na fydd trigolion Sir Benfro yn anghofio hynny.

17:33

## Angela Burns Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

17:33 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

In a moment. Can I just say that, in fact, it was the Member for Preseli Pembrokeshire himself who said, of course, that the chief executive of Pembrokeshire County Council should step aside during police inquiries two years ago? So, I know that the Member for Preseli Pembrokeshire and the Member for Carmarthen West and South Pembrokeshire have not always been so sentimental about Pembrokeshire County Council.

Mewn munud. A gaf fi ddweud, mewn gwirionedd, mai'r Aelod dros Breseli Sir Benfro ei hun a ddywedodd, wrth gwrs, y dylai prif weithredwr Cyngor Sir Penfro gamu o'r neilltu yn ystod ymchwiliadau'r heddlu ddwy flynedd yn ôl? Felly, rwy'n gwybod nad yw'r Aelod dros Breseli Sir Benfro a'r Aelod dros Orllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro bob amser wedi bod mor sentimental ynglŷn â Chyngor Sir Penfro.

Senedd.tv
Fideo Video

17:34 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

Thank you, Minister. I agree with you. However, I do believe that your argument is fallacious, because if we were to look at the outcomes and behaviour of the Welsh Government, I would argue that the Welsh Government had not done a good job, but that's not a reason to row back devolution. It's not a reason to get rid of the National Assembly; it's a reason to change the occupants. And that's exactly the same point in Pembrokeshire; we simply change the occupants, but you don't have to destroy the county.

Diolch yn fawr, Weinidog. Rwy'n cytuno â chi. Fodd bynnag, rwy'n credu bod eich dadl yn gamarweiniol, oherwydd pe baem yn edrych ar ganlyniadau ac ymddygiad Llywodraeth Cymru, byddwn yn dadlau nad yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud gwaith da, ond nid yw hynny'n rheswm dros dynnu'n ôl rhag datganoli. Nid yw'n rheswm dros gael gwared ar y Cynulliad Cenedlaethol; mae'n rheswm dros newid y preswylwyr. A dyna'n union yr un pwynt yn Sir Benfro; rydym yn newid y preswylwyr, ond nid oes raid i chi ddinistrio'r sir.

Senedd.tv
Fideo Video

17:34 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Well, I don't see that you've done much good in terms of changing the occupants. And let's just remember that the reason that Pembrokeshire was turned around in respect of education and social services was precisely because of the intervention by the Welsh Government and the excellent work done by our ministerial board. We had to threaten the county council in Pembrokeshire; we had to make it clear to them that we were issuing directions that they should comply with that ministerial board. Finally, let me just remind Members, of course, that it took the Independent Remuneration Panel for Wales to set the salary of the new chief executive in Pembrokeshire County Council. The independent remuneration panel recommended a reduced salary when the county council in Pembrokeshire wished to pay a higher salary.

We know that local government in Wales has suffered, particularly in the fields of education and social services, as Pembrokeshire has suffered in the fields of education and social services, from local authorities that are simply too small to operate strategically. Deputy Presiding Officer, we consulted on our proposals, on our draft local government Bill, and our proposals on a map for reform of local government. That consultation closed on 15 February. Next week, we will publish our summary of the consultation responses, and it will be for the next Government to legislate on this matter.

Wel, nid wyf yn gweld eich bod wedi gwneud llawer o les o ran newid y preswylwyr. A gadewch i ni gofio mai'r rheswm fod Sir Benfro wedi gwella mewn perthynas ag addysg a gwasanaethau cymdeithasol oedd yn union oherwydd ymyrraeth Llywodraeth Cymru a'r gwaith rhagorol a wnaeth ein bwrdd gweinidogol. Roedd yn rhaid i ni fygwth y cyngor sir yn Sir Benfro; roedd yn rhaid i ni ddweud yn glir wrthynt ein bod yn cyhoeddi cyfarwyddiadau y dylent gydymffurfio â'r bwrdd gweinidogol hwnnw. Yn olaf, gadewch i mi atgoffa'r Aelodau, wrth gwrs, fod Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol wedi gorfod pennu cyflog y prif weithredwr newydd yng Nghyngor Sir Penfro. Argymhellodd y panel annibynnol ar gydnabyddiaeth ariannol lai o gyflog pan oedd y cyngor sir yn Sir Benfro yn dymuno talu cyflog uwch.

Gwyddom fod llywodraeth leol yng Nghymru wedi dioddef, yn enwedig ym meysydd addysg a gwasanaethau cymdeithasol, fel y mae Sir Benfro wedi dioddef ym meysydd addysg a gwasanaethau cymdeithasol, o ganlyniad i awdurdodau lleol sydd, yn syml, yn rhy fach i weithredu'n strategol. Ddirprwy Lywydd, aethom ati i ymgynghori ar ein cynigion, ar ein Bil drafft llywodraeth leol, a'n cynigion ar gyfer map diwygio llywodraeth leol. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 15 Chwefror. Yr wythnos nesaf, byddwn yn cyhoeddi ein crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, a mater i'r Llywodraeth nesaf fydd deddfu ar y mater.

Senedd.tv
Fideo Video

17:36 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Thank you very much, and that concludes today's proceedings.

Diolch yn fawr iawn. Dyna ddiwedd y trafodion am heddiw.

Senedd.tv
Fideo Video

*Daeth y cyfarfod i ben am 17:36.*

*The meeting ended at 17:36.*